Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Llywodraeth Cymru Cyfrifon Cyfunol

2021-2022



gov.llyw

## Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Paratoir cyfrifon Llywodraeth Cymru yn unol ag Adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022, ynghyd â Thystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru arnynt.

Fe'u gosodir gerbron Senedd Cymru yn unol ag Adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru, WG45903, ISBN digidol 978-1-80535-143-6
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg



**Dr Andrew Goodall**
Yr Ysgrifennydd Parhaol

# Trosolwg

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r cyfrifon cyfunol hyn, sef fy rhai cyntaf, ar ran Llywodraeth Cymru. Ymgymerais â rôl yr Ysgrifennydd Parhaol yn ystod y flwyddyn ariannol ym mis Tachwedd 2021, yn dilyn cyfnod fy rhagflaenydd Shan Morgan o bum mlynedd yn y swydd.

Yn anochel, bid siŵr, mae'n rhaid imi droi fy sylw i ddechrau at ein hymateb i'r pandemig COVID-19 yng Nghymru. Mae'r pandemig wedi cael effaith enfawr arnaf i fel arweinydd mewn gwasanaethau cyhoeddus ond bydd wedi effeithio ar bawb ar lefel broffesiynol a phersonol. Fel cynifer o bobl eraill, rwyf wedi wynebu rhai amgylchiadau gofidus iawn dros y ddwy flynedd ddiwethaf a gwn pa mor anodd a heriol y bu.

Mae wedi rhoi prawf ar ein gwydnwch fel unigolion a sefydliadau mewn ffordd nas gwelwyd o'r blaen. Rwy'n hynod falch o'r ffordd y mae ein timau wedi cydweithio i ddiogelu'r cyhoedd a chefnogi ei gilydd yn ystod y cyfnod anodd iawn hwnnw.

Ond mae'r pandemig hefyd wedi gwneud inni ystyried sut rydym yn darparu gwasanaethau mewn ffordd na allem fod wedi'i rhag-weld yn flaenorol. Mae gwasanaethau cyhoeddus wedi dod at ei gilydd er mwyn ateb yr her ac rydym wedi gweld ymdrech wirioneddol gydweithredol ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus sy'n dangos yn glir y ffordd rydym yn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru.

Mae gennym rai enghreifftiau eithriadol o'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru a'n partneriaid ym mhob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru wedi dod at ei gilydd er mwyn cyflawni'n gyflym – mae'r rhaglen frechu a'r cynllun Profi, Olrhain a Diogelu yn ddwy enghraifft o hyn. Cewch lawer mwy yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn parhau i ddysgu o'n profiadau drwy gydol y pandemig ac yn gwneud yn siŵr ein bod yn cadw'r arferion sydd wedi gweithio'n dda.

Mae'r ffordd rydym wedi llwyddo i ddefnyddio cyfarfodydd rhithwir a thechnegau newydd i gydweithio a chyflawni ein blaenoriaethau gyda'n partneriaid ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru hefyd wedi bod yn arloesol.

Rydym am gadw'r nifer mawr o fanteision sydd wedi deillio o orfod gweithio'n glyfar yn ystod y flwyddyn ar gyfer y tymor hwy. Rydym wedi lleihau ein hôl troed carbon a'n heffeithiau amgylcheddol yn sylweddol ac wedi cynyddu ein cynhyrchiant gymaint â phosibl drwy roi'r gorau i deithiau busnes, ac eithrio'r rhai sy'n hanfodol. Mae hwn yn faes lle y gallwn ddangos arweiniad gwirioneddol ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus a'r economi ehangach yn y dyfodol.

Bydd y ffordd y byddwn yn datblygu Gweithio'n Glyfar ar gyfer y dyfodol yn un o gonglfeini mawr Llywodraeth Cymru 2025, sef ein cynllun tair blynedd ar gyfer datblygu a newid sefydliadol yn Llywodraeth Cymru. Byddaf yn canolbwyntio ar adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd drwy gydol y pandemig a datblygu'r sefydliad er mwyn sicrhau y gallwn weithredu'n effeithiol wedi'r pandemig mewn byd lle nad ydym yn aelod o'r UE mwyach.

Bydd y rhaglen ddatblygu yn cynnwys ein strategaethau tymor hwy ar gyfer y gweithlu, gweithleoedd a'r sector digidol; prosiectau newydd ac arloesol a fydd yn trawsnewid y ffordd rydym yn gweithio; ac ymgyrch barhaus i sicrhau gwelliant y gall pob aelod o staff fod yn rhan ohoni wrth gyflawni ein rôl i gefnogi Gweinidogion a gwella canlyniadau i ddinasyddion Cymru.

Ers imi ymgymryd â'm rôl ym mis Tachwedd, rwyf wedi bod yn siarad â chydweithwyr ym mhob rhan o'r sefydliad am ein gwerthoedd, ein hymddygiadau a'r camau y mae angen inni eu cymryd er mwyn sicrhau ein bod yn barod ar gyfer y tair blynedd nesaf a thu hwnt. Fodd bynnag, wrth gynnal y sgwrs honno â'r sefydliad cyfan, rwyf hefyd wedi cefnogi penderfyniadau mwy uniongyrchol a fydd yn sicrhau ein bod yn symud i'r cyfeiriad cywir. Er enghraifft, rwyf wedi cynnal ymarfer ailstrwythuro Grwpiau er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn fwy uniongyrchol â'r portffolios Gweinidogol a phroses gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu. Bydd hefyd yn arwain at set fwy cytbwys o gyfrifoldebau i Gyfarwyddwyr Cyffredinol ac yn hwyluso gwaith trawslywodraethol.

Rwyf hefyd wedi cyflwyno Fframwaith Atebolrwydd a Dirprwyaethau newydd er mwyn dechrau rhyddhau rhai o'r rheolaethau ar adnoddau yr oedd eu hangen i'n helpu i reoli yn ystod argyfwng y pandemig a sicrhau bod y cyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau wedi'i osod ar y lefel briodol ym mhob rhan o'r sefydliad.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi dangos ein bod yn gallu addasu ac arloesi a gweithio'n effeithiol gyda'n partneriaid er mwyn cyflawni pethau nad oeddem erioed wedi meddwl y gellid eu cyflawni.

Mae angen inni fabwysiadu'r un dull o feddwl agored a hyblyg o herio'r ffordd rydym yn gweithio yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys newid rhai o'n systemau, prosesau a modelau gweithredu hirsefydlog er mwyn inni allu canolbwyntio ar y pethau sy'n bwysig i ni a'n Gweinidogion, gan gyflawni eu hamcanion yn ystod tymor y Llywodraeth hon er mwyn creu Cymru decach a gwyrddach.

Yn olaf, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i dalu teyrnged i'm rhagflaenydd y Fonesig Shan Morgan am y ffordd yr arweiniodd y sefydliad dros y pum mlynedd diwethaf, gan gynnwys amgylchiadau eithriadol yr ymateb i'r pandemig. Rwy'n awyddus i barhau i adeiladu ar y sylfeini a'r gwaith tîm cadarn y mae Shan wedi'u sefydlu er mwyn tywys Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru mewn byd gwahanol iawn i'r un y gallem fod wedi'i rag-weld bum mlynedd yn ôl.

**Dr Andrew Goodall CBE**
**Yr Ysgrifennydd Parhaol**

12 Rhagfyr 2022

# Cyflwyniad gan Gadeirydd Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru

Diben Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru drwy gydol y flwyddyn fu parhau i roi cymorth a chyngor i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ar faterion sy'n ymwneud â rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethiant yn unol â'r egwyddorion a'r canllawiau yn Llawlyfr Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Trysorlys Ei Fawrhydi.

Parhaodd y pandemig COVID-19 i fwrw'i gysgod dros yr amgylchedd risg drwy gydol y flwyddyn, gan gael effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol ar effeithiolrwydd ac ar y gwaith cyflawni gweithredol. Parhaodd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru a Phwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg y Grwpiau i fonitro cofrestr risgiau COVID-19 yn ofalus yn ogystal â'r gofrestr risgiau corfforaethol a chofrestrau risgiau'r grwpiau. Mae'n bleser gennyf nodi bod lefel y gweithgarwch craffu ac ymgysylltu â swyddogion wedi bod yn arbennig o dda. At hynny, mae'r cofrestrau hyn wedi parhau i ddatblygu ac wedi dod yn elfen gynyddol allweddol o waith rheoli risg effeithiol ym mhob rhan o'r sefydliad.

Cyfarfu Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru chwe gwaith yn ystod y flwyddyn a chyfarfu Pwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg y Grwpiau bob chwarter. Ym mhob cyfarfod cafwyd diweddariadau ar COVID-19 fel rhan o'r drefn a chraffwyd arnynt. Yn ei gyfarfod ym mis Mai 2021, neilltuodd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru ran sylweddol o'i agenda i graffu ar gyflwyniadau gan swyddogion ar faterion a oedd yn ymwneud yn benodol â COVID-19 gan gynnwys yr amgylchedd llywodraethiant mewn perthynas â COVID-19, cofrestr risgiau COVID-19, y fframwaith sicrwydd, atal twyll a'r ymgais i ailgychwyn ac adfer.

Yn ogystal â'r cyfarfodydd rheolaidd hyn, cyfarfu Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru ar bedwar achlysur gwahanol er mwyn ystyried y canlynol:

- Cyfarfod briffio ag Archwilio Cymru ym mis Tachwedd 2021 er mwyn trafod cynnydd ei adolygiad o gyfrifon cyfunol 2020-21.
- Digwyddiad ymwybyddiaeth i Bwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Mawrth 2022 a oedd yn canolbwyntio ar newid yn yr hinsawdd a heriau a goblygiadau amrywiol iawn newid i sero net.
- Diwrnod datblygu i Bwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Ebrill 2022 er mwyn trafod ac adolygu rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg o ran llywodraethiant, goruchwylio a chraffu. Roedd y diwrnod hefyd yn gyfle hyfforddi a datblygu i aelodau o'r Pwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg a gafodd gyflwyniad gan Asiantaeth Archwilio Fewnol y Llywodraeth.
- Cyflwyniad gan yr Ysgrifennydd Parhaol ym mis Mawrth 2022 ar strwythurau diwygiedig grwpiau'r sefydliad a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2022.

Mae'n bleser mawr gennyf nodi, yn achos rhaglen waith arferol Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru a'r cyfarfodydd ychwanegol, fod lefel y presenoldeb, yr ymgysylltu a'r trafod wedi bod yn arbennig o dda. Mae'n bleser gennyf nodi hefyd i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru a Phwyllgorau Archwilio a Rheoli Risg y Grwpiau barhau i gael eu cynorthwyo gan yr ysgrifenyddiaeth a swyddogion mewn ffordd effeithiol ac ymatebol.

Y llynedd, rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru farn amodol ar gyfrifon Llywodraeth Cymru ar dri mater, y mae dau ohonynt yn berthnasol hefyd i ddatganiadau ariannol 2021-22. Roedd y cyntaf ar y gwahaniaeth barn am y driniaeth gyfrifyddu ar gyfer costau amcangyfrifedig a oedd yn deilio o Gyfarwyddyd y Gweinidog ar dreth a phensiwn uwch-glinigwyr. Ym marn yr Archwilydd Cyffredinol, dylai'r costau amcangyfrifedig fod wedi cael eu hadlewyrchu yn natganiadau ariannol 2020-21 fel darpariaeth. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cynnwys rhwymedigaeth ddigwyddiadol ar gyfer y costau amcangyfrifedig yn nodyn 12 i'r datganiadau ariannol ar gyfer 2020-21 gyda'r bwriad o ddarparu ar gyfer y costau yn natganiadau ariannol 2021-22, yn gyson â chyfrifon Cyrff cyfunol y GIG yng Nghymru.

Roedd yr ail yn ymwneud ag effeithiau posibl taliad a wnaed i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol. Ym marn Archwilydd Cyffredinol Cymru, ni fu'n bosibl iddo gael digon o dystiolaeth archwilio am drefniadau gweithio'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol ac elfen o'r taliad a wnaed. Nodwyd cefndir trefniadau gweithio'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol a'r taliad a wnaed yn Natganiad Llywodraethiant Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21 ar dudalennau 138 i 141.

O ganlyniad i'r ddau amod y llynedd, disgwylir i gyfrifon blynyddol eleni gael eu hamodi ar gyfer y ddau fater hyn.

Ar ddyddiad llofnodi'r cyflwyniad hwn, mae'n galonogol nodi bod y pandemig COVID-19 yn parhau i gilio'n sylweddol er nad yw'r bygythiad wedi diflannu'n llwyr a'i bod yn bosibl na fydd byth yn gwneud hynny. Mae'n debygol y bydd effaith etifeddol COVID-19 yn parhau i fod yn heriol am sawl blwyddyn, yn arbennig yn y GIG. Yn ogystal â'r risg sylweddol hon, daeth set newydd o risgiau dirfodol sylweddol i'r amlwg tua diwedd y flwyddyn ariannol o ganlyniad i ymosodiad Rwsia ar Wcráin a'r rhyfel a'i dilynodd. Mae hyn wedi creu argyfwng ynni ledled y byd gyda chynnydd sylweddol mewn chwyddiant a'r effaith enfawr ar gostau byw i ddinasyddion. Caiff y risgiau hyn eu monitro'n ofalus gan swyddogion a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru a Phwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg y Grwpiau ochr yn ochr â'r rhaglen reolaidd o waith sicrwydd archwilio mewnol a rheoli risg.

Hoffwn achub y cyfle hwn i ddiolch i'r Ysgrifennydd Parhaol, yr holl uwch-swyddogion, yr archwilwyr a'r ysgrifenyddiaeth am eu cymorth o hyd i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru a Phwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg y Grwpiau wrth ymgymryd â'u gwaith.

**Gareth Lynn FCCA**
Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd Pwyllgor
Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru

# Cynnwys

**8** **Rhan Un:**

**8** Beth sydd yn yr Adroddiad a'r Cyfrifon: Ciplun

**9** Adroddiad Llywodraeth Cymru

**11** Cyflwyniad i Lywodraeth Cymru

**12** Y Cabinet

**14** Y Gwasanaeth Sifil

**17** Y Rhaglen Lywodraethu

**19** Ymateb i COVID-19

**22** Ymateb y Grwpiau i COVID-19

**36** Rheoli Trefniadau Pontio'r UE

**40** Ymateb i Argyfwng Wcráin

**42** Costau Byw

**44** Newid yn yr Hinsawdd

**53** Adrodd ar Gynaliadwyedd

**55** Cyflawni ein Hymrwymiad i Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

**60** Rheoli ein Rhaglen Ddeddfwriaethol

**63** Yr Agenda Ddigidol

**66** Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru

**73** Llifoedd Cyllido Llywodraeth Cymru

**74** Polisi Trethi Llywodraeth Cymru, a Rhagolygon Cyllidol

**75** Ffin Gyfrifyddu Llywodraeth Cymru, y Berthynas rhwng Cyfrifon a Benthyca

**81** Gwariant COVID-19
**84** Prif Feysydd Gwariant Llywodraeth Cymru
**89** Gweinyddu Cyllid Grant
**95** Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
**99** Datganiad Llywodraeth Cymru o’r Sefyllfa Ariannol
**101** Strategaeth a Datblygiad Sefydliadol
**105** Ein Hymrwymiad i Urddas a Pharch
**118** Gweithio’n Ddwyieithog
**120** Gohebiaeth a Chwynion
**122** **Rhan Dau:**
**122** Adroddiad Atebolrwydd
**124** Datganiad Llywodraethiant
**212** **Rhan Tri:**
**212** Y Cyfrifon

# Beth sydd yn yr Adroddiad a'r Cyfrifon: Ciplun

Hwn yw Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22. Mae'n rhoi darlun manwl o'n sefyllfa ariannol a sut mae wedi cael ei rheoli. Mae'n ymdrin â'n rhwymedigaethau statudol a sut rydym wedi'u cyflawni. Mae hefyd yn ymdrin â Llywodraeth Cymru fel sefydliad drwy gydol y flwyddyn.

Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru[1] yw'r cyfrwng ar gyfer y Rhaglen Lywodraethu sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae tair adran i'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon.

Mae **Rhan Un** o'r naratif yn dechrau gyda'r adroddiadau allweddol sy'n ymdrin â chyflawni a gweithgareddau Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Sifil. Mae'n rhoi trosolwg o'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdano a'r ddeddfwriaeth berthnasol, aelodau'r Cabinet ar gyfer y cyfnod, uwch-arweinwyr y sefydliad yn ystod y flwyddyn gyfrifyddu a'r Rhaglen Lywodraethu.

Wedyn, aiff ymlaen i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y ffordd rydym wedi ymateb i'r pandemig COVID-19, wedi rheoli'r broses o bontio o aelodaeth o'r UE, ein hymateb i argyfwng Wcráin, costau byw, ein hadroddiadau ar newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd, ac wedi cyflawni ein hymrwymiad i lesiant cenedlaethau'r dyfodol. Mae hefyd yn ymdrin â'r rhaglen ddeddfwriaethol, ein hagenda ddigidol a'n fframwaith perfformiad.

Mae'r adran ar gyllid a gwariant yn ymdrin â llifoedd cyllid, polisi trethi a rhagolygon cyllidol, y ffin gyfrifyddu, y berthynas rhwng cyfrifon, a benthyca. Mae adran hefyd sy'n nodi ein gwariant COVID-19. Mae hefyd yn nodi ein prif feysydd o wariant, sut rydym yn gweinyddu cyllid grant ac yn darparu ein mantolen.

Mae adran olaf rhan un yn ymdrin â'n trefniadau mewnol o strategaethau ar gyfer y dyfodol, ein hymrwymiad i urddas a pharch a gweithio'n ddwyieithog i'r ffordd y mae'r sefydliad yn ymdrin â'i gohebiaeth a chwynion.

Mae **Rhan Dau** yn cynnwys yr Adroddiad Atebolrwydd. Mae'r rhan hon o'r Adroddiad a'r Cyfrifon yn rhoi gwybodaeth am dâl Gweinidogion ac uwch-staff ac yn rhoi trosolwg o alldro ariannol Llywodraeth Cymru yn erbyn y gyllideb y pleidleisiwyd arni. Mae hefyd yn cynnwys y Datganiad Llywodraethiant blynyddol gan yr Ysgrifennydd Parhaol yn ei rôl fel Prif Swyddog Cyfrifyddu.

Mae'r Datganiad Llywodraethiant yn amlinellu'r prosesau rheoli, llywodraethiant a rheoli risg sydd ar waith i alluogi'r Prif Swyddog Cyfrifyddu a'r Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol i gyflawni eu cyfrifoldebau i reoli adnoddau'r sefydliad.

**Mae Rhan Tri** yn ymwneud â'r cyfrifon eu hunain. Mae'r cyfrifon yn ddatganiad cynhwysfawr am y costau y mae Llywodraeth Cymru wedi mynd iddynt a manylion ei holl asedau a rhwymedigaethau.

1 Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2022 | LLYW.CYMRU

# Adroddiadau Llywodraeth Cymru

Mae’r Cyfrifon Cyfunol yn un o’r adroddiadau allweddol sy’n ymdrin â chyflawni a gweithgareddau Llywodraeth Cymru a’r Gwasanaeth Sifil. Mae’r lleill yn cynnwys:

| | Adroddiadau allweddol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweinidogol | | | Sefydliad | Data Ystadegol | |
| | Proses y Gyllideb | Adroddiad Alldro | Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru | Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon | Adroddiad Llesiant Cymru | Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol |
| Deddfwriaeth | A125 ac 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006<br>Rheolau Sefydlog 20.7 – 20.24; 20.25 – 20.37 | Amh. | Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol | Deddf Llywodraeth Cymru – a131-136 | Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol | Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol |
| Arwain | Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol | Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol | Y Prif Weinidog | Yr Ysgrifennydd Parhaol | Y Prif Ystadegydd | Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol |
| Diben | Cynnig y cynlluniau cyllid a chytuno arnynt, a symiau’r adnoddau a’r arian parod y mae’r llywodraeth yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol (gyda symiau dros dro ar gyfer y ddwy flwyddyn ddilynol neu’r cyfryw gyfnod arall ag yr ystyria’r Gweinidog yn briodol) a diwygiadau i’r gyllideb honno yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol | Yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio’n agored a thryloyw, cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu adroddiad ysgrifenedig i’r Pwyllgor Cyllid ar yr alldro terfynol.<br>Mae’r adroddiad yn cynnwys cymhariaeth â’r cynlluniau gwario a nodwyd yng Nghyllideb Atodol olaf y flwyddyn ac esboniad o’r amrywiadau sylweddol | Cynnydd tuag at gyflawni 10 amcan llesiant Llywodraeth Cymru | Manylion ynglŷn â sut y caiff Llywodraeth Cymru ei rhedeg, gan gynnwys sut mae’n rheoli ei chyllid ac yn cyflawni ei rhwymedigaethau statudol | Cynnydd a wnaed drwy gyfraniad cyfunol pob corff cyhoeddus, sefydliad ac unigolyn tuag at y saith nod llesiant drwy ddefnyddio’r dangosyddion llesiant cenedlaethol | Mae’n amlinellu tueddiadau tebygol yn y dyfodol o ran llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ac unrhyw wybodaeth ddadansoddol arall sy’n briodol ym marn Gweinidogion Cymru |

| Adroddiadau allweddol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweinidogol | | | Sefydliad | Data Ystadegol | |
| | Proses y Gyllideb | Adroddiad Alldro | Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru | Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon | Adroddiad Llesiant Cymru | Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol |
| Amserlenni | Dim byd penodol ond cyn toriad yr haf mae'n ofynnol i'r Gweinidog Cyllid ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i gytuno ar amserlen y gyllideb | O fewn 3 wythnos i gymeradwyo'r cyfrifon blynyddol | Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol | Erbyn 30 Tachwedd bob blwyddyn | Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol – ond yn dibynnu ar ddata'r Arolwg Cenedlaethol ym mis Mehefin/ Gorffennaf | O fewn 12 mis i etholiad – sleidiau'n cael eu diweddaru'n rheolaidd |
| Amserlenni eleni | Cyllideb ddrafft 21 Rhagfyr 2020<br>Cyllideb derfynol 2 Mawrth 2021 Cyllideb<br>Atodol Gyntaf 22 Mehefin 2021<br>Ail Gyllideb<br>Atodol 15 Chwefror 2022 | O fewn 3 wythnos i gymeradwyo'r cyfrifon blynyddol | Mehefin 2022 | I'w gadarnhau | Ar ddiwedd mis Medi | Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2021 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021 |
| Craffu | Y Pwyllgor Cyllid a'r pwyllgorau pwnc | Y Pwyllgor Cyllid | Dadl yn y cyfarfod llawn Y Prif Weinidog Y Pwyllgor Craffu | Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus | Amh. | Amh. |

# Cyflwyniad i Lywodraeth Cymru

## Cipolwg

Llywodraeth Cymru yw llywodraeth ddatganoledig Cymru sy'n gweithio ym meysydd allweddol bywyd cyhoeddus megis iechyd, addysg, yr economi, amaethyddiaeth a'r amgylchedd.

Fe'i crëwyd yn ffurfiol yn 2007 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru, a wahanodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y ddeddfwrfa) a Llywodraeth Cynulliad Cymru (y weithrediaeth).

Ers hynny, mae Deddf Cymru 2014 wedi newid yr enw yn gyfreithiol i Lywodraeth Cymru. Yn yr un modd, o dan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael ei alw'n Senedd Cymru (y Senedd fel arfer).

Mae setliad datganoli Cymru wedi datblygu'n ddramatig ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1999. O dan arweiniad y Prif Weinidog, mae Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniadau ac mae'n gyfrifol am gyflawni yn y meysydd a ddatganolwyd iddi, fel y'u nodwyd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddf Cymru 2014 a Deddf Cymru 2017. Mae hyn yn golygu datblygu polisïau a'u rhoi ar waith; sefydlu a chyfarwyddo trefniadau cyflawni a llywodraethiant; cynnig cyfreithiau i Gymru (Biliau'r Senedd): a gwneud is-ddeddfwriaeth, megis rheoliadau. Mae hefyd yn cyllido Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol.

Ceir rhagor o wybodaeth am gyfrifoldebau Llywodraeth Cymru ar ei gwefan[2].

2 www.llyw.cymru/ein-rol-ni

# Y Cabinet



Ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 12 Mai 2021, y Cabinet a'r Gweinidogion oedd:

| | |
|---|---|
| Y Gwir Anrh. Mark Drakeford | Y Prif Weinidog |
| Rebecca Evans | Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd |
| Vaughan Gething | Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Lesley Griffiths | Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig |
| Julie James | Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol |
| Jeremy Miles | Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd |
| Eluned Morgan | Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg |
| Ken Skates | Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru |
| Kirsty Williams | Y Gweinidog Addysg |
| Hannah Blythyn | Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol |
| Jane Hutt | Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip |
| Julie Morgan | Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Dafydd Elis-Thomas | Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth |
| Lee Waters | Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth |

Wedi Etholiadau'r Senedd, penododd y Prif Weinidog Weinidogion a Dirprwy Weinidogion o 13 Mai 2021 ymlaen, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Y Gwir Anrh. Mark Drakeford | Y Prif Weinidog |
| Mick Antoniw | Y Darpar Gwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd |
| Rebecca Evans | Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol |
| Vaughan Gething | Gweinidog yr Economi |
| Lesley Griffiths | Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd |
| Jane Hutt | Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol |
| Julie James | Y Gweinidog Newid Hinsawdd |
| Jeremy Miles | Gweinidog y Gymraeg ac Addysg |
| Eluned Morgan | Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Dawn Bowden | Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip |
| Hannah Blythyn | Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol |
| Lee Waters | Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd |
| Julie Morgan | Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Lynne Neagle | Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant |

# Y Gwasanaeth Sifil

Y Gwasanaeth Sifil yw'r weinyddiaeth amhleidiol sy'n cefnogi Prif Weinidog a Gweinidogion Llywodraeth Cymru.

Mae cryfderau craidd y Gwasanaeth Sifil, sef niwtralrwydd gwleidyddol; gweinyddu effeithlon; llywodraethiant da a rheoli arian cyhoeddus yn gadarn, yn rhoi sylfaen gref i gefnogi Llywodraeth Cymru.

## Y Tîm Uwch-arweinwyr

Yr Ysgrifennydd Parhaol yw pennaeth y sefydliad, a gwas sifil lefel uchaf Cymru. Ar gyfer cyfnod y cyfrifon hyn cyn 1 Ebrill 2022, bu pob aelod o'r staff yn gweithio mewn un o bum Grŵp o dan yr Ysgrifennydd Parhaol a'r pum Cyfarwyddwr Cyffredinol.

Shan Morgan oedd yr Ysgrifennydd Parhaol hyd at 31 Hydref 2021. Cafodd Andrew Goodall ei benodi i rôl yr Ysgrifennydd Parhaol ar 1 Tachwedd 2021 a chyn hynny ef oedd Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru.



**Andrew Goodall**
**Yr Ysgrifennydd Parhaol**

- Trysorlys Cymru
- Cyllid
- Llywodraethiant a Pherfformiad
- Gwasanaethau Corfforaethol
- Data a Thechnoleg Ddigidol
- Adfer ac Ailgychwyn ar ôl COVID-19



**Tracey Burke**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus**

- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Cymunedau a Threchu Tlodi
- Addysg
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Tai ac Adfywio
- Llywodraeth Leol
- Is-adran y Gymraeg



**Des Clifford**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp Swyddfa'r Prif Weinidog**

- Is-adran y Cabinet
- Swyddfa'r Cabinet
- Cyfathrebu
- Y Cyfansoddiad, Cyfiawnder a'r Trefniadau Pontio Ewropeaidd
- Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach
- Adran Gwasanaethau Cyfreithiol
- Swyddfa'r Prif Weinidog
- Swyddfa'r Cwnsler Deddfwriaethol
- Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg
- Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
- Tribiwnlysoedd Cymru
- Uned y Cytundeb Cydweithio



**Reg Kilpatrick**
**Cyfarwyddwyr Cyffredinol Cydgysylltu Covid**

- Argyfyngau Sifil a Diogelwch Gwladol
- Gwaith Cynllunio ar Reoli'r Coronafeirws
- Adfer ac Ailgychwyn
- Diogelwch Cymunedol



**Judith Paget**[3]
**Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

- Cafcass Cymru
- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Cyllid
- Nyrsio
- Cynllunio, Cyflawni a Pherfformiad
- Iechyd Poblogaethau
- Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl (o 1 Hydref 2021 ymlaen, Iechyd Meddwl, Grwpiau sy'n Agored i Niwed a Llywodraethu'r GIG a Gofal Sylfaenol a Gwyddor Iechyd gynt)
- Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
- Y Gell Cyngor Technegol (TAC)
- Technegol, Digidol a Thrawsnewid
- Y Gweithlu a Busnes Corfforaethol
- Brechlynnau

3 Prif Weithredwr GIG Cymru (o 1 Tachwedd 2021 ymlaen)



**Andrew Slade**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol**

- Busnes a Rhanbarthau
- Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
- Seilwaith Economaidd
- Newid Hinsawdd, Ynni a Chynllunio
- Yr Amgylched a'r Môr
- Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol – Cyllid a Gweithrediadau
- Tir, Natur a Bwyd
- Swyddfa'r Prif Gynghorydd Gwyddonol
- Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol
- Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes
- Cyfarwyddiaeth Fasnachol a Chaffael Llywodraeth Cymru

# Y Rhaglen Lywodraethu

Yn dilyn Etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021, ffurfiwyd Cabinet newydd Llywodraeth Cymru ac, ar 15 Mehefin, cyhoeddwyd y Rhaglen Lywodraethu ar gyfer tymor y Senedd hon.



Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys yr amcanion llesiant; y meysydd lle y gallem ni fel Llywodraeth wneud y cyfraniad mwyaf at gyflawni'r nodau llesiant. Y Cabinet ar y cyd sy'n gyfrifol am yr ymrwymiadau a nodir o dan yr amcanion llesiant, gan gydnabod yr angen am waith trawslywodraethol.

Ym mis Rhagfyr 2021, llofnododd y Llywodraeth y Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru, gan nodi rhaglen waith a rennir ar gyfer y tair blynedd nesaf. Er mwyn cydnabod y rhaglen estynedig hon, cyhoeddwyd Rhaglen Lywodraethu wedi'i diweddaru ar 7 Rhagfyr 2021 er mwyn cynnwys yr ymrwymiadau yn y Cytundeb Cydweithio.

Er gwaethaf heriau'r flwyddyn ddiwethaf – effeithiau parhaus y pandemig COVID-19, yr argyfwng costau byw sy'n datblygu a heriau dyngarol Affganistan ac Wcráin, mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu ei hun er mwyn dod â ffocws ac egni i'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu. Mabwysiadwyd strwythurau newydd ar gyfer y Grwpiau ym mis Ebrill 2022 er mwyn i'n hadnoddau a'n swyddogaethau gyd-fynd â blaenoriaethau Gweinidogion yn fwy effeithiol.

Mae cylch adrodd cadarn wedi'i gyflwyno ar gyfer y Rhaglen Lywodraethu, gyda phroses adrodd fisol yn cael ei goruchwylio gan y Pwyllgor Gweithredol a Bwrdd Llywodraeth Cymru. Mae'r Cabinet yn cael diweddariadau ar gynnydd bob hanner tymor ac mae'r Prif Weinidog yn cadeirio Is-bwyllgor Cabinet Llywodraeth Cymru sy'n cyfarfod bob mis i lywio gweithgarwch cyflawni.

Mae rhaglen Datblygu Sefydliadol Llywodraeth Cymru, sef "LlC2025", yn cyd-fynd â'r Rhaglen Lywodraethu. Mae'n darparu llwyfan ar gyfer sgyrsiau ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru ynglŷn â sut y gall y sefydliad barhau i wella er mwyn helpu Gweinidogion i gyflawni ar gyfer pobl Cymru.

# Ymateb i COVID-19



Mae bron pob rhan o Lywodraeth Cymru wedi parhau i chwarae rôl allweddol yn yr ymateb parhaus i'r pandemig COVID-19. Yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn, canolbwyntiwyd ar symud i ffwrdd yn ofalus ac yn raddol oddi wrth y mesurau diogelu mwyaf llym a roddwyd ar waith yn ystod y gaeaf er mwyn cadw Cymru'n ddiogel.

Symudwyd i lawr drwy'r lefelau yn ein fframwaith lefelau rhybudd wrth inni fynd i mewn i gyfnod yr haf ac wrth i'r cyfraddau heintio a niwed ostwng. Wrth inni gyrraedd lefel rhybudd un, gwnaethom gyhoeddi diweddariad o'n fframwaith ymateb strategol, sef Cynllun Rheoli'r Coronafeirws, er mwyn nodi'r camau nesaf y byddem yn eu cymryd wrth inni symud i linell sylfaen newydd o fesurau amddiffynnol a elwir yn lefel rhybudd sero[4].

Gan gydnabod y bydd cyfnod yr hydref/gaeaf yn dod â heriau pellach a'i fod yn debygol o olygu tonnau newydd o haint, daeth cydweithwyr ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru at ei gilydd er mwyn paratoi diweddariad pellach o Gynllun Rheoli'r Coronafeirws[5]. Nod y cynllun hwn oedd rhoi cymaint o sicrwydd â phosibl i fusnesau, y cyhoedd a sefydliadau eraill ynglŷn â'n hymateb ac roedd yn canolbwyntio ar ddau senario cynllunio craidd, sef:

4 www.llyw.cymru/cynllun-rheolir-coronafeirws-lefel-rhybudd-0-sero
5 www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-10/cynllun-rheolir-coronafeirws-diweddariad-hydref-a-gaeaf-2021.pdf

- **Covid Sefydlog:** ni fyddai angen inni ailosod cyfyngiadau sylweddol gan fod pwysau ar y GIG yn gallu cael ei reoli fel rhan o gynlluniau arferol y GIG ar gyfer y gaeaf, gan gydnabod nifer o risgiau uwch.
- **Covid Brys:** gallai pwysau COVID-19 newydd ac annisgwyl cydnabyddedig ddod i'r amlwg, megis amrywiolyn newydd, ac os felly efallai y bydd angen inni gymryd camau mwy sylweddol i ddiogelu iechyd y cyhoedd a bywydau pobl.

Ochr yn ochr â'r gwaith cynllunio strategol hwn, parhaodd swyddogion ym mhob rhan o'r sefydliad i gynnal adolygiadau o'r rheoliadau o leiaf bob 21 diwrnod. Rhoddodd y broses hon ddadansoddiadau a chyngor proffesiynol a thechnegol rheolaidd i Weinidogion, yn aml gan ymateb yn gyflym iawn i dystiolaeth newydd ac ansicr a natur anrhagweladwy'r pandemig.

Gwnaeth ymddangosiad amrywiolyn Delta a'r risg uwch o niwed gynyddu dwysedd y gwaith hwn ac roedd angen neilltuo cryn dipyn o'n hadnoddau ym mhob rhan o'r sefydliad i gefnogi'r gwaith roeddem yn ei wneud. Pan ymddangosodd amrywiolyn Omicron ym mis Rhagfyr, gwnaethom ymateb yn gyflym ac yn effeithiol, mewn ymateb i gyngor gwyddonol clir. Rhoddwyd rheoliadau a chanllawiau ar waith yn gyflym ac mae'n bleser nodi ein bod wedi parhau i gael cefnogaeth y cyhoedd yng Nghymru i'n hymateb drwy gydol y cyfnod hwn.

Rydym yn parhau i ddysgu gwersi o'n profiadau yn ystod y pandemig. Un o'r pethau cadarnhaol yw'r gwaith partneriaeth llawer agosach sydd wedi datblygu, er bod hyn eisoes yn gryfder yng Nghymru. Rydym wedi dod â phartneriaid at ei gilydd mewn amrywiaeth eang o fforymau – busnesau a grwpiau busnes, undebau llafur, arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus a nifer o rai eraill – er mwyn trafod yr heriau anodd iawn rydym i gyd wedi'u hwynebu a helpu i nodi atebion gyda'n gilydd.

Mae ein partneriaid wedi llywio a chefnogi'r gwaith o ddatblygu cyngor a chanllawiau a'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno pecynnau cymorth i fusnesau mewn sectorau penodol. Maent hefyd wedi chwarae rôl hollbwysig drwy roi adborth amser real ar faterion a oedd yn dod i'r amlwg a'i gwneud yn bosibl i wersi gael eu dysgu.

Mae llwyddiant ein rhaglen frechu a gallu'r gwasanaethau profi, olrhain a diogelu i ymateb i batrymau galw a oedd yn newid yn gyflym wedi bod yn llwyddiannau amlwg.

Wrth inni symud i mewn i'r gwanwyn, buom yn cynllunio ar gyfer newid yn raddol o fesurau brys i reoli heriau COVID-19 ar sail busnes fel arfer. Parhawyd i ddefnyddio ein senarios cynllunio Covid Sefydlog a Covid Brys a ddatblygwyd fel rhan o gynllun rheoli'r Coronafeirws. Ym mis Mawrth, cyhoeddwyd cynllun newydd yn lle ein Fframwaith Lefelau Rhybudd, sef Gyda'n gilydd tuag at ddyfodol mwy diogel: COVID-19 – Cynllun pontio hirdymor Cymru o bandemig i endemig[6].

Mae'r cynllun newydd hwn yn seiliedig ar saith egwyddor. Mae'r rhain yn cynnwys: ymateb mwy penodol wrth inni symud dros yr hirdymor i COVID-19 endemig, gan flaenoriaethu'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o niwed; parhau i fabwysiadu dull gweithredu graddol a chymesur sy'n seiliedig ar dystiolaeth; a chanolbwyntio o'r newydd ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

---

6 www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-05/covid-19-cynllun-pontio-hirdymor-cymru-o-bandemig-i-endemig.pdf

Mae’r cynllun yn nodi sut y bydd ein dulliau gweithredu yn newid mewn perthynas â’n hymateb iechyd y cyhoedd, ein rhaglen frechu, y cynllun profi, olrhain a diogelu, a chymorth ehangach, gan gynnwys i fusnesau a phobl sy’n agored i niwed.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ledled Cymru i roi’r cynllun ar waith. Bydd hyn yn cynnwys ailgyfeirio adnoddau’r gwasanaeth sifil er mwyn helpu i integreiddio ein dulliau gweithredu blaenorol sy’n ymwneud yn benodol â COVID-19 yn ein hymateb iechyd y cyhoedd ehangach ar gyfer clefydau trosglwyddadwy, ac yn benodol heintiau anadlol.

Mae’r seilwaith sy’n cefnogi ein hymateb ehangach i COVID-19 hefyd yn cael ei gwtogi er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gymesur â’r risg barhaus ac yn ei gwneud yn bosibl i adnoddau prin gael eu hailgyfeirio at flaenoriaethau eraill y Llywodraeth. Ar yr un pryd, rydym yn rhoi trefniadau wrth gefn cadarn ar waith a fydd yn ein galluogi i ddwysáu ein hymateb yn ôl yr angen. Rydym yn parhau i gydgysylltu â Llywodraeth y DU ynglŷn â chynlluniau wrth gefn o ystyried y dibyniaethau a nodwyd mewn perthynas â chyllid a seilwaith.

# Ymateb y Grwpiau i COVID-19

## Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae cyfrifoldeb cyffredinol ar y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i fynd i'r afael ag argyfyngau iechyd y cyhoedd. Y bygythiad gan COVID-19 yw argyfwng mwyaf yr oes ym maes iechyd y cyhoedd o hyd.

Yn ystod 2021-22, wynebwyd tonnau pellach o COVID-19, ac yn gefndir i hynny roedd ansicrwydd yn sgil amrywiolion newydd, ar ben system iechyd a gofal a oedd yn fregus yn barod yn dilyn cyfnod estynedig o ymateb i'r pandemig – a'r cyfan yn ychwanegol at bwysau a heriau arferol y gaeaf. Yn y cyfamser, mae'r Grŵp wedi parhau i gydbwyso'r gofynion a'r disgwyliadau arno mewn perthynas â'r ymateb parhaus i'r pandemig, goruchwylio'r GIG a'r sector gofal cymdeithasol, busnes y llywodraeth a busnes fel arfer.

Mae'r Gell Cyngor Technegol (TAC) yn adnodd a rennir sydd wedi parhau i fod yn ganolog nid yn unig i ymateb y Grŵp ond hefyd ymateb Llywodraeth Cymru yn fwy cyffredinol. Mae TAC yn comisiynu ac yn dehongli cyngor gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI), yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA), SAGE, Iechyd Cyhoeddus Cymru a ffynonellau eraill (rhyngwladol a domestig) er mwyn rhoi cyngor seiliedig ar dystiolaeth i swyddogion a gweinidogion.

Rhoddodd TAC gyngor ar senarios cynllun Covid Brys/Sefydlog a chyhoeddodd bapur cyfathrebu am risg a gwyddor ymddygiadol ar Fyw'n Ddiogel gyda COVID-19 yng Nghymru[7], y defnyddiwyd y ddau ohonynt i lywio cynllun pontio Llywodraeth Cymru[8]. Hefyd, sefydlodd TAC adroddiad monitro dŵr gwastraff newydd er mwyn tracio lefelau cefndirol pathogenau COVID-19 mewn all-lifoedd carthion. Fe'i cyhoeddir bob wythnos ac mae'n parhau i roi cyngor rheolaidd i Weinidogion – e.e. ar gyfer pob cylch adolygu 21 diwrnod a diweddariadau modelu polisi.

Mae cynhyrchion allweddol eraill TAC sy'n darparu gwyliadwriaeth a dadansoddiadau rheolaidd o'r pandemig hefyd wedi parhau drwy'r Adroddiad ar Sefyllfa COVID-19, gwybodaeth am ymddygiad drwy arolygon Ipsos Mori a grwpiau ffocws, crynodeb o dystiolaeth am COVID-19 (briff TAC), gwaith monitro rhyngwladol, rhagolygon ac ymchwil weithredol.

Mae TAC yn parhau fel arweinydd Llywodraeth Cymru ar gyfer gwyddor COVID-19 ar lefel y DU a'r rhyngwyneb gwyddoniaeth/polisi rhwng y bydd academaidd a sefydliadau arbenigol perthnasol er mwyn comisiynu, cael neu gyhoeddi tystiolaeth wyddonol berthnasol am COVID-19. Mae hyn oll yn helpu i lywio prosesau gwneud penderfyniadau ym mhob maes polisi yn Llywodraeth Cymru.

Mae trefniadau Cynllunio ac Ymateb i COVID-19 y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a sefydlwyd ym mis Chwefror 2020, yn dal i fod ar waith ac mae'r Grŵp Cyngor Technegol yn parhau i gyfarfod bob wythnos. Erbyn hyn mae'r Grŵp wedi cyfarfod dros 100 o weithiau.

---

7 Byw'n Ddiogel gyda COVID-19 yng Nghymru
8 www.llyw.cymru/covid-19-cynllun-pontio-hirdymor-cymru-o-bandemig-i-endemig

Mae'r Grŵp yn cyflawni swyddogaeth cydgysylltu a briffio allanol hollbwysig yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Gan weithredu fel baromedr ar gyfer y system, mae'r Grŵp yn nodi ac yn lliniaru problemau drwy draciwr risgiau system. Mae Cell Cynllunio ac Ymateb i COVID-19 ategol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn parhau i fod yn weithredol, ochr yn ochr â'i gyfrifoldebau cynllunio strategol a chynllunio at argyfyngau arferol. Caiff y trefniadau hyn eu hadolygu'n rheolaidd a byddant yn parhau i fod ar waith cyhyd ag y bo angen.

Daethpwyd â chymorth Uwch-Swyddogion Milwrol i'r Grŵp i ben yn ffurfiol ym mis Gorffennaf 2021. Fodd bynag, mae gwaith cydgysylltu a chysylltu yn parhau. Ailgychwynnwyd trafodaethau ym mis Rhagfyr yn sgil ymddangosiad yr amrywiolyn newydd er mwyn sganio'r gorwel ar gyfer risgiau posibl a phrofi cynlluniau wrth gefn.

Cafodd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru fudd mawr o gymorth ychwanegol a ddarparwyd gan bersonél milwrol tan ddiwedd mis Mawrth 2022. Er gwaethaf rhywfaint o wrthwynebiad gan undebau llafur Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, darparodd y trefniant hwn adnoddau roedd eu mawr angen ar adeg o bwysau gweithredol sylweddol.

**Rhaglen Frechu:** Blaenoriaeth rhaglen frechu COVID-19 wrth symud i 2021-22 oedd cynnig pigiad atgyfnerthu'r Gwanwyn i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed (preswylwyr cartrefi gofal a phobl â system imiwnedd wan iawn) a'r henoed (dros 75 oed).Er bod y meini prawf cymhwysedd cul iawn hyn yn gyfrifol am niferoedd cymharol fach, mae'r rhaglen frechu wedi'i rhwystro gan gyfraddau heintio uchel iawn mewn cartrefi gofal.

Mae'r ffocws arall wedi bod ar frechu plant a phobl ifanc.Ar 22 Rhagfor, argymhellodd y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu y dylid cynnig y brechlyn i rai plant 5-11 oed (h.y. y rhai â chyflyrau iechyd a oedd yn golygu eu bod yn wynebu risg yn sgil COVID-19).

Derbyniodd 33% o'r plant 5-11 oed hyn y brechlyn. Wedyn, ar 16 Chwefror, argymhellodd y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu y dylai pob plentyn 5-11 oed gael cynnig 'di-frys' o ddau ddos o frechlyn COVID-19.

Ymatebodd gweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru mor dda i'r gwahoddiadau i gael brechiadau COVID-19 fel nad oedd angen inni wneud brechu yn orfodol, fel yn Lloegr.

**Iechyd y Cyhoedd:** Mae mewnbwn iechyd y cyhoedd arbenigol wedi parhau i fod yn elfen hanfodol o'n ymateb. Y nodweddion allweddol o hyd yw:

- Gwyliadwriaeth barhaus ar y boblogaeth sy'n tracio, yn monitro ac yn ein helpu i ddeall natur a lledaeniad COVID-19 yn ein cymunedau ac mewn lleoliadau penodol. Mae data gwyliadwriaeth COVID-19 wedi parhau i gael eu cyhoeddi'n rheolaidd er mwyn hyrwyddo tryloywder ac ymwybyddiaeth sefyllfaol.

- Rhoi cyngor iechyd y cyhoedd arbenigol i Weinidogion. Mae sawl ffurf ar y cyngor hwn, gan gynnwys cyngor cyhoeddedig y Prif Swyddog Meddygol i lywio penderfyniadau'r Cabinet sy'n ymwneud â'n prosesau adolygu 21 diwrnod; rhyngweithio rheolaidd â Gweinidogion er mwyn rhoi cyngor iddynt ar epidemioleg ac ymyriadau iechyd y cyhoedd; a mewnbwn iechyd y cyhoedd er mwyn llywio amrywiaeth eang iawn o ymatebion polisi, gan gynnwys yn benodol dros y cyfnod brechu hwn, atal a rheoli heintiau, Profi, Olrhain a Diogelu, ymyriadau anfferyllol a theithio rhyngwladol.

**Cyfryngau Therapiwtig:** Mae'r cyfryngau therapiwtig decsamethason, tocilisumab, sarilumab a remdesifir wedi'u darparu ar gyfer cleifion mewn ysbytai â COVID-19 drwy gydol y pandemig mewn ymateb i dystiolaeth newydd gan dreial llwyfan RECOVERY a threialon clinigol masnachol ac anfasnchol eraill. Mae decsamethason, tocilisumab a sarilumab yn feddyginiaethau wedi'u haddasu at ddibenion eraill, a drwyddedwyd ar gyfer arwyddion nad ydynt yn arwyddion o COVID-19 ond y dangoswyd eu bod yn cael effaith fuddiol ar ganlyniadau.

Mae system ddigidol wedi'i datblygu mewn partneriaeth rhwng Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) a Gwasanaeth Gwrthfeirol Cenedlaethol a arweinir gan fferyllwyr, sydd newydd ei sefydlu, a gynhelir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae'r system yn nodi unigolion cymwys o godau yn eu hanes meddygol neu eu meddyginiaethau rhagnodedig sy'n gysylltiedig â chanlyniad cadarnhaol i brawf PCR ac, yn fwy diweddar, ganlyniadau hunangofnodedig profion Dyfeisiau Llif Unffordd.

**Profi, Olrhain, Diogelu:** Mae Profi, Olrhain, Diogelu wedi chwarae rôl hollbwysig drwy leihau cyfraddau trosglwyddo drwy gydol y pandemig. Rydym wedi rhoi seilwaith digynsail o safleoedd profi a labordai ar waith ochr yn ochr â thechnolegau amgen gan gynnwys profion llif unffordd.

Mae ymddangosiad amrywiolyn Omicron wedi rhoi cryn bwysau ar wasanaethau Profi, Olrhain, Diogelu gyda'r galw mwyaf am brofion a welwyd erioed yn ystod mis Rhagfyr a mis Ionawr. Cyrhaeddodd lefelau profion llif unffordd fwy na £200,000 yr wythnos ar ddiwedd mis Rhagfyr / dechrau mis Ionawr gan fynd heibio i'r lefelau a welwyd ym mis Medi 2021. Roedd galw mawr hefyd am brofion llif unffordd a oedd yn golygu bod angen inni weithio gydag UKHSA i gynyddu capasiti dosbarthu a chaffael profion ychwanegol. O ganlyniad, cyrhaeddodd lefelau dosbarthu fwy na 5 miliwn yr wythnos o gymharu â thua 1 filiwn a ddosbarthwyd yn ystod mis Tachwedd.

**Gofal Sylfaenol a Chymunedol:** Mae contractwyr gofal sylfaenol yn parhau i symud drwy gyfnodau adfer, gyda'r cyfnod "Gwyrdd" yn dechrau'n ffurfiol ar 1 Ebrill 2022. Mae mesurau rheoli heintiau yn parhau i fod yn ystyriaeth allweddol, ynghyd ag asesiadau risg lleol. Ymhlith y blaenoriaethau uniongyrchol ar gyfer adfer gwasanaethau mae cyflymu'r broses o ddatblygu clystyrau, diwygio contractau i ysgogi newidiadau cadarnhaol i fodelau gwasanaeth a chyflawni a gwella mynediad at wasanaethau. Mae llawer o wasanaethau eisoes wedi adfer pob gwasanaeth arferol ochr yn ochr â'r ffocws ar anghenion brys.

Mae mesurau rheoli heintiau yn parhau i gyfyngu ar gapasiti ar gyfer adfer gofal deintyddol arferol. Roedd cyfradd brosesu cleifion deintyddol yn 2021-22 yn cyfateb i 53.3% o'r lefelau a welwyd cyn y pandemig. Fodd bynnag, mae'r ffigur hwn fwy na dwywaith y nifer yn 2020-21. Mae deintyddfeydd yn blaenoriaethu gofal brys ac achosion lle y bydd oedi pellach yn achosi niwed.

Rydym yn ailddechrau'r rhaglen diwygio gwasanaethau deintyddol o fis Ebrill 2022 ymlaen gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd hyd yma. Mae hyn yn golygu y gall y deintyddfeydd hynny sy'n dewis cymryd rhan yn y rhaglen ddiwygio ganolbwyntio ar ddarparu gofal deintyddol ataliol i gleifion. Bydd hefyd yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau deintyddol ar gael i gleifion newydd y GIG. Mae gwybodaeth dros dro gan fyrddau iechyd yn awgrymu y bydd mwy na hanner y deintyddfeydd yn optio i mewn i'r mesurau newydd.

Cyflwynwyd ffyrdd newydd o weithio mewn fferyllfeydd cymunedol er mwyn atal fferyllfeydd rhag cau a sicrhau y gall pobl barhau i gael meddyginiaethau. Rhoddwyd blaenoriaeth i wasanaethau fferyllol cymunedol clinigol, megis y Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin, er mwyn lleihau'r galw ar rannau eraill o'r GIG. Rhoddwyd cyllid ychwanegol gwerth hyd at £2.5 miliwn i bob fferyllfa gymunedol ledled Cymru rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2022 er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn gynaliadwy gyda chyfran (tua £0.7m) ar gael i gynyddu gweithgarwch y Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin.

**Gofal Eilaidd:** Mae pwysau di-baid ar bob rhan o'r system iechyd eilaidd ac mae adfer gweithgarwch y GIG i lefelau sy'n agos at fod yn normal yn parhau i fod yn her; ni fydd yn adferiad cyflym ac, o ystyried y lefelau presennol o weithgarwch dewisol a'r nifer cynyddol o bobl ar restrau aros y GIG, bydd yn cymryd sawl blwyddyn i unioni'r sefyllfa.

Mae'n amlwg bod y system gofal brys ac argyfwng gyfan yn dal i fod dan bwysau, na all rhai ohonynt gael eu datrys gan y sector gofal eilaidd ar ei ben ei hun. Mae chwe nod gofal brys ac argyfwng wedi'u hail-lansio – gyda disgwyliadau uwch o ran gweithredu a chyflawni a fydd yn dwyn byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau i gyfrif am ddarparu'r gofal hwnnw.

**Cyfarpar Diogelu Personol (PPE):** Mae cyflenwi a dosbarthu cyfarpar diogelu personol o ansawdd uchel i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen wedi bod yn rhan hollbwysig o ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig COVID-19.

Dengys y wybodaeth reoli ddiweddaraf gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP), rhwng 9 Mawrth 2020 a 28 Mawrth 2022, fod mwy na 1.3 biliwn o eitemau o gyfarpar diogelu personol wedi'u dosbarthu i'r sector iechyd a'r sector gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r data hefyd yn dangos bod y galw presennol am gyfarpar diogelu personol a'r cyflenwad o gyfarpar o'r fath yng Nghymru yn parhau i fod yn sefydlog.

**Trosglwyddiad Nosocomiaidd:** Mae lleihau trosglwyddiad nosocomiaidd COVID-19 mewn ysbytai a lleoliadau caeedig eraill wedi bod yn flaenoriaeth genedlaethol drwy gydol y pandemig. Mae COVID-19 wedi tarfu'n sylweddol ar wasanaethau'r GIG. Mae'r feirws yn lledaenu'n hawdd iawn ac, felly, mae trosglwyddiad nosocomiaidd wedi'i weld ym mhob bwrdd iechyd ac ysbyty a llawer o gartrefi gofal yng Nghymru.

Er bod 'nosocomiaidd' yn cyfeirio'n draddodiadol at glefydau a geir yn yr ysbyty, mae'r ymateb i'r pandemig wedi gofyn am weithredu ym mhob lleoliad caeedig, gan gynnwys cartrefi gofal, ysbytai cymunedol, ysbytai annibynnol a chanolfannau preswyl i unigolion sy'n agored i niwed yn glinigol megis pobl ag anableddau dysgu.

Mae'n amlwg, drwy gydol y pandemig, bod cyfraddau trosglwyddo uchel yn y gymuned yn golygu bod mwy o bobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty ac, felly, bod cyfraddau trosglwyddo nosocomiaidd yn cynyddu. Dengys data Iechyd Cyhoeddus Cymru, wrth i gyfradd trosglwyddo SARS-CoV-2 yn y gymuned gynyddu'n esbonyddol yn ystod mis Rhagfyr 2021, yn bennaf oherwydd lledaeniad amrywiolyn Omicron, ac unwaith eto ym mis Mawrth 2022 a oedd yn gysylltiedig â'r ffaith bod Omicron BA2 yn haws i'w drosglwyddo, gwnaeth nifer yr heintiau a gafwyd yn yr ysbyty gynyddu hefyd.

**Canllawiau ar Ymweld ag Ysbytai:** Mae'r canllawiau ar ymweld ag ysbytai wedi'u hadolygu'n rheolaidd dros y cyfnod hwn er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gymesur ac yn addas at y diben. Cyfarfu grŵp ymweld ag ysbytai, gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a phob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth iechyd yng Nghymru (gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru) bob pythefnos er mwyn ystyried a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r canllawiau.

**Canllawiau ar Ymweld â Chartrefi Gofal:** Mae'r canllawiau ar ymweld â chartrefi gofal wedi'u hadolygu'n rheolaidd yn ystod y cyfnod hwn er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gymesur, yn addas at y diben ac yn gyson â newidiadau yn yr adolygiad 21 Diwrnod. Cawsant eu diweddaru a'u hailgyhoeddi naw gwaith yn ystod y cyfnod hwn gyda Fersiwn 14 yn cael ei chyhoeddi ym mis Ionawr.

Cydweithiodd y tîm polisi ag Arolygiaeth Gofal Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, is-adran y Prif Swyddog Meddygol a rhanddeiliaid. Parhaodd i ymgysylltu'n rheolaidd â swyddogion mewn Adrannau eraill yn y DU. Cyfarfu'r Grŵp Rhanddeiliaid Canllawiau i Ymwelwyr â chynrychiolaeth o bob rhan o'r sector yn rheolaidd er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu'r canlllawiau. Nodwyd ehangder cynrychiolaeth rhanddeiliaid ar y grŵp gan y Comisiynydd Pobl Hŷn. Cafodd Fersiwn 14 o'r canllawiau ei disodli gan y Cynllun Pontio Gofal Cymdeithasol. .

**Cynllun Pontio Gofal Cymdeithasol:** Cyhoeddwyd y Cynllun Pontio Gofal Cymdeithasol[9] ar 28 Mawrch a bwriedir iddo roi eglurder i'r sector gofal cymdeithasol ynglŷn â pha fesurau atal a rheoli heintiau a ddylai aros ar waith drwy gydol y cyfnod pontio rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2022. Mae'r Cynllun Pontio Gofal Cymdeithasol yn cynnwys canllawiau ar brofi, hunanynysu a defnyddio cyfarpar diogelu personol ym mhob rhan o'r sector gofal cymdeithasol, yn ogystal â chanllawiau mwy penodol i leoliadau cartrefi gofal mewn perthynas ag ymwelwyr a phreswylwyr wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio.

Mae'r newidiadau hyn yn rhan o'r broses o newid yn raddol o'r ymateb brys i'r pandemig i ddechrau byw'n ddiogel gyda COVID-19. Byddwn yn parhau i sicrhau ein bod yn barod i ymateb i unrhyw amrywiolion neu achosion newydd ac y gallwn wneud hynny wrth inni gamu i mewn i'r dyfodol newydd hwn.

**Covid Hir:** Mae'r dull o ddarparu gwasanaethau i bobl â Covid Hir yng Nghymru yn seiliedig ar ganllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal a chyngor gan gydweithwyr clinigol ac mae'n cyd-fynd â'r weledigaeth o greu *Cymru Iachach*. Mae pob bwrdd iechyd wedi datblygu llwybrau i wasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddarparu gofal a chymorth mor agos i'r cartref â phosibl, wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion penodol unigolyn.

Caiff pobl sydd angen defnyddio gwasanaethau meddygol mwy arbenigol sydd ar gael gan y sector gofal eilaidd yn unig, eu hatgyfeirio fel arfer gan eu meddyg teulu. Bydd gwasanaethau yn parhau i addasu wrth inni ddysgu mwy am effeithiau hirdymor COVID-19.

Ym mis Mehefin 2021, lansiwyd Rhaglen Adferiad a chyhoeddodd y Gweinidog becyn gwerth £5m i gefnogi hyn. Roedd y rhaglen wedi galluogi byrddau iechyd i ddatblygu gwasanaethau i'r rhai sy'n dioddef effeithiau parhaus haint COVID-19 a helpu i addysgu staff a datblygu eu sgiliau.

Mae'r gronfa hon hefyd wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu ap hunanreoli adferiad COVID-19 i bobl ac, i glinigwyr, sef canllaw Cymru Gyfan ar gyfer rheoli Covid Hir, sy'n rhoi'r cyngor diweddaraf a gwersi a ddysgwyd i weithwyr gofal iechyd proffesiynol i'w helpu i ddiagnosio Covid Hir a'i drin.

9 www.llyw.cymru/atal-rheoli-heintiau-mewn-gofal-cymdeithasol

**Y Gweithlu Gofal Iechyd:** Roedd ein hymateb cychwynnol i bwysau'r pandemig COVID-19 wedi'i gyfeirio at gynyddu nifer y cyflogeion yng ngweithlu'r GIG a'i gwneud yn bosibl i bobl ychwanegol gael eu defnyddio'n gyflym. Gwnaethom sicrhau bod polisïau ac arferion y gweithlu wedi annog mesurau rheoli heintiau effeithiol drwy gefnogi'r rhai yr oedd angen iddynt warchod eu hunain neu gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith er mwyn hunanynysu. Rydym yn parhau i ystyried effeithiau hirdymor yr ymateb i'r pandemig ar iechyd a llesiant meddyliol ein gweithlu. Mae hyn yn dod yn fwyfwy pwysig wrth inni symud o ymateb i'r pandemig tuag at adferiad.

Ni fu galw mawr i glinigwyr wedi ymddeol ddychwelyd i'r gwaith yn ystod y pandemig ond defnyddiwyd rhai ac maent yn parhau i gefnogi GIG Cymru. Mae gweithlu'r GIG wedi cyrraedd y lefelau uchaf erioed, gyda mwy na 103,000 o aelodau o staff yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan GIG Cymru.

**Y Gweithlu Gofal Cymdeithasol:** Cynyddodd y pwysau ar y sector gofal cymdeithasol i lefelau nas gwelwyd o'r blaen, yn enwedig ym maes gofal gartref, ac mae rhagamcanion yn awgrymu y bydd lefelau o alw cynyddol yn parhau am beth amser i ddod.

Mae llawer o'r bobl hynny sy'n ystyried gofal cymdeithasol fel gyrfa neu'r rhai sydd eisoes yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol wedi'u denu gan swyddi mewn sectorau eraill lle mae cyflogau yn uwch ac mae llai o gyfrifoldeb personol. Mae gweithwyr gofal cymdeithasol hefyd wedi'u denu gan swyddi yn y sector iechyd lle mae telerau ac amodau yn well.

Roedd hyn yn ei dro wedi rhoi mwy o bwysau ar y gweithlu presennol sydd wedi gweithio drwy straen emosiynol a gofynion corfforol y pandemig. Gwnaethom ddarparu cymorth llesiant i bob aelod o'r gweithlu gofal cymdeithasol a dau gynllun taliadau cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer staff gofal cymdeithasol a oedd yn darparu gofal hanfodol i'n dinasyddion mwyaf agored i niwed yn ystod y pandemig COVID-19. Gwnaethom gyhoeddi'r penderfyniad i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol ar ddiwedd 2021 fel y cam cyntaf tuag at sicrhau gwaith teg ac atebion cynaliadwy ar gyfer y sector gofal cymdeithasol gwerthfawr.

**Gofalwyr di-dâl:** er mwyn lliniaru effaith ariannol y pandemig ar ofalwyr di-dâl, sefydlwyd y Gronfa Gymorth i Ofalwyr yn 2020. Bu'r gronfa yn weithredol am ddwy flynedd gan gostio £2.5 miliwn a rhoddodd grantiau bach o hyd at £300 i ofalwyr di-dâl er mwyn iddynt dalu am amrywiaeth o eitemau hanfodol gan gynnwys costau tanwydd. Eleni, rydym rhoi un taliad o £500 i 57,000 o ofalwyr di-dâl sy'n cael Lwfans Gofalwyr.

Cafodd diffyg opsiynau seibiant effaith negyddol ar ofalwyr di-dâl yn ystod y pandemig COVID-19 hefyd gan fod llawer yn ei chael hi'n anodd ymdopi heb eu rhwydweithiau cymorth ffurfiol ac anffurfiol arferol. Mewn ymateb, dyrannwyd £3 miliwn i awdurdodau lleol yn 2021-22 er mwyn cynyddu ac amrywiaethu cyfleoedd i gael seibiannau byr.

Eleni, mae cyllid gwerth £9 miliwn dros dair blynedd wedi'i gyhoeddi er mwyn creu cynllun seibiannau byr cenedlaethol i ofalwyr di-dâl o bob oedran. Caiff y cynllun ei reoli gan sefydliad yn y trydydd sector a fydd yn gweithio gyda phartneriaid cyflawni er mwyn sicrhau bod gan ofalwyr di-dâl o bob rhan o Gymru fynediad cyfartal at amrywiaeth o seibiannau wedi'u teilwra at eu hanghenion unigol.

**Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio:** lansiwyd y strategaeth yn 2021 a'i nod yw helpu pobl hŷn i ailymgysylltu â'u cymunedau ar ôl y pandemig COVID-19 a gweithio tuag at greu Cymru sy'n ystyriol o oedran. Y flwyddyn ariannol hon, mae cyllid o £1.1 miliwn wedi'i ddyrannu i awdurdodau lleol (£50,000 i bob awdurdod) er mwyn ariannu swydd i hyrwyddo gwasanaethau a pholisïau sy'n ystyriol o oedran a sicrhau bod mecanweithiau cadarn ar waith ar gyfer ymgysylltu â phobl hŷn.

**Unigrwydd ac Ynysigrwydd Cymdeithasol:** gwnaethom gymryd nifer o gamau i geisio helpu pobl i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau a chael y cymorth y gallai fod ei angen arnynt, gan gynnwys darparu £400,000 ar gyfer menter Ffrind mewn Angen, a gyflwynwyd ar ein rhan gan Age Cymru. Gwnaeth y fenter, a lansiwyd ar 2 Mehefin 2020, gynnig galwad ffôn wythnosol i bobl hŷn gan gyfaill gwirfoddol hyfforddedig er mwyn iddynt gael sgwrs a rhoi sicrwydd iddynt neu ateb unrhyw gwestiynau a allai fod ganddynt.

Darparwyd £285,000 o'r cyllid hwn fel grantiau i awdurdodau lleol er mwyn cefnogi eu cynllunio cyfeillio lleol ac ychwanegu gwerth atynt, er enghraifft, drwy ddarparu hyfforddiant i wirfoddolwyr neu gynnydd capasiti rhaglenni presennol.

Gwnaethom hefyd lansio ein Cronfa Unigrwydd ac Ynysigrwydd Cymdeithasol gwerth £1.5m yn 2021. Bydd y gronfa tair blynedd yn cefnogi sefydliadau lleol rheng flaen ar lawr gwlad, sy'n dod â phobl o bob oedran at ei gilydd er mwyn eu helpu i greu cysylltiadau cymdeithasol mewn cymunedau a rhyngddynt.

**Gwasanaethau Plant:** gwyddom fod y pandemig wedi peri heriau enfawr i deuluoedd sy'n agored i niwed ac wedi rhoi cryn bwysau ar wasanaethau plant, llysoedd teulu a'n partneriaid yn y trydydd sector. Er gwaethaf y pwysau, mae awdurdodau lleol wedi llwyddo i sicrhau sefydlogrwydd pob un o'u gwasanaethau sy'n golygu bod llai o newydd-ddyfodiaid i'r sector gofal a llai o symud rhwng lleoliadau a bod lleoliadau yn fwy sefydlog. Mae nifer yr achosion o adael gofal a gynlluniwyd hefyd wedi lleihau yn ystod y pandemig gyda phobl ifanc yn aros mewn gofal am fwy o amser.

Er mwyn helpu i liniaru effaith y pandemig COVID-19 a pharhau i ddarparu cymorth i awdurdodau lleol a phartneriaid, rydym wedi buddsoddi cryn dipyn o'r arian wrth gefn ar gyfer delio â COVID-19 er mwyn cymryd camau ataliol. Mae'r buddsoddiadau hyn yn cynnwys:

- £2.49m i leihau ôl-groniadau achosion llys a chefnogi diddymiadau o ofal.
- £2.2m i awdurdodau lleol er mwyn iddynt ddatblygu cyfleusterau cynadledda grŵp teuluol.
- £1.6m er mwyn helpu i ddargyfeirio achosion o'r Gofrestr Amddiffyn Plant.

Mae Cronfa Dydd Gŵyl Dewi sy'n werth £1m wedi parhau i roi cymorth ariannol uniongyrchol i'r rhai sy'n gadael gofal er mwyn iddynt fanteisio ar gyfleoedd a fydd yn eu helpu i symud yn llwyddiannus i fyw'n annibynnol a bywydau llwyddiannus fel oedolion. Yn ystod y pandemig, rydym wedi gwneud y gronfa yn fwy hyblyg er mwyn iddi allu diwallu anghenion y rhai sy'n gadael gofal y mae'r pandemig COVID-19 wedi cael effaith andwyol arnynt, yn well. Rydym hefyd wedi sefydlu Cronfa Caledi COVID-19 ychwanegol gwerth £1 filiwn sy'n debyg i Gronfa Dydd Gŵyl Dewi, er mwyn diwallu unrhyw anghenion ychwanegol sydd gan y rhai sy'n gadael gofal yn sgil y pandemig COVID-19.

Er mwyn helpu gwasanaethau plant awdurdodau lleol i reoli cyswllt â phlant a theuluoedd yn llwyddiannus ac, ar yr un pryd, gyflawni eu swyddogaethau statudol, gwnaethom arwain gwaith gyda Phenaethiaid Gwasanaethau Plant, cydweithwyr polisi ehangach a Swyddfa'r Comisiynydd Plant, i ddatblygu a chyhoeddi Canllawiau Gweithredol i Wasanaethau Cymdeithasol Plant a gafodd eu diweddaru yn rheolaidd yn ystod y pandemig.

## Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

Parhaodd y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus i gefnogi Llywodraeth Cymru yn y gwaith o flaenoriaethu gweithgarwch cydgysylltu a chyfathrebu canolog ar COVID-19. Ar lefel polisi, gwnaethom gydgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y sector tai, gwasanaethau brys, undebau addysg, gofal plant a darparwyr y blynyddoedd cynnar a'r trydydd sector, er mwyn datblygu camau lliniaru ac adfer a nodi'r rhai a oedd fwyaf agored i niwed, er mwyn rhoi arweiniad a chymorth priodol, wedi'u targedu lle y bo eu hangen.

Neilltuwyd tua £437m i'n Cronfa Caledi ar gyfer Awdurdodau Lleol er mwyn rhoi cymorth ariannol brys i awdurdodau lleol i gefnogi eu hymateb i'r pandemig. Cydnabu hon yr amrywiaeth eang o gostau ychwanegol yr oeddent yn eu hwynebu, yn ogystal â'r incwm a gollwyd.

Drwy'r cymorth hanfodol hwn, sicrhawyd nad oedd eu hymateb i'r pandemig yn gosod baich ariannol gormodol arnynt. Cawsant £19m hefyd i'w helpu i fynd i'r afael ag effaith negyddol y pandemig COVID-19 ar y broses o gasglu'r dreth gyngor.

Diwygiwyd setliad awdurdodau lleol er mwyn darparu cyllid ychwanegol gwerth £60m. Nid oedd yr adnodd ychwanegol hwn wedi'i neilltuo a bwriadwyd iddo helpu awdurdodau lleol i reoli eu cyllidebau yn fwy effeithol rhwng 2021-22 a 2024-25 yng nghyd-destun pwysau chwyddiannol a phwysau ar wasanaethau a'r penderfyniad i ddod â Chronfa Galedi Llywodraeth Leol i ben.

Ym maes Addysg, rydym yn cydnabod yr effaith y mae'r pandemig yn parhau i'w chael ar ein dysgwyr ac mae ymateb i COVID-19 wedi parhau i beri heriau sylweddol. Mae'r cynllun Adnewyddu a Diwygio[10], a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2021, yn amlinellu ein hymrwymiad i gefnogi lles a chynnydd dysgwyr mewn ymateb i'r pandemig COVID-19.

Drwy sefydlu'r rhaglen Adnewyddu a Diwygio, y datblygwyd ei hethos a'i ffocws ar y cyd â phartneriaid allanol seiliedig ar dystiolaeth o arferion gorau, gwnaethom ddarparu strwythur lle y gallai Llywodraeth Cymru ymateb mewn ffordd ystwyth sy'n canolbwyntio ar y dysgwr i'r heriau a wynebir o ganlyniad i'r pandemig COVID-19 a'r dysgu wyneb yn wyneb a gollwyd yn ystod y cyfyngiadau symud.

Mae'r rhaglen yn canolbwyntio'n benodol ar lesiant fel y sylfaen i ddysgu a chynnydd, ac mae wedi ein dull gweithredu wedi cael ei efelychu a'i gefnogi mewn rhannau eraill o'r DU. Cafodd y rhaglen gymorth ariannol gwerth £278m yn 2021-22. Mae hyn yn cynnwys cyllid i barhau â'n rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau i ddiogelu'r anoddau ychwanegol sydd eisoes mewn ysgolion a lleoliadau er mwyn cefnogi adferiad parhaus, gan gynnwys cymorth ar gyfer dysgu a datblygu mewn lleoliadau gofal plant sy'n darparu addysg gynnar.

10 www.llyw.cymru/adnewyddu-diwygio-cefnogi-lles-chynnydd-dysgwyr-html

Yn ogystal â hyn, dyrannwyd £13m yn uniongyrchol i ddysgwyr y blynyddoedd cynnar mewn ysgolion a lleoliadau gofal plant. Gwnaethom ddarparu £7.5m ychwanegol er mwyn cefnogi dysgwyr sy'n symud tuag at arholiadau yn 2022, drwy adnoddau ac amser addysgu ychwanegol, er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael eu paratoi'n ddigonol ar gyfer eu camau nesaf.

Darparwyd yr arian ychwanegol hwn ochr yn ochr â chyllid i awdurdodau lleol, a cholegau ac adrannau chweched dosbarth, er mwyn ennyn diddordeb dysgwyr a'u helpu i bontio i'r camau nesaf. Rydym hefyd wedi parhau i ddarparu prydau ysgol am ddim yn ystod hanner tymor a gwyliau'r ysgol.

Er bod pob dysgwr yn teimlo effaith y pandemig COVID-19, mae'n cael effaith anghymesur ar ddysgwyr sy'n agored i niwed a dysgwyr difreintiedig, yn enwedig plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Er mwyn mynd i'r afael â hyn, rhoesom £9m i awdurdodau lleol gefnogi plant a phobl ag ADY er mwyn gwella eu llesiant (gyda £1 filiwn arall yn cael ei dyrannu gan Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol ar gyfer dysgwyr ag ADY mewn colegau Addysg Bellach).

Rydym wedi darparu £2.5 miliwn ychwanegol ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yng Nghymru yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Roedd gwasanaethau gwaith ieuenctid wedi defnyddio'r cyllid hwn i wella iechyd meddwl a llesiant emosiynol ein plant a'n pobl ifanc. Cydnabu fod gan weithwyr ieuenctid rôl hollbwysig i'w chwarae wrth helpu plant a phobl ifanc i adfer ar ôl y pandemig.

Gwnaethom barhau i gefnogi'r Gymraeg er mwyn goresgyn rhai o heriau'r pandemig COVID-19 a lliniaru ei effeithiau ar y gwaith o gyflawni ein Strategaeth ar gyfer y Gymraeg, sef *Cymraeg 2050*[11], ac yn arbennig y nod i ddyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg. Mae cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith wrth wraidd Cymraeg 2050, boed hynny gartref, mewn lleoliadau addysg, yn y gymuned neu yn y gweithle.

O ganlyniad i'r pandemig COVID-19, roedd llai o gyfleoedd i gyfarfod â phobl eraill a phrofi'r Gymraeg. Er mwyn goresgyn hyn, gwnaethom fuddsoddi £2.2 miliwn mewn darpariaeth trochi hwyr er mwyn rhoi cymorth ychwanegol i ysgolion, helpu dysgwyr i ymuno ag addysg cyfrwng Cymraeg a datblygu sgiliau dwyieithog am oes er mwyn sicrhau y gall pob disgybl feithrin y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen i barhau â'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rhoesom £0.2m i'r Eisteddfod Genedlaethol, digwyddiad diwylliannol Cymraeg mwyaf Cymru, er mwyn helpu i gefnogi, ailadeiladu a galluogi pawb yng Nghymru i barhau i ddathlu ein diwylliant Cymreig unigryw.

Roedd angen cymorth parhaus hefyd i blant, teuluoedd a'r sector gofal plant, y sector gwaith chwarae a sector y blynyddoedd cynnar yn fwy cyffredinol. Mae effeithiau'r pandemig ar blant a phobl ifanc yn rhai eang eu cwmpas, sy'n rhychwantu datblygiad corfforol, cymdeithasol, emosiynol a gwybyddol gydag amseroedd aros hwy i ddefnyddio rhai gwasanaethau.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, gwnaethom ddarparu £7m ychwanegol ar gyfer mentrau Help Cynnar drwy'r Gronfa Galedi Awdurdodau Lleol a buddsoddi £8m yn ein Cronfa Datblygu Plant ar gyfer plant o dan bump oed. Yn ogystal â hyn, gwnaethom sicrhau cyllid ychwanegol er mwyn helpu i ddarparu gweithgareddau chwarae, gweithgareddau chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol am ddim i blant a phobl ifanc 0-25 oed drwy ein cynlluniau Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles.

11 www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf

Gwnaethom sicrhau cyfanswm o £5m i gefnogi cynllun Haf o Hwyl, gyda £4.55m o'r swm hwnnw'n cael ei ddyrannu i'r Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus (EPS) a'r £450,000 a oedd yn weddill yn cael ei ddyrannu i Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol (ESNR). Cafodd cynllun Gaeaf Llawn Lles £20m, gyda £15.7m o'r swm hwnnw'n cael ei ddyrannu ar draws y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd y ddau gynllun yn cyd-fynd â'r rhaglen Adnewyddu a Diwygio. Hefyd, sicrhawyd cyllid cyfalaf ychwanegol gwerth £11.6m i gefnogi lleoliadau Dechrau'n Deg, gofal plant a darpariaeth chwarae.

Parhaodd lleoliadau gofal plant i wynebu heriau wrth iddynt adfer o effeithiau'r pandemig. Rhoddwyd £3.5m ychwanegol i awdurdodau lleol er mwyn iddynt allu rhoi grantiau cynaliadwyedd i leoliadau gofal plant yn seiliedig ar anghenion lleol. Darparwyd y cyllid hwn o danwariant ar y Cynnig Gofal Plant, a brofodd rywfaint o anwadalrwydd o ran nifer y bobl a fanteisioddd ar y cynllun ar ddechrau'r flwyddyn ariannol cyn ymsefydlogi.

Ar ddechrau'r pandemig, gwnaethom ddarparu'r cyllid a'r arweiniad yr oedd eu hangen ar awdurdodau lleol i sicrhau bod unrhyw un a oedd yn cysgu allan neu mewn llety amhriodol yn cael llety dros dro priodol, ynghyd â'r cymorth yr oedd ei angen arnynt i gadw'n ddiogel. Mae ymrwymiad a gweithio mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau yn y trydydd sector wedi golygu bod dros 19,800 o bobl a oedd yn ddigartref yn flaenorol wedi cael llety dros dro ers dechrau'r pandemig.

Ariannwyd y dull 'neb heb help' gan y Gronfa Galedi Awdurdodau Lleol yn 2021-22 yn seiliedig ar angen. Gallai awdurdodau lleol hawlio costau penodol yr aed iddynt, a oedd yn cynnwys darpariaeth gwely a brecwast, darpariaeth gwestai a darpariaeth llety arall ychwanegol, gwasanaethau cymorth ychwanegol a darpariaeth diogelwch. Hyd at fis Mawrth 2022, roedd £41.5m wedi'i hawlio o'r Gronfa Galedi.

Roedd y Gronfa Galedi yn system ar gyfer rhoi cymorth byrdymor a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â'r ymateb i'r pandemig COVID-19 ac a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £10m yn 2022-23 er mwyn parhau i roi cymorth i dalu'r costau digartrefedd hyn, gan ddisgwyl i awdurdodau lleol newid yn raddol o ddefnyddio lefelau uchel o lety dros dro i ailgartrefu pobl ddigartref yn gyflym.

Bydd y cam nesaf yn gofyn i awdurdodau baratoi a chyhoeddi eu cynlluniau pontio Ailgartrefu Cyflym a fydd yn nodi sut y bydd gwasanaethau yn newid o ran cefnogi a chyflenwi. Gan adeiladu ar hyn, ac er mwyn cefnogi'r cam nesaf o'n hymateb i'n nod hirdymor o roi terfyn ar ddigartrefedd, cafodd cynnydd o £40m (neu 30%) ar gyfer y Grant Cymorth Tai ei gynnwys yn y Gyllideb, gan roi cyfanswm o £166.7m ar gyfer 2021-22.

Diben y grant hwn yw atal digartrefedd a helpu pobl i feithrin y gallu, yr annibyniaeth, y sgiliau a'r hyder i gael ac/neu i gynnal cartref sefydlog ac addas. Mae'r cynnydd hwn wedi'i gynnal yng Nghyllideb 2022-23.

Gwnaethom hefyd lansio'r Grant Caledi i Denantiaid gwerth £10m drwy awdurdodau lleol. Roedd y grant ar gael i denantiaid preifat nad oeddent yn cael budd-daliadau tai ac yr oedd ganddynt ôl-ddyledion rhent difrifol oherwydd y pandemig COVID-19. Cafodd ceisiadau eu gwneud gan denantiaid a'u talu'n uniongyrchol i'w landlord neu eu hasiant gan leihau ar unwaith y risg y byddent yn cael eu troi allan

oherwydd eu hôl-ddyledion rhent. Ym mis Ionawr 2022, newidiwyd y cynllun er mwyn galluogi tenantiaid mewn tai cymdeithasol nad oeddent yn cael budd-daliadau tai i wneud cais am grantiau hefyd. Daeth y cynllun i ben ar 31 Mawrth 2022.

Roedd sefydliadau yn y trydydd sector a'u gwirfoddolwyr ar flaen y gad o ran ein hymateb i'r pandemig, gan roi llawer o gymorth mawr ei angen i rai o'r unigolion mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Gwnaethom gefnogi'r sector yn ei ymateb drwy Gronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector, gwerth £9 miliwn.

Roeddem yn pryderu ynghylch yr effaith y byddai'r cyfyngiadau symud yn ei chael ar y rhai y mae Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn effeithio arnynt. Gwnaethom weithio'n agos gyda phartneriaid yn y trydydd sector a'r sector cyhoeddus er mwyn sicrhau y gellid cynnig gwasanaethau diogel rhag COVID-19. Cydnabuom y byddai effaith gynyddol ar wasanaethau a dyrannwyd swm ychwanegol o £1 filiwn ar gyfer hyn o grantiau refeniw Llywodraeth Cymru ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Gwnaethom ddyrannu £38m er mwyn ariannu cynllun Cymorth Tanwydd y Gaeaf lle y cafodd aelwydydd cymwys grant anad-daladwy gwerth £200 er mwyn helpu i gwrdd â chost tanwydd dros y gaeaf yn 2021-22.

Gwnaethom fuddsoddi swm ychwanegol o £14.7m yn ein Cronfa Cymorth Dewisol i barhau i roi cymorth i unigolion a theuluoedd ledled Cymru er mwyn helpu i liniaru rhai o'r pwysau ariannol a'r heriau yr oeddent yn eu hwynebu yn ystod y cyfnod hwn. Yn ogystal ag ymateb i nifer cynyddol o hawliadau, roeddent hefyd yn gallu parhau i lacio'r rheolau ynglŷn â nifer ac amlder y Taliadau Cymorth mewn Argyfwng yr oedd unigolyn yn gymwys i wneud cais amdanynt yn ystod y cyfnod hwn. At hynny, helpodd y llacio hwn ar y rheolau i gefnogi'r unigolion hynny yr oedd penderfyniad Llywodraeth y DU i ddileu'r cynnydd o £20 yr wythnos i gredyd cynhwysol wedi effeithio arnynt.

Gwnaethom ddarparu £1.5m i ariannu gweithgareddau gwneud y gorau o incwm, gan gynnwys cynnal ail ymgyrch genedlaethol Hawliwch yr Hyn sy'n Ddyledus i Chi (drwy'r holl gyfryngau gan gynnwys y teledu a'r radio) a meithrin gallu cynghorwyr yn Advicelink Cymru i reoli'n well y galw gan bobl y mae angen cymorth arnynt i ddeall y system nawdd cymdeithasol gymhleth.

Dyrannwyd cyfanswm o £4.84m er mwyn mynd i'r afael â thlodi bwyd ac ymdrin ag achosion sylfaenol tlodi bwyd. Ar adeg pan oedd y pandemig wedi cynyddu nifer yr aelwydydd a oedd yn ceisio darpariaeth bwyd frys yn sylweddol, helpodd y cyllid i ariannu ymyriadau a oedd wedi cefnogi camau gweithredu i atal tlodi bwyd a sicrhau cynaliadwyedd a chydnerthedd yn ogystal â helpu i ddarparu bwyd ar unwaith ar gyfer banciau bwyd a oedd yn ei chael hi'n anodd ateb y galw.

Er mwyn helpu unigolion ymhellach, a dileu rhwystrau i hunanynysu o ganlyniad i golli incwm, sefydlwyd cynllun cymorth i hunanynysu. Roedd hwn yn darparu taliadau i rai unigolion cymwys nad oeddent yn gallu gweithio gartref ac y gofynnwyd iddynt hunanynysu gan y gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu, neu drwy ap COVID-19 y GIG.

Talwyd £500 fesul cais a chafodd y swm hwn ei gynyddu ar 07/08/2021 i £750 a'i leihau unwaith eto i £500 ar 28/01/2022 er mwyn adlewyrchu'r cyfnod hunanynysu byrrach. Bydd y cynllun yn para tan 30 Mehefin 2022. Mae rhieni a gofalwyr ar incwm isel, sydd â phlant sy'n hunanynysu, hefyd yn gymwys i gael y cymorth ychwanegol hwn.

O fis Mehefin 2020 ymlaen, gan fod profion a Chyfarpar Diogelu Personol (PPE) bellach ar gael, ailddechreuodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) gynnal arolygiadau asesu risg lle roedd pryderon ynghylch diogelwch a llesiant pobl. Rhwng mis Mehefin 2020 a mis Mawrth 2022, cynhaliodd AGC 1,464 o arolygiadau o wasanaethau rheoleiddiedig oedolion a phlant. Cynhaliwyd gwiriadau sicrwydd o bob awdurdodau lleol hefyd er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu swyddogaethau statudol. Cyhoeddodd ei chanfyddiadau mewn 'adroddiad trosolwg cenedlaethol' ym mis Tachwedd 2021.

Drwy gydol y pandemig, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wedi bod yn adolygu ei gweithgarwch yn ofalus ac yn rheolaidd, gan asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â phob darn o waith er mwyn sicrhau ei fod yn briodol ac yn gymesur o ystyried sefyllfa barhaus y pandemig. Datblygodd fethodoleg a dull arolygu newydd, a oedd yn cael ei gynnal yn gyfan gwbl oddi ar y safle, er mwyn iddi allu defnyddio ei hadnoddau mewn ffordd fwy ystwyth, gan ymateb i risgiau a phroblemau penodol ac, ar yr un pryd, ystyried modelau gweithredu diwygiedig yn ystod y pandemig.

Parhaodd i wneud gwaith arolygu ar y safle lle roedd o'r farn bod risg uchel i ddiogelwch cleifion oherwydd materion penodol a lle nad oedd yn bosibl cael sicrwydd o bell.

## Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

Parhaodd Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol (ESNR) i roi blaenoriaeth i gefnogi pob rhan o'r economi drwy sicrhau bod busnesau yn cael gallu cymorth wrth inni symud drwy'r pandemig gan newid o becynnau cymorth hanfodol i adferiad. Parhaodd ein gweithgarwch ymateb i'r pandemig yng nghanol yr holl waith arall a oedd yn mynd rhagddo ym mhob rhan o'r grŵp i roi'r trefniadau ar gyfer ymadael â'r UE ar waith wrth ymateb i argyfyngau megis yr achosion o Ffliw Adar.

Ers dechrau'r pandemig, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi dros £2.6bn i gefnogi busnesau gyda'r nod o'u helpu i oroesi a diogelu swyddi pobl. Wrth ystyried yr achos dros ymyriadau gan y llywodraeth, ystyriodd swyddogion y dystiolaeth o angen a gwerth am arian yng nghyd-destun y profion allweddol i Swyddogion Cyfrifyddu.

Y prif ymyriadau o ran cyllid economaidd gan y Grŵp fu'r Gronfa Cadernid Economaidd (ERF), y Gronfa Adferiad Diwylliannol (CRF) a'r grantiau a oedd yn gysylltiedig ag ardrethi annomestig Cafodd y pecyn yn ei gyfanrwydd ei oruchwylio gan Lywodraeth Cymru ond cafodd ei weinyddu'n uniongyrchol i fusnesau cymwys (ERF a CRF), drwy Fanc Datblygu Cymru a thrwy'r Awdurdodau Lleol ar gyfer ardrethi annomestig a chronfeydd dewisol lleol.

Roedd cymorth economaidd Llywodraeth Cymru yn elfen bwysig o gynlluniau Llywodraeth y DU o ran diogelu swyddi, yn enwedig y cynllun cadw swyddi. Er mwyn cyflwyno'r Gronfa Cadernid Economaidd a'r Gronfa Adferiad Diwylliannol yn ystod 2021-22, defnyddiwyd mwy na 100 o aelodau o staff Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r cynlluniau cymorth ar fyr rybudd a gafodd eu dwyn ynghyd o bob rhan o'r sefydliad am hyd at chwe wythnos ar y tro.

Roedd hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth agos â'r awdurdodau lleol ledled Cymru i gyflwyno'r cynllun grantiau sy'n gysylltiedig ag ardrethi annomestig a'r Gronfa Cadernid Economaidd. Yn 2021-22 gwnaethom bron i 39,500 o daliadau grant gwerth cyfanswm o £135.74m drwy'r Gronfa Cadernid Economaidd, y Gronfa Adferiad Diwylliannol a chynlluniau COVID-19 y Gronfa Cadernid Economaidd-Ardrethi Annomestig.

Nododd adroddiad effaith a gwerthusiad annibynnol ar gynlluniau 2020-21 y Gronfa Cadernid Economaidd, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2022, fod £95m wedi'i roi i fusnesau yng Nghymru drwy drydydd a phedwerydd cylch y Gronfa Cadernid Economaidd a'r Grant Dechrau a oedd yn cael ei reoli gan awdurdodau lleol, gan ddiogelu 60,000 o swyddi

Gwnaethom weinyddu cynllun COVID-19 Ymchwil, Datblygu ac Arloesi newydd gwerth £5m, gan sicrhau bod gweithgarwch ymchwil a datblygu yn opsiwn amgen dichonadwy yn lle rhoi staff ar ffyrlo. Dyfarnodd cynllun cymorth COVID-19 Ymchwil, Datblygu ac Arloesi gyllid i 41 o brosiectau a oedd yn cynnwys 34 o Fusnesau yng Nghymru a thri Sefydliad Ymchwil. Dyfarnwyd grantiau gwerth £4,919,998 er mwyn cefnogi prosiectau mewn pum maes allweddol, sef:

- Rheoli Heintiau a Phrofi
- Cynhyrchion, Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol
- Cyfarpar Diogelu Personol
- Technegau a Chynhyrchion Diheintio
- Atebion Digidol

Parhaodd y Grŵp i ddarparu cymorth i bob sector Diwylliannol, Chwaraeon a Thwristiaeth er mwyn hwyluso'r broses o ailagor lleoliadau yn llwyddiannus ac yn ddiogel drwy lefelau rhybudd wrth inni symud drwy'r pandemig i gefnogi adferiad. Gwnaethom barhau i gefnogi'r economi ymwelwyr gan gydbwyso negeseuon iechyd y cyhoedd â chyfyngiadau symud ar yr un pryd, yn arbennig drwy ymgyrch Addo.

Ar ddiwedd 2021, hyrwyddodd y tîm dymhorau 'ysgwydd' drwy ymgyrch yr hydref/gaeaf pan gofnododd y diwydiant niferoedd cadarnhaol o ymwelwyr a hyder ar gyfer y tymor i ddod. Wrth i'r economi ailagor, gwnaethom barhau i gefnogi'r sector digwyddiadau a threialu digwyddiadau i hwyluso prosesau agor a chyngor/arweiniad ar agor a chau yn unol â symudiadau rhwng Lefelau Rhybudd. Ar ôl i ystad Cadw ailagor, er gwaethaf yr amgylchiadau heriol parhaus, cafwyd adferiad cryf o ran nifer yr ymwelwyr ac incwm.

Gwnaethom barhau i gefnogi'r system trafnidiaeth gyhoeddus yr oedd y pandemig wedi cael effaith sylweddol arni. Er bod nifer y teithwyr wedi dechrau cynyddu roedd angen cefnogi gwasanaethau rheilffyrdd o hyd er mwyn gwrthbwyso effaith y lleihad yn y bwlch tocynnau teithwyr a chostau uwch a oedd i'w priodoli i'r ffaith bod Trafnidiaeth Cymru bellach yn gorfod rheoli'r gweithredwr rheilffyrdd pan fetho popeth arall. Mae'r sefyllfa hon yn debygol o barhau am beth amser i ddod er ein bod yn cefnogi sawl menter, drwy Trafnidiaeth Cymru, er mwyn annog pobl i ailddechrau defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

Rydym hefyd wedi parhau i gefnogi'r diwydiant bysiau drwy'r Cynllun Brys ar gyfer Bysiau (BES). Rydym wedi bod yn addasu ei delerau er mwyn adlewyrchu sefyllfa newydd y diwydiant gan ystyried teithwyr sy'n dychwelyd a dyheadau Llywodraeth Cymru ei hun ar gyfer dyfodol gweithrediadau bysiau yng Nghymru.

Mae sicrhau bod pobl yn gallu defnyddio gwasanaethau hanfodol a bod gweithwyr allweddol yn gallu cyrraedd eu gweithleoedd wedi bod yn allweddol i hyn. Mae sicrhau bod rhwydwaith bysiau gweithredol priodol yn dal i fodoli wrth inni ddod allan o'r pandemig hefyd wedi bod yn allweddol.

## Astudiaeth Achos

### Y Gronfa Cadernid Economaidd

Rhoddodd y Gronfa Cadernid Economaidd arian i fusnesau yng Nghymru gefnogi eu cyflogeion pan oeddent ar gau neu pan oedd rheoliadau COVID-19 wedi cael effaith ddifrïol ar drosiant yn ystod cyfyngiadau symud.

Cyflwynwyd cymorth Covid i fusnesau mewn partneriaeth â phob un o'r 22 o Awdurdodau Lleol yng Nghymru gan ddefnyddio gyfuniad o ardrethi busnes ALlau wedi'u halinio â grantiau cyfradd safonol ochr yn ochr â grantiau pwrpasol seiliedig ar geisiadau a aseswyd gan Weision Sifil.

Darparodd y Cynllun 39,500 o ddyfarniadau â chyfanswm gwerth o fwy na £135m i fusnesau ym mlwyddyn ariannol 2021-22. Drwy fabwysiadu'r dull hwn o weithredu, llwyddodd y tîm i ennill Dyfarniad Cyflawni Prosiect Gwasanaeth Sifil y DU.

Roedd gan gynllun y Gronfa Cadernid Economaidd broses a oedd yn gyfan gwbl ar-lein, gan gynnwys gwirydd cymhwysedd a ffurflen gais ar-lein a oedd yn cael ei darparu drwy Busnes Cymru ac a oedd yn gysylltiedig â system gyllid (SAP) Llywodraeth Cymru.

Cafodd y cymhwystra ar gyfer y cynllun ei fireinio a'i wella er mwyn targedu busnesau yr oedd y pandemig yn effeithio arnynt yn uniongyrchol wrth i'r cyfyngiadau newid yn ystod haf a gaeaf 2021, gan orffen â llawer mwy o bwyslais ar Dwristiaeth, Lletygarwch a Hamdden gan gefnu ar gylch gwaith trawsbynciol yr economi yn 2020-21.

Pwysigrwydd gwaith tîm, grymuso a dirprwyo ochr yn ochr â chyfathrebu â'r gymuned fusnes i esbonio cymhwystra a'r broses gwneud cais. Mae hyn wedi galluogi proses ddysgu barhaus a diwylliant o welliant parhaus.

# Rheoli Trefniadau Pontio'r UE



Mae'r gwaith ar ymadawiad y DU â'r UE wedi parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru.

Rydym yn symud o gyfnod pontio i fodel gweithredu ar ôl bod yn aelod o'r UE, ond mae gwaith yn dal i fynd rhagddo er mwyn sicrhau ein bod yn cymryd y camau angenrheidiol sy'n deillio o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, ac er mwyn ceisio helpu dinasyddion, busnesau a chymunedau yng Nghymru hyd eithaf ein gallu i addasu i'n perthynas newydd â'r UE.

Mae Gweinidogion hefyd wedi parhau i fynd i rai o gyfarfodydd Pwyllgor Cabinet XO Llywodraeth y DU, sydd bellach wedi'i ailenwi'n Bwyllgor Prydain Fyd-eang (Gweithrediadau), sy'n goruchwylio trefniadau pontio'r UE o safbwynt Llywodraeth y DU.

Gan gydnabod y ffyrdd newydd o weithio o ganlyniad i adael yr UE, gwnaethom weithio i ddeall sut y gellir cynnwys y swyddogaethau a oedd yn arfer cael eu gweithredu gan yr UE, sydd bellach yn dychwelyd i Gymru, yn ein model gweithredu ar ôl gadael yr UE. Mae'r swyddogaethau hyn yn dod â chyfrifoldebau newydd i Lywodraeth Cymru ac yn gofyn am adnoddau a gallu ychwanegol mewn nifer o feysydd polisi amrywiol.

Rydym wedi parhau i weithio ar raglen Fframweithiau Cyffredin, sy'n rheoli llawer o'r swyddogaethau hyn sy'n dychwelyd. Mae fframweithiau wedi bod yn weithredol ar lefel swyddogol ers diwedd 2020. Ar ôl Etholiadau Senedd Cymru a Senedd yr Alban yn 2021, cytunodd Gweinidogion a oedd yn gyfrifol am y rhaglen fframweithiau o bob un o bedair gwlad y DU ar ddull cyffredin o ymdrin â materion trawsbynciol a oedd yn weddill, gan ei gwneud yn bosibl i'r mwyafrif o'r fframweithiau gael eu cyhoeddi er mwyn i ddeddfwriaethau graffu arnynt ar ddechrau 2022. Mae'r gwaith craffu wedi dechrau mewn rhai o feysydd y fframweithiau a bydd yn parhau yn 2022-23.

Mae'r gwaith ar ymadawiad y DU â'r UE wedi parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru.

Rydym yn symud o gyfnod pontio i fodel gweithredu ar ôl bod yn aelod o'r UE, ond mae gwaith yn dal i fynd rhagddo er mwyn sicrhau ein bod yn cymryd y camau angenrheidiol sy'n deillio o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, ac er mwyn ceisio helpu dinasyddion, busnesau a chymunedau yng Nghymru hyd eithaf ein gallu i addasu i'n perthynas newydd â'r UE.

Mae Gweinidogion hefyd wedi parhau i fynd i rai o gyfarfodydd Pwyllgor Cabinet XO Llywodraeth y DU, sydd bellach wedi'i ailenwi'n Bwyllgor Prydain Fyd-eang (Gweithrediadau), sy'n goruchwylio trefniadau pontio'r UE o safbwynt Llywodraeth y DU.

Gan gydnabod y ffyrdd newydd o weithio o ganlyniad i adael yr UE, gwnaethom weithio i ddeall sut y gellir cynnwys y swyddogaethau a oedd yn arfer cael eu gweithredu gan yr UE, sydd bellach yn dychwelyd i Gymru, yn ein model gweithredu ar ôl gadael yr UE. Mae'r swyddogaethau hyn yn dod â chyfrifoldebau newydd i Lywodraeth Cymru ac yn gofyn am adnoddau a gallu ychwanegol mewn nifer o feysydd polisi amrywiol.

Rydym wedi parhau i weithio ar raglen Fframweithiau Cyffredin, sy'n rheoli llawer o'r swyddogaethau hyn sy'n dychwelyd. Mae fframweithiau wedi bod yn weithredol ar lefel swyddogol ers diwedd 2020. Ar ôl Etholiadau Senedd Cymru a Senedd yr Alban yn 2021, cytunodd Gweinidogion a oedd yn gyfrifol am y rhaglen fframweithiau o bob un o bedair gwlad y DU ar ddull cyffredin o ymdrin â materion trawsbynciol a oedd yn weddill, gan ei gwneud yn bosibl i'r mwyafrif o'r fframweithiau gael eu cyhoeddi er mwyn i ddeddfwriaethau graffu arnynt ar ddechrau 2022. Mae'r gwaith craffu wedi dechrau mewn rhai o feysydd y fframweithiau a bydd yn parhau yn 2022-23.

Gan gydnabod y cyfraniad at ein cymunedau a wneir gan y miloedd o ddinasyddion yr UE, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir sy'n byw yng Nghymru, rydym wedi darparu cymorth am ddim er mwyn eu helpu i sicrhau y gallant barhau i fyw a gweithio yma. Mae'r pecyn o gymorth, a elwir yn Wasanaethau Cyngor ar Ymfudo i Ddinasyddion yr UE, wedi golygu bod dinasyddion Ewropeaidd wedi gallu cael y cymorth roedd ei angen arnynt i wneud cais i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS) a pharhau i breswylio'n gyfreithlon yng Nghymru.

Er mwyn cefnogi busnesau drwy'r cyfnod pontio, rydym hefyd wedi parhau i ddarparu Busnes Cymru, sef ein gwasanaeth cymorth a chyngor am ddim i fusnesau. Mae Busnes Cymru wedi parhau i roi cyngor uniongyrchol a chydgysylltu â Llywodraeth y DU ar drefnu gweminarau a gohebiaeth gynghori arall i fusnesau yng Nghymru a chyfeirio busnesau atynt.

Bu canlyniadau gweithredol sylweddol i fusnes fel arfer Llywodraeth Cymru o ganlyniad i ymadael â'r UE. Bu'n rhaid inni ymgymryd â llawer o swyddogaethau newydd megis seilwaith a chyfundrefn weithredu ffiniau newydd. Bu'n rhaid inni reoli cryn dipyn o ddeddfwriaeth gymhleth y DU a Lloegr, roedd llawer ohoni wedi'i llywio gan ddulliau newydd arfaethedig o ymdrin â Chyfraith yr UE a ddargedwir; ac, wrth gwrs, rydym yn parhau i reoli'r goblygiadau sy'n deillio o golli cyllid buddsoddi'r UE (Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Gymdeithasol Ewrop a'r Cynllun Datblygu Gwledig) a'r broses o drosglwyddo'r llifoedd cyllid hyn i gronfeydd cenedlaethol.

Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd Gweinidog yr Economi gymorth gwerth mwy na £4 miliwn er mwyn helpu busnesau yng Nghymru i ddod o hyd i gyfleoedd allforio newydd mewn marchnadoedd rhyngwladol, buddsoddi mewn rhaglenni y bwriedir iddynt greu allforwyr newydd a helpu allforwyr presennol i dyfu ac ehangu i farchnadoedd tramor newydd yn ogystal â rhaglen newydd o ddigwyddiadau rhyngwladol.

Rydym hefyd wedi parhau i gydweithio â'n partneriaid yn y sector cyhoeddus ar faterion sy'n ymwneud â phontio o'r UE. Cyfarfu'r Panel Cynghori Llywodraeth Leol ar Drefniadau Pontio'r UE, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2018 ac a oedd yn cynnwys Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol cynrychioliadol, yn rheolaidd a gwnaethom barhau i ddarparu cyllid ar gyfer Cydgysylltydd Brexit ym mhob awdurdod lleol, a rhaglen cymorth CLILC, tan ddiwedd 2021-22.

Rhoddodd y panel hwn fewnbwn gwerthfawr ar amrywiaeth o effeithiau a materion ledled Cymru. Ar gyfer y sector iechyd a'r sector gwasanaethau cymdeithasol, mae trefniadau cydweithio wedi cynnwys sicrhau cydbwysedd rhwng materion gweithredol parhaus megis cynnal trefniadau Cymru a'r DU gyfan ar gyfer rheoli'r gwaith o gyflenwi nwyddau hanfodol a datblygu trefniadau newydd mewn meysydd pwysig megis gofal iechyd cyfatebol a diogelwch iechyd.

Rydym hefyd wedi canolbwyntio ar feysydd lle y caiff polisi ei ddiwygio dros y tymor hwy os bydd y rhain yn cael effeithiau gweithredol ar y sector yng Nghymru, yn ogsytal â datblygiadau polisi a datblygiadau rheoliadol eraill. Rydym wedi parhau i oruchwylio gweithgarwch drwy Grŵp Arwain Pontio'r DU/UE gyda chynrychiolwyr o'r GIG a sefydliadau gofal cymdeithasol.

Rydym wedi diweddaru a mireinio ein strwythurau gweithio a llywodraethiant trawslywodraethol. Mae pob mater ar ôl ymadael â'r UE (gan gynnwys Masnachu â Gweddill y Byd) bellach yn cael eu hystyried gan Fwrdd Gweithredu, sy'n darparu trefniadau llywodraethiant cadarn ar gyfer ein holl waith hanfodol ar faterion gweithredu a chyd-drafodaethau masnach.

Parhaodd y Bwrdd Gweithredu i adrodd i'r Bwrdd Sicrhau sy'n cael ei gadeirio gan yr Ysgrifennydd Parhaol ac sy'n darparu'r oruchwyliaeth a'r sicrwydd angenrheidiol ar gyfer ein gwaith. Cyfarfu Is-bwyllgor y Cabinet ar y Trefniadau Pontio Ewropeaidd a Masnach am y tro olaf ym mis Mawrth 2021 cyn etholiadau'r Senedd yn 2021, ac mae goruchwyliaeth Weinidogol o faterion pontio Ewropeaidd bellach yn cael ei darparu drwy strwythurau arferol Gweinidogion a'r Cabinet.

Mae a wnelo un o'r materion hyn â'n ffiniau a'r trefniadau newydd sydd eu hangen i archwilio nwyddau sy'n dod i mewn i Gymru o'r UE. Mae rhaglen bwysig o weithgarwch wedi bod yn mynd rhagddi er mwyn sefydlu Safleoedd Rheoli Ffiniau yng Nghymru er mwyn helpu i sicrhau bioddiogelwch drwy wirio dogfennau a chynnal archwiliadau ffisegol o gynhyrchion a fewnforir a all effeithio ar iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion, megis anifeiliaid byw, planhigion a bwydydd a bwyd anifeiliaid risg uchel. Roedd yn ofynnol i'r archwiliadau ffisegol hyn gael eu cynnal mewn Safleoedd Rheoli Ffiniau dynodedig. Mae'r angen i gynnal yr archwiliadau hyn ledled Prydain Fawr a'r ffordd o'u cynnal wedi'u diffinio ym Model Gweithredu Ffiniau Llywodraeth y DU sydd wedi'i ddiwygio sawl gwaith dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Cyhoeddwyd y newid mwyaf arwyddocaol gan y Gweinidog dros Gyfleoedd Brexit ym mis Ebrill 2022 a ohiriodd gyflwyno safleoedd mesurau rheoli ffiniau newydd tan ddiwedd 2023, ynghyd ag adolygiad o'r gyfundrefn weithredu, gan gynnwys atebion mwy technolegol. Disgwylir i gynigion gael eu cyhoeddi yn ystod hydref 2022. Mae swyddogion o Gymru yn cymryd rhan yng ngwaith Llywodraeth y DU i ddatblygu'r cynigion hyn, er mwyn deall yn well beth y byddant yn ei olygu i fesurau rheoli ffiniau yng Nghymru a'r goblygiadau i'r adnoddau sydd wedi'u buddsoddi yn y rhaglen hyd yma.

## Trefniadau Pontio'r UE – Nifer y Staff a Chostau

Er mwyn cefnogi ein trefniadau gweithio trawslywodraethol a llywodraethiant cyfnod pontio'r UE yn effeithiol yn ystod 2021-22, aeth Llywodraeth Cymru i £11.4m o wariant yn 2021-22 ar gyfer costau staffio a oedd yn ymwneud â thimau Pontio'r UE, a staff ym mhob un o Grwpiau Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar weithgarwch prosiectau Pontio'r UE. Roedd y swm o £11.4m yn cynnwys £4.4m (68 o aelodau o staff) i'r tîm pontio canolog a £7m (101 o aelodau o staff) yng ngrwpiau Llywodraeth Cymru.

## Deddfwriaeth Rheoli Cymorthdaliadau

O 1 Ionawr 2021 ymlaen, nid oedd rheolau cymorth gwladwriaethol yr UE yn gymwys mwyach i gyllid a mathau eraill o fesurau cymorth a roddir i fusnesau gan awdurdodau cyhoeddus yn y DU, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Yn lle rheolau cymorth gwladwriaethol yr UE, ymrwymodd y DU i gyflwyno ei chyfundrefn rheoli cymorthdaliadau ddomestig ei hun ac, yn ystod 2021, drafftiodd Llywodraeth y DU Fil Rheoli Cymorthdaliadau'r DU yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar ddechrau'r flwyddyn

Mae'r Bil 'bras' lefel uchel hwn yn nodi paramedrau cyfundrefn gymorthdaliadau'r DU yn y dyfodol, gyda manylion gweithredol i'w darparu mewn deddfwriaeth eilaidd a chanllawiau anneddfwriaethol sydd i ddilyn. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â swyddogion yn Llywodraeth y DU ac mewn llywodraethau datganoledig eraill yn barhaus, gan gynnwys drwy gyfarfodydd pedairochrog a chyfarfodydd dwyochrog rhwng Cymru a'r DU a oedd yn cael eu cynnal bob pythefnos, er mwyn dylanwadu ar y broses o ddatblygu'r Bil er mwyn adlewyrchu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn well, gan gynnwys cyn cyhoeddi'r Bil a thrwy welliannau'r Llywodraeth ar ôl iddo gael ei osod gerbron y Senedd.

Wrth i waith ddechrau ar ddatblygu is-ddeddfwriaeth ar ddechrau 2022, ailganolbwyntiodd swyddogion ymdrechion er mwyn ymgysylltu â swyddogion drafftio er mwyn ymgorffori blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar ddechrau'r broses ddatblygu. Mae'r gwaith o ddatblygu'r rheoliadau a'r canllawiau ategol hyn yn dal i fynd rhagddo. Cafodd y Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau newydd Gydsyniad Brenhinol ar ddiwedd mis Ebrill 2022 ac, ar hyn o bryd, bwriedir iddi ddod i rym yn ystod hydref 2022 ar ôl i is-ddeddfwriaeth ategol gael ei phasio.

# Ymateb i Argyfwng Wcráin



Lansiodd Llywodraeth y DU gynllun fisâu Cartrefi i Wcráin ar 14 Mawrth 2022 gyda llwybr Uwch-Noddwyr Llywodraeth Cymru yn mynd yn fyw ar 25 Mawrth 2022.

Cafodd grŵp o Weision Sifil eu dwyn ynghyd yn gyflym o holl Adrannau'r Llywodraeth er mwyn sefydlu tîm a chyflwyno'r Cynllun ar ran Llywodraeth Cymru. Arweiniwyd y tîm gan Gyfarwyddwr Tai ac Adfywio a Chyfarwyddwr Cymunedau a Threchu Tlodi. Cefnogwyd y rhain gan dri Dirprwy Gyfarwyddwr a sawl Gwas Sifil arall.

Ffurfiwyd partneriaethau yn gyflym rhwng rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Swyddogion Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Fforymau Lleol Cymru Gydnerth, Byrddau Iechyd Lleol a sefydliadau yn y trydydd sector. Yn dilyn hynny, gwnaed gwaith cynllunio amlasiantaethol er mwyn sefydlu model er mwyn galluogi Cynllun Uwch-Noddwyr Llywodraeth Cymru a helpu i sicrhau bod pobl o Wcráin yn cyrraedd yn ddiogel. Sefydlwyd hierarchaeth o gyfarfodydd hefyd er mwyn helpu i lywodraethu'r cynllun gan gynnwys strwythur argyfyngau sifil gyda chyfarfodydd Gweinidogol wythnosol rheolaidd.

Roedd y model hwn yn cynnwys sefydlu Canolfan Gyswllt a llinell gymorth a oedd ar gael ddydd a nos, saith diwrnod yr wythnos. Diben y Ganolfan Gyswllt oedd helpu i gydgysylltu'r broses o symud pobl a thracio eu taith er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd Cymru'n ddiogel. Symudwyd staff Canolfannau Cyswllt o'u rolau sydd bellach yn ddiangen fel Swyddogion Olrhain Cysylltiadau'n cefnogi'r frwydr yn erbyn COVID-19 er mwyn ffurfio staff Canolfan Gyswllt. Sefydlwyd cymorth iaith drwy Wasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru. Diweddarwyd gwefan Cymru Cenedl Noddfa hefyd er mwyn helpu pobl i ddeall y cynllun gan gynnwys sut i wneud cais.

Sefydlwyd rhwydwaith o Ganolfannau Cyrraedd mewn nifer o nodau trafnidiaeth allwedoddol ledled Cymru gan Awdurdodau Lleol yn gweithio mewn partneriaeth â swyddogion Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru. Rôl Canolfannau Cyrraedd oedd croesawu pobl i Gymru, er mwyn helpu i ddiwallu unrhyw anghenion iechyd neu les uniongyrchol a chefnogi cynlluniau teithio. Roedd Canolfannau Cyrraedd yn cynnig lle preifat i bobl orffwys a chael rhywbeth i'w fwyta neu ei yfed, roeddent yn weladwy iawn ac roeddent ar agor ddydd a nos, saith diwrnod yr wythnos. Roedd y Ganolfan Gyswllt yn cydgysylltu'r broses o symud pobl drwy Ganolfannau Cyrraedd a'u teithiau ymlaen i Ganolfannau Croeso.

Crëwyd rhwydwaith o Ganolfannau Croeso er mwyn rhoi llety cychwynnol i bobl a oedd yn cyrraedd Cymru o dan Gynllun Uwch-Noddwyr Cartrefi i Wcráin. Fe'u sefydlwyd mewn canolfan gweithgarwch teuluol, prifysgol a gwesty ymhlith mathau eraill o gyfleusterau. Roedd Canolfannau Croeso yn darparu lle i bobl deimlo'n ddiogel a hwyluso ymgysylltu â sefydliadau er mwyn diwallu holl anghenion iechyd a lles pobl a oedd yn cyrraedd o Wcráin. Sicrhawyd rhai cyfleusterau cwarantin a llety i anifeiliaid anwes er mwyn cefnogi pobl o oedd yn cyrraedd ag anifeiliaid anwes.

Cynhaliwyd yr holl weithgarwch hwn drwy bartneriaeth ac yn gyflym dros gyfnod byr. Mae'r buddsoddiad cynnar yn y cynllun gan Lywodraeth Cymru wedi sicrhau bod pobl yn cyrraedd Cymru yn ddiogel ers dechrau'r Cynllun a bod Cymru'n cael ei hystyried yn genedl noddfa gan y rhai sy'n cyrraedd.

# Costau Byw



Wrth i effaith y cynnydd cyflym mewn costau byw ddechrau dod i'r amlwg yn ystod rhan olaf y flwyddyn ariannol, helpodd Llywodraeth Cymru Weinidogion i ddatblygu ymateb tîm Cymru.

Cynhaliodd Gweinidogion Uwchgynadleddau ar yr argyfwng costau byw gyda rhanddeiliaid allweddol a gwnaethant ddatblygu ymatebion er mwyn mynd i'r afael â'r effeithiau uniongyrchol a chydweithio i wella cydnerthedd cymunedol tymor hwy.

Rhwng mis Tachwedd 2021 a diwedd mis Mawrth 2022, cyhoeddwyd pecyn cymorth gwerth £380 miliwn i aelwydydd incwm isel er mwyn lleddfu'r pwysau uniongyrchol ar gostau byw. Darparwyd y pecyn cymorth hwn drwy 2021-22 a 2022-23. Roedd y pecyn cymorth yn cynnwys cyllid ar gyfer Cynllun Cymorth Tanwydd y Gaeaf 2021-2022 a dalodd £200 i aelwydydd cymwys er mwyn iddynt allu cwrdd â chost biliau hanfodol dros gyfnod y gaeaf.

Darparodd £14.7m ychwanegol yn 2021-2 ar gyfer Cronfa Cymorth Dewisol fwy hyblyg gan sicrhau bod pobl y mae angen cymorth mewn argyfwng a chymorth brys arnynt yn ystod y pandemig yn cael y cymorth hwnnw. Roedd hefyd wedi'i gwneud yn bosibl i gymorth tanwydd y gaeaf ar gyfer cartrefi oddi ar y grid a grantiau atgyweirio boeleri cael eu darparu, rhwng 1 Hydref a 31 Mawrth, i aelwydydd na allent fforddio eu cyflenwad nesaf o olew neu LPG oherwydd caledi ariannol eithafol.

Dyrannwyd £3 miliwn arall er mwyn lleddfu pwysau'r galw cynyddol ar fanciau bwyd a chefnogi camau gweithredu i fynd i'r afael â thlodi bwyd. Roedd y swm hwn yn ychwanegol at y buddsoddiad o £2 miliwn a ddarparwyd ar gyfer y drydedd flwyddyn yn olynol er mwyn helpu sefydliadau bwyd cymunedol i fynd i'r afael â thlodi bwyd.

Bwriadwyd i'r Cynllun Cymorth Costau Byw gynnig cymorth ar unwaith i aelwydydd ac roedd yn cynnwys cronfa gwerth £152m ar gyfer darparu taliadau uniongyrchol gwerth £150 i fwy na miliwn o aelwydydd incwm is. Pennwyd y paramedrau ar gyfer y cynllun hwn gan Lywodraeth Cymru ac roedd yn cael ei ategu gan gynllun disgresiynol gwerth £25m a oedd yn galluogi awdurdodau lleol i gefnogi aelwydydd nad oeddent yn gymwys ar gyfer y prif gynllun.

Er mwyn sefydlu'r cynllun a'i roi ar waith yn gyflym, cafodd gwaith tîm polisi'r dreth gyngor Llywodraeth Cymru a thimau refeniw llywodraeth leol eu hailflaenoriaethu a chydweithiodd swyddogion yn agos â'i gilydd er mwyn llunio trefniadau talu yn seiliedig ar y defnydd o gofnodion treth gyngor presennol. Roedd defnyddio cofnodion trethi presennol a oedd wedi'u gwirio yn golygu y gellid targedu taliadau at aelwydydd cymwys a'u talu'n uniongyrchol i gyfrifon banc neu i ddeiliaid tai wedi'u henwi heb orfod gwneud fawr ddim gwaith prosesu na gwirio ychwanegol.

Roedd hefyd wedi dileu'r angen i aelwydydd wneud cais am gymorth, a oedd yn golygu bod nifer mawr o aelwydydd wedi manteisio ar y cynllun. Roedd y dull cydweithredol yn golygu bod manylion gweithredol y prif gynllun a'r cynllun disgresiynol a'r canllawiau ar gyfer y ddau wedi'u cytuno o fewn ychydig wythnosau i'r cyhoeddiad cychwynnol, gan ei gwneud yn bosibl i daliadau ddechrau yn fuan ar ôl hynny.

Darparodd ail ymgyrch genedlaethol Hawliwch yr Hyn sy'n Ddyledus i Chi, y bwriadwyd iddi annog pobl i hawlio budd-daliadau, negeseuon ar bob platfform, gan gynnwys y teledu, y radio a'r cyfryngau cymdeithasol a chafodd pobl a ymatebodd i alwad yr ymgyrch i weithredu gymorth i hawlio mwy na £2.1m o incwm ychwanegol. Datblygwyd a chyflwynwyd rhaglen o hyfforddiant i weithwyr rheng flaen y bwriadwyd iddi roi mwy o gyngor a chymorth mewn perthynas â budd-daliadau lles drwy fodelau cymorth i deuluoedd presennol. Mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol, datblygodd a chyhoeddodd swyddogion Becyn Cymorth Arferion Gorau sy'n nodi'r 'hyn sy'n gweithio' o ran helpu i symleiddio'r broses gwneud cais am fudd-daliadau datganoledig gan ei gwneud yn haws i bobl eu cael.

# Newid yn yr Hinsawdd



Nawr, yn fwy nag erioed, mae angen inni gymryd camau cadarn ar y cyd i leihau maint y newid a mynd i'r afael â'r effaith anochel ar ein hinsawdd a'r ffordd rydym yn byw ein bywydau, rhywbeth yr ydym ni a gweddill y byd yn ei brofi eisoes.

Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd camau ar fyrder i leihau allyriadau a sicrhau y gall Cymru wrthsefyll effeithiau anochel newid yn yr hinsawdd. Fel y nodwyd yn y Rhaglen Lywodraethu, mae swyddogion wedi mynd ati i ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn, gan sicrhau bod yr amgylchedd wrth wraidd ein prosesau gwneud penderfyniadau.

Adlewyrchir y newid hwn mewn pwyslais yn ein strwythur sefydliadol, gyda'r penderfyniad i gyflwyno Cyfarwyddwr Cyffredinol Newid Hinsawdd, Tracey Burke, o 1 Ebrill 2022 ymlaen. Mae'n adlewyrchu strwythur y portffolio Gweinidogol, a gyflwynwyd ym mis Mai 2021, gyda Julie James AS yn cyflawni rôl y Gweinidog Newid Hinsawdd a Lee Waters AS yn cyflawni rôl y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd. Mae'r portffolio newydd yn dwyn ynghyd sectorau allweddol portffolios yr amgylchedd, tai, ynni, cynllunio a thrafnidiaeth er mwyn ei gwneud yn bosibl i'r ffordd rydym yn gweithio, ein polisïau a'n penderfyniadau ynghylch buddsoddi mewn gael eu hystyried yn fwy o safbwynt systemau intregedig a chyfan.

Adlewyrchir yr ymrwymiad hwn i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn ein deddfwriaeth ynglŷn â datblygu cynaliadwy[12] a'n deddfwriaeth amgylcheddol[13] y cydnabyddir eisoes eu bod yn arwain y byd. Rydym wedi atgyfnerthu ein fframwaith a'n huchelgais ddeddfwriaethol drwy bennu allyriadau sero net erbyn 2050 fel y targed cyfreithiol, gan greu cyflymder newid newydd er mwyn cydnabod maint a natur frys yr heriau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd.

Rydym wedi datblygu system gynhwysfawr i fonitro'r ffordd y caiff ein camau gweithredu a'n gwerthoedd eu cyflawni, gan gynnwys: system monitro ac adrodd, adroddiadau cynnydd annibynnol gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd a gwaith craffu gan y Senedd a'i Phwyllgorau. Y Bwrdd Portffolio Newid Hinsawdd, a gadeirir gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, sydd bellach yn gyfrifol am reoli'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno polisi hinsawdd yn strategol, gan lunio barn gydgysylltiedig sy'n seiliedig ar wybodaeth.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys pob rhan o Lywodraeth Cymru sy'n cyfrannu at fynd i'r afael â newid hinsawdd neu y mae newid hinsawdd yn effeithio arnynt, ac yn cynnig cyfle i greu synergeddau. Mae'n sicrhau bod deiliaid mandad (y rhai â chyfrifoldebau polisi neu gyfrifoldebau gweithredol perthnasol) yn atebol am yr hyn y maent yn ei wneud a bod y portffolio yn dal ar y trywydd iawn i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir yn unol â'n targedau deddfwriaethol.

## Cymru Sero Net

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi cynllun er mwyn lleihau ein hôl troed carbon erbyn 2022-23. Yn unol â pholisi 77 yng Nghynllun Cymru Sero Net, mae Llywodraeth Cymru yn datblygu strategaeth a chynllun er mwyn cyflawni carbon sero net fel sefydliad, er mwyn helpu i gyflawni'r uchelgais gyfunol i sicrhau sector cyhoeddus sero net erbyn 2030 (polisi 76 Cymru Sero Net).

Er mwyn cyflawni ei huchelgais i fod yn sefydliad sero net erbyn 2030, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud ymrwymiadau cadarn yn erbyn pob un o'r prif feysydd sy'n cynhyrchu allyriadau, megis effeithlonrwydd ein hadeiladau, y ffordd rydym yn eu defnyddio ac yn symud rhyngddynt, y ffordd rydym yn cynnal ein busnes a'r nwyddau a'r gwasanaethau a brynir gennym. Lle y bo'n briodol, bydd y rhain yn targedu gostyngiadau mesuradwy absoliwt mew allyriadau carbon, wedi'u pennu yn erbyn llinell sylfaen 2018-19.

12 www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents
13 www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/3/contents/enacted

## Astudiaeth Achos

### Strategaeth Drafnidiaeth Cymru

Cyhoeddwyd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn 2021 a nododd ffordd newydd o feddwl sy'n sicrhau bod pobl a'r newid yn yr hinsawdd yn flaenoriaethau ac yn ganolog i'n system drafnidiaeth. Mae gan y Strategaeth dair blaenoriaeth, sef:

1. Lleihau'r angen i deithio yn y lle cyntaf drwy ddod â swyddi, siopau, gwasanaethau a chyfleusterau yn agos at lle mae pobl yn byw.
2. Sicrhau bod y dulliau teithio cynaliadwy, sef cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, yn ddewis deniadol naturiol.
3. Annog pawb i ddewis dulliau teithio cynaliadwy.

Ochr yn ochr â newid yn yr hinsawdd, mae cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb yn brif flaenoriaethau mawr i Lywodraeth Cymru ac mae'r cynllun hwn yn ceisio cyflawni pob un ohonynt.

Mae cyflawni blaenoriaeth 1 yn gofyn am gynllunio at y dyfodol er mwyn sicrhau cysylltedd ffisegol a digidol, gwasanaethau mwy hygyrch, mwy o weithio gartref ac o bell a mwy o deithio llesol. Ymhlith yr enghreifftiau mae'r canlynol: cyhoeddi ein strategaeth gweithio o bell ym mis Mawrth 2022 ac agor rhwydwaith o 25 o ganolfannau peilot; prosiect Porth Wrecsam gwerth miliynau o bunnau a fydd yn creu llwybrau trafnidiaeth bysiau a rheilffyrdd â gwell cysylltiadau i ganol trefi ac yn ailddatblygu'r safle o amgylch gorsaf reilffordd Wrecsam Cyffredinol, gan gynnwys datblygiadau masnachol a gwelliannau i fannau dinesig a mannau amwynder.

Er mwyn cyflawni blaenoriaeth 2, bydd angen buddsoddi mewn gwasanaethau a seilwaith carbon isel hygyrch, effeithlon a chynaliadwy fydd yn galluogi mwy o bobl i gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, a cherbydau allyriadau isel. Er enghraifft: gwnaethom ymgynghori ar ein cynigion uchelgeisiol i ddiwygio gwasanaethau bysiau er mwyn galluogi'r cyhoedd i reoli amlder a llwybrau gwasanaethau bysiau, a fydd, yn ei dro, yn ein galluogi i ymestyn eu cyrhaeddiad a'u hintegreiddio'n well â dulliau teithio eraill a sicrhau eu bod yn diwallu anghenion cymunedau ledled Cymru.

Er mwyn cyflawni blaenoriaeth 3, rydym yn ymgorffori dull strategol o newid ymddygiad ym mhob un o'n hymyriadau er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r canlynol: – y cyfle i ddewis dulliau teithio cynaliadwy – y gallu i ddefnyddio trafnidaeth gynaliadwy – y cymhelliant i symud o ddefnyddio ceir preifat. Er enghraifft, rydym yn canolbwyntio ar gynyddu cyfleoedd teithio llesol ar gyfer teithiau i'r ysgol. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i annog dulliau gweithredu cyfannol sy'n cyfuno gwelliannau i seilwaith drwy lwybrau a chyfleusterau newydd neu gau strydoedd fel rhan o strydoedd ysgol ag ymyriadau hyrwyddol. Mae ein rhaglen Teithiau Iach yn parhau i weithio gyda nifer mawr o gymunedau ysgol ledled Cymru er mwyn annog plant a theuluoedd i gerdded, sgwtio neu feicio i'r ysgol ar gyfer eu teithiau cyfan neu ran ohonynt.

Er mwyn cyflawni Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a lleihau allyriadau o drafnidiaeth, bydd angen newid sylweddol a fydd yn treiddio'n ddwfn i gymdeithas a bywydau unigolion. Mae'n rhaid inni weithredu ar y cyd, ym mhob rhan o gymdeithas, gyda phartneriaid cymdeithasol, llywodraethau, cymunedau a busnesau yn cydweithio i newid y ffordd rydym yn teithio. Mae'n amlwg y bydd angen i'r broses gyflawni'r strategaeth fod yn wahanol mewn lleoedd gwahanol ac y bydd yn rhaid i atebion gael eu teilwra i gefnogi ein cymunedau gwledig yn ogystal ag ardaloedd mwy trefol Cymru.

Nid ydym yn aros am gynllun 2022-23 ac rydym wedi gwneud cynnydd da fel y dangosir isod.

## Ystad Weinyddol Llywodraeth Cymru

Mae camau gweithredu i fynd i'r afael â newid hinsawdd yn rhan annatod o strategaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer y gweithle a gwaith cynllunio i reoli asedau. Mae'r dull o wella perfformiad amgylcheddol yr ystad weinyddol yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol iawn. Mae gostyngiadau sylweddol mewn allyriadau carbon ac ynni yn parhau i gael eu sicrhau, yn ogystal â lleihau faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi a faint o ddŵr a ddefnyddir.

Mae bioamrywiaeth hefyd yn cael ei gwella ym mhob rhan o'r ystad. Fel y nodwyd yn yr adroddiad Cyflwr yr Ystad 2020-21[14] mae ein camau gweithredu wedi lleihau allyriadau carbon o'r ystad 13% eleni o gymharu â'r flwyddyn flaenorol fel rhan o ostyngiad o 76% dros yr 11 mlynedd diwethaf. Cynyddodd cyfanswm y gwastraff sy'n cael ai ailgylchu (gan gynnwys treulio anaerobig) o 34 i 60 o dunelli dros yr un cyfnod.

Mae'r momentwm hwn yn cael ei gynnal. Yn y dyfodol, bydd prosesau adrodd ar allyriadau yn cyd-fynd â Chynllun newydd Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer Adrodd ar Garbon Sero Net. Ac mae llwybr wedi'i ddatblygu er mwyn cyflawni carbon sero net ar Ystad Weinyddol Llywodraeth Cymru erbyn 2030. Mae nifer o astudiaethau dichonoldeb wedi'u cwblhau ac o'r astudiaethau hyn caiff rhaglen wedi'i blaenoriaethu ei datblygu.

## Effaith Darparu Cyfarpar

Gan mai gweithio o bell neu hybrid yw'r opsiwn diofyn i bron pob aelod o staff, mae'r angen i gynnal fflyd o liniaduron bellach yn un sylfaenol. O fis Ionawr 2022 ymlaen, mae rhaglen dreigl i adnewyddu gliniaduron wedi'i sefydlu, sy'n darparu tua 150 o liniaduron newydd bob mis. Er mwyn mynd i'r afael ag effaith garbon y rhaglen hon, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno â'n cyflenwr i fabwysiadu rhaglen garbon, gan sicrhau bod gliniaduron yn garbon niwtral ar bob cam o'r broses o'u gweithgynhyrchu i'w cludo a'u defnyddio.

Mae hyn yn ychwanegol at ymdrechion presennol y cyflenwr i sicrhau y cânt eu cynhyrchu mewn ffordd gynaliadwy. Mae gliniaduron hefyd yn cael eu gwaredu'n ddiogel gan gyflenwr lleol sy'n sicrhau y caiff cyfarpar ei adnewyddu mewn ffordd gyfrifol neu ei ddatgymalu a'i ailgylchu, gan adfer metelau gwerthfawr ar yr un pryd.

14 www.llyw.cymru/ystad-weinyddol-llywodraeth-cymru

## Defnydd Adeiladau a Theithio a Theithio

Mae lefelau defnydd adeiladau wedi bod gryn dipyn yn is mewn ymateb i'r pandemig. Nifer cyfartalog y staff a oedd gweithio mewn swyddfa rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Ebrill 2022 oedd 350, sy'n cyfateb i leihad dyddiol cyfartalog yn nifer y staff ar y safle o 2854 neu ychydig dros 10% o gymharu â lefelau cyn COVID-19.

Mae dosbarthiad ein swyddfeydd ledled Cymru yn golygu bod y rhan fwyaf o staff yn byw yn eithaf agos i'w gweithle. Fodd bynnag, ar gyfartaledd, mae lefelau presenoldeb is mewn swyddfeydd wedi arwain at leihad o tua 15000 o filltiroedd y dydd yn nifer y teithiau at ddibenion cymudo (gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau teithio nad ydynt ar gael). Mae lleihad yn nifer y teithiau, at ddibenion cymudo a busnes, ac mewn allyriadau cysylltiedig mewn ymateb i gyfyngiadau ar y gweithle oherwydd y pandemig COVID-19, yn cynnig manteision amgylcheddol hirdymor sylweddol y byddwn yn ceisio eu sicrhau wrth inni newid i ffyrdd cyfunol o weithio.

Rydym yn parhau i hyrwyddo dewisiadau teithio cynaliadwy ac, ym mis Mehefin 2021, lansiwyd Cynllun Ceir Gwyrdd i staff. Mae'r cynllun yn galluogi staff i rentu car allyriadau carbon isel iawn sy'n allyrru 50g/km o $CO_2$ neu lai ar brydles a thalu amdano drwy aberthu cyflog. Mae'r Cynllun Ceir Gwyrdd yn cefnogi staff sy'n awyddus i ymateb i'r argyfwng hinsawdd, yn ogystal â dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Ochr yn ochr â Cymru Sero Net a COP Cymru, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r cynllun Gweithio gyda'n gilydd i gyrraedd sero net[15], sy'n cydnabod ac yn dangos dull Cymru gyfan o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd gydag addewidion ac astudiaethau achos o bob rhan o'r wlad. Rydym yn ymrwymedig i gydweithio am fod angen i bawb chwarae rhan yn y newidiadau a wnawn.

Nid mater y gellir ei adael i unigolion na'r farchnad rydd yw mynd i'r afael â newid hinsawdd. Mae'n gofyn am gydweithrediad ac rydym yn cydnabod y rôl ganolog sydd gennym i'w chwarae o ran sicrhau bod cydweithredu yn bosibl. Mae'r cyfrifoldeb galluogi hwn wedi'i ymgorffori ym mhob un o gamau gweithredu Llywodraeth Cymru fel y dangosir gan yr enghreifftiau isod.

## Economi Gylchol

Ym mis Mawrth 2021, gwnaethom gyhoeddi ein strategaeth economi gylchol, Mwy nag Ailgylchu[16], sy'n nodi ein hymrwymiad i ddatblygu diwylliant cyffredinol o ailddefnyddio, atgyweirio ac ailweithgynhyrchu yn ein cymunedau a chanol ein trefi. Yn ogystal ag atal gwastraff a'n helpu i ddatgarboneiddio, bydd hyn hefyd yn ein galluogi i sicrhau'r manteision economaidd a chymdeithasol. Mae'r broses o newid i economi gylchol yn gyfle allweddol i gefnogi datblygu economaidd rhanbarthol drwy annog cadwyni cyflenwi byrrach a ffocws mwy lleol a rhanbarthol ar gyfer caffael deunyddiau.

15 www.llyw.cymru/gweithio-gydan-gilydd-i-gyrraedd-sero-net-cynllun-cymru-gyfan
16 www.llyw.cymru/mwy-nag-ailgylchu

Yn 2021-22 cyfradd ailgylchu trefol Cymru oedd 65.2%, a oedd yn fwy na'r targed gofynnol statudol, sef 64%. Mae'r gyfradd ailgylchu uchel yng Nghymru yn atal mwy na 400,000 o dunelli o $CO_2$ y flwyddyn rhag cael eu gollwng i'r atmosffer ac mae'n gyfraniad allweddol at fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Mae Llywodraeth Cymru yn pennu'r targedau statudol ar gyfer Awdurdodau Lleol, mae wedi buddsoddi mwy nag £1bn ers datganoli mewn ailgylchu gwastraff cartrefi, a redir gan yr ymgyrch newid ymddygiad "Bydd Wych. Ailgylcha" ac mae'n darparu mynediad at wasanaeth ymgynghori arbenigol er mwyn gwella gwasanaethau gwastraff drwy Raglen Newid Gydweithredol WRAP Cymru. Ond, yn y pen draw, ymdrech gan 'Dîm Cymru" ydyw – Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a dinasyddion Cymru yn ailgylchu gartref.

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn prosiectau seilwaith ledled Cymru er mwyn cynyddu'r cyfraddau ailgylchu hyn ymhellach, lleihau allyriadau yn y gweithrediadau gwastraff ac ailgylchu (gan gynnwys cael gwared ar gerbydau diesel a chyflwyno cerbydau batri yn eu lle) a gwella gallu'r gweithrediadau hyn i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd.

Rydym hefyd yn parhau i arloesi a gwella ein polisïau, er enghraifft ar newidiadau mawr o ran y ffordd y caiff deunydd pecynnu gwastraff eu rheoli yn y dyfodol a chynnig ar gyfer cynllun dychwelyd ernes i Gymru a fydd yn cynnwys amrywiaeth eang o fathau o gynhwysyddion a deunyddiau: poteli gwydr a phlastig PET a thuniau dur ac alwminiwm 50ml i 3 litr o faint.

## Ynni

Nododd Cymru Sero Net ein huchelgais i sefydlu datblygwr ynni adnewyddadwy yn y sector cyhoeddus. Bydd y swyddogaeth newydd hon yn help i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ar dir cyhoeddus yng Nghymru mewn ffordd sy'n cadw mwy o fanteision a gwerth i gymunedau a dinasyddion yng Nghymru. Rydym wedi sefydlu bwrdd i ddatblygu'r gwaith hwn a gefnogir gan fewnbwn allanol ag arbenigedd ym meysydd datblygu ac ynni cymunedol. Mae gwaith dichonoldeb yn mynd rhagddo sy'n edrych ar y safleoedd hynny sydd â'r potensial mwyaf i'w datblygu. Bydd y gwaith hwn yn pennu maint ein huchelgais.

Er mwyn cefnogi ein huchelgais i newid i system ynni sero net gynaliadwy yng Nghymru, mae'n hanfodol bod gennym y seilwaith galluogi yn ein rhwydweithiau ynni. Rydym yn datblygu ein prosiect, Grid y Dyfodol, er mwyn mabwysiadu dull strategol o ymdrin â seilwaith grid. Rydym wedi penodi Catapwlt y System Ynni er mwyn cefnogi'r gwaith hwn ac rydym yn gweithio'n adeiladol gyda gweithredwyr y rhwydweithiau nwy a thrydan er mwyn datblygu senarios y cytunwyd arnynt ar gyfer y ffordd y bydd Cymru yn sicrhau'r system ynni sero net erbyn 2050 ac yna pa seilwaith sydd ei angen i wneud hynny.

Fel rhan o adolygiad ehangach o'r rhwystrau a'r cyfleoedd i gynyddu faint o ynni a gynhyrchir o ffynonellau adnewyddadwy yng Nghymru, arweiniodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd broses fanwl i nodi camau gweithredu a fydd yn cynyddu'r defnydd o wneir o ffynonellau ynni adnewyddadwy mewn ffordd sy'n cadw cyfoeth a gwerth yng Nghymru. Daeth y broses hon i ben â 21 o argymhellion ar gyfer camau gweithredu byrdymor, tymor canolig a thymor hwy er mwyn helpu i wireddu'r weledigaeth o gynhyrchu ynni

o ffynonellau adnewyddadwy er mwyn diwallu ein hanghenion ynni o leiaf a chyflymu camau gweithredu i leihau'r galw am ynni a chynyddu perchenogaeth leol cymaint â phosibl gan gadw manteision economaidd a chymdeithasol yng Nghymru[17].

Mae'r grŵp gwaith ymchwil manwl bellach yn helpu i roi'r argymhellion hynny ar waith. Mae rhoi'r argymhellion hyn ar waith yn gynnar yn cynnwys cymorth ariannol ychwanegol i Ynni Cymunedol Cymru sy'n cynyddu cymorth Llywodraeth Cymru i £750,000 dros y tair blynedd nesaf.

## Y Sector Cyhoeddus

Eleni, am y tro cyntaf, mae Llywodraeth Cymru wedi casglu a dadansoddi data o bob rhan o'r sector cyhoeddus, a rannwyd yn wirfoddol, er mwyn nodi ôl troed carbon sylfaenol y sector cyhoeddus, sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru. Ym mis Mai 2021, gwnaethom gyhoeddi Canllaw Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer Adrodd ar Garbon Sero Net[18], a'r Llwybr[19] y bwriedir iddo fod yn ganllaw cyffredinol i'w ddefnyddio gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru i amcangyfrif allyriadau sylfaenol a datblygu dull strategol o gyflawni sero net.

Mae'n galonogol gweld y fath ymateb ac ymgysylltu â'r broses adrodd yn y cylch cyntaf o gyflwyniadau, gydag 80% o sefydliadau yn adrodd ar gyfer 2020-21. Cyhoeddwyd canfyddiadau a phrofiadau y flwyddyn adrodd gyntaf arloesol hon ym mis Mehefin 2022[20] a chânt eu hadolygu bob blwyddyn fel rhan bwysig o'r broses o helpu i lywio ein camau gweithredu a'n blaenoriaethau.

Mae'r broses adrodd newydd hon yn cael ei chyflawni ar adeg pan mae'r rhan fwyaf o sefydliadau wedi datblygu cynlluniau gweithredu ysgrifenedig neu maent wrthi'n eu hysgrifennu. Rydym yn helpu i ddatblygu a chyflwyno'r cynlluniau hyn drwy Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a Rhaglen Gyllid Cymru, a fuddsoddodd £16m mewn prosiectau yn y sector cyhoeddus a phrosiectau cymunedol yn 2021-2022.

Mae'r cyfuniad o gymorth ariannol a thechnegol ers cyflwyno'r gwasanaeth yn 2018 wedi helpu'r sector cyhoeddus a mentrau cymunedol yng Nghymru i sicrhau buddsoddiad gwerth £155 miliwn er mwyn datblygu prosiectau'n ymwneud ag effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy a cherbydau di-allyriadau. Bydd y buddsoddiad eleni yn sicrhau arbedion ac incwm gwerth £123 miliwn i sefydliadau yn y sector cyhoeddus a mentrau cymunedol dros oes y prosiectau, gan arbed 253,000 o dunelli o $CO_2$ – sef yr un swm o $CO_2$ â 400 o gilometrau sgwâr o goed a amsugnir mewn blwyddyn – sydd deirgwaith yn fwy na Chaerdydd.

---

17 Gwaith ymchwil manwl ynni adnewyddadwy: argymhellion [HTML] | LLYW.CYMRU
18 www.llyw.cymru/canllaw-sector-cyhoeddus-ar-gyfer-adrodd-ar-garbon-sero-net - diweddarwyd Gorffennaf 2022
19 www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-07/trywydd-ar-gyfer-datgarboneiddio-ar-draws-sector-cyhoeddus-cymru.pdf
20 www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-05/data-argymhellion-sero-net-sector-cyhoeddus.pdf

# Iechyd a Gofal Cymdeithasol

GIG Cymru ar ei ben ei hun yw'r ffynhonnell fwyaf o allyriadau yn y Sector Cyhoeddus oherwydd maint yr ystad, yr arddwysedd ynni sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth ddydd a nos, saith diwrnod yr wythnos drwy gydol y flwyddyn a'r galw am wasanaethau a nwyddau gofal iechyd. Roedd hyn wedi dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Cyflenwi Strategol ar gyfer datgarboneiddio GIG Cymru a'r dull gweithredu a fabwysiadwyd yn y cynllun hwnnw[21], (y Cynllun Cyflenwi), a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021 ac a ddatblygwyd drwy ddull partneriaeth â'r GIG. Mae'n cynnwys 46 o fentrau sy'n darparu map trywydd ar gyfer y camau datgarboneiddio sydd eu hangen, o leiaf, er mwyn i GIG Cymru gyflawni ei darged o 34% o ran lleihau allyriadau carbon.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Rhaglen Genedlaethol a Bwrdd Rhaglen Genedlaethol (menter gydweithredol rhwng Llywodraeth Cymru, clinigwyr, y GIG ar arweinwyr a chynrychiolwyr Gofal Cymdeithasol), i arwain a chefnogi'r agenda newid hinsawdd a datgarboneiddio ar gyfer y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r Rhaglen Genedlaethol yn chwarae rôl arwain hanfodol drwy bennu'r cyfeiriad i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol, ymestyn cynlluniau i'r rhannau o'r system nas cwmpesir gan y Cynllun Cyflenwi Strategol a llywio'r gwaith o gyflawni ymrwymiadau allweddol. Yn 2021-2022, neilltuwyd cyllid cyfalaf gwerth £13m ar gyfer rhaglen datgarboneiddio'r GIG, roedd Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn gallu cael ei gael drwy'r Bwrdd Cynghori ar Gyllido Ystadau a asesir gan gymheiriaid.

Mae wedi cefnogi amrywiaeth o gynlluniau iechyd gan gynnwys uwchraddio i oleuadau LED, prosiectau effeithlonrwydd a phaneli solar. At hynny, mae benthyciadau cyfalaf drwy Raglen Cyllido Cymru 2021-22, wedi cefnogi prosiectau iechyd eraill gan gynnwys fferm solar a berchenogir gan ysbyty yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Ochr yn ochr â'r her sy'n gysylltiedig â lleihau allyriadau, mae'n anochel y bydd systemau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ar flaen y gad wrth ymateb i effeithiau andwyol yr Argyfwng Hinsawdd ar ganlyniadau iechyd a'r ffordd y darperir gwasanaethau. Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn deall pa weithgarwch addasu sydd wedi digwydd hyd yma.

Mae dull y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol o gynllunio ar gyfer addasu yn llai aeddfed na datgarboneiddio ac rydym yn cydnabod, er mwyn symud ymlaen yn gyflym, ei bod yn bosibl y bydd angen arbenigedd allanol i godi ymwybyddiaeth a datblygu'r canllawiau a'r pecynnau cymorth sydd eu hangen er mwyn helpu i lunio cynlluniau gwell.

21 https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/cynllun-cyflenwi-strategol-datgarboneiddio-gig-cymru_0.pdf

# Llywodraeth Leol

Er gwaethaf yr heriau sylweddol sy'n gysylltiedig â threfniadau pontio'r UE a'r ymateb parhaus i'r pandemig COVID-19, mae Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn cydnabod pwysigrwydd mynd i'r afael â newid hinsawdd ac mae pob un am weld adferiad gwyrdd (a chyfiawn). O ganlyniad i gytundeb ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru, CLlLC ac Awdurdodau Lleol:

- mae newid hinsawdd yn eitem sefydlog ar agenda holl gyfarfodydd Cyngor Partneriaeth Cymru, sef y fforwm gwleidyddol i Weinidogion ac arweinwyr yn y sector cyhoeddus gan gynnwys Arweinwyr pob un o'r 22 o awdurdodau lleol, er mwyn cydnabod ei bwysigrwydd a'r flaenoriaeth a roddir iddo ar gyfer gweithredu. O ganlyniad i'r arweiniad gwleidyddol hwn, mae pob awdurdod lleol wedi rhoi Cynlluniau Gweithredu ar gyfer Datgarboneiddio ar waith, sy'n adlewyrchu ymrwymiadau awdurdodau unigol a'r amrywiaeth o fentrau a gwaith datgarboneiddio sy'n mynd rhagddynt ledled Cymru.

- mae Llywodraeth Cymru wedi helpu i sefydlu Panel Strategaeth Ddatgarboneiddio Llywodraeth Leol (a sefydlwyd ym mis Tachwedd 2020) i arwain a chefnogi gwaith datgarboneiddio mewn llywodraeth leol a rhoi trosolwg strategol ohono. Mae'r Panel Strategaeth yn cynnwys prif weithredwyr cynrychioliadol o awdurdodau lleol ledled Cymru sy'n cynrychioli eu rhanbarth (nid dim ond eu sefydliad eu hunain), aelodau o Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac ochr yr undebau llafur ynghyd ag arbenigwyr technegol ac mae'n cyfarfod bob mis. Gan gydweithio â'i gilydd, mae'r Panel yn rhannu arbenigedd, tystiolaeth ac atebion er mwyn sicrhau bod buddsoddiad, strategaeth a pholisi mor effeithiol â phosibl.

Mae'r Panel Strategaeth yn defnyddio map trywydd Datgarboneiddio'r Sector Cyhoeddus[22] a'r pedwar maes â blaenoriaeth (sef Trafnidiaeth, Adeiladau, Defnydd Tir a Chaffael) fel fframwaith lefel uchel ar gyfer dull gweithredu strategol cyson a dull 'Tîm Cymru'. Yn ystod 2021, datblygodd y Panel Strategaeth ymrwymiadau Sero Net uchelgeisiol mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, a gymeradwywyd gan arweinwyr awdurdodau lleol mewn cyfarfod o'r Cyngor Partneriaeth ac a oedd yn cynnwys Cymru Sero Net.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £1.49m dros bum mlynedd er mwyn i CLlLC gyflwyno rhaglen gymorth er mwyn helpu awdurdodau i leihau allyriadau a chyflawni eu hymrwymiadau o ran Sero Net. Mae'r gwaith cydgysylltu canolog hwn yn helpu i sicrhau dull gweithredu cyson, yn osgoi dyblygu ymdrechion ac yn sicrhau y caiff gwersi a ddysgwyd neu brosiectau peilot eu rhannu'n gyson er mwyn i weithgareddau allu cael eu datblygu neu eu hehangu er mwyn manteisio i'r eithaf ar adnoddau y mae pen draw iddynt. Mae adolygiad manwl ar y cyd o gynllun gweithredu pob awdurdod[23] wedi nodi arferion da, bylchau a'r camau nesaf er mwyn nodi ble y gellid targedu cymorth pellach.

Mae'r rhaglen yn darparu amrywiaeth o gymorth gan gynnyws pecynnau cymorth, ymchwil a gomisiynwyd i ymyriadau addas, hyfforddiant i feithrin gwybodaeth ac arbenigedd a digwyddiadau i hwyluso rhannu arferion gorau.

22 www.llyw.cymru/statws-carbon-sero-net-erbyn-2030-trywydd-sector-cyhoeddus-cymru
23 www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=3262 [Saesneg yn Unig]

# Adrodd ar Gynaliadwyedd

Mae a wnelo'r wybodaeth a gyflwynir isod ag Ystadau Gweinyddol Llywodraeth Cymru, y ceir rhagor o wybodaeth amdanynt ar dudalennau 47 i 49.

| **Nwyon tŷ gwydr** | **2014/ 2015** | **2015 / 2016** | **2016 / 2017** | **2017/ 2018** | **2018 / 2019** | **2019 / 2020** | **2020 / 2021** | **2021 / 2022** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr Allyriadau Gros (tunelli o CO2e) | 8.4 | 6.9 | 6.3 | 5.4 | 4.2 | 3.7 | 3.5 | 3.0 |
| Cyfanswm yr Allyriadau Gros Cwmpas 1 Nwy (tunelli o CO2e) | 1.3 | 1.1 | 1.1 | 1.1 | 1.0 | 1.0 | 1.6 | 1.4 |
| Cyfanswm Allyriadau Gros Cwmpas 2 Trydan (tunelli o CO2e) | 7.1 | 5.8 | 5.2 | 4.3 | 3.2 | 2.6 | 1.8 | 1.5 |
| Trydan oriau gigawat | 13.4 | 11.8 | 11.6 | 11.2 | 10.5 | 10.3 | 8.1 | 7.3 |
| Nwy oriau gigawat | 7.1 | 5.8 | 5.8 | 6 | 5.7 | 5.8 | 8.8 | 7.9 |
| Gwariant ar Ynni (£M) | 2.1 | 2.1 | 2.1 | 2.0 | 2.1 | 2.1 | 2.5 | 2.1 |
| Lwfansau'r Ymrwymiad Lleihau Carbon | 0.16 | 0.27 | 0.1 | 0.1 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| **Gwastraff (tunelli)** | **2014/ 2015** | **2015 / 2016** | **2016 / 2017** | **2017/ 2018** | **2018 / 2019** | **2019 / 2020** | **2020 / 2021** | **2021 / 2022** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y gwastraff | 500 | 498 | 563 | 350 | 372 | 284 | 50 | 72 |
| Tirlenwi | 127 | 112 | 104 | 41 | 3 | 3.8 | 1.1 | 1.4 |
| Troi Gwastraff yn Ynni | | | | | 41 | 47 | 15 | 10 |
| Ailddefnyddiwyd / Ailgylchwyd | 314 | 322 | 396 | 222 | 245 | 150 | 24 | 47 |
| Treulio Anaerobig Bwyd | 59 | 64 | 63 | 87 | 83 | 83 | 10 | 13 |

| Gwastraff (%) | 2014/ 2015 | 2015 / 2016 | 2016 / 2017 | 2017/ 2018 | 2018 / 2019 | 2019 / 2020 | 2020 / 2021 | 2021 / 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tirlenwi | 25.4% | 22% | 18% | 12% | 0.8% | 1% | 2% | 2% |
| Troi Gwastraff yn Ynni | | | | | 12% | 17% | 29% | 14% |
| Ailddefnyddiwyd / Ailgylchwyd | 62.8% | 64% | 70% | 63% | 66% | 53% | 49% | 66% |
| Treulio Anaerobig Bwyd | 11% | 12% | 11% | 25% | 22% | 29% | 20% | 18% |

| Gwastraff (%) | 2014/ 2015 | 2015 / 2016 | 2016 / 2017 | 2017/ 2018 | 2018 / 2019 | 2019 / 2020 | 2020 / 2021 | 2021 / 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DŴR (m3 y person y flwyddyn) | 8 | 8 | 7.1 | 6.3 | 6.2 | 5.6 | 2.1 | 2.5 |

## Astudiaeth Achos

### COP26 a COP Cymru

Ym mis Tachwedd 2021, gwnaeth Llywodraeth Cymru ynghyd â sefydliadau o bob rhan o Gymru sefyll i fyny i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy gynrychioli Tîm Cymru yn COP26 yn Glasgow (Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd) ac yma yn y wlad hon, drwy drefnu COP Cymru.

Tynnodd COP26 sylw ar y rôl y mae angen i weithio mewn partneriaeth ei chwarae ar bob lefel.

Roedd yn braf clywed yn uniongyrchol am sut mae bod yn genedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang yn golygu lleihau ein hallyriadau ein hunain yn ogystal â bod yn ystyriol o'r ffordd y mae'r hyn rydym yn ei wneud yn effeithio ar wledydd eraill a'r ffaith bod gennym gyfrifoldeb i helpu eraill i leihau eu hallyriadau. Gwnaethom ddangos yr ymrwymiad hwn drwy lofnodi datganiad hanesyddol y Gynghrair Tu Hwnt i Olew a Nwy yn COP26, gan ymuno â 10 gwlad a rhanbarth arall er mwyn rhoi terfyn ar weithgarwch chwilio am olew a nwy erbyn 2035.

Roedd COP Cymru yn cynnwys cyfres o ddigwyddiadau a thrafodaethau ynghylch newid yn yr hinsawdd rhwng 28 Hydref a 26 Tachwedd 2021.

Gwnaethom lansio Cynllun Cymru Sero Net, cynnal pedair Sioe Deithiol Ranbarthol fel rhan o COP26 ledled Cymru ac Wythnos Hinsawdd Cymru; sgwrs pum diwrnod yn cwmpasu'r wlad gyfan am y camau y mae angen inni eu cymryd ar y cyd er mwyn sicrhau bod Cymru yn cyflawni ei dargedau newid hinsawdd ac yn addasu i batrymau'r tywydd sy'n newid.

Roedd y rhaglen lwyddiannus yn cynnwys 38 o sesiynau a 200 o siaradwyr a ymgysylltodd â mwy na 3,800 o gyfranogwyr rhithwir.

Gwnaethom lwyddo i ddwyn ynghyd swyddogion Llywodraeth Cymru â rhanddeiliaid, sefydliadau, grwpiau cymunedol ac unigolion o bob rhan o Gymru er mwyn ysgogi trafodaeth bwysig ynghylch y camau sydd angen eu cymryd ar fyrder i ymateb i'r argyfwng hinsawdd.

# Cyflawni ein Hymrwymiad i Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol



Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio gyda phobl, cymunedau a'i gilydd yn well, canolbwyntio ar atal problemau cyn iddynt godi, a mabwysiadu dull gweithredu mwy cydgysylltiedig.

Mae saith nod llesiant ac egwyddor datblygu cynaliadwy (pum ffordd o weithio) Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu fframwaith clir ar gyfer prosesau gwneud penderfyniadau gwasanaethau cyhoeddus.

## Arweiniad

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cyflymu gweithgarwch o dan agenda Cenedlaethau'r Dyfodol drwy ein Fforwm Cenedlaethol i Randdeiliaid. Mae'r Fforwm, a sefydlwyd ym mis Ionawr 2021, wedi rhoi mewnbwn ar feysydd megis amrywiaeth mewn cynaliadwyedd, codi ymwybyddiaeth a meithrin dealltwriaeth o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a dull cyflawni Llywodraeth Cymru.

Am y tro cyntaf, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ein hamcanion llesiant fel rhan o'r Rhaglen Lywodraethu[24] ar gyfer tymor y Senedd hon. Mae hyn yn dangos rôl ganolog Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ein syniadaeth a'n prosesau llunio polisi a bydd yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni saith nod llesiant Cymru. Ochr yn ochr â'r Rhaglen Lywodraethu, gwnaethom gyhoeddi'r datganiad llesiant[25] sy'n nodi sut mae ein hamcanion llesiant yn cyflawni ein dyletswydd statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yn 2021, anfonodd Llywodraeth Cymru chwe swyddog i fod yn rhan o garfan 2021-22 Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Academi yn helpu i sicrhau bod gan bobl ifanc ledled Cymru y sgiliau, yr hyder a'r brwdfrydedd i hyrwyddo gwerthoedd ac ethos Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Ymateb i waith craffu

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi bod yn destun cryn dipyn o waith craffu o ran ei heffeithiolrwydd fel fframwaith deddfwriaethol i sicrhau bod Cymru'n fwy cynaliadwy. Mae adroddiadau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (y 5ed Senedd), Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Archwilydd Cyffredinol yn darparu nifer mawr o ganfyddiadau a syniadau am sut y gall y Llywodraeth a chyrff cyhoeddus ymgorffori datblygu cynaliadwy yn y ffordd y maent yn gweithio. Mae'r adroddiadau hyn yn dal i fod yn rhan annatod o gylch y Ddeddf ac, ym mis Hydref 2021, cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru[26] i'r adroddiadau hyn, a oedd yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd yn y misoedd a'r blynyddoedd sydd i ddod.

Ym mis Ionawr 2022, lansiodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Adolygiad Adran 20[27] o'r modd y mae peirianwaith *Llywodraeth Cymru yn gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*. Rydym wedi ymrwymo ar y cyd i welliant parhaus, ac yn gwerthfawrogi'r cyfle hwn i ddeall yn well sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar hyn o bryd, i nodi gwelliannau ymarferol, ac i rannu'r hyn ddysgwyd gyda'r sector cyhoeddus ehangach.

Bydd yr adolygiad yn bwydo i mewn i'n dull o ddysgu a gwella'n barhaus o ran y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn dwysáu sut mae'n gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan adeiladu ar y cynnydd rydym wedi'i wneud.

---

24 www.llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu
25 www.llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu-2021-i-2026-datganiad-llesiant
26 www.llyw.cymru/ymatebion-llywodraeth-cymru-i-adroddiadau-ar-ddeddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru
27 www.cenedlaethaurdyfodol.cymru/

# Llunio Dyfodol Cymru

Drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i saith nod llesiant, mae gennym fframwaith ar gyfer dyfodol Cymru: Cymru sy'n gyfiawn yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol a Chymru yr hoffem i'n plant a'n hwyrion a'n hwyresau ei hetifeddu gennym. Yn 2021, lansiwyd ein rhaglen Llunio Dyfodol Cymru, sy'n dwyn ynghyd y cerrig milltir cenedlaethol, dangosyddion cenedlaethol ac Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol.

Mae ein cerrig milltir cenedlaethol yn darparu targedau inni anelu atynt yn y dyfodol ac yn rhoi inni ryw syniad o faint a chyflymder y newid sydd ei angen a'n dangosyddion cenedlaethol, sy'n mesur ein cynnydd wrth weithio tuag at gyflawni ein nodau llesiant. Yn 2021, cynhaliwyd ymgynghoriad ar y gyfres gyntaf o gerrig milltir cenedlaethol a newidiadau i'r dangosyddion cenedlaethol. Yn seiliedig ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi ychwanegu pedwar dangosydd cenedlaethol ar gyfer cyfiawnder, teithio, costau'n ymwneud â thai a chynhwysiant digidol, sydd oll yn faterion y dywedwyd wrthym fod iddynt fwy o rôl o ran llunio ein llesiant cenedlaethol nag a oedd yn wir cyn y pandemig, gan ddod â'n cyfanswm i 50 o ddangosyddion cenedlaethol[28].

Yn ogystal, gosodwyd y gyfres gyntaf o gerrig milltir cenedlaethol gerbron y Senedd[29] ac, yn ystod haf 2022, ymgynghorwyd ar yr ail gyfres, gyda'r nod o'u cyhoeddi ar ddiwedd 2022. Cyhoeddwyd hefyd ail fersiwn o Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol[30] yn 2021, sy'n dwyn ynghyd, mewn un lle hygyrch, wybodaeth awdurdodol am y tueddiadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol allweddol sy'n debygol o effeithio ar lesiant Cymru yn y dyfodol. Mae pennu'r cerrig milltir cenedlaethol, diweddaru ein dangosyddion cenedlaethol ac edrych o'r newydd ar dueddiadau'r dyfodol sy'n llunio Cymru yn sicrhau bod y nodau llesiant yn parhau i fod yn berthnasol i fywydau pobl nawr a'r heriau rydym yn eu hwynebu heddiw ac y byddwn yn eu hwynebu yn y dyfodol.

Ym mis Medi 2021, cyhoeddwyd y fersiwn ddiweddaraf o adroddiad Llesiant Cymru[31]. Mae'r adroddiad blynyddol, a gyhoeddir gan Brif Ystadegydd Llywodraeth Cymru, yn ein helpu i asesu a ydym yn gwneud cynnydd yn erbyn y saith nod llesiant cenedlaethol. Ym mis Medi 2022, byddwn yn cyhoeddi'r fersiwn nesaf o'r adroddiad, a fydd yn darparu'r diweddariad cyntaf ar y cynnydd sydd wedi'i wneud tuag at gyrraedd y cerrig milltir cenedlaethol.

Fel rhan o raglen Llunio Dyfodol Cymru, gwnaethom hefyd lansio platfform blog[32], sy'n cael ei ddefnyddio i roi gwybod i randdeiliaid am y cynnydd rydym wedi'i wneud a pharhau â'r sgwrs â'n rhanddeiliaid.

28 www.llyw.cymru/llesiant-cymru
29 www.llyw.cymru/llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-dangosyddion-cenedlaethol-2021
30 www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021
31 www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2021
32 www.lluniodyfodolcymru.blog.llyw.cymru/

## Meithrin enw da a rhwydweithiau rhyngwladol

Mewn ymateb i ddiddordeb rhyngwladol yn null Llywodraeth Cymru o ymdrin â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rydym yn parhau i rannu ein profiad â gwledydd a rhanbarthau eraill. Fel aelod o bartneriaeth Llywodraethau'r Economi Llesiant (WEGo), rydym yn cydweithio â swyddogion o'r Alban, Seland Newydd, y Ffindir, Gwlad yr Iâ a Chanada i feithrin arbenigedd, rhannu arferion polisi a datblygu ein huchelgais a rennir i greu economïau sy'n seiliedig ar lesiant. Ym mis Tachwedd 2021, yn ystod COP26, cyfarfu arweinwyr o wledydd sy'n rhan o WEGo i ailddatgan eu hymrwymiad i newid i economi llesiant er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd byd-eang.

Mae ein haelodaeth o Regions4[33] – sef rhwydwaith byd-eang o fwy na 43 o wladwriaethau a rhanbarthau sy'n gweithio ar ddatblygu cynaliadwy, newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth, yn parhau i fod yn rhwydwaith pwysig i gysylltu ag eraill mewn perthynas â hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Yn 2021, siaradodd y Prif Weinidog yn nigwyddiad Regions4, 'Building a Sustainable and Resilient Future', ochr yn ochr â'n partneriaid byd-eang.

Mae ei brif neges, sef yr ardal leol a chydsafiad, yn adlewyrchu pwysigrwydd y gymuned wrth chwarae ei rhan i gyflawni'r nodau llesiant. Siaradodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn uwchgynhadledd Rhwydwaith Compact Byd-eang y Cenhedloedd Unedig y DU ar 'Fusnes Cyfrifol a Nodau Datblygu Cynaliadwy', lle y nododd agenda datblygu cynaliadwy uchelgeisiol Llywodraeth Cymru a'i hymrwymiad i genedlaethau'r dyfodol.

Byddwn yn parhau i arwain yr agenda llesiant drwy ein hymdrechion rhyngwladol, gan gyflawni ein hamcan llesiant i roi'r presenoldeb cryfaf posibl i Gymru ar y llwyfan byd-eang.

## Galluogrwydd Polisi

Mae llunio polisi yn un o'r pedair swyddogaeth weithredol graidd a nodir yn Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru. Er bod y mesurau yn y thema hon yn dal i gael eu datblygu, canfu Arolwg Pobl 2021 fod ychydig dros chwarter staff Llywodraeth Cymru yn alinio eu hunain â'r proffesiwn polisi, gyda 26% o'r ymatebwyr yn nodi bod 'Polisi' yn adlewyrchu'r math o waith y maent yn ei wneud yn eu prif swydd orau. Roedd y ffigur hwn ychydig yn uwch na'r un a gofnodwyd ar gyfer y flwyddyn flaenorol (24%).

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cyflymu gweithgarwch er mwyn atgyfnerthu ein gallu i lunio polisi. Ein nod yw creu system bolisi o'r radd flaenaf sy'n cefnogi ac yn galluogi prosesau gwneud penderfyniadau da. Ategir hyn drwy ysgogi gwelliannau a phroffesiynoldeb mewn prosesau gwneud penderfyniadau a chreu diwylliant sy'n cefnogi ac yn meithrin proffesiwn polisi medrus, ymgysylltiol ac arloesol i lunio polisïau gwell.

33 www.regions4.org/

Yn 2021, gwnaethom ddatblygu'r fframwaith galluogrwydd polisi ymhellach er mwyn cefnogi datblygiad a thaith ddysgu llunwyr polisi. Mae'r fframwaith galluogrwydd polisi a'r cymorth cyfatebol a gynigir yn fecanwaith allweddol i sicrhau gwelliant system gyfan mewn galluogrwydd polisi a phrosesau llunio a chyflwyno polisi a ategir gan ddull Cymru o lunio polisi. Gan ganolbwyntio ar bobl, mae'n disgrifio'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau (gan gynnwys yr agweddau ar Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) sydd eu hangen i lunio a chyflwyno polisi yn effeithiol yng nghyd-destun Cymru ac yn darparu llwybr datblygu i lunwyr polisi, darpar lunwyr polisi a thimau polisi feithrin dealltwriaeth o'r hyn y mae llunwyr polisi da yn ei wybod ac yn ei wneud.

Ar ddechrau 2021, cynhaliwyd adolygiad o'n gallu i lunio polisi yn ystod argyfwng er mwyn sicrhau bod y Fframwaith a'i briodoleddau yn parhau i fod yn addas at y diben yn dilyn y pandemig COVID-19. Bydd y wybodaeth a geir o'r adolygiad hwn yn bwydo i mewn i'r broses o ddatblygu'r fframwaith galluogrwydd polisi a'r hyn y mae'n ei gynnig i lunwyr polisi ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru.

Mae'r templed ar gyfer llythyrau cylch gwaith Tymor y Llywodraeth yn cynnwys gofyniad i fodloni'r ddyletswydd llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd angen llunio Llythyrau Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth newydd yn dilyn Etholiadau Senedd Cymru a gyhaliwyd ym mis Mai 2021, pan fyddynt yn ofynnol. Timau Partneriaeth Cyrff Hyd Braich fydd yn gyfrifol am asesu i ba raddau mae Cyrff Hyd Braich yn bodloni'r gofynion hynny, yn seiliedig ar wybodaeth fonitro a roddir iddynt gan y Cyrff.

## Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus[34] o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel partneriaethau statudol ym mhob awdurdod lleol (er bod rhai wedi uno er mwyn creu olion troed mwy o faint). Eu prif ddiben yw cyflwyno cynllun llesiant, sy'n disgrifio sut y bydd yr aelodau yn cydweithio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardal.

Gwahoddir Gweinidogion Cymru i gymryd rhan yng nghyfarfodydd pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac fe'u cynrychiolir gan aelodau o'r Uwch Wasanaeth Sifil. Maent yn chwarae rôl arwain bwysig drwy gadarnhau'r ymrwymiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn fwy penodol, maent yn rhan o drafodaethau byrddau ac yn cyfrannu gwybodaeth am weithgareddau a datblygiadau allweddol ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. Maent hefyd yn rhannu gwybodaeth a ddarperir gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus â Llywodraeth Cymru er mwyn llunio a chyflwyno polisïau gwell. Maent yn chwarae rôl gysylltu allweddol rhwng llywodraeth genedlaethol a gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen, gan gefnogi'r ymrwymiad i Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru.

34 www.llyw.cymru/byrddau-gwasanaethau-cyhoeddus

# Rheoli ein Rhaglen Ddeddfwriaethol



Mae rheoli gwaith ar weithgareddau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn brif ffocws i'r sefydliad.

Mae'r angen i wneud cryn dipyn o is-ddeddfwriaeth er mwyn ymateb yn gyflym i'r pandemig COVID-19 yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi golygu bod Llywodraeth Cymru wedi gorfod blaenoriaethu ei gwaith deddfwriaethol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae cryn dipyn o sylw hefyd wedi'i roi i ymateb i raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU.

## Deddfwriaeth Sylfaenol

Gwnaeth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad Ddatganiad[35] i'r Senedd ym mis Gorffennaf 2021 yn nodi blaenoriaethau deddfwriaethol y Llywodraeth ar gyfer y flwyddyn i ddod. Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan y cyfrifon hyn, mae'r Llywodraeth wedi gwneud cryn dipyn o waith ar y blaenoriaethau hynny a nodwyd yn natganiad y Cwnsler Cyffredinol ac ymatebodd i'r Rhaglen Lywodraethu newydd drwy wneud cynnydd o ran yr ymrwymiadau hynny sy'n gofyn am gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol yn ystod tymor y chweched Senedd. O ganlyniad, mae pedwar Bil wedi'u cyflwyno i'r Senedd ers hynny.

35 www.llyw.cymru/datganiad-llafar-y-rhaglen-ddeddfwriaethol-5

### Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

Mae Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yn darparu ar gyfer sefydlu Comisiwn newydd ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil fydd y corff rheoleiddio fydd yn gyfrifol am gyllido, goruchwylio a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Mae addysg drydyddol yn cwmpasu addysg ôl-16 gan gynnwys addysg bellach ac addysg uwch, dysgu oedolion yn y gymuned ac addysg seiliedig ar waith, prentisiaethau a dosbarthiadau chwech ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol.

### Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu)

Bydd Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) yn cyflwyno pŵer i'w gwneud yn bosibl i elfennau penodol o ddeddfwriaeth trethi yng Nghymru gael eu diwygio yn y dyfodol, pan fydd angen. Mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru er mwyn iddynt allu addasu Deddfau Trethi Cymru (ac is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y deddfau hynny) o dan amgylchiadau penodol. Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol ddrafft neu weithdrefn gadarnhaol "gwnaed", yn dibynnu ar faint o frys sydd i gyflwyno'r rheoliadau.

### Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

Mae'r Bil hwn yn darparu ar gyfer fframwaith i wella llesiant pobl Cymru drwy wella gwasanaethau cyhoeddus drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, gan hyrwyddo gwaith teg a phrosesau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol.

### Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cydgrynhoi) (Cymru)

Diben y Bil hwn yw cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru.

## Is-ddeddfwriaeth

Mae cryn dipyn o is-ddeddfwriaeth i Gymru wedi cael ei pharatoi a'i gwneud yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys nifer mawr o eitemau o ddeddfwriaeth a wnaed mewn ymateb i'r pandemig.

Ochr yn ochr â hyn, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyflwyno rhaglenni o is-ddeddfwriaeth er mwyn cyflawni blaenoriaethau allweddol eraill, gan gynnwys gweithredu Deddfau Senedd Cymru a basiwyd yn ystod y Bumed Senedd (Cynulliad gynt), megis Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

## Deddfwriaeth y DU

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymateb i gryn nifer o Filiau Seneddol y DU yn ystod y flwyddyn ddiwethaf lle roedd y rhain yn gwneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig a pharatoi Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Biliau hyn. Rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, gosododd Llywodraeth Cymru femoranda cydsyniad deddfwriaethol gerbron y Senedd a chyflwynodd gynigion cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â 19 o filiau.

Hefyd, roedd y Biliau hynny, gyda'i gilydd ac i wahanol raddau, yn destun 24 o femoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol, megis Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 a gafodd bedwar memorandwm cydsyniad deddfwriaethol.

### Astudiaeth Achos

#### Rheoli'r nifer mwyaf o achosion o Ffliw Adar a gofnodwyd erioed ym Mhrydain

Ym mis Hydref 2021, cadarnhaodd Lloegr yr achos cyntaf o Ffiw Adar yn ystod Tymor y Gaeaf. Dilynwyd hyn gan achosion o ffliw adar a gofnodwyd mewn ffesantod ar ystad saethu fawr yng Nghymru – yr achosion cyntaf erioed o'r is-deip H5N1 heintus iawn yng Nghymru.

Roedd Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol yn wynebu her nas gwelwyd erioed o'r blaen wrth iddi gael ei chadarnhau bod chwe safle yng Nghymru wedi'u heintio â'r clefyd, a oedd yn golygu bod angen rhoi mesurau rheoli heintiau ar waith er mwyn atal y clefyd rhag lledaenu. At hynny, roedd deddfwriaeth anghyfredol ynglŷn â H5N1 yng Nghymru yn creu costau nas gwelwyd o'r blaen i ddiwydiant ac yn gosod gofynion rheoli clefydau anymarferol.

Mewn ymateb i hyn, cyflwynodd y Tîm Polisi Clefydau Anifeiliaid (ADP) ddau ddarn o ddeddfwriaeth er mwyn arbed adnoddau cyflawni yn y maes a lleihau costau nas gwelwyd o'r blaen i ddiwydiant. At hynny, gyda chymorth gwirfoddolwyr o bob rhan o'r is-adran, goruchwyliodd y tîm fwy na 2000 o geisiadau am drwyddedau er mwyn ei gwneud yn bosibl i adar ac wyau gael eu symud i ardaloedd risg uchel ac o'r ardaloedd hynny.

Mae'r achosion parhaus o Ffliw Adar wedi pwysleisio pwysigrwydd bod yn barod er mwyn sicrhau bod digon o adnoddau a gallu ar gael mewn timau polisi a thimau milfeddygol ac o fewn asiantaethau cyflawni Llywodraeth Cymru. At hynny, mae wedi tynnu sylw ar fanteision cyfathrebu effeithiol a chodi ymwybyddiaeth o'r ffordd y mae clefydau yn mudo ymhlith ceidwaid anifeiliaid.

# Yr Agenda Ddigidol



Yn ystod 2021-22, rydym wedi parhau i ddatblygu ein dull digidol fewn Llywodraeth Cymru ac ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

O ymateb i'r pandemig i ddarparu hafan ddiogel i bobl sy'n ffoi rhag rhyfel, mae technoleg ddigidol a data wedi bod yn ffactorau galluogi allweddol i ddatblygu a darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl. Y partneriaethau a grëwyd gennym â'n cydweithwyr sector cyhoeddus yn y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol, yn y sector Iechyd ac mewn Llywodraeth Leol sydd wedi galluogi Llywodraeth Cymru i ymateb yn gyflym ac mewn ffordd ystwyth i'r digwyddiadau byd-eang hyn.

Defnyddiwyd Map Data Cymru, sy'n darparu un platfform geo-ofodol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru, yn ystod Storm Eunice er mwyn diogelu pobl agored i niwed yn ystod argyfwng, drwy ei gymhwysiad ymateb brys JIGSO. Dangosodd mewn amser real sut roedd amrywiaeth o ddata o wahanol ffynonellau wedi cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau cyflym ac effeithiol a allai achub bywydau, a hynny mewn ffordd ddiogel.

Gwnaethom hefyd gefnogi sawl prosiect 'sprint' ar gyfer Cyflymydd Cenedl Ddata Cymru. Cynhaliodd y fenter gydweithredol hon rhwng prifysgolion gyfres o brosiectau arddangos yma yng Nghymru er mwyn datblygu atebion gan ddefnyddio technolegau a lywir gan ddata.

Ym maes addysg, parhaodd Rhaglen Hwb i chwarae rôl hollbwysig drwy roi mynediad i ddysgwyr ac ymarferwyr i gynnwys a gwasanaethau digidol. Roedd gwasanaethau Hwb yn cynnwys amrywiaeth o adnoddau addysgu a dysgu, Office 365 a Google Workspace, yn ogystal â seilwaith cenedlaethol er mwyn helpu i reoli dyfeisiau a defnyddwyr. Buddsoddodd Rhaglen Hwb £15m arall mewn Technoleg Addysg hefyd, gan ei gwneud yn bosibl i ysgolion a gynhelir fanteisio ar y manteision trawsnewidiol y gallai gwasanaethau digidol a thechnoleg eu sicrhau i faes addysg.

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol i feithrin gallu digidol yn gyflym ym mhob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Helpodd i wella'r ffordd roedd gwasanaethau digidol yn cael eu darparu yng Nghymru drwy ddatblygu prosiectau trawsnewidiol mewn partneriaeth â sefydliadau gan gynnwys Chwaraeon Cymru, Awdurdod Cyllid Cymru a Chyngor Castell-nedd Port Talbot. Darparodd hyfforddiant hefyd i bron i 600 o arweinwyr yn y sector cyhoeddus ac aelodau etholedig, er mwyn gwella eu dealltwriaeth o'r dull digidol a'r ffordd y gellir ei ddefnyddio i helpu pobl a staff.

Yn y trydydd sector, datblygwyd partneriaeth newydd yn 2021 er mwyn hyrwyddo arferion digidol da ym mhob rhan o'r sector yng Nghymru. Cynhelir Newid gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), Canolfan Cydweithredol Cymru a ProMo-Cymru ac fe'i hariennir gan Lywodraeth Cymru. Cynhaliodd Newid arolwg sylfaenol o sgiliau digidol yn y trydydd sector er mwyn nodi'r ffordd orau o helpu pobl i dderbyn ffyrdd digidol o weithio a'u hymgorffori'n llwyr.

Sefydlwyd Iechyd a Gofal Digidol Cymru ym mis Ebrill 2021 ac, yn ei flwyddyn gyntaf, mae wedi gweithio ar draws sectorau er mwyn cyflawni nod cyffredin o drawsnewid iechyd a gofal pobl drwy ddulliau digidol.

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi arwain rhaglenni mawr gan gynnwys y cynllun llwyddiannus i gyflwyno Cofnod Gofal Nyrsio Cymru, a drawsnewidiodd faes nyrsio drwy droi proses bapur yn wasanaeth digidol, a'r gwaith o ddatblygu Ap GIG Cymru, a fydd yn grymuso pobl i chwarae rhan weithredol yn eu hiechyd a'u gofal eu hunain. At hynny, buddsoddodd Cronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol Llywodraeth Cymru £75 miliwn mewn prosiectau trawsnewid digidol ym mhob rhan o'r GIG yng Nghymru.

Parhaodd Prif Swyddog Digidol llywodraeth leol yng Nghymru i lywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau hygyrch ac arloesol sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr i bobl ym mhob awdurdod lleol. Ochr yn ochr â hyn, cefnogodd ein Cronfa Trawsnewid Digidol ar gyfer Llywodraeth Leol brosiectau trawsnewid digidol a ddatrysodd broblemau cyffredin yn gydweithredol mewn llywodraeth leol yng Nghymru.

Yn ystod 2021-22, darparodd Llywodraeth Cymru tua £1 filiwn drwy'r Gronfa Drawsnewid er mwyn gwella gwasanaethau cyhoeddus gan ddefnyddio technoleg ddigidol.

Er gwaethaf y penderfyniad i lacio cyfyngiadau COVID-19 a'r ffaith bod staff Llywodraeth Cymru yn gallu dewis dychwelyd i swyddfeydd Llywodraeth Cymru ar ddechrau 2022, dewisodd y mwyafrif o staff weithio o bell. Yn wir, mae'n annhebygol y bydd y gymhareb defnyddwyr TG gartref-defnyddwyr TG yn y swyddfa yn dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig. Gan gydnabod hyn, defnyddiodd Gwasanaethau TG adnoddau newydd i wella gallu'r sefydliad i ganfod unrhyw ddigwyddiadau seiber ac ymateb iddynt, gan ddiogelu'r seilwaith TG ymhellach rhag y risgiau cynyddol a allai ddeillio o weithlu mawr sy'n gweithio o bell.

Gweithiodd Gwasanaethau TG gyda'r tîm Cyfleusterau hefyd er mwyn diweddaru cyfarpar clyweled ym mhob rhan o ystad Llywodraeth Cymru a helpodd i hwyluso cyfarfodydd hybrid a darparu mannau cydweithredol. Sefydlwyd cylch adnewyddu treigl ar gyfer dyfeisiau defnyddwyr er mwyn sicrhau bod TG effeithiol a 'bythwyrdd' y gellir ei chynnal a'i chadw bob amser ar gael i staff.

Aeth rhaglen waith, y bwriadwyd iddi feithrin hyder a chymhwysedd digidol ym mhob rhan o'r gweithlu, yn ei blaen drwy ddarparu hyfforddiant ac fe'i hategwyd gan welliannau cynhyrchiant i feddalwedd.


Gan gydnabod pwysigrwydd sgiliau digidol, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i ddatblygu ei gallu digidol, data a thechnoleg a recriwtio i'r proffesiwn. Mae dwy garfan o brentisiaid digidol, data a thechnoleg bellach wedi cwblhau'r cynllun yn llwyddiannus ac wedi cael eu penodi mewn rolau parhaol ym maes digidol, data a thechnoleg. Rydym yn bwriadu cynnal y cynllun eto yn y dyfodol. Yn ystod 2021-22, gwnaethom hefyd ehangu'r rhaglen brentisiaeth drwy gyflwyno prentisiaeth Lefel 4 mewn digidol, data a thechnoleg (DDaT) ac mae nifer o brentisiaid yn cwblhau'r cymhwyster gan weithio mewn rolau digidol, data a thechnoleg ar yr un pryd.

# Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru

Mabwysiadwyd Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru fel y dull o fonitro perfformiad Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru yn 2019. Mae'r fframwaith yn seiliedig ar y Mynegai Effeithiolrwydd Gwasanaeth Sifil Rhyngwladol ac fe'i mabwysiadwyd i gyd-fynd â strategaethau, blaenoriaethau ac amcanion Llywodraeth Cymru drwy ymgynghori â'r Bwrdd.

Nod Fframwaith Llywodraeth Cymru yw sbarduno gwelliannau yn effeithiolrwydd trefniadol Gwasanaeth Sifil Cymru drwy ganolbwyntio ar berfformiad gweithredol a chyfrifoldebau'r Ysgrifennydd Parhaol mewn perthynas â rhedeg y sefydliad. Ar hyn o bryd, mae'n cynnwys 19 o themâu sydd wedi'u rhannu'n ddau grŵp – swyddogaethau ('beth rydym yn ei wneud') a phriodoleddau ('sut rydym yn ei wneud').

Cyflwynir adrodd ar berfformiad yn erbyn y fframwaith ddwywaith y flwyddyn i Fwrdd Llywodraeth Cymru. Cwblhawyd yr ail gylch adrodd blynyddol yn haf 2022.



Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
Swyddogaethau Gweithredol Craidd
Rheolaeth Gyllidol ac Ariannol
Deddfwriaeth
Cydnerthedd, Cynllunio wrth Gefn ac Ymateb
Gwneud Polisïau (yn cael ei ddatblygu)
Swyddogaeth Cefnogi Cenhadaeth
Caffael
Grantiau
AD a Rheoli'r Gweithlu
TG a Digidol i Swyddogion
Cyllid Mewnol
Rheoli'r Gweithle a Chyfleusterau
Swyddogaeth Cyflenwi Gwasanaethau
Gwasanaethau Digidol i Ddinasyddion
Gweinyddu Trethi (Awdurdod Cyllid Cymru)
Priodoleddau
Dulliau Gweithio a Gwerthoedd Craidd
Didwylledd
Galluoedd
Cydraddoldeb a Chynwysoldeb
Ymgysylltiad Staff
Y Gymraeg
Arloesedd
Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru

# Cyflwyno adroddiad ar y themâu sy’n ymwneud â phriodoleddau

Canolbwyntiodd adroddiad cyntaf cylch 2021-22 yn benodol ar y themâu sy’n ymwneud â phriodoleddau ac fe’i trafodwyd gan y Bwrdd ym mis Medi 2022, ar ôl i’r adroddiad gael ei ystyried gan y Pwyllgor Gweithredol.

Nododd y Pwyllgor Gweithredol fod y Gymraeg a chydraddoldeb ac amrywiaeth yn feysydd allweddol yr oedd yn bwysig canolbwyntio arnynt. Trafododd y Bwrdd y meysydd allweddol hyn ac, ar ben hynny, pwysleisiodd bwysigrwydd gwybodaeth fanwl am ymgysylltiad staff â’r sefydliad. Cytunwyd y dylai adroddiadau ar y fframwaith gael eu hadolygu er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gyd-fynd â strategaeth Llywodraeth Cymru, yn enwedig rhaglen newid Llywodraeth Cymru 2025, yn ogystal â sicrhau integreiddio effeithiol â mecanweithiau sefydliadol ehangach.

Mae’r tabl isod yn rhoi trosolwg o’r mesurau ar gyfer y themâu sy’n ymwneud â phriodoleddau (y rhai sydd fwyaf cynrychioliadol) a lywiodd y drafodaeth.

| Thema Priodwedd | Mesur | Ffynhonnell | Sgôr | Cyfnod Cyfeirio | Sgoriau ar gyfer Cyfnodau Blaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffyrdd o Weithio a Gwerthoedd Craidd  | Sgôr mynegai'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy* | Arolwg pwls Llywodraeth Cymru | 77% | Medi 2021 | 72% (Mawrth 2020) | Amh. |
| Bod yn agored  | Canran y ceisiadau am wybodaeth a gwblhawyd yn unol â'r terfyn amser statudol | Data gweinyddol Llywodraeth Cymru | 80%^ | Blwyddyn galendr 2020 | 89% | 90% (Blwyddyn galendr 2018) |
| Galluoedd  | Canran y staff sy'n cytuno bod gweithgareddau dysgu a datblygu a gwblhawyd ganddynt yn ystod y 12 mis diwethaf wedi helpu i wella eu perfformiad | Yr Arolwg Pobl | 47% | Hydref 2021 | 46% (Hydref 2020) | 52% (Mawrth 2020) |

| Thema Priodwedd | Mesur | Ffynhonnell | Sgôr | Cyfnod Cyfeirio | Sgoriau ar gyfer Cyfnodau Blaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cydraddoldeb a Chynhwysiant | Canran y staff sy'n uniaethu â bod yn rhan o grŵp cydraddoldeb | Data gweinyddol Llywodraeth Cymru | 2.8% Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol<br>5.9% Anabl<br>3.6% Cyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol | Blwyddyn ariannol 2020-21 | 2.6% Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol<br>5.8% Anabl<br>3.3% Cyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol<br>(Blwyddyn ariannol 2019-20) | 2.4% Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol<br>5.5% Anabl<br>2.9% Cyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol<br>(Blwyddyn ariannol 2018-19) |
| Ymgysylltu â'r Staff | Sgôr Mynegai Ymgysylltu â Chyflogeion | Yr Arolwg Pobl | 68% | Hydref 2021 | 69%<br>(Hydref 2020) | 66%<br>(Mawrth 2020) |
| Y Gymraeg | Nifer y cwynion sy'n ymwneud â Safonau Cyflenwi Gwasanaethau Cymraeg | Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg | 26 o gwynion | Blwyddyn ariannol | 24 o gwynion<br>(Blwyddyn ariannol 2019-20) | 38 o gwynion<br>(Blwyddyn ariannol 2018-19) |
| Arloesedd | Canran y staff sy'n cytuno bod eu tîm yn cael ei annog i gynnig ffyrdd newydd a gwell o wneud pethau | Yr Arolwg Pobl | 81% | Hydref 2021 | 81%<br>(Hydref 2020) | 77%<br>(Mawrth 2020) |


* Y sgôr mynegai yw cyfartaledd yr ymatebion cadarnhaol (cytuno neu gytuno'n gryf) ar draws pum cwestiwn sy'n casglu barn staff Llywodraeth Cymru am ba mor rheolaidd y maent yn credu y gallant roi Egwyddor Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (pum ffordd o weithio) ar waith.

^Mae'r pandemig wedi effeithio ar amseroldeb ein hymatebion i geisiadau am wybodaeth. Trafodwyd hyn â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar ddechrau'r pandemig a chyhoeddwyd datganiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn hysbysu'r cyhoedd am oedi posibl. Dengys data mwy diweddar fod perfformiad wedi gwella ers yr adeg hon tuag at y lefelau a welwyd cyn y pandemig.

# Cyflwyno adroddiad ar themâu sy’n ymwneud â swyddogaethau

Cafodd y bwrdd yr ail adroddiad ar themâu sy’n ymwneud â swyddogaethau ym mis Gorffennaf 2022. Yn y sesiwn, cododd y Bwrdd dri maes ffocws allweddol ar gyfer gweithredu sef: y dylai Llywodraeth Cymru barhau i wella ei gwaith ar gyflwyno rhaglen ddeddfwriaethol o ansawdd uchel, y dylai barhau â’i ffocws presennol ar y gallu i reoli rhaglenni a phrosiectau ac, er bod y dangosyddion yn y thema hon yn dal i gael eu datblygu, y dylai sicrhau o hyd ei bod yn parhau i ganolbwyntio ar gamau gweithredu er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisïau a rhoi cyngor o’r radd flaenaf.

Mae’r tabl yn dangos y mesurau trosolwg a drafodwyd.

| Thema swyddogaeth | Mesur | Ffynhonnell | Sgôr | Cyfnod Cyfeirio | Sgoriau ar gyfer Cyfnodau Blaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoli Cyllidol ac Ariannol  | Nifer y cerrig milltir a gyrhaeddwyd o fewn ymrwymiad llywodraeth agored Llywodraeth Cymru i ymgysylltu ariannol | Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Agored y DU 2019-2021: Adroddiad Hunanasesu Diwedd Tymor Llywodraeth Cymru | Cyrhaeddwyd 5 allan o 5 carreg filltir | 2019 – 2021 | Amh. | Amh. |
| Cydnerthedd, Cynllunio Wrth Gefn ac Ymateb  | Cyfanswm y diwrnodau roedd Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau Cymru ac Ymateb Cyntaf yn gweithredu | Data gweinyddol Llywodraeth Cymru | Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau Cymru – 27 diwrnod<br>Ymateb Cyntaf – 50 diwrnod* | Ebrill 2021 – Mawrth 2022 | Amh. | Amh. |
| Deddfwriaeth  | Biliau a gyhoeddwyd ac a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn ddeddfwriaethol | Data gweinyddol Deddfwriaeth | Cyhoeddwyd pum Bil a chyflwynwyd pedwar Bil yn ystod y flwyddyn ddeddfwriaethol | Gorffennaf 2021 – Gorffennaf 2022 | Cyhoeddwyd saith Bil a chyflwynwyd pum Bil yn ystod y flwyddyn ddeddfwriaethol<br>(Gorffennaf 2019-Gorffennaf 2020) | Cyhoeddwyd pum Bil a chyflwynwyd pedwar Bil yn ystod y flwyddyn ddeddfwriaethol<br>(Gorffennaf 2018 – Gorffennaf 2019) |
| Caffael  | Canran y gwariant dylanwadwy a enillwyd yn uniongyrchol gan fusnesau yng Nghymru, gan gynnwys BBaChau | Data gweinyddol Llywodraeth Cymru | 51% | Blwyddyn Ariannol 2021-22 | 44%<br>(Blwyddyn ariannol 2020-21) | 43%<br>(Blwyddyn ariannol 2019-20) |

| Thema swyddogaeth | Mesur | Ffynhonnell | Sgôr | Cyfnod Cyfeirio | Sgoriau ar gyfer Cyfnodau Blaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Grantiau | Nifer yr ymholiadau yr ymdriniodd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau â nhw | Data gweinyddol Llywodraeth Cymru | 2267 o ymholiadau | Blwyddyn Ariannol 2021-22 | 2650 o ymholiadau<br>(Blwyddyn ariannol 2020-21) | 1767 o ymholiadau<br>(Blwyddyn ariannol 2019-20) |
| Adnoddau Dynol a Rheoli'r Gweithlu | Canran yr ymgeiswyr allanol i swyddi Llywodraeth Cymru yn ôl grwpiau lleiafrifol | Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y Cyflogwr | 9% Anabl<br>7% Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol<br>7% Cyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol | Blwyddyn ariannol<br>2020-21 | 6% Anabl<br>7% Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol<br>7% Cyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol<br>(Blwyddyn ariannol 2019-20) | 6% Anabl<br>6% Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol<br>6% Cyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol<br>(Blwyddyn ariannol 2018-19) |
| TG a Digidol i Swyddogion | Canran y staff sy'n dweud eu bod wedi cael yr adnoddau angenrheidiol i wneud eu gwaith | Yr Arolwg Pobl | 84% | Hydref 2021 | 84%<br>(Hydref 2020) | 80%<br>(Mawrth 2020) |
| Cyllid Mewnol | Canran y taliadau a wnaed o fewn 10 diwrnod i dderbyn anfoneb | Data gweinyddol Llywodraeth Cymru | 95% | Blwyddyn ariannol 2021-22 | 96%<br>(Blwyddyn ariannol 2020-21) | 93%<br>(Blwyddyn ariannol 2019-20) |
| Rheoli'r Gweithle a Chyfleusterau | Cyfanswm allyriadau carbon ystad weinyddol Llywodraeth Cymru | Adroddiad ar Gyflwr yr Ystad | 3500 o dunelli | Blwyddyn ariannol 2020-21 | 3713 Tunelli<br>(Blwyddyn ariannol 2019-20) | 4236 Tunelli<br>(Blwyddyn ariannol 2018-19) |

| Thema swyddogaeth | Mesur | Ffynhonnell | Sgôr | Cyfnod Cyfeirio | Sgoriau ar gyfer Cyfnodau Blaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Digidol i Ddinasyddion  | Nifer y gwasanaethau digidol rhyngweithiol sydd ar gael i'r dinesydd | Data gweinyddol Llywodraeth Cymru | 49 o wasanaethau | Mai 2022 | 41 o wasanaethau (Mawrth 2021) | 28 o wasanaethau (Hydref 2018) |

* Model ymateb newydd sy'n cynnwys Ymateb Cyntaf a gyflwynwyd ar ddechrau 2022


# Llifoedd Cyllido Llywodraeth Cymru

Mae Cyllideb Llywodraeth Cymru yn awdurdodi'r symiau a'r dibenion y darperir cyllid i Weinidogion Cymru ar eu cyfer er mwyn ymgymryd â gweithgarwch Llywodraeth Cymru. Mae'r ffeithlun canlynol yn defnyddio ail Gyllideb Atodol 2021-22 ac yn amcanestyn trethi eraill a gwariant o ystadegau Cyllid Sector Cyhoeddus Gwledydd a Rhanbarthau 2020-21 y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) sy'n defnyddio Rhagolwg Economaidd a Chyllidol Mawrth 2022 y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.

Y Dreth Trafodiadau Tir, y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a chyfraddau Treth Incwm Cymru yw'r trethi datganoledig. Trethi lleol yw'r Dreth Gyngor a'r Ardrethi Annomestig.

## Sut y telir am wasanaethau cyhoeddus Cymru ar ôl datganoli trethi?

**Mae'r ffigurau'n ymwneud â 2021-22**



# Polisi Trethi Llywodraeth Cymru, a Rhagolygon Cyllidol

Mae Cyllideb Llywodraeth Cymru yn rhoi manylion am gyllid y llywodraeth, trethiant a dyraniadau ar lefel y Prif Grŵp Gwariant (MEG), ac yn amlinellu cynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf y llywodraeth.


Mae manylion am gyllidebau Llywodraeth Cymru[36] ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Ategir y Gyllideb gan Adroddiad y Prif Economegydd[37] a'r Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru[38] sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Caiff y Rhagolwg Trethi Cymreig[39] ei baratoi gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ac mae'n rhoi'r asesiad o'r fframwaith cyllidol ehangach y pennir y Gyllideb oddi mewn iddo. Mae ar gael ar wefan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Ceir rhagor o wybodaeth am ein Fframwaith Cyllidol a Threthi Datganoledig[40] ar wefan Llywodraeth Cymru.

36 Welsh Government Budgets www.llyw.cymru/cyllidebau-llywodraeth-cymru
37 Chief Economists Report 2020 www.llyw.cymru/cyllideb-cymru-2021-adroddiad-y-prif-economegydd
38 Tax Policy Report 2021 www.llyw.cymru/adroddiad-ar-bolisi-trethi-2021
39 Welsh Taxes Outlook – December 2020 – Office for Budget Responsibility www.obr.uk/wto/rhagolwg-trethi-cymreig-rhagfyr-2021/
40 Welsh Taxes www.llyw.cymru/diweddariad-fframwaith-polisi-trethi-html

# Ffin Gyfrifyddu Llywodraeth Cymru, y Berthynas rhwng Cyfrifon a Benthyca

Disgrifir gweithgarwch cyllidol Cymru mewn cyfres o wybodaeth am y cyfrifon statudol:



## Cyfrif Cronfa Gyfunol Cymru

Mae'r cyfrif hwn yn cael derbyniadau a gymeradwywyd drwy bleidlais gan Senedd y DU, derbyniadau Yswiriant Gwladol, trawsdaliad Cyfraddau Treth Incwm Cymru a derbyniadau Trethi Datganoledig. Telir benthyciadau gan Weinidogion Cymru i mewn i'r cyfrif hwn hefyd. Gwneir taliadau o Gronfa Gyfunol Cymru i gyrff a gwmpesir gan Gynnig yng Nghyllideb Cymru neu fel Taliadau Uniongyrchol.

## Datganiad Treth Awdurdod Cyllid Cymru

Mae'r cyfrif hwn yn rhoi adroddiad ar dderbyniadau Trethi Datganoledig ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Mae'r Adroddiad Blynyddol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.[41]

## Cyfrifon y cyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gyllideb Cymru

- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru[42]
- Comisiwn y Senedd[43]
- Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru
- Swyddfa Archwilio Cymru[44]

## Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru a'r Ffin Gyfrifyddu

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cyfrifon o dan a131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yr Ysgrifennydd Parhaol fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu dros Weinidogion Cymru sy'n gyfrifol am baratoi a llofnodi'r cyfrifon. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu'r asedau a'r rhwymedigaethau cyfun a chanlyniadau endidau o fewn ffin gyfrifyddu gyfunol Llywodraeth Cymru. Mae'r ffin gyfrifyddu yn debyg i'r cysyniad o grŵp ar gyfer cyfrifyddu corfforaethol ond mae'n seiliedig ar feini prawf rheoli ar gyfer y sector cyhoeddus. Mae rhagor o wybodaeth am y ffin gyfrifyddu ar gael yn y Datganiadau Ariannol ac yn Nodyn 1.2 i'r cyfrifon.

Mae'r sefydliadau cyfunol yn paratoi ac yn cyhoeddi eu hadroddiadau blynyddol a'u cyfrifon eu hunain.

41 Welsh Revenue Authority Annual Reports and Accounts www.llyw.cymru/adroddiadau-chyfrifon-blynyddol-awdurdod-cyllid-cymru
42 Ombudsman Annual Report Accounts www.ombwdsmon.cymru/annual-report-accounts/
43 Senedd Commission www.busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=2850
44 Wales Audit Office Annual Report and Accounts www.audit.wales/cy/publication/adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2021-22

Mae'r cyfrifon hyn yn cynnwys Craidd Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru ei hun) ac endidau Grŵp Llywodraeth Cymru, sef:

## Grŵp Llywodraeth Cymru

- Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau Iechyd GIG Cymru
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Grŵp Banc Datblygu Cymru
- Grŵp Trafnidiaeth Cymru
- Career Choices Dewis Gyrfa Cyf
- Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio LLP
- WGC Holdco Limited.

Peidiodd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, a oedd wedi bod yn cael ei gynnal gan Ymddiriedolaeth Prifysgol Felindre ers 1 Ebrill 2010, â chael ei gynnal gan yr Ymddiriedolaeth ar 1 Ebrill 2021 a daeth yn Awdurdod Iechyd Arbennig newydd, sef Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Yn ystod 2020-21, sefydlodd Trafnidiaeth Cymru ddau is-endid newydd, TFW Innovation Services Limited a Transport for Wales Rail Limited, a ddaeth yn gyfrifol am weithredu gwasanaethau rheilffyrdd Cymru a'r Gororau.


Nid oedd yr endidau hyn wedi'u cynnwys yng nghyfrifon cyfunol 2020-21 am nad oeddent yn bodloni gofynion y ffin gyfrifyddu. Fodd bynnag, maent wedi'u cyfuno o 1 Ebrill 2021 ymlaen yn dilyn penderfyniad dosbarthu gan yr ONS. Ar 6 Awst 2021, caffaelodd Trafnidiaeth Cymru gwmni Pullman Fleet Services Limited, sef cwmni cynnal a chadw a gwasanaethu fflydoedd. Roedd Pullman Fleet Services Limited wedi'i ddosbarthu'n Gorfforaeth Gyhoeddus ac, felly, nid yw'n ofynnol ei gyfuno yng Nghyfrifon Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, am ei fod yn amherthnasol, mae wedi'i gynnwys yn y cyfuniad o gyfanswm Grŵp Trafnidiaeth Cymru.

Sefydlwyd Cwmni Egino fel is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru ar 24 Mehefin 2021 i ddatblygu prosiectau ynni a thechnoleg niwclear ar safle Trawsfynydd. Nid yw Cwmni Egino yn berthnasol i'w gyfuno yng Nghyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22.

Sefydlwyd GCRE Limited fel is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru ar 24 Awst 2021 er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu canolfan profi rheilffyrdd a chyfleusterau ymchwil a datblygu cysylltiedig o'r radd flaenaf ar safleoedd pwll glo brig Nant Helen a golchfa lo Onllwyn ym mlaenau Cwm Dulais a Chwm Tawe. Nid yw GCRE yn berthnasol i'w gyfuno yng Nghyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22.

Er bod Llywodraeth Cymru yn ariannu Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, nid ydynt wedi'u cynnwys yn y cyfrifon hyn gan nad ydynt yn dod o fewn y ffin ar gyfer cyfrifyddu cyfunol.

## Ffin Gyfrifyddu Llywodraeth Cymru



## Endidau Ffin Gyfrifyddu Llywodraeth Cymru

**Cyfrif Cyfunol Llywodraeth Cymru**

- Byrddau Iechyd Lleol
- Ymddiriedolaethau'r GIG
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Careers Choices Dewis Gyrfa Ltd
- Grŵp Banc Datblygu Cymru
- Grŵp Trafnidiaeth Cymru
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
- WGC Holdco Ltd
- Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio

**Cyrff dynodedig amherthnasol – heb eu cyfuno**

- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Cwmni Egino
- Comisiwn Dylunio Cymru
- Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru
- GCRE Ltd
- Hybu Cig Cymru
- Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol
- Busnes Rhyngwladol Cymru
- Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
- Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Partneriaeth Datblygu Sectorau Cymru
- Awdurdod Cyllid Cymru

**Cyrff Llywodraeth Ganol – heb eu dynodi na’u cyfuno eto**

- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cyngor y Gweithlu Addysg
- Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Amgueddfa Genedlaethol Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cymwysterau Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Elusennau GIG Cymru

Er mwyn cynorthwyo gyda’r diagramau uchod, mae’r canlynol yn esbonio prosesau dosbarthu a dynodi Llywodraeth Ganol.

## Dosbarthu

Dosberthir endidau at ddibenion Cyfrifon Cenedlaethol, sef fframwaith ystadegol a ddefnyddir gan yr ONS i ddisgrifio beth sy'n digwydd mewn economïau cenedlaethol. Caiff pob uned sefydliadol sy'n gweithredu mewn economi eu dosbarthu i sector sefydliadol (er enghraifft, fel corfforaethau anariannol, unedau llywodraeth cyffredinol neu aelwydydd).

Yn fras, caiff endidau eu dosbarthu'n llywodraeth ganol os ydynt yn cael eu perchenogi neu eu rheoli (h.y. y gallu i bennu eu polisi neu eu rhaglen gyffredinol) gan endidau llywodraeth ganol eraill ac nad ydynt yn Gorfforaeth Gyhoeddus (sy'n ddosbarthiad ar wahân). Mae Trysorlys Ei Fawrhydi yn defnyddio'r dosbarthiad hwn i nodi'r driniaeth gyllidebol sy'n briodol i'r endidau hyn, er mwyn sicrhau bod prosesau adrodd cyllidebol yn gyson ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus. Ar gyfer endidau sydd wedi'u dosbarthu'n llywodraeth ganol yng Nghymru, mae hyn yn golygu eu hincwm a'u gwariant yn ôl sgôr seiliedig ar groniadau yn rheolau cyllidebol Llywodraeth Cymru a bennir gan Drysorlys Ei Fawrhydi. Mae'r un egwyddorion yn gymwys i unrhyw is-gwmnïau neu gyd-fentrau.

## Dynodi

Dim ond endidau sydd wedi'u dosbarthu'n llywodraeth ganol a gaiff eu dynodi. Dynodi o dan Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig)[45] yw'r broses gyfreithiol sy'n rhoi'r awdurdod cyfreithiol i Lywodraeth Cymru wario. Mae'r broses ddynodi yn dod ag incwm a gwariant ar sail croniadau endidau llywodraeth ganol Llywodraeth Cymru o fewn Cwmpas y Cynnig Cyllidebol h.y. o fewn Cyllideb Llywodraeth Cymru y pleidleisiwyd arni gan y Senedd a'r ffin cyfuno Cyfrifon, am fod Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth yn pennu ffiniau cyfunol yn seiliedig ar gyrff dynodedig.

Cyn iddynt gael eu dynodi, dim ond yr arian parod a dalwyd i'r endidau gan Lywodraeth Cymru a gaiff ei gynnwys o fewn Cwmpas y Cynnig Cyllidebol, ac mae'r endidau y tu allan i Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru. Nid yw p'un a yw endid wedi cael ei dynodi ai peidio yn effeithio ar y driniaeth gyllidebol gyffredinol, dim ond pa elfennau sydd wedi'u cynnwys o fewn Cwmpas y Cynnig Cyllidebol a pha rai sydd y tu allan iddo.

## Benthyca

O dan adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014 a Deddf Cymru 2017) rhoddwyd pwerau benthyca ychwanegol i Weinidogion Cymru yn weithredol o fis Ebrill 2018. Caiff unrhyw symiau sy'n cael eu benthyca a'u had-dalu o dan y darpariaethau hyn eu gwneud drwy Gronfa Gyfunol Cymru ac felly cânt eu hadlewyrchu yn y cyfrifon hynny. Yn 2018-19, talwyd £65m i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru o'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol. Ni chafodd unrhyw bwerau benthyca eu harfer yn 2021-22. Ar 31 Mawrth 2022, y swm sy'n weddill yw £59m.

45 https://www.legislation.gov.uk/primary+secondary?title=the%20government%20of%20wales%20act%202006%20%28budget%20motions%20and%20designated%20bodies%29%20order


# Gwariant COVID-19

Parhaodd yr angen i barhau i ymateb i'r pandemig COVID-19 i roi pwysau ar gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22. Gan ddilyn y model a fabwysiadwyd yn 2020-21 er mwyn sicrhau bod yr adnoddau a oedd ar gael i ymateb yn cael yr effaith fwyaf bosibl, crëwyd cronfa wrth gefn ar gyfer COVID-19 drwy ailddyrannu Cyllidebau Llywodraeth Cymru, trosglwyddiadau o gronfeydd wrth gefn a chyllid canlyniadol Llywodraeth y DU.


O'r cychwyn cyntaf yn ystod y pandemig, datblygwyd dull dangosfwrdd er mwyn rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Cabinet, y Bwrdd a swyddogion cyllid ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. Bu hwn yn adnodd effeithiol drwy gydol y cyfnod o ran rhoi trosolwg o ddyraniadau cyllido COVID-19 Llywodraeth Cymru a pharhawyd i'w ddefnyddio yn 2021-22.

Mae'r strwythur sylfaenol yn dilyn yr amlinelliad isod:


Yn 2021-22, mae gwariant ar yr ymateb i'r pandemig COVID-19 wedi'i integreiddio yn y broses rheoli ariannol fisol ac wedi'i fonitro yn unol â hynny drwy gydol y flwyddyn. Dengys y ffeithlun canlynol sut mae arian cyhoeddus wedi'i wario ar y pandemig COVID-19:



## Gwariant COVID-19 2021-22



## Gwariant COVID-19 2020-21




Mae'r gwariant hwn yn 2021-22 yn cynnwys:


- Cyllid ychwanegol i bartneriaid cyflawni i'w helpu i ymateb i COVID-19 neu sicrhau canlyniadau Llywodraeth Cymru – yn enwedig cyllid ychwanegol i Gyrff GIG Cymru ac Awdurdodau Lleol
- Taliadau grant gan Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol i dderbynyddion cymwys megis busnesau a oedd yn cael arian o dan y Gronfa Cronfa Cadernid Economaidd neu'r Gronfa Adferiad Diwylliannol.
- Cyllid a grantiau ychwanegol er mwyn helpu i gynnal gwasanaethau teithio o ystyried effeithiau'r pandemig COVID-19 ar nifer y teithwyr gan gynnwys Cymorth i Reilffyrdd a Chymorth i Fysiau.
- Cyllid a grantiau ychwanegol er mwyn i wasanaethau cyhoeddus allu ymateb i'r pandemig ac adfer ar ei ôl gan gynnwys Adfer Gofal Cymdeithasol a Chyllid Dal i Fyny i Ysgolion.

# Prif Feysydd Gwariant Llywodraeth Cymru

Mae'r ffeithluniau canlynol yn dangos 10 prif faes gwariant Llywodraeth Cymru yn 2021-22. Mae'r dadansoddiad wedi'i wneud yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb, fel y'i defnyddir yn y tablau Prif Grwpiau Gwariant sy'n cyd-fynd â Chynnig y Gyllideb.

Mae 10 prif faes gwariant cyllideb refeniw a chyfalaf Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:

## 10 prif faes gwariant cyllideb refeniw Llywodraeth Cymru




**Alldro Refeniw LIC: £18,867m Cyfanswm y 10 uchaf: £15,021m**
**80% o'r gyllideb refeniw**

O ran cymhariaeth, 10 prif faes gwariant y gyllideb refeniw y llynedd (2020-21) oedd

Dyraniadau Craidd y GIG
£8,213m
41%

Cyllid Refeniw Cyffredinol Llywodraeth Leol
£3,506m
18%

Cymorth Ariannol Brys
£630m
3%

Darpariaeth Addysg Bellach
£548m
3%

Datblygu Busnes
£1,653m
8%

Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr
£380m
2%

Trafnidiaeth Cymru
£370m
2%


Dyraniadau Uniongyrchol Eraill y GIG
£428m
2%

Taliadau Uniongyrchol y PAC
£243m
1%

Rhyddhad Ardrethi Annomestig
£356m
2%


Alldro Refeniw LlC: £19,910m Cyfanswm y 10 uchaf: £16,328m
82% o'r gyllideb refeniw

## 10 prif faes gwariant cyllideb gyfalaf Llywodraeth Cymru




**Alldro Cyfalaf LIC: £2,938m Cyfanswm y 10 uchaf: £2,138m**
**73% o'r gyllideb gyfalaf**

## O ran cymhariaeth, 10 prif faes gwariant y gyllideb gyfalaf y llynedd (2020-21) oedd




**Alldro Cyfalaf LIC : £2,956m Cyfanswm y 10 uchaf: £2,119m**
**72% o'r gyllideb gyfalaf**

## Eitemau newydd yn y 10 maes gwariant refeniw uchaf y flwyddyn hon:

### Gwariant Rhaglen CCAUC

Mae'n rhoi cyllid cymorth grant i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), sef y corff cyhoeddus sy'n gweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a darparwyr addysg uwch. Mae CCAUC yn darparu cyllid ar gyfer addysgu, ymchwil ac arloesi yn y sector addysg uwch ac yn helpu i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch.

### Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Mae hyn yn cynnwys y cyllid a roddir i Awdurdod Iechyd Arbenigol Addysg a Gwella Iechyd Cymru sy'n bodoli ochr yn ochr â'r Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru er mwyn iddo arwain y gwaith o addysgu, hyfforddi, datblygu a llywio'r gweithlu gofal iechyd yng Nghymru.

## Mae'r canlynol yn eitemau newydd yn y 10 maes gwariant cyfalaf uchaf y flwyddyn hon:

### Gwasanaethau Rheilffyrdd Ategol

Benthyciad yw hwn a roddwyd i awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf er mwyn iddo wella seilwaith yn ardal Trefforest a Ffynnon Taf.

### Blaenoriaethau Trafnidiaeth Lleol

Diben y Gronfa Trafnidiaeth Leol yw datblygu systemau trafnidiaeth integredig, effeithiol, hygyrch a chynaliadwy sy'n helpu i gyflawni ein canlyniadau strategol.

## Gwariant a Reolir yn Flynyddol

Mae Trysorlys Ei Fawrhydi yn cydnabod pa mor ansefydlog yw rhai rhaglenni a'u bod yn seiliedig ar alw, yn ogystal â pha mor anodd yw amcangyfrif costau dros gyfnod o amser. O ganlyniad, rheolir cyllidebau'r rhaglenni hyn yn flynyddol, a'r Trysorlys sy'n darparu'r cyllid hwn fel arfer. Gelwir y cyllidebau yn Wariant a Reolir yn Flynyddol (AME). O'r cyllidebau hyn o fewn y Datganiad o Alldro Adnoddau cafodd £775m neu 71% (2020-21: £826.5m, 82%) yn ymwneud â Benthyciadau Myfyrwyr ei roi heb ad-daliadau yn ystod y flwyddyn.

# Gweinyddu Cyllid Grant

## Cyllid Grant

Mae'r cyllid grant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn cefnogi amrywiaeth eang o sefydliadau, busnesau a phrosiectau ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat. Diffiniad Llywodraeth Cymru o grant yw "pob taliad nad yw'n mynd drwy broses gaffael a roddir i sefydliadau neu unigolion allanol am weithgareddau sy'n gysylltiedig â chyflawni amcanion polisi a rhwymedigaethau statudol Llywodraeth Cymru".

Mae'n bwysig ein bod yn gwahaniaethu rhwng grantiau a chaffael am fod TAW yn gymwys ar brosesau caffael ac yn gorfod cael ei dalu i Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi. Mae gan Lywodraeth Cymru tua 380 o gynlluniau grant gweithredol ar waith ar PayGrants (sef y brif system gorfforaethol) ac mae'n anfon tua 11,000 o lythyrau dyfarnu bob blwyddyn (heb gynnwys grantiau COVID-19).

Rhennir y grantiau yn ddau gategori penodol:

1. Mae grantiau heb eu neilltuo yn cynnwys y taliadau hynny a roddir i gyrff iechyd a llywodraeth leol ac maent yn cyfrif am £13.9bn o'r cyfanswm o £20.8bn a dalwyd mewn grantiau ar gyfer 2021-22.
2. Mae grantiau wedi'u neilltuo yn daliadau lle mae pethau clir i'w cyflawni a meini prawf o ran diben y grantiau ac maent yn cyfrif am y £6.9bn o'r cyllid.

## Y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau – Cefndir

Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau wedi parhau i gefnogi staff ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru drwy gydol 2021-22 o ran datblygu a dosbarthu cyllid grant. Mae'r tîm yn ymgymryd â dwy swyddogaeth allweddol:

- rhoi cyngor, arweiniad, cymorth a hyfforddiant ar bolisïau a phrosesau rheoli grantiau
- sefydlu, adolygu, diweddaru a chyhoeddi polisïau ynglŷn â grantiau.

Pan fo ymholiadau yn fwy cymhleth eu natur, mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn gweithio gyda thimau o bob rhan o Lywodraeth Cymru, gan gynnwys cydweithwyr ym maes cymorthdaliadau, gwasanaethau cyfreithiol ac archwilio mewnol. Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn gweithio'n arbennig o agos gyda'r gwasanaethau cyfreithiol er mwyn diweddaru telerau ac amodau ar gyfer templed y llythyr dyfarnu grant safonol (a gorfodol) er mwyn sicrhau bod y cymalau'n dal yn gyfredol ac yn addas at y diben.

Mae gwelliannau diweddar wedi cynnwys diwygio'r cymalau ynglŷn â phrynu nwyddau a gwasanaethau a thynhau rhai o'r cymalau ynglŷn â digwyddiadau hysbysu. Mae sicrhau bod y telerau ac amodau yn cael eu diweddaru'n rheolaidd a'u bod yn gadarn yn galluogi Llywodraeth Cymru i atal cyllid dros dro, ei dynnu'n ôl neu ei adhawlio os bydd angen.

O ganlyniad i ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd ym mis Ionawr 2020, bu'n rhaid i'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau hefyd sicrhau y gellid addasu telerau ac amodau'r llythyr dyfarnu er mwyn ystyried rheolau cymhorthdal newydd y DU, rheolau Sefydliad Masnach y Byd a'r ymrwymiadau a'r protocolau eraill a allai effeithio ar y sail gyfreithiol lle y gellid anfon llythyrau dyfarnu o hyd. Bydd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr yn yr Uned Rheoli Cymorthdaliadau er mwyn sicrhau y bydd y canllawiau a'r telerau ac amodau newydd ar gyfer grantiau yn adlewyrchu'r Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau newydd a gafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill a'r is-ddeddfwriaeth ategol y disgwylir iddi ddod i rym yn ystod ail hanner 2022.

Mae'r tîm yn parhau i ateb y cannoedd o ymholiadau a gaiff yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â rhoi cymorth a chyngor wyneb yn wyneb (rhithwir) i reolwyr grantiau ar gyfer ymholiadau penodol ynglŷn ag unrhyw ran o'r broses grantiau o'r dechrau i'r diwedd. Mae'r tîm hefyd wedi manteisio ar y cyfle i adolygu a diweddaru'r holl ganllawiau, templedi a rhestrau gwirio sydd ar gael i reolwyr grantiau ar dudalennau ei fewnrwyd, gan alluogi unrhyw un ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru i'w gweld.

Mae nifer o gylchlythyrau a nodiadau gan reolwyr grantiau hefyd wedi'u cyhoeddi yn ystod y flwyddyn, sy'n ymdrin â phynciau megis diweddariadau ar y llythyr dyfarnu, arweiniad wedi'i ddiweddaru ar faterion sy'n ymwneud â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), rhannu gwybodaeth am y Panel Sicrwydd Grantiau a chyngor yn ymwneud â'r Cynllun Cadw Swyddi.

Yn ystod hydref 2021, gofynnwyd i'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau edrych ar y ffordd y caiff cynlluniau grant eu hailhysbysebu ar ddiwedd proses gystadleuol, a ellid cyflwyno proses feincnodi er mwyn helpu i nodi pa sefydliadau a fyddai'n parhau i gael cyllid ac, o dan rai amgylchiadau, a ellid ymestyn hyd cynlluniau grant i gyfnod cychwynnol o dair blynedd gyda'r opsiwn i'w hymestyn ymhellach am gyfnod o dair blynedd.

Y prif nod oedd rhoi terfyn ar y cylch o ailgystadlu am grantiau bob blwyddyn, sy'n gosod baich gweinyddol ar reolwyr grantiau a derbynwyr fel ei gilydd a, lle y bo'n ymarferol, symud i ffwrdd o ddyfarnu grantiau yn flynyddol. Byddai'r polisi newydd hefyd yn rhoi mwy o ffocws ar gyflawni canlyniadau yn ogystal ag allbynnau a helpu i fynd i'r afael â rhai o'r problemau sy'n ymwneud â recriwtio a chadw staff a wynebir gan dderbynwyr yn y trydydd sector pan ddyfernir cyllid yn flynyddol.

Ymgysylltodd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau â mwy na 200 o reolwyr grantiau ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru yn ogystal â thimau eraill megis gwasanaethau cyfreithiol, y gwasanaeth archwilio mewnol ac is-adran y gyllideb a busnes y llywodraeth, er mwyn helpu i lywio'r gwaith. Ochr yn ochr â hynny, ymgysylltodd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau ag Is-bwyllgor Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (sy'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau yn y trydydd sector) hefyd, a roddodd adborth, barn a sylwadau o safbwynt y trydydd sector a helpodd i lywio'r polisi a'r canllawiau terfynol.

Drwy'r gweithdai a'r gweithgarwch ymgysylltu a gynhaliwyd, roedd Rheolwyr Grantiau yn gadarnhaol iawn gyda llawer yn croesawu'r polisi newydd a gallent weld y manteision a'r arbedion effeithlonrwydd gwirioneddol y gellid eu sicrhau. Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau wedi darparu sawl sesiwn galw heibio y gall rheolwyr grantiau fynd iddynt, sy'n rhoi trosolwg o'r gwaith a lle y gallant gael cymorth a chyngor mewn perthynas ag unrhyw ymholiadau penodol sydd ganddynt ynglŷn â grantiau.

Bydd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn parhau i ddatblygu canllawiau a chymorth pellach wrth i'r gwaith barhau i gael ei ymgorffori ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. Yn fwy cyffredinol, bydd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr yn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, y Tîm Atal Twyll a'r Ganolfan Ragoriaeth Llywodraethiant Corfforaethol er mwyn nodi gwersi a ddysgwyd i gefnogi datblygiadau a gwelliannau pellach i brosesau rheoli grantiau, y gellir eu rhannu wedyn fel arferion gorau ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru.

## Y Panel Sicrwydd Grantiau

Cyflwynwyd y Panel Sicrwydd Grantiau ym mis Medi 2018 ac mae'n rhoi cyngor ymarferol a her i reolwyr grantiau ar gam cynnar yn natblygiad cynllun grant. Nod yw panel yw ychwanegu gwerth drwy helpu rheolwyr grantiau i liniaru risgiau posibl a sicrhau bod cynlluniau grant yn gyson â pholisïau Llywodraeth Cymru.

Daw aelodau'r panel o feysydd allweddol y busnes er mwyn cynnig her adeiladol, craffu a sicrwydd ar gyfer cynlluniau grant wedi'u neilltuo newydd/arfaethedig. Mae'r aelodau yn cynnwys swyddogion o'r gwasanaethau cyfreithiol, llywodraethiant, Swyddfa'r Cabinet, archwilio mewnol, atal twyll a chaffael.

Mae'r panel yn cyfarfod bob mis neu'n amlach yn ôl yr angen. Mae staff y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn cael eu cynrychioli ar y panel yn ogystal â darparu cymorth ysgrifenyddiaeth. Maent hefyd ar gael i gefnogi rheolwyr grantiau unigol cyn ac ar ôl y cyfarfodydd a chysylltu â'r rheolwr grantiau wedyn er mwyn cadarnhau a yw'r argymhellion wedi'u gweithredu ac, os felly, pryd y cawsant eu gweithredu.

Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau wedi cynnal adolygiad o'r panel ac wedi cysylltu â phob rheolwr grantiau a oedd yn bresennol yng nghyfarfodydd y panel dros y 12 mis diwethaf er mwyn gofyn am adborth a gweld a allai unrhyw welliannau gael eu gwneud. Gofynnwyd i aelodau'r panel gyflwyno sylwadau hefyd.

Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol, ar y cyfan, ac mae rheolwyr grantiau wedi croesawu'r penderfyniad i gyflwyno sesiwn cyn cyfarfod â'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau cyn cyfarfod y panel er mwyn deall y broses yn llawn cyn y prif gyfarfod. Mae Rheolwyr Grantiau wedi gwerthfawrogi cael adborth, cymorth ac arweiniad mewn perthynas â'u cynlluniau ar gam datblygu cynnar.

Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau hefyd wedi cyfarfod â chydweithwyr yn Swyddfa Cabinet y DU yn ddiweddar er mwyn trafod sut maent yn gweithredu eu panel grantiau a rhannu syniadau a phrofiadau. Bydd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn parhau i hyrwyddo'r panel a chodi ymwybyddiaeth ohono yn ogystal â rhannu themâu sy'n dod i'r amlwg ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru.

# Y Tîm Diwydrwydd Dyladwy Canolog

Cyflwynwyd y Tîm Diwydrwydd Dyladwy Canolog ym mis Ebrill 2019 ac mae'n atebol i Bennaeth y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau. Mae'r tîm wedi datblygu systemau a phrosesau i'w alluogi i wneud gwiriadau diwydrwydd dyladwy a llywodraethiant corfforaethol ynglŷn â sefydliadau y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried eu hariannu ar ran rheolwyr grantiau.

Y nod yw gwella cysondeb, lleihau dyblygu a rhoi mwy o gymorth i reolwyr grantiau ar gam arfarnu'r broses grantiau. Cyfrifoldeb y rheolwyr grantiau a'r timau polisi o hyd yw diwydrwydd dyladwy ar brosiectau, canlyniadau, gallu sefydliadol i gyflawni'r prosiect a gwerth am arian.

Mae'r tîm yn paratoi "Prawf Iechyd Ariannol Corfforaethol" ar gyfer pob sefydliad sy'n cynnwys dadansoddiad o gyfrifon archwiliedig, cadarnhau gwybodaeth a ddelir gan Dŷ'r Cwmnïau a'r Comisiwn Elusennau, defnyddio adnoddau atal twyll a gwybodaeth gan y Ganolfan Diwydrwydd Dyladwy. Fel arfer, mae'r mathau o faterion a nodwyd yn cynnwys sefydliadau sydd mewn anawsterau ariannol neu sy'n ansolfedd, Dyfarniadau'r Llys Sirol, pryderon ynglŷn â llywodraethiant neu wybodaeth anffafriol am y sefydliad neu ei benaduriaid.

Pan gaiff risgiau eu nodi, mae'r tîm yn rhoi argymhellion i'r rheolwr grantiau ynglŷn â chamau lliniaru. Er enghraifft, argymell gwarantau trawsgwmni, taliadau'n ôl-weithredol, trefniadau monitro tynnach neu gael rhagor o wybodaeth, rhagolygon neu eglurder ynglŷn â meysydd sy'n achos pryder.

Yn ystod 2021-22, mae'r tîm wedi cynnal dros 470 o asesiadau. Caiff yr asesiadau hyn eu lanlwytho i'r Hyb Diwydrwydd Dyladwy er mwyn i bob rheolwr grantiau a thimau eraill ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru allu eu gweld. Yn ogystal â darparu'r asesiadau corfforaethol, mae'r tîm hefyd wedi rhoi cyngor ac arweiniad pwrpasol i reolwyr grantiau ar ddyfarniadau a chynlluniau unigol, wedi mynd i gyfarfodydd tîm gan roi cyngor penodol ac wedi gweithio gyda gwasanaethau cyfreithiol er mwyn atgyfnerthu'r amodau a thelerau safonol ar gyfer grantiau o safbwynt diwydrwydd dyladwy.

Mae'r tîm hefyd wedi bod yn adolygu ei brosesau ac wedi cysylltu â phawb sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn gofyn am adborth ar ei waith mewn perthynas â'r asesiadau, y cyngor a'r camau lliniaru a ddarparwyd ac a oes angen i'r asesiadau gynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol. Bu'r adborth gan Reolwyr Grantiau yn gadarnhaol iawn ac, yn benodol, roeddent yn gwerthfawrogi'r sicrwydd a roddwyd, a'u helpodd i ddeall proffiliau ariannol sefydliadau, gan ddarparu prosesau lliniaru ychwanegol iddynt pan roedd eu hangen yn ogystal ag arbed amser ac adnoddau iddynt.

Mae'r tîm hefyd yn darparu cymorth diwydrwydd dyladwy yng nghyfarfodd y Panel Sicrwydd Grantiau a'r Panel Sicrwydd Allanol (ceir manylion y Panel Sicrwydd Allanol yn Rhan 2) ac yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr ym maes Archwilio Mewnol, Atal Twyll a'r Ganolfan Ragoriaeth Llywodraethu Corfforaethol er mwyn sicrhau y gellir mabwysiadu unrhyw wersi a ddysgwyd yn ei brosesau hefyd.

## Ymgysylltu ehangach

Bydd y tîm Diwydrwydd Dyladwy yn parhau i weithio gyda sefydliadau eraill a bwriedir ymgysylltu'n ehangach â gwahanol adrannau a sefydliadau yn y dyfodol, megis Swyddfa Cabinet y DU, Swyddfa'r Alban, asiantaethau atal twyll a chyrff eraill sy'n rhoi grantiau er mwyn rhannu arferion gorau a gwersi a ddysgwyd sy'n ymwneud â diwydrwydd dyladwy.

## Cyllid Grant gan Lywodraeth Cymru

Mae'r data ar gyfer 2021-22 yn seiliedig ar y system o "allweddau diwydiant" er mwyn rhoi darlun o gyllid yn ôl sector.

**Tabl 1: Cyfanswm Cyllid Grant Llywodraeth Cymru yn ôl Blwyddyn Ariannol**

| | 2019-20 £bn | 2020-21 £bn | 2021-21 £bn |
|---|---:|---:|---:|
| Grant a roddwyd (£bn) | 16.4 | 21.2 | 20.8 |

**Tabl 2: Mae'n dangos lefelau o gyllid wedi'i neilltuo a roddwyd i bob un o'r sectorau mawr ar gyfer y tair blwyddyn ariannol ddiwethaf.**

| Cyllid Grant Wedi'i Neilltuo | 2019-20 £bn | 2020-21 £bn | 2021-21 £bn |
|---|---:|---:|---:|
| Awdurdodau Lleol | 1,468 | 2,625 | 2,727 |
| Y GIG | 80 | 86 | 79 |
| Llywodraeth Ganolog a Chorfforaethau Cyhoeddus | 809 | 1,073* | 1,164 |
| Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | 59 | 141 | 210 |
| Cyllid i Addysg | 506 | 600 | 686 |
| Y Sector Preifat | 441 | 2,827 | 1,547 |
| Y Trydydd Sector | 340 | 461* | 516 |

* Ailddatganwyd i adlewyrchu cywiriadau i ddosbarthiadau

Y prif reswm dros y gostyngiad o £1.3 biliwn mewn grantiau wedi'i neilltuo i'r Sector Preifat yn 2021-22 yw bod 2020-21 yn flwyddyn eithriadol pan roddodd Llywodraeth Cymru gymorth gwerth @£1.9 biliwn i fusnesau er mwyn ymateb i'r pandemig COVID-19 ac effaith cyfyngiadau cenedlaethol a lleol ar fasnachu. Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gefnogi busnesau yr effeithiodd y pandemig COVID-19 arnynt yn 2021-22. Fodd bynnag, gan fod yr ymateb cenedlaethol i'r pandemig wedi newid mae'r angen am gymorth grant uniongyrchol i fusnesau yr effeithiwyd arnynt hefyd wedi lleihau. Cafodd cymorth ym mlwyddyn ariannol 2021-22 ei dargedu'n fwy ar y sector Twristiaeth, y sector Hamdden a'r sector Lletygarwch ac, o ganlyniad, gwelwyd gostyngiad yn nifer y busnesau a oedd yn gymwys i gael arian.

# Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

## Diweddariad Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar y Cynnydd o ran Cyflawni Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru 2021-22

Rhaglen Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru sy'n gyfrifol am reoli rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) yng Nghymru ar gyfer cylch cyllido 2014-2020. Daeth y Ddeddf Cytundeb Ymadael i rym ym mis Ionawr 2020 a gadawodd y DU yr Undeb Ewropeaidd (UE) ar 31 Ionawr 2020.

Mae hyn yn golygu y bydd y rhaglenni presennol o dan ESF ac ERDF yn cael eu cwblhau fel pe bai'r DU yn dal i fod yn un o Aelod-wladwriaethau'r UE. Bydd gwariant prosiect hyd at 31 Rhagfyr 2023 yn gymwys i gael cymorth yr UE, a bydd y gwariant prosiect terfynol yn cael ei ad-dalu yn ystod y flwyddyn ariannol 2024-25. Mae WEFO wedi neilltuo dyraniad cyfan Cronfeydd Strwythurol yr UE ar gyfer 2014-2020, gan fuddsoddi dros £2.1bn a sbarduno buddsoddiad gwerth dros £4bn i gyd (ar 31 Mawrth 2022) sydd hefyd yn cynnwys ailbwrpasu cronfeydd strwythurol yr UE i gefnogi'r ymateb i COVID-19 yng Nghymru.

Hyd yma, mae prosiectau'r UE a gefnogwyd gan raglenni 2014-2020 wedi creu mwy na 27,100 o swyddi a mwy na 5,100 o fusnesau newydd. Hefyd, mae dros 19,000 o fusnesau wedi cael cymorth, mae bron i 33,300 o bobl wedi cael eu helpu i gael gwaith, ac mae ychydig dros 133,900 o gymwysterau wedi cael eu hennill.

**Mae Tablau 1-4 yn dangos:**

- cynnydd WEFO o ran neilltuo'r grant sydd ar gael o dan y Cronfeydd Strwythurol y mae'n ei ddosbarthu yng Nghymru, ar 31 Mawrth 2022 – Tabl 1
- amlinellir dadansoddiad o'r prosiectau yn ôl sector yn y tabl isod – Tabl 2 (cymeradwywyd) a Thabl 3 (hawliadau)
- taliadau grant blynyddol a wnaed rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022 – Tabl 4.

**Tabl 1: Cymeradwyaethau yn ôl Rhaglen**

| Cyllid Wedi'i Neilltuo (£m) | ERDF Gorllewin Cymru £m | ERDF Dwyrain Cymru £m | ESF Gorllewin Cymru £m | ESF Dwyrain Cymru £m | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyraniad | 1,043 | 175 | 702 | 177 | 2,097 |
| Gwerth y Grant | 1,062 | 184 | 709 | 151 | 2,106 |
| Nifer y Gweithrediadau | 108 | 40 | 73 | 44 | 265 |
| % a Gymeradwywyd | 102% | 105% | 101% | 85% | 100% |

| Iwerddon / Cymru | €m |
|---|---|
| Dyraniad | 79 |
| Gwerth y Grant | 78 |
| Nifer y Gweithrediadau | 23 |
| % a Gymeradwywyd | 99% |

**Tabl 2: Prosiectau a Ariennir gan yr UE a Gymeradwywyd ar 31 Mawrth 2022**


| | Nifer y prosiectau a gymeradwywyd | Cyfanswm y Buddsoddiad | | Grant yr UE | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Swm £m | Cyfran | Swm £m | Cyfran |
| Llywodraeth Cymru | 74* | 2,167 | 55% | 1027 | 49% |
| Y Trydydd Sector | 32 | 198 | 5% | 152 | 7% |
| AU/AB | 77 | 632 | 16% | 389 | 18% |
| Y Sector Preifat | 20 | 569 | 15% | 302 | 15% |
| Llywodraeth Leol | 62 | 369 | 9% | 236 | 11% |
| **Prif Gyfanswm** | **265** | **3,935** | **100%** | **2106** | **100%** |

* Mae'r ffigur yn cynnwys 15 o brosiectau sy'n ymwneud â CNLCau, Asiantaethau'r Llywodraeth a Chyrff Cyhoeddus Eraill.

### Tabl 3: Dadansoddiad o Hawliadau yn ôl Sector

| | Gwariant Cronnus y Proffil Cyflawni £m | Gwariant Cymwys a Broseswyd £m | Amrywiant mewn Gwariant £m | Grant Proffil Cyflawni £m | Grant a Dalwyd Hyd yn Hyn £m | Amrywiant yn y Grant £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 1,318 | 1,098 | 220 | 593 | 490 | 103 |
| Y Trydydd Sector | 125 | 105 | 20 | 89 | 80 | 9 |
| AU/AB | 490 | 447 | 43 | 302 | 271 | 31 |
| Y Sector Preifat | 491 | 452 | 39 | 257 | 232 | 25 |
| Llywodraeth Leol | 249 | 217 | 32 | 161 | 140 | 21 |
| **Prif Gyfan-swm** | **2,673** | **2,319** | **354** | **1,402** | **1,213** | **189** |

### Tabl 4: Taliadau Grant



## Prosiectau Llywodraeth Cymru

Cyflawnir prosiectau a arweinir gan Lywodraeth Cymru drwy amrywiaeth o bartneriaid cyflawni. Mae arweiniad Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn bosibl i amrywiaeth o bartneriaid cyflawni fod yn rhan o'r rhaglenni na fyddent fel arall wedi cael y profiad, na fyddai ganddynt gyfalaf gweithio na'r gallu i gymryd risgiau er mwyn cymryd rhan effeithiol yn y rhaglenni.

Mae prosiectau Llywodraeth Cymru yn gwneud cyfanswm o £1.8bn o dan y rhaglenni presennol, sydd wedi cael £0.82bn o Gronfeydd Strwythurol yr UE.

| | Cyfanswm y gost | Cyfraniad yr UE |
|---|---:|---:|
| Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol | £1,556,042,902 | £676,447,514 |
| Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus | £234,869,595 | £118,340,755 |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | £37,222,027 | £25,915,836 |
| **Cyfanswm** | **£1,828,134,524** | **£820,704,105** |

Daw prosiectau Llywodraeth Cymru i ben ar adegau gwahanol rhwng nawr a diwedd 2023. Mae WEFO yn parhau i weithio gyda'r holl fuddiolwyr i gynnal eu proffiliau cyflawni arfaethedig, cyflwyno hawliadau'n brydlon a datgan eu holl wariant.

## Ymateb WEFO i COVID-19

Mae'r sefyllfa o ran COVID-19 yn parhau i gael ei hadolygu drwy'r amser. Mae'n ddigon posibl y bydd y gwaith o gyflawni prosiectau yn mynd yn broblem, yn enwedig i'r rhai sy'n cael eu cwblhau erbyn diwedd y cyfnod rhaglennu yn ôl y bwriad. Mae WEFO yn parhau i weithio'n hyblyg gyda sefydliadau er mwyn sicrhau na fydd unrhyw darfu ar y broses gyflawni hyd y gellir.

Mae Menter Fuddsoddi'r Undeb Ewropeaidd mewn Ymateb i'r Coronafeirws (CRII) wedi darparu pecyn o ddulliau hyblyg ar gyfer defnyddio Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd mewn ymateb i effeithiau economaidd COVID-19.

Mae WEFO wedi manteisio ar CRII ac wedi clustnodi tua £120m o gyllid yr UE er mwyn cefnogi ail gam y Gronfa Cadernid Economaidd. Camau pellach ar gyfer Banc Datblygu Cymru a gweithgareddau cymorth i fusnesau, yn fwy cyffredinol, yn ogystal â chostau gwasanaethau iechyd sy'n gysylltiedig â COVID-19, er mwyn helpu i recriwtio staff meddygol ychwanegol a phrynu cyfarpar diogelu personol.

Daethpwyd o hyd i'r cyllid o ganlyniad i newidiadau yn y gyfradd gyfnewid ac mewn symiau wedi'u dadneilltuo rhagamcanol ac ni fydd unrhyw effaith ar gyllid na phroses gyflawni prosiectau a ariennir o dan Gronfeydd Strwythurol yr UE ar hyn o bryd fel rhan o raglen 2014-2020.

# Datganiad Llywodraeth Cymru o'r Sefyllfa Ariannol

Mae'r ffeithlun isod yn rhoi trosolwg o Ddatganiad Cyfunol Llywodraeth Cymru o'r Sefyllfa Ariannol.

| Asedau Cyfunol Llywodraeth Cymru | 2021-22 £bn | 2020-21 £bn |
|---|---|---|
| **Asedau Ffisegol** | | |
| Y rhwydwaith ffyrdd (cefnffyrdd gan gynnwys traffyrdd) | 19.1 | 17.2 |
| Y rhwydwaith rheiffyrdd (Llinellau Craidd y Cymoedd) | 2.0 | 2.6 |
| Tir ac adeiladau (gan gynnwys Ystad y GIG) | 3.5 | 3.5 |
| Asedau sy'n cael eu hadeiladu (ffyrdd a rheilffyrdd yn bennaf) | 1.5 | 1.5 |
| **Asedau Ariannol** | | |
| Portffolio benthyciadau myfyrwyr | 5.5 | 3.8 |
| Portffolio Cymorth i Brynu – Cymru | 0.4 | 0.4 |
| Benthyciadau Banc Datblygu Cymru | 0.2 | 0.1 |
| Benthyciadau a buddsoddiadau eraill | 0.9 | 0.7 |
| Arian parod | 1.5 | 1.8 |
| **Asedau eraill** | 1.7 | 0.9 |
| **Cyfanswm yr Asedau** | **36.3** | **32.5** |

| Rhwymedigaethau Cyfunol Llywodraeth Cymru | 2021-22 £bn | 2020-21 £bn |
|---|---|---|
| Symiau masnachol a symiau taladwy eraill | 2.2 | 2.1 |
| Croniadau eraill ac incwm gohiriedig | 1.2 | 0.5 |
| Darpariaeth Cronfa Gyfunol Cymru ar gyfer hawliadau am esgeulustod clinigol | 1.4 | 1.1 |
| Darpariaethau eraill | 0.3 | 0.3 |
| Rhwymedigaethau eraill | 0.7 | 1.0 |
| **Cyfanswm y Rhwymedigaethau** | **5.8** | **5.0** |
| **Asedau Net** | **30.5** | **27.5** |

Roedd y prif gynnydd yng ngwerth asedau yn ymwneud â phortffolio'r Rhwydwaith Ffyrdd a'r Portffolio Benthyciadau i Fyfyrwyr. Yn y ddau achos, mae'r prif gynnydd i'w briodoli i effaith ymarferion prisio a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ac fe'i hachoswyd gan newidiadau i fynegeion (megis yr RPI) a/neu gyfraddau disgownt. Ychwanegwyd £0.9bn at y portffolio Benthyciadau i Fyfyrwyr yn ystod y flwyddyn hefyd.

Mae a wnelo'r prif gynnydd yng ngwerth rhwymedigaethau â chroniadau. Maent yn deillio o gynlluniau Llywodraeth Cymru tua diwedd y flwyddyn ariannol a roddwyd ar waith er mwyn darparu cymorth mewn ymateb i'r Argyfwng Costau Byw a oedd yn dod i'r amlwg a rhoi cyllid ychwanegol i Awdurdodau Lleol, er enghraifft drwy Grant y Setliad Refeniw.

# Strategaeth a Datblygiad Sefydliadol

Roedd dod o hyd i le i ganolbwyntio ar ddyfodol y sefydliad, gan ddelio ag effaith argyfwng COVID-19 o ddydd i ddydd, ar yr un pryd, yn heriol. Bron dros nos, newidiodd Llywodraeth Cymru o ddiwylliant o weithio yn y swyddfa yn bennaf i un lle roedd y mwyafrif helaeth o staff yn gweithio o bell gyda holl oblygiadau hynny. Er gwaethaf yr heriau parhaus a oedd yn gysylltiedig â gweithio yn ystod argyfwng, roeddem yn gallu treulio rhywfaint o amser yn cynnwys uwch-arweinwyr a chydweithwyr ar bob lefel i rannu ein profiad er mwyn ein helpu i 'ailosod' y sefydliad ar gyfer y dyfodol, gan adeiladu ar yr hyn sydd wedi mynd yn dda a'r gwersi a ddysgwyd o'r hyn sydd wedi bod yn fwyaf anodd.

## Llywodraeth Cymru 2025

Mae'r sgwrs â'r sefydliad cyfan a ddechreuwyd gennym tua diwedd argyfwng y pandemig ynglŷn ag 'ailosod' y sefydliad ar gyfer y dyfodol, bellach yn cael ei ddatblygu drwy Llywodraeth Cymru 2025, sef rhaglen sefydliadol yr Ysgrifennydd Parhaol newydd ar gyfer y tair blynedd nesaf. Bydd Llywodraeth Cymru 2025 yn dwyn ynghyd ein Strategaethau ar gyfer y Gweithlu a'r Gweithle a'n Strategaeth Ddigidol ar gyfer y Dyfodol â darnau newydd o waith a fydd yn canolbwyntio ar newid trawsnewidiol a gwelliant parhaus y bydd pob aelod o'n staff yn cael eu hannog i gymryd rhan yddynt.

Nod sylfaenol Llywodraeth Cymru 2025 yw adeiladu ar yr hyn rydym wedi'i gyflawni drwy gydol y pandemig a sicrhau ein bod yn addas at y diben er mwyn cefnogi Gweinidogion a chyflawni gwell canlyniadau i Gymru ar ôl y pandemig ac ar ôl ymadawiad y DU â'r UE. Er y disgwylir i gyfnod ymgysylltu Llywodraeth Cymru 2025 bara o fis Mawrth 2022 i fis Medi, nid yw wedi peri oedi i drafodaethau sy'n symud y sefydliad i'r cyfeiriad cywir. Mae hyn yn cynnwys ailalinio ein Grwpiau a arweinir gan Gyfarwyddwyr Cyffredinol er mwyn adlewyrchu portffolios Gweinidogol yn well. Daeth strwythur newydd y Grwpiau i rym ar 1 Ebrill.

## Strategaeth y Gweithlu

Mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi cael cryn effaith ar ein gweithlu a'r ffordd rydym yn trefnu ein hunain ac yn cydweithio â'n partneriaid. Yn ystod y cyfnod hwn, cytunodd y Pwyllgor Gweithredol ar nifer o drefniadau dros dro y bwriadwyd iddynt helpu i sicrhau bod gan y sefyliad yr hyblygrwydd roedd ei angen arno yn ystod yr ymateb i'r pandemig. Er i rywfaint o waith ar lunio cynllun strategol tymor hwy ar gyfer y gweithlu gael ei atal dros dro er mwyn i'r sefydliad cyfan allu canolbwyntio ar ddarparu adnoddau i fynd i'r afael â'r argyfwng, gwnaethom lwyddo i barhau i weithio ar agweddau pwysig ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant; gallu a thalent; gweithio hyblyg; a pherfformiad a datblygiad. Bydd hyn oll bellach yn bwydo i mewn i Strategaeth newydd ar gyfer y Gweithlu sy'n cael ei datblygu fel rhan o Llywodraeth Cymru 2025.

Un o'n blaenoriaethau pennaf yn ystod y flwyddyn oedd parhau i helpu ein staff i weithio'n ddiogel, p'un a oeddent yn y swyddfa neu'n gweithio o bell. Gan weithio mewn partneriaeth gymdeithasol â'n hundebau llafur, gwnaethom barhau â'n set fewnol o drefniadau 'Diogelu Llywodraeth Cymru', gan gynnwys asesiad manwl o risg COVID-19 yn y gweithle a phecyn cymorth i bob aelod o staff. Roedd yn ofynnol i bob tîm gynnal Siarter Tîm sy'n Gweithio'n Glyfar a'i diweddaru'n rheolaidd, a oedd yn nodi sut y byddent yn cadw mewn cysylltiad, yn cydweithio ac yn cyflawni eu blaenoriaethau gyda'i gilydd.

Gan fod y Prif Weinidog yn annog y cyhoedd i weithio gartref lle y bo'n bosibl, 'rhithwir yn ddiofyn' yw ein safbwynt o hyd gyda bron pob cyfarfod yn cael ei gynnal ar-lein, hyd yn oed pan fo rhai cydweithwyr yn cymryd rhan o swyddfa. Ym mis Gorffennaf 2021, cytunodd y Pwyllgor Gweithredol ar gynigion ar gyfer Cam Dysgu Gweithio'n Glyfar er mwyn helpu Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru i newid o drefniadau gweithio o bell yn bennaf i fodel gweithredu 'cyfunol' ar gyfer y dyfodol.

Y chwe egwyddor arweiniol sy'n sail i'r Cam Dysgu yw Diogelwch, Cynhyrchiant, Llesiant, Cymuned, Cysylltiad a Lleihau Carbon a Chostau. Caiff Cam Dysgu Gweithio'n Glyfar ei werthuso yn ystod yr hydref a defnyddir y canfyddiadau er mwyn helpu i lywio Llywodraeth Cymru 2025 a'n strategaethau ar gyfer y gweithlu a'r gweithle a'n strategaeth ddigidol ar gyfer y dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd sicrhau bod ein hadnoddau staff wedi'u cyfeirio at ein bylchau mwyaf difrifol wedi parhau i fod yn brif flaenoriaeth arall. Roedd rheolaethau ar lefel Grŵp a lefel gorfforaethol ar waith er mwyn helpu i gyfeirio adnoddau at rolau argyfwng, y Rhaglen Lywodraethu a blaenoriaethau statudol. Parhaodd y Panel Blaenoriaethu Adnoddau, dan gadeiryddiaeth yr Ysgrifennydd Parhaol, i gyfarfod er mwyn ystyried problemau'n ymwneud ag adnoddau gyda ffocws cynyddol ar achosion busnes strategol er mwyn meithrin gallu mewn meysydd hollbwysig ac ystyried modelau cyflawni amgen.

Wrth inni ddod allan o'r cyfnod dwysaf o reoli argyfwng, yn fwyfwy mae penderfyniadau ynghylch materion staffio yn cael eu gwneud ar lefel Grŵp a thîm ac mae fframwaith Dirprwyo ac Atebolrwydd newydd wrthi'n cael ei gyflwyno ar hyn o bryd fel rhan o Llywodraeth Cymru 2025 er mwyn sicrhau y gall penderfyniadau gael eu gwneud ar lefelau priodol yn y sefydliad.

Yn ystod blwyddyn heriol iawn, gwnaethom hefyd flaenoriaethu cydraddoldeb yn y gweithle, gan gyhoeddi Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (2021-26)[46] newydd i Lywodraeth Cymru sy'n nodi ein cynlluniau a'n targedau uchelgeisiol ar gyfer llywio ein gweithlu ar gyfer y dyfodol. Rydym yn ymrwymedig i fod yn gyflogwr sy'n esiampl i eraill; cynyddu ein hamrywiaeth drwy nifer o fesurau sy'n denu mwy o ymgeiswyr amrywiol ac yn galluogi staff o bob cefndir i gyflawni eu potensial a sicrhau cyfle cyfartal i bawb.

Bydd y Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant hefyd yn ein helpu i gyflawni'r targedau heriol rydym wedi'u pennu i ni ein hunain fel rhan o'n hymrwymiad i fod yn sefydliad gwrth-hiliol sy'n cynrychioli pob un o'r cymunedau a wasanaethir gennym a lle nad oes unrhyw le i agweddau hiliol.

---

46 www.llyw.cymru/strategaeth-cydraddoldeb-amrywiaeth-a-chynhwysiant-y-gweithlu-2021-i-2026-html#section-72824

Mae ein harolygon o foddhad staff yn parhau i roi ciplun cadarnhaol o brofiadau ein gweithlu. Dengys canlyniadau Arolwg Pobl 2021 ein bod yn parhau i berfformio'n dda o gymharu â Gwasanaeth Sifil y DU, gyda sgoriau ar gyfer bron pob thema uwchlaw'r meincnod a mwy na thri chwarter cwestiynau arolygon cymaradwy hefyd yn perfformio'n well na meincnod y DU. Er bod y canlyniadau cyffredinol yn parhau â'r duedd gadarnhaol a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid ydym yn hunanfodlon ynghylch y meysydd lle y gallwn wella. Gofynnwyd i bob Dirprwy Gyfarwyddwr gynnal sesiynau trafod â'i dîm er mwyn nodi lle y gellid gwneud gwelliannau lleol ac, ar lefel gorfforaethol, roedd yr adborth o'r trafodaethau hyn hefyd wedi helpu i lywio trafodaeth a phenderfyniadau'r Pwyllgor Gweithredol ynghylch materion yn ymwneud â'r gweithlu.

Drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i ymgysylltu â'n Hundebau Llafur cydnabyddedig, eu cynnwys ac ymgynghori â nhw'n ffurfiol ynghylch ein trefniadau dros dro a'n gwaith cynllunio ar gyfer y tymor hwy. Mae'r mewnbwn a'r herio gan gynrychiolwyr yn parhau i lywio'r gwelliannau rydym yn eu gwneud er mwyn mynd i'r afael â heriau sy'n gysylltiedig â'r gweithlu a chefnogi ein staff.

## Strategaeth Gweithlu'r Dyfodol

Mae Strategaeth Gweithle'r Dyfodol Llywodraeth Cymru yn cynnwys fframwaith lefel uchel hyblyg o egwyddorion arweiniol sy'n darparu sail ar gyfer llywio cynlluniau ar gyfer ein hystad weinyddol yn y dyfodol. Nod cyffredinol y strategaeth yw sicrhau ystad weinyddol gynaliadwy sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif ac sy'n cyd-fynd yn llwyr ag anghenion gweithredol, prif nodau ac amcanion polisi Llywodraeth Cymru.

Mae'r strategaeth yn cyd-fynd â Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, gan adlewyrchu'r angen i asedau ddiwallu anghenion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol yn ogystal â llywio cynnydd tuag at sicrhau allyriadau carbon sero net erbyn 2030. Nid yw Strategaeth y Gweithle yn bodoli ar ei phen ei hun. Yn hytrach, mae'n un o dair strategaeth sefydliadol newydd sy'n cynnwys Strategaeth y Gweithlu a'r Strategaeth Ddigidol a fydd yn gonglfeini i Llywodraeth Cymru 2025 a chynnydd tuag at fodel gweithredu newydd, a fydd yn ymgorffori newid parhaol mewn patrymau gweithio.

Ceir hefyd gydberthynas uniongyrchol â nodau ehangach Llywodraeth Cymru o ymgorffori gweithio o bell ym mhob sector yng Nghymru. Bydd maint ystad Llywodraeth Cymru, ei siâp a'i lleoliad yn brif flaenoriaethau yn y dyfodol ac erys effeithlonrwydd, perfformiad a fforddiadwyedd yr ased yn nodau cyffredin o hyd. Fel rhan o'i chynllun optimeiddio'r ystad, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried cyfleoedd cydweithredol i rannu gofod â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus.

## Y Strategaeth Arloesi Digidol

Bydd y Strategaeth Arloesi Digidol, sydd wrthi'n cael ei datblygu ar hyn o bryd fel rhan o Llywodraeth Cymru 2025, yn cyfleu uchelgeisiau digidol mewnol Llywodraeth Cymru ac yn cefnogi Strategaeth Gweithlu'r Dyfodol a Strategaeth Gweithle'r Dyfodol. Mae wedi'i hanelu at drawsnewid Llywodraeth Cymru yn sefydliad sy'n esiampl i eraill.

Mae'r Strategaeth Arloesi Digidol yn canolbwyntio ar saith egwyddor ddigidol allweddol a phedair egwyddor sy'n cefnogi Strategaeth Gweithlu'r Dyfodol a Strategaeth Gweithle'r Dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys egwyddorion ynglŷn â dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr a Safonau'r Gymraeg, hygyrchedd, gwasanaethau digidol integredig i'r staff, datblygu data cysylltiedig a hygyrch, gwasanaethau diogel a chadarn ac iteru'n aml dros berchennog gwasanaeth sydd wedi'i rymuso.

Yn ogystal â'r newidiadau i dechnoleg sy'n seiliedig ar yr egwyddorion hyn, bydd y strategaeth hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau digidol, prosesau recriwtio a chyfleoedd i gamu ymlaen mewn gyrfa ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru a'r proffesiwn Digidol Data a Thechnoleg (DDaT). Mae'r Strategaeth Arloesi Digidol yn adeiladu ar yr hyn y llwyddwyd i'w gyflawni drwy gydol y pandemig a bydd yn darparu gwasanaethau digidol cadarn o ansawdd uchel i bob aelod o staff gan gynnwys mwy o sgiliau digidol ym mhob rhan o'r sefydliad. Caiff hyn ei gefnogi gan adnoddau Digidol Data a Thechnoleg â mwy o gapasiti ar gyfer dylunio, cefnogi, datblygu a rheoli Digidol Data a Thechnoleg yn fewnol.

# Ein Hymrwymiad i Urddas a Pharch

## Diogelu Llywodraeth Cymru

Drwy gydol y pandemig, roedd iechyd, diogelwch a llesiant staff wrth wraidd pob un o’n prosesau gwneud penderfyniadau.



Mae sicrhau ein bod yn ddiogel, yn cadw mewn cysylltiad â’n gilydd ac yn gweithio mor gynhyrchiol â phosibl wedi bod yn flaenoriaeth inni. Mabwysiadodd y Pwyllgor Gweithredol ddull ystyriol a gofalus o wneud penderfyniadau o ran ein ffyrdd ein hunain o weithio. Mae newid o sefyllfa lle roedd 95% ohonom yn gweithio o bell i sefyllfa lle y gallwn alluogi mwy o bobl i weithio o’n swyddfeydd, wedi bod yn broses araf a chynyddrannol; lle rydym bob amser wedi ymateb i’r cyngor iechyd y cyhoedd diweddaraf.

Cynhaliwyd arolygon ac asesiadau risg manwl o'n swyddfeydd, yn ogystal ag asesiad risg llawn ar lefel sefydliadol sy'n ofynnol o dan y gyfraith. Gwnaethom barhau i fabwysiadu canllawiau Llywodraeth Cymru a oedd ar gael i bob sefydliad gyda phawb yn gweithio gartref os gallant wneud hynny.

Cyflwynwyd pecyn cymorth er mwyn helpu pobl i weithio'n fwy cyfforddus a diogel. Rhoddwyd blaenoriaeth i sicrhau bod pobl ag anghenion iechyd galwedigaethol yn cael cyfarpar arbenigol a rhoddwyd system ar waith i roi cyngor a chynnal asesiadau o staff a oedd yn pryderu bod eu trefniadau gweithio gartref yn effeithio ar eu hiechyd, a hynny o bell. Rhoddwyd amrywiaeth eang o ganllawiau a chymorth i'r rhai a oedd yn wynebu heriau o ran eu llesiant wrth weithio gartref.

Cynhaliwyd sesiynau cysylltu rheolaidd a oedd yn cynnwys sgyrsiau penodol am ein hiechyd, ein llesiant a'n trefniadau gweithio. Lle roedd angen, roedd asesiad risg unigol ar gael er mwyn helpu pobl i nodi eu lefel o risg a'r camau sydd angen eu cymryd er mwyn sicrhau y gallant weithio'n ddiogel. Cynhaliodd Uwch-Arweinwyr sgyrsiau strwythuredig â'u timau er mwyn datblygu Siarter Tîm Pontio'n Ddiogel a oedd yn nodi sut y bydd tîm yn cydweithio ac yn cadw'n ddiogel.

Rydym yn awyddus i gadw'r nifer mawr o fanteision sydd wedi deillio o Weithio'n Glyfar yn ystod yr argyfwng ar gyfer y tymor hwy, gan gynnwys cydweithio'n haws o fewn y sefydliad ac â Gweinidogion ledled Cymru a lleihad yn ein heffaith amgylcheddol. I'r rhan fwyaf ohonom, gweithio o bell am ran o'r wythnos o leiaf fydd y sefyllfa arferol ar gyfer y dyfodol rhagweladwy.

Yn ystod haf 2021, cytunodd ein Pwyllgor Gweithredol ar gynigion ar gyfer Cam Dysgu Gweithio'n Glyfar er mwyn helpu Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru i newid o drefniadau gweithio o bell yn bennaf i fodel gweithredu 'cyfunol' ar gyfer y dyfodol. Y chwe egwyddor arweiniol sy'n sail i Gam Dysgu yw Diogelwch, Cynhyrchiant, Llesiant, Cymuned, Cysylltiad a Lleihau Carbon a Chostau.

Gan fod y Prif Weinidog yn annog y cyhoedd i weithio gartref lle y bo'n bosibl, 'rhithwir yn ddiofyn' yw ein safbwynt o hyd ond caiff ein negeseuon eu haddasu er mwyn caniatáu cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn ein swyddfeydd lle y bo angen.

## Lles

Roeddem eisoes wedi dangos bod iechyd a lles yn flaenoriaeth allweddol wrth gefnogi staff drwy ddatblygu strategaethau ar gyfer Iechyd a Lles ac Iechyd Meddwl. Datblygwyd hyn yn 2017 mewn partneriaeth â chydweithwyr mewn Undebau Llafur a thrwy ymgysylltu â staff. Mae cymorth gydag iechyd meddwl a lles yn elfen allweddol o'r strategaeth hon.

Mae Addewid Amser i Newid, a lofnodwyd gan yr Ysgrifennydd Parhaol ym mis Mai 2019, yn sail i'n Strategaeth Iechyd Meddwl. Mae'n nodi ein hymrwymiadau allweddol i ddarparu gweithlu cynhwysol a chefnogol, lle mae stigma iechyd meddwl a gwahaniaethu yn cael eu herio ac mae gan staff yr adnoddau a'r strwythur cymorth i hwyluso diwylliant iechyd meddwl cadarnhaol yn y gweithle

.

Felly, roedd gwasanaethau craidd eisoes ar gael cyn y pandemig COVID-19 ac roedd yn darparu sail gadarn ar gyfer gwaith datblygu a gwelliannau pellach er mwyn ateb yr heriau o ran llesiant a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig. Mae ein gwasanaethau wedi'u halinio er mwyn i staff allu cael cymorth mewn ffyrdd sy'n diwallu eu hanghenion – drwy ddarparwyr allanol, systemau cymorth mewnol ac adnoddau ar-lein. Mae Gwasanaethau Craidd yn cynnwys:

- Iechyd Galwedigaethol – mae'r gwasanaeth hwn yn rhoi cyngor meddygol diduedd ac annibynnol i staff a rheolwyr pan fydd angen iechyd yn effeithio ar waith, neu os bydd gwaith yn cael effaith negyddol ar iechyd.
- Rhaglen Cymorth i Weithwyr – o dan y Rhaglen rhoddir cymorth emosiynol ac ymarferol i staff ar gyfer unrhyw broblemau yn y gwaith neu gartref. Mae'r gwasanaeth ar gael 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Mae gwasanaeth cwnsela dros y ffôn, cymorth rheoli a gwefannau 'Lifestyle' a 'Zest' ar gael ddydd a nos, saith diwrnod yr wythnos.
- Gwasanaeth Cwnsela drwy Raglen Cymorth i Weithwyr a'r darparwr Gwasanaethau Cwnsela Arbenigol – o dan y Rhaglen mae cymorth dros y ffôn a chymorth ar-lein hunanroddedig ar gael. Mae darparwr gwasanaethau cwnsela arbenigol Llywodraeth Cymru yn darparu gwasanaethau megis Therapi Gwybyddol Ymddygiadol.
- Adnoddau ar-lein er mwyn galluogi staff a rheolwyr llinell i gael gwybodaeth ac arweiniad ar gyfer eu lles eu hunain a lles cydweithwyr.
- Darparu amrywiaeth o addasiadau yn y gweithle er mwyn cefnogi staff drwy ddileu'r rhwystrau y gallant fod yn eu hwynebu yn y gwaith. Mae gwasanaeth Addasiadau yn y Gweithle a gynigir gennym yn cynnwys:
  - Darparu adnodd asesu DSE ar-lein ar gyfer pob aelod o staff.
  - Gwasanaeth Asesu DSE Arbenigol.
  - Darparu addasiadau ffisegol yn y gweithle megis cadeiriau, bysellfyrddau a llygod arbenigol; neu feddalwedd gynorthwyol.
  - Addasiadau nad ydynt yn rhai ffisegol megis newidiadau i ddyletswyddau neu batrymau gweithio unigolyn neu gymorth dehonglydd.
  - Asesiadau o anghenion arbenigol yn y gweithle.
  - Darparu cynllun profion llygaid am ddim.
- Cyflwyno'r awr llesiant i'w defnyddio gan staff ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau llesiant bob wythnos.

Yn ystod y pandemig, gwnaethom atgyfnerthu ein cymorth ymhellach ym mhob maes a datblygu ymyriadau a chamau gweithredu newydd er mwyn ymateb i'r anghenion llesiant a oedd yn dod i'r amlwg. Mae'r Pwyllgor Gweithredol wedi parhau i ganolbwyntio ar lesiant y sefydliad, gan gynnwys drwy ddadansoddi ein data a'n gwybodaeth am lesiant, drwy gynnwys llesiant fel pwnc rheolaidd yn ein sesiwn 'Dewch i Drafod' i bob aelod o staff a sicrhau bod llesiant yn cael ei drafod mewn sesiynau cysylltu i drafod perfformiad a datblygu y mae rheolwyr llinell yn eu cynnal â'u staff.

Yn sgil penodi darparwr Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol newydd ym mis Ebrill 2020, gwnaethom wella'r gwasanaeth a'i addasu er mwyn diwallu ein hanghenion newidiol. Roedd y rhain yn cynnwys lleihau amseroedd aros cyfartalog ar gyfer apwyntiadau a gwella'r ffordd y darperir adroddiadau; ffocws ar gymorth parhaus drwy drefnu apwyntiadau dilynol ac adolygiadau i staff sydd â phroblemau iechyd meddwl; a darparu ymgyngoriadau drwy Microsoft Teams neu dros y ffôn fel opsiwn. Parhawyd i ddarparu'r cymorth ychwanegol hwn yn 2021-22.

Mae cryn ymdrech wedi'i gwneud i atgyfnerthu cymorth ar gyfer iechyd meddwl a llesiant ymhellach gan ein bod wedi gweld mai hwn yw'r maes llesiant yr effeithiwyd arno'n benodol ers y pandemig. Lansiwyd rhaglen cymorth iechyd meddwl Dyfodol Galluog sy'n darparu cymorth un i un am naw mis drwy becyn pwrpasol sydd wedi'i deilwra at ofynion unigol.

Ym mis Gorffennaf 2021, gwnaethom hefyd lansio rhwydwaith o Gynghreiriaid Iechyd Meddwl ym mhob rhan o'r sefydliad er mwyn darparu cymorth emosiynol yn y fan a'r lle. Cafodd ein hadnoddau ar-lein eu hehangu a'u gwella i gynnwys Canllaw ar Iechyd Meddwl i Reolwyr Llinell a Phecyn Cymorth Sgwrsio er mwyn meithrin galluoedd rheolwyr llinell, a Chynllun Gweithredu Llesiant, sef adnodd sy'n ymdrin â rheoli sbardunau a heriau straen a wynebir gan gyflogeion yn y gweithle nawr ac yn y dyfodol.

Yn 2021-22 gwnaethom barhau â'n rhaglenni hyfforddi ym maes ymwybyddiaeth o iechyd meddwl i unigolion, cymheiriaid a rheolwyr llinell a chyflwyno sesiynau codi ymwybyddiaeth pellach ar sut i reoli materion sy'n achosi pryder ar hyn o bryd, megis Lludded, Bywyd ar ôl COVID-19 a Deall Digwyddiadau Trawmatig.

Rydym yn parhau i addasu adnoddau a'u datblygu ymhellach er mwyn cefnogi staff.

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 Amcan y Cyflogwr

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i roi 'sylw dyladwy' i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth, yn ogystal â hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'r Dyletswyddau Penodol, fel y'u nodwyd yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) 2011 yn cynnwys y gofyniad i gyhoeddi amcanion cydraddoldeb sydd â'r nod o helpu sefydliad i berfformio eu dyletswyddau cydraddoldeb yn y sector cyhoeddus yn well. Cyhoeddwyd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020-2024 ym mis Ebrill 2020, gyda'r amcan y byddwn yn gyflogwr sy'n dangos esiampl drwy'r canlynol:

- cynyddu amrywiaeth
- dileu rhwystrau
- cefnogi staff o bob cefndir i gyflawni eu potensial, gan sicrhau cyfle cyfartal i bawb.

# Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu 2021-2026

Mae Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu 2021-2026 yn nodi sut y byddwn yn cyflawni amcan ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi gwneud cryn gynnydd mewn sawl maes, sef:

## Gwrth-Hiliaeth

Mae ein Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn ein hymrwymo i fod yn sefydliad Gwrth-hiliol. Yn ystod y flwyddyn gwnaethom y canlynol:

- Cynnal sesiwn Dewch i Drafod i bob aelod o staff ar Hil ar 23 Mawrth 2022.
- Caffael darparwr hyfforddiant i ddatblygu a chyflwyno cyfres o sesiynau hyfforddiant atal gwahaniaethu i staff Llywodraeth Cymru, gan gynnwys gwrth-hiliaeth.
- Cynnull grŵp rhanddeiliaid (gan gynnwys ein Rhwydwaith Staff Ethnig Lleiafrifol) a weithiodd gyda'r darparwr hyfforddiant ar lunio cynnwys y rhaglen.
- Cyflwyno sesiynau peilot ar wrth-hiliaeth a sgyrsiau mewn man diogel.

## Y Model Cymdeithasol o Anabledd

Yn ystod y flwyddyn gwnaethom y canlynol:

- Adolygu pob polisi adnoddau dynol er mwyn sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir yn cydymffurfio â'r model cymdeithasol.
- Caffael darparwr hyfforddiant i ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant ar y model cymdeithasol i staff Llywodraeth Cymru.
- Cynnull grŵp rhanddeiliaid (gan gynnwys Rhwydwaith Ymwybyddiaeth a Chymorth y Staff) a weithiodd gyda'r darparwr ar lunio cynnwys y rhaglen.

## Bwrdd Cysgodol

Fel rhan o'n hymrwymiad i wella amrywiaeth ein fforymau gwneud penderfyniadau, rydym wedi sefydlu Bwrdd Cysgodol.

Mae'r Bwrdd Cysgodol yn grŵp amrywiol iawn o staff, o bob rhan o'r sefydliad. O wahanol raddau, oedrannau, patrymau gweithio a nodweddion gwarchodedig, gyda phob un yn dod â'i safbwynt unigryw a'i brofiad bywyd ei hun. Mae aelodau'r Bwrdd Cysgodol wedi cwblhau rhaglen hyfforddi gynhwysfawr. Maent yn cyfarfod ddeuddydd cyn y Bwrdd er mwyn trafod papurau'r Bwrdd ac yna mae un o'r Cydgadeiryddion yn mynd i gyfarfod y Bwrdd er mwyn rhoi safbwynt y Bwrdd Cysgodol ar bob eitem.

Mae hyn yn golygu bod syniadaeth y Bwrdd yn cael ei herio gan grŵp o bobl sy'n adlewyrchu amrywiaeth ein sefydliad. Bu'r Bwrdd Cysgodol ar waith ers mis Rhagor 2021. Mae cynllun monitro cydfuddiannol hefyd ar waith i aelodau'r Bwrdd Cysgodol a'r Bwrdd.

## Rhaglen Dysgu a Datblygu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rydym wedi cynnal ymarfer caffael er mwyn contractio darparwyr dysgu i ddatblygu a chyflwyno rhaglen lawn o ddysgu a datblygu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Bydd y rhaglen yn cynnwys:

- Y Model Cymdeithasol o Anabledd
- Portffolio atal gwahaniaethu:
  - Sgyrsiau am wrth-hiliaeth
  - Sgyrsiau mewn Man Diogel
  - Ei alw i mewn/allan – Adnabod a herio ymddygiad gwahaniaethol
  - Adnabod a deall micro-ymddygiadau ymosodol
  - Gweithleoedd Cynhwysol (Arweinwyr, Rheolwyr a Thimau)

Mae rhai o'r rhaglenni bellach wedi cael eu llunio a'u treialu a chânt eu cyflwyno'n fuan, tra bod eraill ar y cam datblygu ar hyn o bryd.

## Targedau Amrywiaeth y Gweithlu

Mae Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu 2021-2026 yn gosod targedau uchelgeisiol newydd inni o ran recriwtio a dyrchafu staff anabl a staff o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a menywod yn yr Uwch Wasanaeth Sifil.

**O ran recriwtio allanol, y targedau yw:**

- Erbyn 2026, ein nod yw y bydd 20% o'r bobl a benodir gennym yn anabl ac y bydd 20% o gefndiroedd ethnig leiafrifol.
- Erbyn 2030, ein nod yw cynyddu canran y bobl anabl a benodir gennym i 30%, er mwyn gwneud mwy i fynd i'r afael â'r ffaith bod pobl anabl wedi'u tangynrychioli i raddau helaeth iawn yn ein sefydliad. Caiff y targed o 30% ar gyfer 2030, a'r camau y bydd angen inni eu cymryd i'w gyrraedd, eu hadolygu yng ngoleuni'r gwersi a ddysgir wrth weithio i gyrraedd targed 2026, ond rydym am fod yn glir nawr mai ein huchelgais yw cyrraedd sefyllfa lle y bydd 30% o'r bobl a benodir gennym yn anabl erbyn 2030.
- Bydd mwy na 50% o'r bobl a gaiff eu penodi i'r Uwch Wasanaeth Sifil rhwng nawr a 2026 yn fenywod.

**O ran recriwtio mewnol, y targedau yw:**

- Dyrchafu staff anabl ar lefel sy'n uwch na'u cyfran o boblogaeth gweithlu Llywodraeth Cymru, er mwyn mynd i'r afael â thangynrychiolaeth ar bob lefel o'r sefydliad.
- Dyrchafu staff ethnig leiafrifol ar lefel sy'n uwch na'u cyfran o boblogaeth gweithlu Llywodraeth Cymru, er mwyn mynd i'r afael â thangynrychiolaeth ar bob lefel o'r sefydliad.
- Y bydd mwy na 50% o'r bobl a gaiff eu dyrchafu i'r Uwch Wasanaeth Sifil yn fenywod.

## Cynnydd yn erbyn targedau

Dadansoddwyd y cynnydd a wnaed yn erbyn y chwe tharged recriwtio ar gyfer blwyddyn galendr 2021 a dangosodd fod pedwar o'r chwe tharged recriwtio wedi'u cyflawni ac, yn fwy penodol:

- Ein bod wedi rhagori ar y targedau o 50% ar gyfer dyrchafu menywod i'r Uwch Wasanaeth Sifil a recriwtio menywod o ffynonellau allanol i'r gwasanaeth hwnnw.
- Ein bod wedi rhagori ar y targed ar gyfer dyrchafu staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar gyfradd uwch na'u cyfran o boblogaeth Llywodraeth Cymru a bod y targed cyfatebol ar gyfer staff anabl yn unol â'r targed a bennwyd.
- Nad oedd y targedau o 20% ar gyfer recriwtio pobl ethnig leiafrifol a phobl anabl o ffynonellau allanol wedi'u cyflawni, ac nad oedd y cyfrannau wedi newid fawr ddim o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

## Rhwydweithiau Amrywiaeth Staff

Mae pum rhwydwaith amrywiaeth yn Llywodraeth Cymru. Mae'r rhwydweithiau yn rhoi llais i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, yn galluogi cydweithwyr i rannu profiadau a chefnogi ei gilydd. Maent hefyd yn ein helpu i ddatblygu polisïau mewnol a chynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb. Mae Cydgadeiryddion y pum rhwydwaith hyn yn aelodau o'n Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant:

- **Ymwybyddiaeth a Chymorth Anabledd (DAAS)** – rhwydwaith cymorth i staff anabl sydd hefyd yn rhoi cyngor ar ddatblygu polisïau cyflogaeth, arferion ac amgylchedd sy'n effeithio ar staff yn unol â'r Model Cymdeithasol o Anabledd.
- **Rhwydwaith y Staff Ethnig Lleiafrifol (MESN)** – y rhwydwaith ar gyfer staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n rhoi sicrwydd ynglŷn â pholisïau'n ymwneud â chydraddoldeb ac sydd hefyd yn helpu aelodau i wneud eu profiad o weithio i Lywodraeth Cymru yn un sy'n fuddiol i'n cymunedau ac sy'n datblygu unigolion. Mae'r Rhwydwaith Staff Ethnig Lleiafrifol yn gweithio'n agos gyda ni er mwyn sicrhau ein bod yn sefydliad gwrth-hiliol.
- **Menywod Ynghyd** – rhwydwaith ar gyfer menywod, menywod traws a phobl anneuaidd a dynion fel cynghreiriaid. Mae Menywod Ynghyd yn annog twf personol a menywod yn helpu ei gilydd i gyrraedd eu llawn botensial.
- **PRISM** – y rhwydwaith staff ar gyfer cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd sy'n cefnogi staff sy'n nodi eu bod yn lesbiaidd, yn hoyw, yn ddeurywiol, yn draws neu'n rhywedd-amrywiadol (LGBT+).
- **Materion y Meddwl** – y rhwydwaith staff ar gyfer cydweithwyr sydd â diddordeb mewn iechyd meddwl a llesiant. Gall hyn gynnwys staff â phroblemau iechyd meddwl, staff sy'n rheoli cyflyrau iechyd meddwl neu staff sy'n gofalu am rywun y mae problemau iechyd meddwl yn effeithio arno.

Ceir rhwydweithiau cymorth gan gymheiriaid anffurfiol hefyd ar gyfer Mabwysiadu a Meithrin, Niwrowahaniaeth, Tinitws, Gofalwyr, y Gymdeithas Gristnogol, Y Tŷ a Fi ac Atal Dweud.

## Mentora o Chwith

Yn 2021, gwnaethom lansio carfan arall o'n cynllun mentora o chwith llwyddiannus a'i ymestyn i gynnwys staff ar lefel Gradd 6 yn ogystal â'r rhai yn yr Uwch Wasanaeth Sifil. Cafodd tua 60 o aelodau o staff eu mentora o chwith eleni gan staff a recriwtiwyd benodol ar gyfer eu safbwyntiau amrywiol a'u profiad uniongyrchol, gan gynnwys staff anabl, ethnig leiafrifol a LGBT+ yn ogystal â menywod a'r rhai sy'n nodi eu bod yn dod o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is.

## Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau

Bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2022 yw **6.40%**.

Mae ein methodoleg ar gyfer cyfrifo'r bwlch cyflog wedi'i diwygio ychydig eleni er mwyn ei symleiddio a'i gwneud yn fwy tryloyw. Diwygiwyd y fethodoleg a sicrhawyd ei hansawdd gan is-adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru drwy gyfuno data o ddwy system fewnol. Mae'r dull gweithredu newydd yn sicrhau mwy o gysondeb â phrosesau adrodd ar gydraddoldeb eraill a bydd yn ein galluogi i gymhwyso'r un fethodoleg at fylchau cyflog ar gyfer nodweddion gwarchodedig eraill yn y dyfodol.

Y bwlch cyflog cymedrig a gyhoeddwyd ar 31 Mawrth 2021 oedd **7.37%** ond ni ellir ei gymharu'n uniongyrchol â'r ffigur ar gyfer eleni. Mae'r ffigur ar gyfer 2021 wedi'i ailgyfrifo gan ddefnyddio'r fethodoleg ddiwygiedig. O ganlyniad, y bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau ar gyfer 31 Mawrth 2021 yw **7.02%**. Gan ddefnyddio'r ffigurau hyn y gellir eu cymharu'n uniongyrchol, bu gostyngiad o **0.61%** pwynt canrannol ym mwlch cyflog cymedrig Llywodraeth Cymru yn 2021-22. Er nad hwn yw'r ffigur isaf sydd wedi'i gofnodi ar gyfer bwlch cyflog cymedrig y sefydliad, mae'r gostyngiad hwn yn galonogol ac mae'n dangos bod y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn gweithio.

Eleni, am y tro cyntaf, gallwn gyhoeddi ffigur ar gyfer y bwlch cyflog canolrifol. Ar 31 Mawrth 2022, bwlch cyflog canolrifol Llywodraeth Cymru yw 0%, sy'n golygu bod cyflog canolrifol dynion a chyflog canolrifol menywod sy'n gweithio yn Llywodraeth Cymru yr un peth.

Er bod y sefydliad yn cyflogi mwy o fenywod na dynion yn gyffredinol, nid ydynt wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng y graddau. Menywod sy'n cyfrif am y mwyafrif o'r staff ar raddau is.

Roedd dyfarniad cyflog staff Llywodraeth Cymru yn 2021-22 wedi'i dargedu at ein graddau is, gyda staff o Gymorth Tîm i radd Swyddog Gweithredol Uwch yn cael codiad cyflog o **2-3.9%** yn dibynnu ar gyflog tra bod staff ar raddau uwch wedi cael codiad o **1%**. Mae hyn wedi helpu i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

Byddwn yn parhau i gymryd camau i fynd i'r afael â'n bwlch cyflog rhwng y rhywiau drwy helpu menywod ar bob lefel o'r sefydliad i ddatblygu eu gyrfaoedd a chamu ymlaen ynddynt a thrwy barhau â'n hymdrechion i greu Uwch Wasanaeth Sifil sy'n gytbwys o ran y rhywiau.

## Recriwtio

Mae Llywodraeth Cymru yn cadw at y Cynllun Gwarantu Cyfweliad ac fel rhan o'r cynllun hwn mae'n hysbysebu pob swydd wag fel y cyfryw. Mae'n ofynnol i unigolion sydd am gael eu hystyried o dan y Cynllun Gwarantu Cyfweliad ein hysbysu fel rhan o'r broses gwneud cais. Rydym yn cynnig yr un cyfle wrth recriwtio'n fewnol ac wedi ymestyn egwyddorion y Cynllun Gwarantu Cyfweliad i gynnwys staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol hefyd.

Rydym wedi ymestyn y broses addasiadau recriwtio a dreialwyd gennym ar gyfer ymgeiswyr anabl yn ystod ein Pyrth Dyrchafu. Mae'r broses bellach ar gael i unigolion sy'n symud ar draws o fewn y sefydliad, ac rydym yn gweithio ar ei hymestyn i gynnwys pob proses recriwtio allanol. Mae'r broses yn cynnwys y cyfle i gael sesiynau cyngor un i un i ymgeiswyr nad ydynt yn siŵr pa addasiadau rhesymol a pa addasiadau rhesymol y gallent ofyn amdanynt er mwyn sicrhau y gallant berfformio cystal â phosibl.

Gall ymgeiswyr gwblhau ffurflen, gyda chymorth mentor os oes angen, i gofnodi unrhyw addasiadau rhesymol i'r broses recriwtio a'r ffaith eu bod wedi cytuno iddynt. Pan fydd ymgeiswyr anabl yn llwyddiannus, byddwn yn sicrhau y cânt eu paru â rolau sy'n cyd-fynd â'r addasiadau yn y gweithle.

## Allgymorth

Fel rhan o'n hymrwymiad i gynyddu amrywiaeth, rydym wedi sefydlu tîm 'Amrywiaeth wrth Recriwtio' er mwyn darparu allgymorth wedi'i dargedu a llunio canllawiau i reolwyr llinell, penaethiaid proffesiwn, Partneriaid Busnes Adnoddau Dynol ac ymgeiswyr lle y bo'n briodol.

Cyngor ar allgymorth sy'n canolbwyntio ar ddenu pobl anabl a phobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a byddwn yn datblygu cynllun lleoliadau a llwybrau a fydd yn cynnwys cynlluniau wedi'u targedu er mwyn galluogi grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i gael profiad gwaith a'n helpu i ddatblygu llwybr cyflenwi ymgeiswyr y dyfodol.

## Rhagor o wybodaeth

Ceir rhagor o wybodaeth am weithgarwch cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant Llywodraeth Cymru fel cyflogwr a rhagor o fanylion am yr ystadegau cysylltiedig yn ein Hadroddiad Cydraddoldeb Cyflogwr Blynyddol[47]. Cyhoeddir y rhain ar wefan Llywodraeth Cymru erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn. Fe'u cyhoeddir flwyddyn ar ei hôl hi ac, felly, ar gyfer 2020-21 y mae'r adroddiad diweddaraf.

Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol drwy'r ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus. Rydym yn parhau i hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a herio gwahaniaethu. Mae ein Rhaglen Cyllido Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn ariannu saith prif elfen o waith, pob un wedi'i harwain gan sefydliadau cydraddoldeb yng Nghymru sydd ag arbenigedd perthnasol a chysylltiadau uniongyrchol â'r cymunedau rydym yn anelu at eu cefnogi.

Cyflwynir y rhaglen ledled Cymru, gan gynrychioli a grymuso pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol a'n helpu ni i gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb. Mae ein Hadroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol cyfun ar gyfer 2019-20 a 2020-21[48] yn nodi gwaith sy'n mynd rhagddo ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru a thrwy ein partneriaid i gymryd y camau a chyflawni'r canlyniadau yng Nghynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 Llywodraeth Cymru[49].

47 www.llyw.cymru/adroddiad-cydraddoldeb-cyflogwr-llywodraeth-cymru
48 www.llyw.cymru/adroddiad-cydraddoldeb-blynyddol-2019-2021
49 www.llyw.cymru/cynllun-nodau-cydraddoldeb-2020-i-2024

Dengys yr Adroddiad sut rydym wedi gweithio drwy gydol y pandemig COVID-19 er mwyn diwallu anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig, yn ogystal â'r rhai sydd wedi'u hymyleiddio mewn unrhyw ffordd. Rydym yn rhoi gwerth mawr ar ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid – rhywbeth a adlewyrchir yn ein fforymau cydraddoldeb, gan gynnwys Fforwm Hil Cymru, y Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl, Fforwm Cymunedau Ffydd, Tasglu Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches a'r Grŵp Cynghori ar Hawliau Dynol. Cadeirir pob un o'r rhain gan Weinidogion Cymru.

## Yr Arolwg Pobl

Mae ein harolygon o foddhad staff yn parhau i roi ciplun cadarnhaol o brofiadau ein gweithlu. Dengys canlyniadau Arolwg Pobl 2021 ein bod yn parhau i berfformio'n dda o gymharu â'r Gwasanaeth Sifil, gyda sgoriau ar gyfer bron pob thema uwchlaw'r meincnod a mwy na thri chwarter cwestiynau arolygon cymaradwy arolwg hefyd yn perfformio'n well na meincnod y DU.

Roedd Sgôr Mynegai Ymgysylltu â Chyflogeion 2021 yn gyson uchel ar 68%, gan barhau â'n tuedd gadarnhaol o berfformio'n unol â meincnod y Gwasanaeth Sifil neu'n uwch na hynny dros y pum mlynedd diwethaf.


Roedd uchafbwyntiau eraill yn cynnwys ein cynnydd yn y themâu 'Arweinyddiaeth a Rheoli Newid' a 'Cynhwysiant a Thriniaeth Deg' sydd wedi bod yn ddau faes gweithredu allweddol i Lywodraeth Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Yn hanesyddol, Arweinyddiaeth a Rheoli Newid oedd un o'n themâu nad oedd yn perfformio cystal ac a oedd islaw meincnod Gwasanaeth Sifil y DU. Drwy ganolbwyntio ar y maes hwn, gwnaethom sicrhau cynnydd sylweddol yn y sgôr yn arolygon mis Mawrth a mis Hydref 2020 (+5 a +12 pwynt canrannol), a oedd yn golygu bod sgôr Llywodraeth Cymru uwchlaw meincnod y Gwasanaeth Sifil. Gwnaethom barhau i berfformio'n uwch na'r meincnod hwn yn 2021.


Ar y cyfan, mae ein Sgôr ar gyfer Cynhwysiant a Thriniaeth Deg wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn i'r sgôr uchaf yn 2020 (86%), gan berfformio'n gyson uwch na Meincnod y Gwasanaeth Sifil dros y pum mlynedd diwethaf.

# Tueddiadau'r Arolwg Staff


## Sgôr Ymgysylltiad Staff 2017-2021




## Sgôr y Thema Arweinyddiaeth a Rheoli Newid 2017-2021




## Sgôr y Thema Cynhwysiant a Thriniaeth Deg 2017-2021



# Gweithio'n Ddwyieithog

Yn Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y defnydd mewnol o'r Gymraeg – "Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd" – rydym wedi pennu nod hirdymor ar gyfer defnyddio'r iaith. Bydd yn ffrwd waith allweddol yn Llywodraeth Cymru 2025 ac yn rhan annatod o'n ffyrdd o weithio yn y dyfodol.




Ein nod yw sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog erbyn 2050, sy'n golygu y byddai'n dod yn weithle lle mae'n arferol i'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu defnyddio mewn modd naturiol a chyfnewidiol.

Rydym hefyd wedi pennu nod tymor byrrach yn y strategaeth; ein nod yw y daw Llywodraeth Cymru yn sefydliad sy'n batrwm i eraill yn y ffordd y mae'n defnyddio'r iaith o gymharu â chyrff tebyg yng Nghymru erbyn 2025. Mae'r strategaeth ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru[50].

Mae "Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg"[51], sef strategaeth bellgyrhaeddol Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu'r Gymraeg ledled Cymru, hefyd yn ymrwymo i arwain drwy esiampl wrth hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Mae gan Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru ran hollbwysig i'w chwarae er mwyn helpu Gweinidogion i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr, drwy ddatblygu polisïau i hyrwyddo'r iaith ledled Cymru, yn ogystal ag arwain y ffordd i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith gan ein cyflogeion.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi canolbwyntio ar ddatblygu pedair thema sylfaenol y strategaeth, sef: dysgu, arweinyddiaeth, recriwtio a thechnoleg. Rydym wedi datblygu ac ehangu ein rhaglen dysgu Cymraeg, gan greu darpariaeth fwy amrywiol a hygyrch sydd wedi denu mwy o ddysgwyr i'r rhaglen.

Rydym yn cydnabod yn ein prosesau recriwtio fod sgiliau Cymraeg yn ased i weithio yn Llywodraeth Cymru ac rydym wedi ymrwymo i helpu ein cyflogeion i ddatblygu a gwella eu sgiliau. Mae hyfforddiant sefydlu newydd wedi'i ddatblygu i bob Uwch-was Sifil sy'n ymuno â'r sefydliad ac rydym wedi gweithio'n agos iawn gyda Microsoft i ddatblygu cyfleuster cyfieithu ar y pryd er mwyn sicrhau profiad da i ddefnyddwyr mewn cyfarfodydd Teams dwyieithog.

Yn unol â'n dyletswyddau statudol, rydym yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Mae adroddiad 2021-22[52] ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

50 www.llyw.cymru/cymraeg-maen-perthyn-i-ni-i-gyd
51 www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf
52 www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-safonaur-gymraeg-2021-i-2022

# Gohebiaeth a Chwynion

Mae gan Lywodraeth Cymru bolisi cwyno clir a thryloyw sy'n esbonio'r ffordd rydym yn ymdrin â chwynion gan aelodau o'r cyhoedd neu sefydliadau eraill.



Rydym wedi mabwysiadu arferion gorau ym maes ymdrin â chwynion yn unol â pholisi cwyno a chanllawiau enghreifftiol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru,

Yn y flwyddyn 2021-22, ymdriniwyd ag 84 o gwynion. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu DPA o 85% o ran ymateb i gwynion.

Mae’r tabl isod yn dangos amseroedd ymateb ar gyfer y tair blwyddyn ddiwethaf:

| | **% a gafodd ymateb o fewn y terfyn amser y cytunwyd arno** |
|---|---|
| Ebrill 2019 – Mawrth 2020 | 78% |
| Ebrill 2020 – Mawrth 2021 | 68% |
| Ebrill 2021 – Mawrth 2022 | 78% |

Caiff terfynau amser ymateb i gwynion eu monitro bob mis a chaiff Swyddogion Arweiniol Cwynion ym mhob Grŵp eu hysbysu amdanynt. Mae hyn yn rhoi cyfle iddynt dynnu sylw at ymatebion hwyr yn gynharach a chymryd camau i atal hyn rhag digwydd yn rheolaidd.

Mae sawl rheswm gwahanol pam na fyddai cwyn yn derbyn ymateb o fewn y terfyn amser penodedig (megis cymhlethdod y gŵyn neu lefel yr ymchwiliad sydd ei angen). Ar gyfer 2021-22, mae’r pandemig COVID-19 wedi parhau i effeithio ar allu swyddogion i gydymffurfio â therfynau amser wrth iddynt barhau i ymateb i gwynion sy’n ymwneud â’r pandemig.

Er nad oedd y rhan fwyaf o’r cwynion hyn yn dod o dan broses gwyno Llywodraeth Cymru ac yr ymatebwyd iddynt fel gohebiaeth arferol, roedd angen ymdrin â nhw mewn modd sensitif ac yn aml ar frys o hyd. Pryd bynnag y caiff terfyn amser cwyn ei estyn, mae achwynwyr bob amser yn cael eu hysbysu ymlaen llaw er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf, yn unol â model Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Atgyfeiriwyd 19 o gwynion at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (wyth yn llai na’r flwyddyn flaenorol). Penderfynwyd ymchwilio i un ohonynt a chadarnhawyd bod un elfen o’r gŵyn honno yn ddilys.

Mae’r tabl isod yn dangos cyfanswm yr achosion a gaewyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dros y pedair blynedd diwethaf.

Cyfanswm Blwyddyn yr achosion a gaewyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:

| | **Cyfanswm yr achosion a gaewyd dros y 4 blynedd diwethaf** |
|---|---|
| 2018-19 | 20 |
| 2019-20 | 7 |
| 2020-21 | 5 |
| 2021-22 | 1 |

Rydym wedi adolygu ein protocolau a’n dogfennaeth er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i wella’r broses ar gyfer ein cwsmeriaid a’n cyflogeion a bod y gwasanaeth yn gynhwysol ac yn hygyrch.

# Adroddiad Atebolrwydd 2021-22

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cyfrifon adnoddau cyfunol blynyddol yn unol â'r cyfarwyddydau a roddwyd gan Drysorlys Ei Fawrhydi, yn nodi'r adnoddau sydd wedi'u caffael, eu dal neu eu gwaredu a'r defnydd o adnoddau yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill a ddynodwyd yng Ngrŵp Llywodraeth Cymru ac a restrir yn y nodiadau i'r cyfrifon hyn. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o faterion Llywodraeth Cymru a'r grŵp, ac o incwm a gwariant, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a llifoedd arian parod y grŵp ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Y Prif Swyddog Cyfrifyddu ar ran Gweinidogion Cymru biau'r cyfrifoldeb dros drefniadaeth gyffredinol, rheolaeth a staffio Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb dros systemau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllid a materion eraill, a thros reoli gofyniad net Llywodraeth Cymru am arian parod. Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol hefyd am baratoi a llofnodi cyfrif adnoddau cyfunol Llywodraeth Cymru.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) y Llywodraeth ac, yn arbennig:

- parchu'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan y Trysorlys, gan gynnwys gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson
- sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru systemau a gweithdrefnau priodol a dibynadwy i gyflawni'r broses gydgrynhoi
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol, gan gynnwys y dyfarniadau sydd ynghlwm wrth gydgrynhoi'r wybodaeth gyfrifyddu a ddarperir gan gyrff cyhoeddus eraill yn y grŵp
- datgan a oes safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodir yn FReM, wedi'u dilyn a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol
- cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn eu crynswth yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol dros yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r farn sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

O dan Adran 133(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gallu dynodi aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol. Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu hefyd yn dynodi Prif Weithredwr y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yn Swyddog Cyfrifyddu'r GIG yng Nghymru. Mae gwaith y Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Iechyd Arbennig ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru'n cael ei lywodraethu gan awdurdod ar wahân ac mae Prif Weithredwyr pob un o'r Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn cael eu penodi'n Swyddogion Atebol gan Brif Weithredwr y GIG yng Nghymru. Nid yw'r penodiadau hyn yn tynnu oddi ar gyfrifoldeb cyffredinol y Prif Swyddog Cyfrifyddu dros gyfrifon Llywodraeth Cymru.

Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu (neu Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol, ar ei ran) hefyd wedi penodi Prif Weithredwyr (neu swyddogion cyfatebol) Cyrff Cyhoeddus Cymru fel Swyddogion Cyfrifyddu'r cyrff hynny. Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am sicrhau bod systemau a rheolaethau priodol yn eu lle i sicrhau yr ymgeisir am unrhyw grantiau y mae Llywodraeth Cymru'n eu rhoi i Gyrff Cyhoeddus Cymru at y dibenion a fwriedir. Mae'n gyfrifol hefyd am sicrhau bod modd cyfrif yn briodol am y gwariant hwnnw ac incwm a gwariant arall y cyrff hynny o fewn y cyfrifon adnoddau. O dan y telerau penodi, mae Swyddogion Cyfrifyddu Cyrff Cyhoeddus Cymru'n atebol am ddefnyddio, gan gynnwys rheoleidd-dra a phriodoldeb, y grantiau a dderbynnir ac incwm a gwariant arall y cyrff hynny.

Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, dros gadw cofnodion priodol, a diogelu asedau Llywodraeth Cymru neu'r Corff Cyhoeddus Cymreig y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, yn cael eu nodi yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

## Datgelu Gwybodaeth i Archwilwyr

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod Archwilydd Cyffredinol Cymru'n gwybod am yr wybodaeth honno. Hyd eithaf fy ngwybodaeth, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r Archwilydd Cyffredinol yn ymwybodol ohoni.

# Datganiad Llywodraethiant

## Rhagymadrodd

Rwyf yn gyfrifol am sicrhau bod safonau uchel o uniondeb yn y ffordd y rheolir arian cyhoeddus. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, rwyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n ategu cyflawni polisïau, nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru, ac sy'n hwyluso arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru yn effeithiol, gan gynnwys trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli risg.

Ym mis Tachwedd 2021, cefais fy mhenodi'n Brif Swyddog Cyfrifyddu ac er bod 2021-22 yn flwyddyn a barhaodd i gynhyrchu gweithgarwch eithriadol o ganlyniad i'r pandemig COVID-19, roedd hefyd yn gyfnod o ddychwelyd i fusnes yn ôl yr arfer i raddau helaethach. Rwyf wedi llwyddo i adeiladu ar y sylfeini llywodraethiant a'r fframweithiau rheoli cadarn a sefydlwyd gan fy rhagflaenydd a byddaf yn parhau i lywio fframwaith rheolaeth fewnol Llywodraeth Cymru, gyda Llywodraeth Cymru 2025, fy nghynllun tair blynedd ar gyfer datblygu'r sefydliad.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rwyf yn cydnabod bod ein cydnerthedd fel unigolion a thimau wedi cael ei brofi yn fwy nag erioed o'r blaen. Rydym wedi profi pa mor hyblyg ac arloesol y gallwn fod a pha mor effeithiol y gallwn weithio gyda'n partneriaid i gyflawni pethau na wnaethom feddwl erioed eu bod yn bosibl. Bydd angen inni barhau i ddatblygu'r dull hwn o herio'r ffordd yr ydym yn gweithio, gan gynnwys newid rhai o'n systemau, prosesau a modelau gweithredu sydd wedi hen ennill eu plwyf i'n galluogi i barhau i wella a chryfhau prosesau llywodraethiant, rheoli a risg.

Mae'r prif ffynonellau gwybodaeth yr wyf yn eu hystyried wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethiant hwn wedi'u nodi yn Ffigur 1 isod.

## Ffigur 1: Ffynonellau Gwybodaeth sy’n Cyfrannu at y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol




Defnyddir Ffynonellau Gwybodaeth Allanol hefyd i lunio'r Datganiad Llywodraethiant.

Mae'r rhain yn cynnwys adroddiadau gan y canlynol, ymysg eraill:

- Archwilio Cymru
- Rheoleiddwyr
- Y Comisiwn Ewropeaidd
- Aseswyr Allanol.

## Y Fframwaith Llywodraethiant

Mae'r Fframwaith Llywodraethiant yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd a ddefnyddir i gyfeirio a rheoli Llywodraeth Cymru a'r gweithgareddau y mae'n atebol trwyddynt i Senedd Cymru ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid trwyddynt. Mae'n galluogi'r sefydliad i fonitro'r modd y mae ei bolisïau, ei nodau a'i amcanion yn cael eu cyflawni ac i weld a lwyddwyd i sicrhau gwerth am arian. Mae'r fframwaith yn cynnwys y cyrff hynny y cyflawnir blaenoriaethau ac ymrwymiadau'r llywodraeth trwyddynt a hefyd y trefniadau mewnol ar gyfer gwneud penderfyniadau yn Llywodraeth Cymru. Ceir manylion pellach am y Fframwaith Llywodraethiant o fewn Datganiad System y Swyddog Cyfrifyddu.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Rwyf wedi ymrwymo i gefnogi Gweinidogion Cymru i gyflawni eu dyletswydd i hyrwyddo datblygu cynaliadwy (Deddf Llywodraeth Cymru 2006) a llesiant (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015). Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi'i dylunio i sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor drefniadol y llywodraeth a chyrff cyhoeddus, ac felly dylai trefniadau gweithredu a llywodraethiant a mecanweithiau'r Llywodraeth, a'r cyngor a'r cymorth a roddir gan y gwasanaeth sifil yng Nghymru, wella'n gyson er mwyn ymateb i'r gofynion hyn.

Rwyf wedi lansio LlC2025, ein rhaglen tair blynedd ar gyfer datblygu sefydliadol a llwyfan ar gyfer y sgwrs gyda'n gweithlu am y newidiadau a'r gwelliannau y mae angen inni eu gwneud i weithredu mewn byd ôl-bandemig, a ninnau wedi ymadael â'r UE. Drwy LlC2025, bydd datblygu cynaliadwy fel egwyddor graidd y modd yr ydym yn gweithio yn awr ac yn y dyfodol yn parhau i lywio a gyrru'r sgwrs a'r gwelliannau yr ydym yn eu gwneud. Mae gweithgarwch ymgysylltu sylweddol â gweithwyr ar y gweill i lywio ein dull gweithredu yn y dyfodol ac i sicrhau bod y gweithgareddau a roddwn ar waith fel rhan o LlC2025, yn cefnogi staff i roi egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth wraidd y modd yr ydym yn ymddwyn a phopeth yr ydym yn ei wneud.

Rydym yn parhau i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd a drafododd y Pwyllgor Gweithredol ym mis Chwefror 2020 a fyddai'n ein galluogi i ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy ymhellach yn y modd yr ydym yn gweithio ac yn cefnogi'r Gweinidogion. Yn 2022, parhaodd y Pwyllgor Gweithredol i oruchwylio'r modd yr ydym yn rhoi'r Ddeddf ar waith, gan ganolbwyntio ar sut y gallwn gyfleu ein cynnydd yn well. Byddaf yn parhau i ddefnyddio'r mecanweithiau rheolaeth fewnol a llywodraethiant i yrru'r newidiadau a'r gwelliannau a ddisgwylir trwy arddel egwyddorion llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Rydym yn gweithio ar y cyd â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wrth iddynt gynnal eu Hadolygiad Adran 20 o'r modd y mae peirianwaith Llywodraeth Cymru yn cyflawni datblygu cynaliadwy ac yn diogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion. Rydym wedi ymrwymo ar y cyd i ddysgu a gwella parhaus yn y modd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy ac yn darparu arweiniad i'r sector cyhoeddus ehangach.

## Cyrff Cyhoeddus Cymru

Mae Llywodraeth Cymru’n cyflawni rhai o’i nodau a’i hamcanion trwy nifer o Gyrff Cyhoeddus, gan gynnwys Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, is-gwmnïau a chyrff eraill a noddir gan y Llywodraeth. Penodir Swyddogion Cyfrifyddu ar gyfer pob corff sydd â swyddogaethau gweithredol, ac maent yn gyfrifol am y ffordd y mae sefydliad yn rheoli cyllid cyhoeddus ac yn cyflawni ei amcanion. Mae’n ofynnol i Swyddogion Cyfrifyddu lofnodi datganiad llywodraethiant a gyhoeddir yng nghyfrifon blynyddol eu corff. Diffinnir y berthynas â Llywodraeth Cymru mewn dogfennaeth ysgrifenedig ar gyfer pob corff.

Mae’r Uned Cyrff Cyhoeddus wedi parhau i ddatblygu’r berthynas bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a’i chyrff cyhoeddus. Mae’r Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus wedi parhau i gyfarfod o bell yn ystod y pandemig ac mae wedi bod o fudd mawr fel fforwm ar gyfer deialog â chyrff cyhoeddus a rhyngddynt. Mae’r Fforwm yn cael ei gadeirio’n annibynnol ac mae’r aelodaeth wedi’i hehangu dros y flwyddyn. Mae’r Uned Cyrff Cyhoeddus wedi dechrau cyflwyno ei rhaglen o Adolygiadau Teilwredig, gan fabwysiadu dull ymgynghorol sy’n seiliedig ar risg. Mae’r Uned hefyd wedi bod yn arwain y gwaith o gyflawni dros 100 o benodiadau cyhoeddus bob blwyddyn, ac ar weithredu Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru. Mae hefyd yn gyfrifol am fwrw ymlaen â materion yn ymwneud â chydraddoldeb cyflog yn y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, ac am ddarparu cymorth ar greu Cyrff Cyhoeddus newydd yng Nghymru.

Mae effaith y pandemig wedi’i gwneud yn ofynnol i’r Uned Cyrff Cyhoeddus fod yn arbennig o ofalus i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i gyrff cyhoeddus am ganllawiau oddi wrth Lywodraeth Cymru a hefyd, lle y bo’n briodol, oddi wrth Lywodraeth y DU. Er enghraifft, mae wedi gweithio gyda chydweithwyr yn y Sector Cyhoeddus datganoledig yng Nghymru, i nodi gweledigaeth ar gyfer ffyrdd newydd o weithio ar ôl y pandemig, ac wedi cefnogi’r gwaith o ddarparu grantiau Llywodraeth Cymru sydd wedi’u cynllunio i gefnogi busnesau a Chyrff Cyhoeddus ar ôl y pandemig. Mae’r Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus wedi bod o gymorth wrth lwyddo i hwyluso cyfnewid profiadau ar bynciau pwysig, megis gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer Cymru.

## Trefniadau Mewnol Llywodraeth Cymru

Mae’r system rheolaeth fewnol yn rhan sylweddol o’r Fframwaith Llywodraethiant a bwriedir iddi liniaru risg annerbyniol. Mae Cynllun Dirprwyaethau Llywodraeth Cymru yn nodi’r dirprwyaethau safonol sy’n gweithredu ar draws pob rhan o Lywodraeth Cymru.


Cyhoeddwyd Cynllun Dirprwyaethau wedi’i ddiweddaru ym mis Hydref 2020 i adlewyrchu’r polisïau diweddaraf yn Llywodraeth Cymru. Ers y dyddiad hwn, mae’r Ganolfan Ragoriaeth Llywodraethiant Corfforaethol wedi diweddaru’r Atodlen ar sawl achlysur i adlewyrchu lle y mae mân newidiadau wedi’u gwneud yn ystod y flwyddyn, megis unigolion yn newid rolau. Mae unrhyw newidiadau’n cael eu cyfleu drwy Benaethiaid Cyllid a Chymuned Ymarfer Llywodraethiant Corfforaethol ledled Llywodraeth Cymru.

Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Llywodraethiant Corfforaethol yn cyhoeddi bwletinau hanner blwyddyn i'r holl staff yn tynnu sylw at rai o'r egwyddorion a'r prosesau a ddefnyddir i gael arferion llywodraethiant da ar draws holl adrannau Llywodraeth Cymru. Ym mis Ebrill 2021, hysbyswyd staff am yr arferion gorau i'w dilyn wrth sefydlu corff cyhoeddus gan fod cyrff cyhoeddus yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o hyrwyddo, darparu, ariannu a chraffu ar wasanaethau cyhoeddus. Dilynwyd hyn gan ganllawiau a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021 yn nodi effaith bosibl cytuno i wneud taliadau ymlaen llaw a'r amgylchiadau hynny lle y gallai taliad ymlaen llaw fod yn briodol ac yn gyson â chyfrifoldebau Swyddogion Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru.

Cefnogir y Fframwaith Llywodraethiant a'r system rheolaeth fewnol hefyd gan broses barhaus o reoli risg, sydd wedi'i chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru, i werthuso pa mor debygol ydyw y caiff y risgiau hynny eu gwireddu, ac wedyn i'w rheoli yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Datblygwyd y fframwaith llywodraethiant i gydymffurfio â gofynion llywodraethiant da ac fe'i hategir gan Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru sy'n nodi'r egwyddorion ar gyfer delio ag adnoddau yn sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Ym mis Ebrill 2021 aeth y Ganolfan Ragoriaeth Llywodraethiant Corfforaethol ati i baratoi Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru ar ei newydd wedd. Roedd y gwaith hwn i fod i ddechrau yn ystod 2020 ond cafodd ei ohirio oherwydd yr angen i ganolbwyntio ar flaenoriaethau COVID-19.

## Y Strwythur Llywodraethiant Corfforaethol[53]




Mae'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yn gorff penderfynu gan fod yr Ysgrifennydd Parhaol yn aelod sefydlog o'r Pwyllgor.

53 Sylwer bod yr Is-bwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Pobl a Gwasanaethau Corfforaethol wedi'u huno i greu'r Pwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Parhaodd Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru i esblygu a datblygu yn ystod y cyfnod wrth i ffynonellau newydd o ddata gael eu hymgorffori. Mae'r Fframwaith yn rhoi darlun cyffredinol o sut yr ydym yn perfformio yn y meysydd allweddol yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Ysgrifennydd Parhaol. Rwyf am sicrhau ein bod yn defnyddio'r offeryn hwn i helpu i yrru a chanolbwyntio ein camau rheoli a'n gwelliannau. Felly yn y flwyddyn i ddod rwyf yn gobeithio y byddwn yn gallu dechrau elwa ar ddata cyfres amser yn y broses ac y byddwn yn dod o hyd i ragor o ffyrdd o gymhwyso'r Fframwaith yn ymarferol.

## Y Cod Llywodraethiant Corfforaethol

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddilyn yr egwyddorion a amlinellir yn y Cod Llywodraethiant Corfforaethol ar gyfer Adrannau Canolog cyn belled ag y bo'n ymarferol, hyd nes y bydd asesiad o God Llywodraethiant Corfforaethol Cymru yn cael ei gynnal. Mae meysydd lle mae arfer Llywodraeth Cymru yn ymwahanu oddi wrth y Cod (gan fod y Cod wedi'i gynllunio ar gyfer Adrannau yn hytrach na Gweinyddiaethau Datganoledig) yn cynnwys:

- nid yw Prif Weinidog Cymru yn mynychu nac yn cadeirio cyfarfodydd Bwrdd Llywodraeth Cymru
- mae nifer yr aelodau gweithredol yn uwch na nifer y cyfarwyddwyr anweithredol.

## Y Bwrdd

Fel Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu, fe'm cefnogir gan Fwrdd Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys 16 Aelod, yn Gyfarwyddwyr Anweithredol a Chyfarwyddwyr Gweithredol. Mae'r Bwrdd Cysgodol hefyd yn mynychu fel sylwedyddion sy'n cyfranogi. Mae'r Bwrdd yn fy nghynghori wrth wneud penderfyniadau strategol allweddol ynghylch sut y mae Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru'n cael ei ddatblygu i gefnogi'r Prif Weinidog a'r Gweinidogion i gyflawni ei Rhaglen Lywodraethu a blaenoriaethau'r Gweinidogion. Rwyf yn cadeirio cyfarfodydd y Bwrdd ac yn cynnal cyfarfod dwyochrog yn rheolaidd ag Aelodau'r Bwrdd. Rwyf wedi ailsefydlu cyfarfodydd yn ddiweddar â'r Cyfarwyddwyr Anweithredol gyda'i gilydd bob chwe wythnos, a oedd wedi dod i ben yn ystod y pandemig. Rwyf wedi cytuno â'r Prif Weinidog y bydd yn ymgysylltu â'r Cyfarwyddwyr Anweithredol o leiaf unwaith y flwyddyn. Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf ym mis Awst 2021. Mae cyfarfod ar gyfer 2022 wrthi'n cael ei gynllunio.

Yn ystod y flwyddyn ystyriodd y Bwrdd y materion canlynol fel rhan o'i agenda:

- COVID-19
- Pontio o'r UE
- Rheoli'r Gyllideb a Phwysau Ariannol
- Diweddariadau'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol
- Blaenoriaethau ac Adnoddau Allweddol

- Y Gofrestr Risgiau Corfforaethol
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Cyfrifon Blynyddol
- Y Gwasanaeth Iechyd
- Dysgu a Datblygu
- Diweddariad ar Gyfathrebu
- Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru
- Risgiau Iechyd a Diogelwch
- Strategaethau'r Gweithlu, y Gweithle a Digidol
- Canlyniadau'r Arolwg Pobl
- Dangosyddion Perfformiad Allweddol
- Y Rhaglen Lywodraethu
- Y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.

## Aelodaeth a Phresenoldeb y Bwrdd

Cafwyd newidiadau i aelodaeth y bwrdd dros y flwyddyn. Gadawodd Jeff Farrar ei rôl fel Cyfarwyddwr Anweithredol yn Awst 2021, a rhoddodd Shan Morgan y gorau i'w swydd fel Ysgrifennydd Parhaol ar ddiwedd Hydref 2021. Cychwynnais ar fy rôl fel Ysgrifennydd Parhaol ar 1 Tachwedd 2021, ac fe gadeiriais fy nghyfarfod cyntaf o'r bwrdd ar 12 Tachwedd 2021. Penodwyd Judith Paget, ar secondiad, yn Gyfarwyddwr Cyffredinol dros dro newydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru.

| Aelodaeth Bresennol | Presenoldeb mewn Cyfarfodydd |
|---|---:|
| Andrew Goodall, yr Ysgrifennydd Parhaol | 8/8 |
| Shan Morgan, cyn Ysgrifennydd Parhaol | 4/4 |
| Ellen Donovan, Cyfarwyddwr Anweithredol | 8/8 |
| Jeff Farrar, Cyfarwyddwr Anweithredol | 1/1 |
| Gareth Lynn, Cyfarwyddwr Anweithredol | 8/8 |
| Meena Upadhyaya, Cyfarwyddwr Anweithredol | 8/8 |
| Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol | 7/8 |
| Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus | 7/8 |

| Aelodaeth Bresennol | Presenoldeb mewn Cyfarfodydd |
|---|---|
| Judith Paget, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / Prif Weithredwr GIG Cymru | 4/4 |
| Des Clifford, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Swyddfa'r Prif Weinidog | 6/8 |
| Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Cydgysylltu Argyfwng COVID-19 | 5/8 |
| David Richards, Cyfarwyddwr, Llywodraethiant a Moeseg | 7/8 |
| Peter Kennedy, Cyfarwyddwr, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Corfforaethol | 8/8 |
| Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid | 7/8 |
| Natalie Pearson, Pennaeth Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu | 8/8 |
| Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru | 7/8 |
| Helen Lentle, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol | 8/8 |

## Hunanasesiad y Bwrdd o Berfformiad

Yng ngoleuni fy mhenodi'n Ysgrifennydd Parhaol newydd, bu oedi o ran yr Adolygiad Blynyddol o'r Bwrdd ar gyfer 2021 er mwyn caniatáu cyfnod o fyfyrio ar y newidiadau sydd wedi dod i rym. Anfonwyd arolwg Adolygiad Blynyddol o'r Bwrdd at aelodau'r Bwrdd ar 6 Medi 2022. Mae'r Tîm Ymchwil Gorfforaethol wrthi'n dadansoddi'r canlyniadau. Mewn ymarferion adolygu blaenorol, dangoswyd bod gan y Bwrdd gryfderau penodol o ran meithrin awyrgylch cynhwysol a chydweithredol, gyda'r berthynas rhwng yr holl aelodau yn cael ei hystyried yn gefnogol ac yn broffesiynol. Roedd teimlad hefyd fod ei ddull o graffu a herio yn effeithiol.

Nodir ymrwymiad y Bwrdd i gydraddoldeb, amrywiaeth, ac ymgysylltu â staff fel cryfder arall, gyda'i aelodaeth bellach yn fwy amrywiol. Yn gyffredinol, mae'r Bwrdd o'r farn bod ganddo'r cymysgedd cywir o sgiliau a phrofiad. Ym mis Tachwedd 2021, croesawodd y Bwrdd gynrychiolaeth gan Fwrdd Cysgodol sydd newydd ei sefydlu. Bydd y Bwrdd Cysgodol yn cynorthwyo Bwrdd Llywodraeth Cymru yn ei rôl o oruchwylio strategaeth sefydliadol a llywodraethiant Llywodraeth Cymru ac yn darparu cyngor, her a sicrwydd strategol i'r sefydliad.

Penodir aelodau'r Bwrdd Cysgodol gyda'm cytundeb fel Ysgrifennydd Parhaol, yn dilyn proses ddethol yn unol ag arferion gorau'r Gwasanaeth Sifil. Mae'r Bwrdd Cysgodol yn cyfarfod yn ffurfiol bob 6 wythnos.

Rôl y Bwrdd Cysgodol yw darparu:

- Amrywiaeth o wahanol safbwyntiau o brofiad bywyd yr aelodau a'r adborth a roddwyd iddynt gan eraill sy'n rhannu eu nodweddion gwarchodedig a'u profiad.
- Amrywiaeth o safbwyntiau gwahanol gan bobl iau a phobl na fyddai eu gradd fel arfer yn eu galluogi i fod yn rhan o drafodaethau strategol.
- Fy nghefnogi fel Ysgrifennydd Parhaol, yn fy rôl fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, i sicrhau bod y sefydliad yn gweithredu i'r safonau uchaf o ran llywodraethiant, rheolaeth ariannol, rheoli risgiau a phrosesu'r cyfrifon blynyddol.
- Cyngor strategol ar gyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth (yn Rhaglen Llywodraethu 2021-26) yn unol ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Her i'r Bwrdd pan fydd yn ystyried strategaeth sefydliadol a chynllunio'r gweithlu er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn parhau i fod yn addas i'r diben a bod ganddo adnoddau digonol.
- Her i'r Bwrdd i sicrhau ei fod yn hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws y sefydliad.

Adolygir trefniadau llywodraethiant ac agenda'r Bwrdd yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn adlewyrchu anghenion y sefydliad. Ar y cyfan, mae'r Bwrdd wedi addasu'n dda i gyfarfodydd o bell a thechnoleg newydd, gan gyfrannu'n effeithiol at ymdrin â COVID-19.

## Is-bwyllgorau'r Bwrdd

Roeddwn hefyd yn cael fy nghynghori gan ddau Is-bwyllgor y Bwrdd a arweinir gan Aelodau Anweithredol (y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth).

### Is-bwyllgor y Bwrdd: y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)

Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru'n fy nghefnogi ar faterion sicrwydd. Roedd y Pwyllgor hwn yn cael ei gadeirio gan un o Gyfarwyddwyr Anweithredol y Bwrdd. Roedd ARACs hefyd yn gweithredu ar lefel Grŵp yn ystod 2021-22 gyda'u tri Chadeirydd yn ffurfio gweddill aelodaeth ARAC Llywodraeth Cymru. Roedd ARAC yn fy nghynghori, drwy gydol y flwyddyn, yn rhinwedd fy swydd fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, ar weithrediad rheoli mewnol a gallu'r sefydliad i reoli risg. Parhaodd ymateb Llywodraeth Cymru i COVID-19 yn dal i fod yn rhan o gyfarfodydd ARAC. Roedd ARACs pob grŵp yn cyfarfod drwy'r flwyddyn yn unol â'u hamserlen o gyfarfodydd chwarterol.

Yn ystod y cyfnod hwn cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd ychwanegol:

- Sesiynau briffio i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ARAC ar gynnydd adolygiad Archwilio Cymru o'r cyfrifon cyfunol ar gyfer 2020-2021.
- Cynhaliwyd digwyddiad codi ymwybyddiaeth ar draws ARAC yn canolbwyntio ar newid hinsawdd ym mis Mawrth 2022, gan gydnabod bod hwn yn faes sy'n cyffwrdd â phob agwedd ar weithgarwch Llywodraeth Cymru. Roedd yn cynnig dealltwriaeth gyffredin o newid hinsawdd, symud tuag at sero net, y gwahanol fentrau ac addasiadau sy'n cael eu gwneud a'r goblygiadau ehangach i Lywodraeth Cymru.

- Rhoddais sesiwn friffio i Gadeiryddion ARAC ym mis Mawrth 2022 a amlinellodd y strwythurau grŵp diwygiedig i'w rhoi ar waith o 1 Ebrill 2022 a rôl strwythur newydd ARAC.
- Cynhaliwyd diwrnod datblygu ARAC ym mis Ebrill 2022 a roes ddiweddariadau ar faterion yn ymwneud â rôl ARACs ym maes llywodraethiant, goruchwylio a chraffu.

## Is-bwyllgor y Bwrdd: Tâl Cydnabyddiaeth

Ail is-bwyllgor y Bwrdd yw Is-bwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yr Uwch Wasanaeth Sifil sy'n gyfrifol am rai o gyflogau ac amodau'r Uwch Wasanaeth Sifil (SCS), cynllunio ar gyfer olyniaeth SCS a recriwtio a holl achosion personél SCS. Adeg ei benodi, rhaid i gyflog yr Ysgrifennydd Parhaol gael ei gymeradwyo gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys. Caiff pob penodiad a thâl cydnabyddiaeth Ysgrifennydd Parhaol eu rheoli'n ganolog gan Swyddfa Cabinet y DU. Maent hefyd o fewn cwmpas rheolaeth tâl uwch y Trysorlys.

O dan lefel Ysgrifennydd Parhaol, nid yw rheolaeth tâl uwch y Trysorlys yn berthnasol i benodiadau a wneir neu a gymeradwyir gan Weinidogion mewn Gweinyddiaethau Datganoledig. Yn gyffredinol, mae Swyddfa Cabinet y DU yn disgwyl i gyflogau pob penodiad Cyfarwyddwr Cyffredinol gael eu cytuno gan yr Ysgrifennydd Parhaol (y Prif Swyddog Cyfrifyddu). Ar gyfer penodiadau mewnol, mewn unrhyw achosion pan fo cyflog Cyfarwyddwr Cyffredinol adeg ei benodi yn fwy na naill ai lleiafswm y band cyflog neu'r cynnydd 10% mewn tâl adeg dyrchafiad, mae angen cymeradwyaeth y Pennaeth Proffesiwn perthnasol a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu, yn ogystal â chymeradwyaeth y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth. Nid oes angen y cymeradwyaethau hyn ar gyfer cyflogau Cyfarwyddwyr Cyffredinol sydd o fewn y trothwy 10% tâl adeg dyrchafiad oni bai eu bod dros £140,000. Os felly, mae angen cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Parhaol fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu. Mae Cyfarwyddwr Anweithredol yn cadeirio'r Pwyllgor. Cyfarfu'r Pwyllgor saith gwaith yn ystod y flwyddyn a mynychais yr holl gyfarfodydd.

## Y Pwyllgor Gweithredol (ExCo) – gan gynnwys ExCovid

Ym mis Chwefror 2020, sefydlwyd ExCovid i oruchwylio a chydgysylltu gweithgareddau swyddogion yn ystod y pandemig, i'm cynghori ac i sicrhau y cyflawnir amcanion polisi a gweithredol allweddol gan sicrhau cefnogaeth effeithiol i'r Gweinidogion.

Ym mis Tachwedd 2021, daeth ExCovid i ben yn unol â'r ymateb cymesur yr oedd ei angen. Er hynny, mae cyfarfodydd ExCo bellach yn cael eu cynnal yn wythnosol.

ExCo yw'r fforwm gwneud penderfyniadau strategol sy'n fy nghefnogi fel Prif Gynghorydd Polisi'r Prif Weinidog, Prif Swyddog Cyfrifyddu a Phennaeth Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru. Mae pob cyfarfod ExCo yn canolbwyntio ar un o bedwar pwnc penodol ac mae COVID-19 yn un o'r pynciau hyn sy'n cael eu hystyried mewn cylchdro, gan sicrhau bod ffocws digonol a rheolaidd gan y Tîm Uwch Arweinwyr ar COVID-19.

Drwy gydol 2021-22, roeddwn yn cael fy nghefnogi gan dîm arwain o Gyfarwyddwyr Cyffredinol, pob un yn arwain un o Grwpiau Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r Cyfarwyddwyr sy'n ymdrin â swyddogaethau corfforaethol allweddol sef Llywodraethiant a Moeseg, Cyllid, Trysorlys Cymru, Adnoddau Dynol/Gwasanaethau Corfforaethol, Data Digidol a Thechnoleg a Gwasanaethau Cyfreithiol; mae cynrychiolwyr Ochr yr Undebau Llafur yn mynychu hefyd fel sylwedyddion sy'n cyfranogi.

Mae Cyfarwyddwyr Cyffredinol y Pwyllgor Gweithredol yn cael eu dynodi'n Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol mewn perthynas â'r cyllidebau sydd wedi'u dirprwyo iddynt er mwyn rhoi cyfrifoldeb ac atebolrwydd personol iddynt dros ddefnyddio arian cyhoeddus yn briodol a sicrhau gwerth am arian ar fy rhan innau. Mae rhai Cyfarwyddwyr penodol hefyd yn cael eu dynodi'n Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol i egluro ymhellach drefniadau llywodraethiant corfforaethol ac atebolrwydd, a hynny ar gyfer defnyddio cronfeydd cyhoeddus ac wrth ateb i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus. Mae'r dynodiadau hyn yn achos Cyfarwyddwyr yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn dal yn briodol ac yn berthnasol.

## Bwrdd Sicrwydd ar ôl Ymadael â'r UE

Rwyf yn cadeirio'r Bwrdd Sicrwydd ar ôl Ymadael â'r UE, a sefydlwyd ym mis Mehefin 2020 fel is-bwyllgor o ExCo ac sy'n disodli trefniadau llywodraethiant mewnol blaenorol sy'n gysylltiedig â'r Trefniadau Pontio Ewropeaidd. Mae wedi cyfarfod bob deufis, ac eithrio'r ddau gyfarfod diwethaf, i oruchwylio'r gwaith sy'n ymwneud ag ymadawiad y DU â'r UE a diwedd y Cyfnod Pontio. Mae Bwrdd Gweithredu wedi bod yn cefnogi'r Bwrdd Sicrwydd. Fe gyfarfu bob 4-6 wythnos yn ystod 2021-22 ac mae'n goruchwylio'r holl faterion ôl-UE, gan gynnwys Masnach Gweddill y Byd. Mae aelodau'r Bwrdd Sicrwydd yn cynnwys yr holl Gyfarwyddwyr Cyffredinol, aelod Anweithredol o'r Bwrdd a Chynrychiolydd o'r Undebau Llafur.

## Is-bwyllgor ExCo: Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

Mae'r Is-Bwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn Is-Bwyllgor parhaol sy'n cefnogi ExCo gyda rhediad mewnol y sefydliad. Ei brif rôl yw cynghori ExCo ar reolaeth ariannol, masnachol a llywodraethiant y sefydliad a sbarduno gwelliannau parhaus o ran rheoli'r meysydd hyn a sgiliau a galluoedd oddi mewn iddynt. Mae'r Is-bwyllgor hefyd yn cynghori ExCo ar reoli a datblygu gweithlu'r sefydliad ac yn sbarduno gwelliant parhaus yn rheolaeth, sgiliau a galluoedd y swyddogaethau a'r gwasanaethau canlynol:

- Adnoddau Dynol
- Eiddo a Gwasanaethau Proffesiynol
- TGCh
- Dysgu a Datblygu
- Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu
- Parodrwydd am Barhad Busnes Corfforaethol
- Rheoli Data
- Rheoli a Sicrwydd Rhaglenni a Phrosiectau.

Mae aelodaeth yr Is-bwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn cynnwys un o'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ar Fwrdd Llywodraeth Cymru. Mae cyfrifoldebau'r Is-Bwyllgor yn cael eu rhannu'n ddwy elfen ar wahân: Gwasanaethau Corfforaethol Cyllid ac Adnoddau Dynol ac mae'r Is-Bwyllgor yn cyfarfod unwaith bob 4 wythnos.

## Is-bwyllgor ExCo: Bwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol

Mae Bwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol yn cydgysylltu ac yn goruchwylio'r gwaith o ddarparu rhaglen ddeddfwriaeth y Llywodraeth ar lefel swyddogol. Yn ystod y Chweched Senedd mae wedi cefnogi Is-bwyllgor Cabinet, sef y Pwyllgor Sefydlog dros y Cabinet ar y Rhaglen Ddeddfwriaethol. Yr Ysgrifennydd Parhaol sy'n cadeirio Bwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol ac fel arfer mae'n cyfarfod bob yn ail fis.

## Sesiynau Her Cyfarwyddwyr Anweithredol

Er mwyn rhoi cymorth ychwanegol, cafodd sesiynau her a oedd yn cael eu cadeirio gan Gyfarwyddwyr Anweithredol eu sefydlu i roi sicrwydd ar gyflawni meysydd gwaith allweddol a ddewisir gan Gyfarwyddwyr Cyffredinol a minnau, ac sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau'r Prif Weinidog.

Bwriad y sesiynau her oedd cynnig cyfleoedd ar gyfer craffu a thrafod adeiladol. Mae'r trafodaethau'n defnyddio gwybodaeth ac arbenigedd ar draws y sefydliad i nodi ble y gellir cryfhau prosesau, a lle y gellir cyflwyno atebion ac opsiynau i helpu i gefnogi cyflawni'r gwaith. Gan i'r sesiynau her gael eu sefydlu yn fuan cyn pandemig COVID-19 cawsant eu hatal am y tro ac mae'r Cyfarwyddwyr Anweithredol wedi parhau i ddarparu her, sicrwydd a chymorth mewn sawl fforwm arall.

Ym mis Awst 2021 cynhaliwyd cyfarfod â'r Prif Weinidog a adeiladodd ar sgyrsiau yn 2019, ar sut y gallai'r Cyfarwyddwyr Anweithredol gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r Prif Weinidog a pharhau i ychwanegu gwerth. Amlinellodd y Prif Weinidog dri maes allweddol lle y byddai'n hoffi i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ychwanegu her a sicrwydd ychwanegol:

- gofal cymdeithasol
- diwygio'r flwyddyn ysgol
- diwygio'r dreth gyngor.

Er mwyn cefnogi'r Cyfarwyddwyr Anweithredol wrth ddarparu her a sicrwydd o'r fath, mae Bwrdd Llywodraeth Cymru'n parhau i drafod ym mhob cyfarfod un o'r meysydd allweddol a nodir gan y Prif Weinidog.

# COVID-19

O ganlyniad i'r pandemig byd-eang ym mis Mawrth 2020, cyflwynodd yr Ysgrifennydd Parhaol blaenorol fesurau ychwanegol i ddarparu llywodraethiant tryloyw a phenodol, rheoli risg (goddef risg) a rheolaeth i gefnogi Llywodraeth Cymru yn ei hymateb i COVID-19. Amlinellwyd y mesurau hyn yn llawn yn Natganiad Llywodraethiant Blynyddol y llynedd ac fe barhaodd rhai o'r mesurau hyn yn ystod 2021-22, tra daeth rhai i ben wrth i effaith COVID-19 leihau yn ystod 2022. Amlinellir rhagor o fanylion isod ac fe'u cynhwysir yn yr Adran Archwilio Mewnol ar dudalen 145.

# Newidiadau Sefydliadol

Yn Natganiad Llywodraethiant Blynyddol y llynedd, amlinellodd yr Ysgrifennydd Parhaol blaenorol y newidiadau sefydliadol allweddol a oedd wedi'u llunio i gyfuno, cydgysylltu a rheoli'r gwahanol agweddau ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig COVID-19. Rhan sylweddol o hyn oedd creu'r Gyfarwyddiaeth Ailgychwyn ac Adfer COVID-19 dros dro o dan arweiniad Cyfarwyddwr Cyffredinol dros dro.

Mae'r trefniadau hyn wedi aros yn eu lle drwy gydol 2021-22. Mae timau eraill sy'n benodol i Covid yn dal i weithredu ar draws Llywodraeth Cymru, gan gynnwys gweithgareddau megis Profi, Olrhain a Diogelu; Brechu a Hunanynysu.

Mae digwyddiad ymgysylltu ar gyfer yr holl staff, megis Dewch i Drafod, wedi parhau ac wedi rhoi cyfleoedd i staff glywed yn uniongyrchol am y gwaith sy'n mynd rhagddo ar draws y sefydliad. Mae erthyglau ar y fewnrwyd a chyfathrebu rheolaidd oddi wrth uwch-reolwyr, gan gynnwys Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol sy'n nodi'r sefyllfa ddiweddaraf yn dilyn adolygiadau Rheoliadau COVID-19, wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am y sefyllfa sy'n dod i'r amlwg ac wedi sicrhau bod mesurau diogelwch mewnol Llywodraeth Cymru'n parhau i ddiogelu'r gweithlu.


## Gwneud Penderfyniadau Ariannol

Sefydlwyd "Siambr y Seren" Weinidogol gan y Cabinet ac fe sefydlodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol Banel Cynghori, i'w chefnogi wrth wneud penderfyniadau ynghylch dyraniadau cyllid. Yn dilyn dyrannu cyllid ar gyfer y Pecyn Adfer ar 8 Hydref 2021, cytunodd y Prif Weinidog a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol y dylai Siambr y Seren ddod i ben, ac mae'r broses o roi cyngor i'r Gweinidogion a gwneud penderfyniadau wedi dychwelyd i'r modd gweithredu 'busnes yn ôl yr arfer'.

Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Llywodraethiant Corfforaethol wedi parhau i graffu'n fanwl ar Gyngor Gweinidogol yn ymwneud â COVID-19. Mae'r templed ar gyfer penderfyniadau cyllido a risg a gyflwynwyd i gefnogi penderfyniadau COVID-19 wedi'i ddileu ac mae prosesau cyn Covid wedi'u hailgyflwyno. Mae'r gwersi a ddysgwyd o fanteision y templedi a'r prosesau wedi'u haddasu a ddilynwyd yn ystod COVID-19 yn cael eu hasesu a bydd gwelliannau i'r broses fusnes arferol yn cael eu cyflwyno yn ôl yr angen.

## Olrhain Arian Cyhoeddus

Mae Is-adran y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth a'r Is-adran Rheoli Ariannol wedi bod yn gyfrifol am gynnal llwybr archwilio cryf i gyfrif am yr arian a nodwyd ar gyfer ymateb Llywodraeth Cymru i COVID-19 a'r ymyriadau amrywiol y mae wedi'i gymhwyso iddynt. Ers dyddiau cynnar iawn y pandemig, cafodd dangosfwrdd ei ddatblygu sydd wedi bod yn arf effeithiol ar gyfer rhoi trosolwg o ddyraniadau COVID-19 Llywodraeth Cymru. Parhaodd y dangosfwrdd hwn tan y flwyddyn ariannol 2021-22 ac ynghlwm wrtho roedd cysoniad parhaus o gronfeydd wrth gefn, dyraniadau, symiau wedi'u clustnodi a rhagolygon gwario sydd ar gael oddi wrth adrannau. Dangosir isod strwythur sylfaenol y dangosfwrdd:




Dangosir trosolwg lefel uchel o wariant COVID-19, sy'n adlewyrchu strwythur dyraniadau a wnaed ar dudalen 82.

## Llywodraethiant COVID-19

Ym mis Ionawr 2021, sefydlwyd Grŵp Strategaeth y Coronafeirws. Mae Cyfarwyddwr Cyffredinol Cydgysylltu Argyfwng Covid yn cadeirio'r Grŵp ac mae ei aelodaeth yn cynnwys Cyfarwyddwyr a Dirprwy Gyfarwyddwyr sy'n ymwneud yn uniongyrchol â rheoli'r ymateb i COVID-19 o ddydd i ddydd. Diben y Grŵp yw darparu cyfeiriad strategol a chydlyniaeth i ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig ac effaith y niwed a achoswyd gan COVID-19, gan adrodd i Bwyllgor ExCovid ac yn fwy diweddar ExCo. Roedd y Grŵp yn cyfarfod yn wythnosol i ddechrau ond mae bellach yn cyfarfod bob tair wythnos er mwyn cyd-fynd â'r cylch Adolygu 21 Diwrnod.

Sefydlwyd Bwrdd Pontio ar ddechrau 2022 er mwyn cefnogi'r cyfnod pontio i 'normal newydd' o fewn senario 'Sefydlog o ran Covid', gan gynnwys nodi sut olwg sydd ar 'normal newydd'.

Prif ddiben y Bwrdd yw darparu cymorth a her, cyfrannu at ymagwedd gydgysylltiedig o ran prosiectau, a helpu i sicrhau hynny, fel rhan o raglen Llywodraeth Cymru i bontio i 'normal newydd' ar ôl Covid. Mae hyn yn cynnwys darparu cyngor a chymorth wrth nodi a mynd i'r afael â rhyng-gysylltiadau niferus yn fewnol ac allanol â Llywodraeth Cymru. Roedd yn adrodd i ExCovid ac mae bellach yn adrodd i ExCo.

Yn benodol mae'r Bwrdd yn ystyried:

- swyddogaethau y gellir eu terfynu yn llawn
- gweithgareddau y mae angen eu trosi'n swyddogaethau craidd
- cynllunio wrth gefn
- effeithiau'r pandemig
- materion trawsbynciol megis trefniadau cyllid a llywodraethiant
- materion staffio Llywodraeth Cymru.

## Ymarfer Cloriannu Llywodraeth Cymru a'r Gwersi a Ddysgwyd

Yn dilyn y gwaith a wnaed yn 2020-21 ar wersi a ddysgwyd yn sgil Covid, comisiynodd ExCo a'r Bwrdd Pontio Covid Ymarfer Gwersi a Ddysgwyd yn sgil COVID-19 ar ymagwedd Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru at ddatblygu a gweithredu ymateb trawslywodraethol i'r pandemig, a ddechreuodd ym mis Ebrill 2022. Cwmpas yr ymarfer oedd ystyried trefniadau ar lefel ganolog a lefel Grŵp, gan ganolbwyntio ar y meysydd a ganlyn: strwythurau a ddefnyddiwyd, y gallu i gyflawni, mewnbwn arbenigedd, trefniadau ar gyfer asesu effeithiau ac addasu, rheoli materion polisi newydd sy'n codi, sianeli cyfathrebu mewnol, cydgysylltu i weinyddu yn unol â dewisiadau'r Gweinidogion, ymgysylltu a chyfathrebu â sefydliadau allanol a goblygiadau gweithio rhithwir. Nid oedd o fewn cwmpas yr ymarfer i ystyried pa mor briodol oedd unrhyw benderfyniadau a wnaed gan Weinidogion, effeithiolrwydd mesurau na sut y cafodd ymyriadau penodol eu cyflawni.

Ffrwyth yr ymarfer, a oedd yn canolbwyntio ar ofyn barn staff yn ystod cyfweliadau a thrafodaethau grŵp ffocws, yn ogystal ag ymarferion gwersi a ddysgwyd o dan arweiniad timau, rhai ohonynt yn ymwneud ag ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol, yw adroddiad sy'n seiliedig ar atgofion personol a safbwyntiau a fynegwyd gan bobl mewn ymateb i gwestiynau. Caiff yr adroddiad ei ystyried gan ExCo.

Daeth y canlynol i'r amlwg fel meysydd o gryfder arbennig:

- sefydlu tîm canolog gyda staff dynodedig.
- ein defnydd o dystiolaeth a'r cydberthnasau cydweithredol digynsail a ddatblygwyd rhwng llunwyr polisi a dadansoddwyr.
- gweithio trawslywodraethol yn fewnol a chyfleu penderfyniadau yn gyflym.
- ymgysylltu tryloyw, cydgynhyrchiol a llawn ymddiriedaeth â phartneriaid a rhanddeiliaid.

Un o'r prif feysydd datblygu pellach yw'r angen i adolygu trefniadau adnoddau i alluogi digon o bobl i gael eu hadleoli yn gyflym mewn argyfwng. Mae'r mater hwn yn cael sylw yn y gwaith parhaus i gryfhau trefniadau wrth gefn. Dangosodd yr ymarfer hefyd bwysigrwydd ymwreiddio ystyriaeth o niwed ehangach fel y gwnaethom dros amser wrth i'r pandemig fynd yn ei flaen. Byddai'r wybodaeth a'r gallu sydd bellach wedi'u datblygu yn ein galluogi i roi'r arferion da hyn ar waith o'r cychwyn cyntaf yn y dyfodol.

Mae ystyried meysydd i'w datblygu ymhellach a nodwyd drwy'r ymarfer hwn yn rhoi cyfle inni ddefnyddio adnoddau cyfyngedig yn fwy effeithiol byth yn y dyfodol ac yn ein galluogi i ymateb i argyfwng sy'n gofyn am ymateb trawslywodraethol parhaus.

## Ymchwiliad COVID-19

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn paratoi ar gyfer yr Ymchwiliad COVID-19 arfaethedig, gyda chymorth tîm sefydledig. Mae rhaglen waith wedi'i chyflwyno i roi mecanweithiau ar waith i alluogi'r sefydliad i ymateb i geisiadau gan yr Ymchwiliad ac i sicrhau bod cofnodion wedi'u cadw. Yn ystod y flwyddyn mae cyfres o ymarferion peilot wedi cael eu cynnal i brofi a mireinio'r mecanweithiau hyn. Yn ogystal, cynhaliwyd dau adolygiad annibynnol o'n paratoadau sydd wedi rhoi sicrwydd imi am y trefniadau sydd ar waith. Mae trefniadau llywodraethiant wedi cael eu hadolygu a'u hailddatgan wrth i waith yr Ymchwiliad fynd yn ei flaen. Rwyf yn cael adroddiadau a diweddariadau rheolaidd ar gynnydd trwy ExCo, yr wyf yn ei gadeirio.

Rwyf yn rhag-weld y bydd cefnogi'r Ymchwiliad yn gofyn am fewnbwn sylweddol gan staff dros y blynyddoedd nesaf. Wrth gydnabod y galwadau hyn, mae ystod o gymorth llesiant a chyfreithiol wedi'u teilwra ar waith i gefnogi'r rhai a fydd yn cyfrannu at yr Ymchwiliad a'i waith. Mae'r adnoddau a'r cymorth yn cwmpasu'r effaith bersonol ac emosiynol bosibl ar y staff yn ogystal â rhai o elfennau mwy ymarferol yr ymchwiliad. Yn ogystal â chymorth Adnoddau Dynol ac Undebau Llafur i'r staff, gall ein tîm Cyngor Achosion AD ddarparu cymorth cyfrinachol a diduedd. Mae'r Rhaglen Cymorth i Weithwyr yn darparu mynediad at weminarau ac adnoddau sy'n hyrwyddo iechyd meddwl da, yn ogystal â sesiynau cwnsela un-i-un cyfrinachol dros y ffôn neu'n rhithwir. Mae gan y cwnselwyr gyfoeth o brofiad wrth gefnogi staff Llywodraeth Cymru ac maent ar gael 24/7.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol yn cynnig cyngor gwerthfawr ar ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol ac ôl troed digidol unigolyn, a hynny o safbwynt proffesiynol a phersonol. Pan fydd staff yn cael eu galw'n dystion, byddant yn cael cynnig pecyn cymorth helaeth gan ein tîm Gwasanaethau Cyfreithiol i gynorthwyo ag agweddau ar yr ymchwiliad sy'n ymwneud â gweithdrefnau a thystiolaeth.

## Cymorth i fusnesau yn ystod COVID-19

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi parhau i adolygu a gwella'r rheolaethau a'r amgylchedd rheoli a roddwyd ar waith i ddiogelu'r cronfeydd a ddefnyddir i ddarparu cymorth busnes yn ystod y pandemig ac i leihau'r risg o dwyll a gwallau. Roedd y cyd-destun yr oeddem yn gweithredu ynddo ar y pryd a pha mor gyflym yr oedd angen inni weithredu i gefnogi'r economi yng Nghymru pan oedd llawer ohoni ar gau yn golygu bod yn rhaid inni ddylunio cynlluniau yn wahanol o'i gymharu â phan fyddwn yn gweithredu o dan amgylchiadau arferol. Cafodd yr heriau hyn eu cymhlethu ymhellach gan y rhybudd byr, hyd a nifer y cynlluniau y bu'n rhaid inni eu rhoi ar waith ar sail dreigl am dros ddwy flynedd wrth i'r economi ymateb i wahanol gyfnodau'r pandemig. Cafodd taliadau olaf y Gronfa Cadernid Economaidd (ERF), er enghraifft, eu gwneud ym mis Mai 2022.

## Grantiau Awdurdodau Lleol

- Ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-2021 – Mae gennym bob un o'r 22 o ffurflenni Atodlen 6 (Ardystiad gan Brif Swyddog Cyllid yr Awdurdod Lleol) ar gyfer yr holl gyllid grant a weinyddir gan Awdurdodau Lleol, neu ran ohono, ac nid oes unrhyw faterion wedi'u nodi.
- Ffurflenni Twyll Awdurdodau Lleol ar gyfer gwariant yr aed iddo ym Mlwyddyn Ariannol 2021-22 – Rydym wedi cael 18 o'r 22 o ffurflenni hyd yma, ac mae'r lefel o dwyll a nodwyd o dan 1% ac yn gyson â'r disgwyl.

O'r 18 o 22 o ffurflenni twyll Awdurdodau Lleol sydd wedi dod i law hyd yma, mae chwe achos o dwyll wedi'u nodi gwerth cyfanswm o £28,000. Y prif reswm dros y gyfradd dwyll isel oedd y lefel uchel o geisiadau am gyllid a wrthodwyd:

- Ardrethi Annomestig – cyfradd gyfartalog o 13.4% o ran gwrthod ceisiadau adeg ymgeisio cyn talu.
- Cronfeydd Dewisol – cyfradd gyfartalog o 44.4% o ran gwrthod ceisiadau adeg ymgeisio cyn talu.

Yn ogystal, roedd angen proses ymgeisio ar gyfer pob grant, ac yn gyffredinol roedd derbynyddion yn hysbys fel derbynyddion blaenorol cymorth Covid.

## Cynlluniau a Weinyddir gan Lywodraeth Cymru

Mae'r drefn Fonitro Ôl-gwblhau (PCM) a roddwyd ar waith i roi sicrwydd ynghylch defnyddio'r cronfeydd hyn wedi parhau i esblygu a gwella yn seiliedig ar wersi a ddysgwyd o bob un o'r cyfnodau. Ar gyfer gweithgarwch PCM yng ngham 1 a 2 ERF (Ebrill i Awst 2020), cysylltwyd â phob derbynnydd cyllid boed drwy arolwg neu ar gyfer gwybodaeth PCM lawnach.

Hyd at fis Tachwedd 2022 mae timau PCM ERF wedi:

- Anfon 9094 o arolygon at ficrofusnesau a gefnogwyd yn ystod camau 1 a 2, gan gael ymateb gan 3029 (33%).
- Anfon 1257 o arolygon at fusnesau bach a chanolig a gefnogwyd yn ystod camau 1 a 2, gan gael ymateb gan 421 (33%).
- Anfon 1270 o arolygon i gael gwybodaeth PCM lawnach at fusnesau bach a chanolig a gefnogwyd yn ystod camau 1 a 2, gyda 599 o achosion wrthi'n cael eu hystyried a 466 o achosion wedi'u cau (cyfradd gau o 36%).
- Gofyn am wybodaeth gan 52 o fusnesau mawr a gefnogwyd yn ystod camau 1 a 2, gyda 46 o achosion wedi'u cau (88%).
- Mae'r Tîm PCM yn dal i weithio ar yr achosion nad ydynt wedi'u cau.
- Mae cam 3 ERF (Tachwedd 2020) wedi hen ddechrau gyda 1205 o arolygon wedi'u hanfon a 690 wedi'u dychwelyd (57%). Mae yna 804 o ddyfarniadau sydd angen PCM llawnach gyda 342 o fusnesau yn cael ceisiadau am wybodaeth hyd at fis Tachwedd 2022 a 66 o achosion wedi'u cau.
- Dechreuodd camau 4 -7 ERF (Ionawr – Awst 2021) yn haf 2022, gyda 3866 o arolygon wedi'u hanfon a 1248 wedi'u dychwelyd (32%). Mae 236 o geisiadau am PCM llawnach wedi'u hanfon sydd i'w cwblhau gan fusnesau ac mae 4 o achosion wedi'u cau.

Gan weithio ar y cyd â thîm Gwrth-dwyll Llywodraeth Cymru, hyd yma nid oes unrhyw achosion o dwyll wedi'u nodi o ganlyniad i weithgareddau PCM ERF Llywodraeth Cymru. Pe bai unrhyw bryderon yn cael eu nodi, byddem yn cyfeirio'r rhain at y Pennaeth Gwrth-dwyll i'w trafod ac ymchwilio iddynt.

Er bod cynnydd da wedi'i wneud, bu ychydig o oedi yn y broses PCM gan fod adnodd oddi wrth y tîm PCM wedi cael ei ailgyfeirio i gyflawni ymhellach yn uniongyrchol o ganlyniad i gyfyngiadau Covid hyd at fis Mawrth 2022. Aeth cyfnodau'r cyfyngiadau ymlaen am lawer mwy na'r disgwyl felly roedd angen cynllunio a rheoli adnoddau. Yn ogystal â PCM caiff gwerthusiad ac arolwg hydredol cyfochrog, i ategu PCM a darparu gwersi i'w dysgu, ei gynnal drwy Dirnad Economi Cymru. Mae canlyniadau'r arolygon hyn yn cael eu cyhoeddi, gyda'r cylch terfynol i'w gwblhau erbyn diwedd 2023. Er hynny, hyd yn hyn, er enghraifft, roedd 85.8% o'r ymatebwyr yn cytuno bod y cymorth a roddwyd gan Lywodraeth Cymru yr un mor bwysig â ffyrlo wrth ddiogelu'r gyflogaeth.

Mae methodoleg PCM yn seiliedig ar ddiwydrwydd dyladwy gan helpu i ddiffinio'r dull gweithredu yn ddibynnol ar lefel y grant. Ar gyfer pob dyfarniad dros £30,000 mae proses PCM lawn yn cael ei chynnal ar y garfan gyfan. Ar gyfer y nifer mawr o ddyfarniadau sy'n is na £30,000 mae arolwg ac, os oes angen, dull gweithredu dilynol yn cael ei gynnal. Ar gyfer camau 1 a 2 ESF, mae 10,351 o arolygon microfusnesau a busnesau bach a chanolig wedi'u hanfon ac mae 3,450 o ymatebion wedi dod i law. Mae hyn yn rhoi lefel ddychwelyd nodweddiadol hyd yn hyn o >30% ac yn darparu mesur boddhaol o sicrwydd ynghylch defnyddio cronfeydd.

Ar y cyfan rwyf yn fodlon bod yr amgylchedd rheoli a gynlluniwyd i'r cynlluniau cymorth busnes weithredu oddi mewn iddo yn gymesur â'r parodrwydd i dderbyn risg a osodwyd gan ExCo.

### Y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI)

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r Fenter Twyll Genedlaethol ac wedi rhoi manylion y rhai sy'n derbyn grantiau i CThEF at y diben hwn. Nid oes unrhyw achosion yn ymwneud â'r Gronfa Cadernid Economaidd ac ardrethi annomestig wedi cael eu hatgyfeirio o'r NFI.

## Trefniadau Sicrwydd

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethiant gan gynnwys y system rheolaeth fewnol, yr wyf yn cymryd sicrwydd gan amrywiaeth eang o weithgareddau ar ei gyfer. Yn hyn o beth, fe'm hysbysir gan waith Archwilio Mewnol a'r swyddogion hynny yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol. Rwyf yn cymryd sicrwydd o gytuno ar gynlluniau gweithredu a'u cyflawni gan reolwyr mewn ymateb i faterion a nodir gan yr Archwilydd Allanol (Archwilydd Cyffredinol Cymru) yn ei adroddiadau ac mewn adroddiadau a gyhoeddir gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Phwyllgorau Craffu eraill y Senedd yn cynnal eu hymchwiliadau eu hunain. Mae ARACs Grŵp ac ARACs Llywodraeth Cymru'n monitro cynnydd o ran gweithredu unrhyw argymhellion sy'n deillio o'r adroddiadau hyn.

Rwyf wedi cael fy nghynghori hefyd ar effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Mae cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru'n cwmpasu agweddau allweddol ar fywyd cyhoeddus, a hynny o dan arweiniad y Prif Weinidog a'r Cabinet, a'r Gweinidogion eraill sydd wedi'u penodi ganddo. Mae ystod eang o reolaethau mewnol yn bodoli i ddarparu ar gyfer stiwardiaeth gadarn ar adnoddau.

### Archwilio Mewnol

Mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol (IAS) Llywodraeth Cymru yn darparu rhaglen archwilio a chynghori sy'n seiliedig ar risg i roi sicrwydd imi ar fframwaith llywodraethiant, rheoli a rheoli risg Llywodraeth Cymru, gan ddarparu adroddiadau aseiniadau i mi a'r tîm(au) rheoli perthnasol. Cyflwynodd IAS adroddiadau rheolaidd hefyd ar gynnydd a chanlyniad ei raglen waith i'r ARACs, ar lefel Grŵp a lefel Llywodraeth Cymru. Cyfarfûm yn rheolaidd â'r Pennaeth Archwilio Mewnol drwy gydol y flwyddyn i drafod materion archwilio a sicrwydd.

Mae IAS yn cydgysylltu ei waith â gwaith Archwilio Cymru. Mae protocol cydweithio sefydledig yn sail i'r dull gweithredu sy'n cael ei gymryd ac mae cyfarfodydd cyswllt yn cael eu cynnal yn rheolaidd i rannu gwybodaeth. Gyda'i gilydd, mae'r ddwy swyddogaeth annibynnol a gwrthrychol hyn yn rhoi sicrwydd imi o ran sicrhau gwerth am arian a dibynadwyedd y cyfrifon ariannol, yn achos Archwilio Cymru, ac o ran gweithredu'r fframwaith rheoli risg, llywodraethiant a rheolaeth, yn achos Archwilio Mewnol.

Yn ei hadroddiad Barn am Sicrwydd Blynyddol, rhoes y Pennaeth Archwilio Mewnol sicrwydd "rhesymol" ar weithrediad y fframwaith llywodraethiant, rheolaeth a rheoli risg yn Llywodraeth Cymru. Er bod trefniadau'n cael eu cynllunio a'u cymhwyso'n effeithiol, mae sicrwydd rhesymol yn golygu bod ar rai materion angen sylw rheolwyr o ran rheolaeth neu gydymffurfio, ac maent yn agored i risg gymedrol nes cael eu datrys. Cafodd barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ei llywio gan yr aseiniadau archwilio a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, y rhoddir barn sicrwydd ar eu cyfer, a chan adolygiadau cynghori, na ddarperir casgliad sicrwydd archwilio traddodiadol ar eu cyfer.

Cynhyrchodd y rhaglen o waith archwilio a gwblhawyd yn ystod 2021-22, sy'n gyrru'r farn sicrwydd gyffredinol a roddir, y casgliadau canlynol ar gyfer yr adroddiadau archwilio a ddarparwyd:

| Barn Sicrwydd | 2021-22 | 2020-21 | 2019-20 | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|---|---|---|
| Sicrwydd Sylweddol | 14 | 12 | 19 | 35 | 16 |
| Sicrwydd Rhesymol | 25 | 22 | 15 | 30 | 38 |
| Sicrwydd Cyfyngedig | 3 | 3 | 5 | 9 | 7 |
| Dim Sicrwydd | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Adroddiadau Cryno Amherthnasol | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **44** | **37** | **40** | **74** | **61** |

Cyhoeddodd y Pennaeth Archwilio Mewnol dri adroddiad sicrwydd cyfyngedig yn ystod y flwyddyn. Lle nodwyd gwendidau sylfaenol roeddent wedi'u hynysu i system neu broses benodol. Lle nodwyd gwendidau sylweddol, hyd yn oed pan gawsant eu cyfuno, nid oeddent yn berthnasol i'r farn gyffredinol. Ar ben hynny, ni chafodd unrhyw bryderon na gwendidau systemig na systematig eu nodi o'r corff o waith archwilio a gwblhawyd.

Roedd y math o wendidau a arweiniodd at ddarparu barn sicrwydd gyfyngedig yn cynnwys:

- Diffyg llwybr tystiolaeth clir a diamwys sy'n manylu ar sut y gwnaed penderfyniadau, y sail resymegol drostynt a'r broses awdurdodi.
- Diffyg llythyrau cynnig grant i reoli perthnasoedd ariannu.
- Trefniadau monitro aneffeithiol.
- Diffyg gwelededd / gwybodaeth reoli wael.
- Dogfennau canllaw heb eu diweddaru.
- Dim digon o wybodaeth reoli i ddangos cydymffurfiad.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn fodlon â'r ymateb cadarnhaol gan y rheolwyr i'r arsylwadau a godwyd mewn archwiliadau a adroddwyd yn ystod y flwyddyn. Lle nodwyd gwendidau mewn adroddiadau archwilio, cytunwyd ar gynlluniau gweithredu rheoli i wella'r fframwaith rheolaeth a mynd i'r afael â'r mater(ion) a nodwyd.

## COVID-19 – Gwersi a Ddysgwyd

Ar ddechrau 2022, cyhoeddodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ei Adolygiad o Sicrwydd COVID-19 *Assurances: Lessons Learnt and Reflections*. Roedd yn nodi'r hyn a ddysgwyd o'r llu o adolygiadau sicrwydd a gynhaliwyd ar ymyriadau COVID-19 ac yn defnyddio'r wybodaeth yn y Mapiau Sicrwydd. Diben yr adroddiad oedd rhannu arferion da a ddylai, o'u mabwysiadu'n gyson, gynorthwyo Llywodraeth Cymru drwy:

- cefnogi diwylliant dysgu
- nodi'r rhwystrau a'r problemau cyffredin y mae eraill wedi'u profi
- tynnu sylw at atebion posibl
- darparu syniadau ar sut y gellid gwella dulliau gweithredu
- dangos arferion da fel y gellir eu hailadrodd
- osgoi 'ailddyfeisio'r olwyn'.

Cafodd yr adroddiad gwersi a ddysgwyd ei rannu'n eang ar draws Llywodraeth Cymru, gan gynnwys yr Ysgrifennydd Parhaol, Cyfarwyddwyr Cyffredinol, Cyfarwyddwyr Gweithrediadau, Cyfarwyddwr Llywodraethiant, y Cyfarwyddwr Cyllid, Tîm Ymchwiliad COVID-19, ARACs ac Archwilio Cymru.

### Trefniadau llywodraethiant COVID-19

Cyhoeddodd y Pennaeth Archwilio Mewnol lythyr rheoli hefyd yn rhoi diweddariad ar drefniadau llywodraethiant COVID-19. Roedd y llythyr rheoli yn nodi ac yn cadarnhau'r trefniadau mewn cysylltiad â'r canlynol:

- y mesurau newydd a gyflwynwyd i ddarparu llywodraethiant tryloyw a phenodol, rheoli risg (goddef risg) a rheolaeth i gefnogi Llywodraeth Cymru yn ei hymateb i COVID-19
- rolau ExCo, ExCovid, y Pwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, Grŵp Strategaeth y Coronafeirws a'r Bwrdd Pontio
- gwneud penderfyniadau ariannol
- rheoli gwariant.

## Y Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd

Ym mis Chwefror 2022, cyflwynodd y Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd (EFAT) ei Adroddiad Rheoli Blynyddol a'i Farn i'r Comisiwn gyda'i farn sicrwydd ar Gronfeydd Strwythurol a hawliwyd gan Gymru am y cyfnod 1 Gorffennaf 2020 i 30 Mehefin 2021. Adroddwyd barn ddiamod i'r Comisiwn ar gyfer rhaglenni ESF ac ERDF. Rhoes EFAT farn ddiamod hefyd ar gyfer Rhaglen Cydweithredu Tiriogaethol Iwerddon/Cymru am yr un cyfnod. Derbyniwyd yr adroddiadau a'r barnau yn ffurfiol gan y Comisiwn ar 23 Ebrill 2022 (Iwerddon-Cymru) a 8 Mai 2022 (ESF/ERDF).

## Archwiliad y Comisiwn Ewropeaidd

Ym mis Mawrth 2021, cynhaliodd Llys Archwilwyr Ewrop (ECA) archwiliad rhithwir o'r broses o gau rhaglenni ESF 2007-13 Cymru, ac anfonwyd y llythyr cau terfynol ym mis Gorffennaf 2021. Anfonwyd llythyr cau ECA ymlaen at y Comisiwn Ewropeaidd i wneud gwaith dilynol. Ymwelodd archwilwyr y Comisiwn â Chymru ym mis Rhagfyr 2021 i gynnal ymweliad canfod ffeithiau wedi'i drefnu. Diben yr ymweliad oedd adolygu'r gwaith archwilio a gynhaliwyd gan y Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd (EFAT) ar gyfer adroddiad rheolaeth blynyddol 2022 a gwneud gwaith dilynol yn sgil llythyr cau ECA y cyfeirir ato uchod. Ar ôl hyn, cawsom gadarnhad drwy e-bost gan y Comisiwn Ewropeaidd bod pob mater bellach wedi'i gau. Ni chododd y Comisiwn unrhyw ganfyddiadau o'i ymweliad canfod ffeithiau na'i waith dilynol yn sgil llythyr ECA (sydd bellach wedi'i gau'n swyddogol).

Ym mis Medi 2019, roedd EFAT yn destun archwiliad gan ECA er mwyn ailgynnal gwaith EFAT ar sampl o archwiliadau i gadarnhau a oedd y lefel o sicrwydd y mae EFAT yn ei rhoi i'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch rhaglenni ESF a ERDF yn ddigonol. Fel yr adroddwyd y llynedd, mae ECA wedi cau'r archwiliad hwn. Fodd bynnag, mae EFAT yn parhau i herio un canfyddiad ynghylch cymorth gwladwriaethol ar gyfer gweithrediad. Cyflwynodd EFAT, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru wybodaeth bellach sy'n cefnogi dull gweithredu Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i'r Comisiwn Ewropeaidd ar 31 Awst 2021. Mae'r Comisiwn yn gyfrifol am waith dilynol ar ganfyddiadau ECA ac mae EFAT yn aros am ymateb y Comisiwn.

## Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)

Ar sail ei waith drwy gydol 2021-22, mae'r Pwyllgor yn gallu rhoi sicrwydd rhesymol cyffredinol ar ddigonedd y trefniadau archwilio ar gyfer Llywodraeth Cymru a hefyd ar y trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol sydd wedi'u sefydlu, yn seiliedig ar y sicrwydd a gyflwynwyd i'r Pwyllgor a'r wybodaeth a roddwyd iddo gan swyddogion.

## Holiaduron Rheolaeth Fewnol a Datganiadau Sicrwydd Blynyddol

Un o'm prif ffynonellau sicrwydd yw'r broses Holiadur Rheolaeth Fewnol (ICQ) blynyddol. Mae'r broses wedi aeddfedu dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n darparu lefel gadarn o graffu o ran amgylchedd rheoli Llywodraeth Cymru.

Fe'i gwneuthum yn ofynnol i'r holl Gyfarwyddwyr gwblhau Holiadur Rheolaeth Fewnol ac, ar sail yr wybodaeth hon, i Gyfarwyddwyr Cyffredinol baratoi eu Datganiad Sicrwydd personol er mwyn rhoi imi eu hasesiad o effeithiolrwydd fframweithiau rheolaeth fewnol eu Grŵp.

Trwy'r holiadur, mae'r Cyfarwyddwyr wedi rhoi imi eu hunanasesiadau o reolaeth fewnol, llywodraethiant a rheoli risg a'u hystyriaethau ynghylch pa mor effeithiol y mae rheolaethau wedi gweithredu drwy gydol y flwyddyn ariannol. Mae'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol wedi rhoi trosolwg o lywodraethiant, rheolaeth a rheoli risg o fewn eu priod Grwpiau.

Ar ôl i'r ffurflenni ICQ gael eu cyflwyno, cynhyrchir "map gwres" a'i ystyried yn yr Archwiliad Sicrwydd blynyddol. Diben Archwiliad Sicrwydd ICQ yw ystyried y darlun cyffredinol o'r sicrwydd a gafwyd mewn ICQs. Mae'r sesiwn yn darparu sesiwn her i'r Ysgrifennydd Parhaol, Cyfarwyddwyr Cyffredinol ac arweinwyr swyddogaethol, megis y Pennaeth Caffael a'r Pennaeth Diogelwch TG, i ystyried y sgoriau a roddwyd a sicrhau bod sgorio wedi digwydd yn gyson.

Ar y cyfan, roedd y mwyafrif o sgoriau'n gyson â'r blynyddoedd blaenorol, heb unrhyw amrywiannau sylweddol yn lefelau hyder Cyfarwyddwyr Cyffredinol, o gymharu â'u sgoriau mewn blynyddoedd blaenorol. Yn dilyn yr ymarfer cloriannu ac o ganlyniad i'r broses herio a chymedroli, gwnaed tri newid i ICQs ym meysydd Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau, Cyrff Cyhoeddus a staffio. Roedd staffio yn faes a gafodd gryn sylw a chraffu yn ystod y broses ICQ. Yn benodol, codwyd materion ynghylch gwydnwch a llesiant staff o ganlyniad i ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig. Mae'r maes hwn wedi cael sylw sylweddol gan ExCo, y Bwrdd ac mae ar ein cofrestr risgiau corfforaethol i sicrhau ei fod yn cael ei fonitro'n agos a bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd ar lefel uchaf y sefydliad. Mae mwy o fanylion ar dudalen 161.

## Chwythu'r Chwiban

Cyfarfu Panel Chwythu'r Chwiban saith gwaith drwy gydol y flwyddyn i ystyried achosion chwythu'r chwiban, i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd yn brydlon wedyn ond gan gadw cyfrinachedd lle bynnag y bo modd. Mae'r polisi ar Chwythu'r Chwiban a Chod y Gwasanaeth Sifil yn esbonio beth y dylai staff ei wneud os ydynt yn amau cydweithiwr o gamwedd. Cyhoeddir gwybodaeth ar y Fewnrwyd hefyd.

Rwyf yn hyderus bod ein trefniadau ar gyfer chwythu'r chwiban yn dryloyw, yn gadarn ac yn cydymffurfio ag arferion da.

Cafodd 11 o achosion eu hadrodd i'r Panel yn y flwyddyn; roedd hyn yn cynnwys pum achos a gariwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol a chwe achos newydd yn ystod y flwyddyn. Yr achosion oedd:

| Achosion o Chwythu'r Chwiban | 2021-22 | 2020-21 | 2019-20 | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|
| Heb eu cadarnhau | 4 | 3[54] | 3 | 4 |
| Wedi'u datrys yn fewnol (materion yn ymwneud â staff) | 1 | 1 | 6 | - |
| Ddim yn fater i Lywodraeth Cymru | - | - | - | - |
| Cyngor wedi'i roi i'r chwythwr chwiban | 1 | 1 | 2 | - |
| Yn destun ymchwiliad o hyd | 2 | 5 | - | 3 |
| Wedi'u cadarnhau a chamau wedi'u cymryd | 2 | 1 | - | - |
| Dim digon o dystiolaeth i fynd ar eu trywydd | 1 | - | - | - |
| **Cyfanswm** | **11** | **11** | **11** | **7** |

## Y Panel Sicrwydd Allanol

Yn ogystal â'r Panel Chwythu'r Chwiban sy'n delio ag achosion mewnol, mae'r Panel Sicrwydd Allanol, a gyfarfu naw gwaith yn ystod y flwyddyn, yn darparu cyngor i Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol a swyddogion polisi ar ymateb i bryderon a godir mewn perthynas â chronfeydd Llywodraeth Cymru a ddyfernir i gyrff allanol. Mae llawer, ond nid pob un, o'r achosion hyn yn honiadau o dwyll, ac nid oes angen dod â'r holl achosion y mae'r Tîm Gwrth-dwyll yn delio â hwy i'r Panel (felly mae nifer yr achosion y mae'r Panel yn delio â hwy yn wahanol i'r nifer y mae'r Tîm Gwrth-dwyll yn delio â hwy). Mae'r Panel yn darparu cyngor proffesiynol, yn ceisio sicrhau triniaeth gyson ar draws Llywodraeth Cymru, ac yn gallu nodi gwersi a ddysgwyd ac arferion gorau y gellir eu rhannu gyda swyddogion polisi.

Adroddwyd 12 o achosion newydd yn y flwyddyn i'r Panel ac adroddwyd 29 o achosion newydd i'r Tîm Gwrth-dwyll. Mae rhai achosion a ystyrir gan y Tîm Gwrth-dwyll hefyd yn cael eu hystyried gan y Panel. Gall yr achosion hyn gael eu cau gan y Tîm Gwrth-dwyll ond maent yn dal ar agor gyda'r Panel i ymchwilio i faterion ehangach llywodraethiant a chydymffurfio â'r achos/sefydliad.

Datrysodd y Panel naw o achosion yn y flwyddyn, yr oedd pump ohonynt wedi'u cario ymlaen o'r flwyddyn flaenorol. Cafodd wyth achos eu cario ymlaen i 2022-23, gyda hanner o'r rheini wedi'u hatgyfeirio at yr Heddlu ar hyn o bryd.

Cafodd 29 o achosion newydd eu hatgyfeirio at y Tîm Gwrth-dwyll, gyda 41 o achosion ychwanegol yn cael eu cario ymlaen o 2020-2021. Cafodd 66 o'r achosion hyn eu datrys yn ystod y flwyddyn gyda phedwar yn dal yn destun ymchwiliad.

54 Ailddatganwyd o'r flwyddyn flaenorol. Roedd gwall yn ffigurau'r llynedd yn dangos bod pedwar achos heb eu cadarnhau a phedwar achos yn dal yn destun ymchwiliad. Mae hyn wedi'i gywiro uchod.

Mae achosion sy'n cael eu hatgyfeirio oherwydd y ddarpariaeth o grantiau cymorth COVID-19 yn dal i effeithio ar y ffigurau, ond i raddau llai na'r flwyddyn flaenorol. Daeth atgyfeiriadau sy'n gysylltiedig â Covid o sawl gwahanol ffynhonnell:

- Llinellau adrodd am dwyll Llywodraeth Cymru (ffôn ac e-bost)
- Tîm Gwrth-dwyll Swyddfa'r Cabinet y DU
- Adroddiadau Crimestoppers
- Awdurdodau Lleol a Heddluoedd Cymru
- Timau Llywodraeth Cymru sy'n darparu cyllid.

Gallai'r Tîm Gwrth-dwyll ymchwilio i lawer o'r atgyfeiriadau twyll yn gymharol gyflym a'u datrys. Cafodd y mwyafrif o atgyfeiriadau eu gwneud gyda bwriad da er y cafwyd bod lleiafrif yn flinderus. Mewn rhai achosion nid oedd y dystiolaeth yn ddigonol i fodloni safon droseddol y dystiolaeth i fwrw ymlaen. Gellid priodoli achosion eraill i gamddealltwriaeth ddilys neu wall ar ran y ceisydd. Mewn ychydig o achosion ymddengys fod ceiswyr wedi cyflwyno ceisiadau tybiannol a dibynnu ar y llywodraeth i beidio â'u caniatáu gan nad ydynt yn bodloni'r meini prawf. Roedd achosion hefyd lle'r oedd twyll yn cael ei amau ond lle y byddai cost erlyniad troseddol yn drech na'r swm o dan sylw a lle'r oedd adfer sifil yn ddewis gwell. Roedd cyfran lai o atgyfeiriadau'n gofyn am ymchwiliad mwy manwl a thrylwyr.

| **Gwrth-dwyll** | **2021-22** | **Achosion y Panel Sicrwydd Allanol** | **2021-22** |
|---|---|---|---|
| Cariwyd ymlaen o 2020-21[55] | 41 | Cariwyd ymlaen o 2019-20 | 5 |
| Achosion newydd yn codi | 29 | Achosion newydd yn codi | 12 |
| Achosion a gafodd eu datrys | 66 | Achosion a gafodd eu datrys | 9 |
| Achosion yn parhau | 4 | Achosion yn parhau | 8 |
| Achos Llys yn mynd rhagddo | 0 | Achos Llys yn mynd rhagddo | 0 |
| Yn destun ymchwiliad gan yr Heddlu | 1 | Yn destun ymchwiliad gan yr Heddlu | 4 |
| O dan waith monitro ad-dalu | 0 | O dan waith monitro ad-dalu | 0 |
| Yn destun adolygiad gan asiantaeth twyll annibynnol | 1 | Yn destun adolygiad gan asiantaeth twyll annibynnol | 0 |
| Ymchwiliad yn mynd rhagddo | 2 | Ymchwiliad yn mynd rhagddo | 4 |
| **Cyfanswm achosion heb eu datrys** | **4** | **Cyfanswm achosion heb eu datrys** | **8** |

55 Mae'n bosibl fod rhai achosion Gwrth-dwyll ac achosion y Panel Sicrwydd Allanol a gariwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol wedi'u dyblygu yn y data am resymau a ddisgrifir uchod

Cafodd pob achos ei adolygu ar gyfer gwersi a ddysgwyd, ac mae'r rhain wedi'u lledaenu i dimau priodol i weithredu arnynt gan gynnwys trwy'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau, Adnoddau Dynol, Gwasanaethau Caffael, a'r timau Atal Twyll a Gweithrediadau Grŵp, y cynrychiolir pob un ohonynt ar y Panel Sicrwydd Allanol.

### Gwrthdaro Buddiannau

Mae sicrhau bod unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei reoli'n effeithiol yn agwedd allweddol ar unrhyw fframwaith llywodraethiant a system rheolaeth fewnol effeithiol. O fewn Llywodraeth Cymru mae'r rheolaethau sydd ar waith i ddelio â hyn yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau corfforaethol sy'n cwmpasu cofrestrau gwrthdaro buddiannau a ffurflen flynyddol gan yr holl staff perthnasol a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru (gan ddatgelu'r holl aelodau bwrdd ac aelodau tebyg o sefydliadau trydydd parti a ddelir gan swyddogion Llywodraeth Cymru).

Mae gan y Bwrdd a phob Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) Gofrestrau Gwrthdaro Buddiannau hefyd. Gofynnir hefyd am wrthdrawiadau buddiannau sy'n gysylltiedig ag eitemau penodol ar yr agenda ym mhob cyfarfod ac fe'i cofnodir yn ffurfiol. Mae'r gofynion a osodir ar aelodau ARAC hefyd wedi'u nodi mewn llythyrau penodi a'r Cylch Gorchwyl.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad helaeth o bolisi a gweithdrefnau Gwrthdaro Buddiannau, yn dilyn Adolygiad Archwilio Mewnol ac mewn ymateb i bryderon Gwasanaeth Sifil y DU ynghylch uwch-weision sifil yn dal penodiadau nad ydynt yn gydnaws â Chod y Gwasanaeth Sifil. Rydym wrthi'n trafod diwygiadau i'r polisi gyda'n hundebau llafur ac yng ngoleuni canllawiau ychwanegol a gynhyrchwyd gan Swyddfa'r Cabinet y DU. Yn y cyfamser, er fy mod yn dal yn ffyddiog bod ein polisïau a'n gweithdrefnau presennol yn effeithiol, byddaf yn disgwyl gweld polisi cryfach, cliriach a mwy cadarn i'r holl staff a gweithgarwch cryfach i gynnal a chodi ymwybyddiaeth ymhellach o'r safonau a ddisgwylir gan weision sifil o ran buddiannau allanol, ynghyd â mecanwaith adrodd cryfach.

## Modelau Dadansoddi Allweddol o ran Busnes

Mae ymarfer sicrwydd blynyddol wedi'i wneud gan Benaethiaid y Proffesiwn dadansoddi yn Llywodraeth Cymru i asesu'r modelau dadansoddi allweddol o ran busnes sy'n cael eu defnyddio gennym ac mae'n rhoi sicrwydd imi am y modelau hynny.

Mae cysylltiad Llywodraeth Cymru â risg modelu dadansoddol wedi parhau i gynyddu eleni oherwydd defnydd ehangach o fodelu. Yn ogystal â'r defnydd proffil uchel parhaus o fodelu COVID-19, nodwyd dau fodel newydd eleni yn cwmpasu meysydd polisi blaenoriaeth sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd, yr amgylchedd a materion gwledig. Mae'r ddau yn fodelau cymhleth sy'n esblygu.

Mae risg barhaus mewn llawer o fodelau o effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol COVID-19 a'r effaith y gallai hyn fod wedi'i chael ar y rhagdybiaethau a wnaed ynddynt. Nid oes gan rai modelau ddata i'w defnyddio eto sy'n dangos effaith y pandemig (er bod hyn yn llai na'r llynedd), gan ei gwneud yn heriol, felly, ystyried yn gadarn unrhyw addasiadau y gallai fod angen eu gwneud i'r model.

Mae ffactorau economaidd ehangach a siociau posibl yn effeithio ar lawer o fodelau. Lle bo'n berthnasol, roedd yr effeithiau hyn, gan gynnwys y rhai a sbardunwyd gan y pandemig wedi cael eu hystyried yn glir gan lawer o dimau. Mae'r sefydliad yn dal yn agored i bolisi allanol neu benderfyniadau ariannol a wneir gan Drysorlys EF, er enghraifft wrth bennu'r gyfradd ostyngiad, sydd allan o'm rheolaeth.

Fel yn achos y llynedd, mae rhai risgiau'n parhau ar gyfer llawer o fodelau sy'n dibynnu ar ddata'r Cyfrifiad ac amcanestyniadau o'r boblogaeth. Ar hyn o bryd rydym ar y pwynt pellaf o ran casglu data yng nghylch 10 mlynedd y Cyfrifiad a gall effeithiau posibl COVID-19 ac ymadael â'r UE waethygu ansicrwydd data ymhellach. Cynghorwyd perchnogion modelau sy'n defnyddio data'r Cyfrifiad i gynllunio ar gyfer trosglwyddo i ddata o Gyfrifiad 2021 pan fydd yn dechrau dod ar gael yr haf hwn.

Mae'r ddibyniaeth sefydliadol ar fodelu dadansoddol yn debygol o gynyddu yn y dyfodol, yn enwedig mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd, lle mae modelu cymhleth ar waith i olrhain cynnydd tuag at dargedau cyllidebau carbon ac i asesu opsiynau polisi.

## Materion Rheolaeth Fewnol

Mae'r sicrwydd cadarnhaol yr wyf wedi'i gael yn rhoi hyder imi fod gan Lywodraeth Cymru, yn gyffredinol, fframweithiau cadarn a threfnus o lywodraethiant a rheolaeth fewnol. Er hynny, datgelwyd rhai materion nodedig yn ystod y flwyddyn ac mae camau wedi cael eu cymryd neu wrthi'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhain ac i wneud gwelliannau, fel y nodir isod.

## Colledion, Diddymiadau a Thaliadau Arbennig

### Dileu Dyledion Busnes

Yn ystod y flwyddyn, ysgwyddodd Llywodraeth Cymru golledion o ganlyniad i roi'r gorau i ddau hawliad. Roeddwn yn fodlon bod yr holl fesurau priodol wedi'u cymryd i geisio adennill y symiau a oedd yn ddyledus ac mai dileu'r ddyled oedd yr opsiwn terfynol a'r unig opsiwn priodol a oedd ar gael. Roedd y ddyled gyntaf ar gyfer £600,000 a oedd yn ddyledus oddi wrth gwmni o'r enw Sorrenson Media Limited, a aeth i ddwylo'r gweinyddwyr yn 2018. Roedd hyn yn ymwneud ag arian cyllid busnes ac wedi i'r achos methdaliad gael ei gwblhau fe gadarnhawyd na fyddai unrhyw ddifidend yn daladwy i Lywodraeth Cymru. Oherwydd natur y mecanwaith grant a ddefnyddiwyd, cafodd y swyddi a grëwyd eu dal 'o dan amod' am 5 mlynedd. Gan nad oedd y cyfnod o 5 mlynedd wedi dod i ben, cyflwynwyd swm llawn y grant gwreiddiol fel dyled at ddibenion cyfrifyddu.

Yr ail ddiddymiad oedd £455,662 yn ymwneud â W J Developments (Gwynedd) Ltd. Dyfarnwyd cyllid

Grant Buddsoddi Adfywio i'r cwmni ym mis Mai 2006 a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2018. Bryd hynny, cwblhawyd ailbrisiad i benderfynu a oedd unrhyw adfachiad yn daladwy. Yn dilyn trafodaethau hirfaith, penderfynwyd o'r diwedd ddechrau ar ddigwyddiad cyfryngu ac fe gytunwyd ar y diddymiad.

## Cyllid Camddefnyddio Sylweddau

Cafodd cwmni o'r enw Prism gyllid cyfalaf camddefnyddio sylweddau yn ystod 2012-13 a 2013-14. Ym mis Ebrill 2015, cafodd swyddogion Llywodraeth Cymru wybod bod Prism wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr gyda'r holl asedau yn aros gyda'r datodwr. Gwnaed yr holl weithgarwch adfachu posibl gyda chyngor cyfreithiol yn ystod y blynyddoedd cyfamserol. Cafodd Llywodraeth Cymru ddifidend terfynol o £36,963.95 gyda £406,506 yn cael ei ddiddymu.

## Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr

O ran y broses adrodd yn barhaus am y gwall Grantiau Dibynyddion rhan-amser, adroddwyd ar y symiau canlynol trwy gyfrifon Llywodraeth Cymru:

- Blwyddyn ariannol 2020-21 – gwnaed diddymiad o £399,424 yn ymwneud â'r flwyddyn academaidd 2018-19.
- Blwyddyn ariannol 2021-22 – gwnaed diddymiad o £223,983 yn ymwneud â'r flwyddyn academaidd 2019-20.

Oherwydd y ffordd y mae'r data'n cael eu casglu, disgwylir i gyfanswm y diddymiad ar gyfer y flwyddyn academaidd 2020-21 gael ei ddarparu i Lywodraeth Cymru gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC) ym mis Tachwedd 2022. Bydd y gwerth yn parhau i ostwng, a'r flwyddyn academaidd 2021-22 yw'r flwyddyn gymwys olaf ar gyfer adrodd o fewn cyfrifon 2023-24.

Rydym wedi gwneud newid polisi ar gyfer y flwyddyn academaidd 2022-23 sy'n golygu bod myfyrwyr ar gyrsiau dysgu o bell bellach yn gymwys i wneud cais am Grantiau i Ddibynyddion. Bydd hyn ar gyfer myfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n parhau â'u hastudiaethau, ac er na fydd SLC yn gallu derbyn cais ar gyfer Grantiau i Ddibynyddion gan y garfan hon tan ddiwedd mis Tachwedd 2022 oherwydd newidiadau i'r system, bydd yr holl gymeradwyaethau yn cael eu hôl-ddyddio i ddechrau'r flwyddyn academaidd. Ni fydd y rhai y mae'r gwall hwn yn effeithio arnynt, ac sy'n parhau i astudio yn y flwyddyn academaidd 2022-23 (mae'r niferoedd disgwyliedig yn fach iawn) bellach yn cael eu hystyried fel gwall ac fe ddaw adrodd i ben.

## Diddymu gwaith ar yr A55

Cafodd gwerth asedau o £9,021,000 yn achos costau sy'n gysylltiedig â datblygu gwelliannau Cyffyrdd 14 i 16A yr A55 ei ddiddymu yn 2021-22. Aed i wariant ar waith datblygu angenrheidiol i lywio penderfyniadau, a gwnaed y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen ar y sail nad oedd y cynllun yn cyflawni nodau Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a Chymru Sero Net yn llawn. Er na fydd y costau y gostyngwyd eu

gwerth yn cael eu hadrodd bellach yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol fel asedau, mae'r data a grëwyd drwy'r gwariant yn parhau ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru ac fe gyfeirir ato mewn astudiaethau a phrosiectau yn y dyfodol i sicrhau'r gwerth gorau posibl i bwrs y wlad.

### Stociau ffliw pandemig a diddymu meddyginiaethau Covid

Cafodd diddymiadau stociau ffliw pandemig a meddyginiaethau Covid eu diddymu yn y flwyddyn gyda gwerth o £449,280 a £452,928 yn y drefn honno. Mae stociau o gyffuriau gwrthfeirysol, gwrthfiotigau a defnyddiau traul yn cael eu dal gan Lywodraeth Cymru yn unol â chynllunio ledled y DU ym maes iechyd y cyhoedd. Mae lefelau stoc y mae ei hangen, y mathau o gyffuriau ac ailbrosesu cyffuriau yn cael eu rheoli ar lefel y DU a gallant fod yn wamal o'r herwydd. Mae diddymiadau'n digwydd o ganlyniad i addasu cyflenwadau gwladol i fodloni angen cynlluniedig. Mae'r diddymiadau a hysbyswyd yn ymwneud â chyffuriau sydd wedi darfod nad ydynt yn addas i'w defnyddio mewn gwasanaethau GIG craidd neu i drin COVID-19. Mae'n risg gydnabyddedig wrth wneud paratoadau priodol ar gyfer achosion o ffliw pandemig fod rhai stociau'n debygol o gael eu diddymu.

### Taliadau ex gratia

Mewn ymateb i argyfwng PPE COVID ledled y DU, anogodd Llywodraeth Cymru fusnesau lleol i ddatblygu'r gallu i gymryd rhan yng nghadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus. Datblygodd Hardshell UK Limited a Surviva Limited y gallu i gyflenwi PPE i'r sector cyhoeddus a dioddef trallod gan na chafodd y galw disgwyliedig ei wireddu. Gofynnodd y ddau gwmni am gymorth ariannol i liniaru'r trallod a achoswyd ac i roi cynllun i oroesi ar waith. Ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd, cymeradwywyd taliadau ex gratia i liniaru'r caledi a brofwyd. Cafodd Hardshell UK Limited £325,000 a chafodd Surviva Limited £330,000.

## Materion eraill yn ystod y flwyddyn

### Baglan

Yn ystod 2021-22 cafodd y Rhwydwaith Gwifrenni Preifat (PWN) sy'n darparu trydan i nifer o gwsmeriaid ar Barc Ynni Baglan, fel rhan o ganolfan asedau Gorsaf Ynni Bae Baglan ei ddiddymu yn orfodol a chafodd ei roi o dan reolaeth y Derbynnydd Swyddogol. Parhaodd y Derbynnydd Swyddogol i gyflenwi pŵer drwy PWN am amser byr.

Heriodd Gweinidogion Cymru benderfyniad y Derbynnydd Swyddogol, i derfynu pŵer drwy rwydwaith gwifrenni preifat ("PWN"), sy'n cyflenwi pŵer i nifer o gwsmeriaid ar Barc Ynni Baglan drwy achos llys. Cymerodd Llywodraeth Cymru'r cam hwn i atal canlyniadau niweidiol ar iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd

yn deillio o gamau gweithredu y Derbynnydd Swyddogol megis y risg o lifogydd o orsafoedd pwmpio sydd wedi methu, a phroblemau sylweddol o ran ansawdd aer sy'n gysylltiedig â generaduron diesel. Mae'r her gyfreithiol wedi rhoi amser i alluogi gwaith seilwaith ar gyfer cyflenwad pŵer wedi'i reoleiddio i fusnesau, gorsafoedd pwmpio, a goleuadau stryd lleol i gael ei gwblhau.

Fel rhan o'r achos cyfreithiol yn yr Uchel Lys, mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno i ddarparu indemniad costau i'r Derbynnydd Swyddogol ar gyfer gweithredu / cynnal a chadw'r orsaf ynni yn barhaus, wrth i'r mater fynd yn ei flaen drwy'r llysoedd a hyd nes y bydd yr orsaf ynni yn cael ei gwneud yn ddiogel a'i hymwrthod. Mae'r indemniad ar gyfer y Derbynnydd Swyddogol yn diogelu rhag yr holl rwymedigaethau, costau, treuliau, iawndal a cholledion sy'n deillio o unrhyw oedi wrth derfynu'r ddarpariaeth o drydan neu mewn cysylltiad â hynny. Mae'r costau hyn yn debygol o grisialu yn ystod 2022-23.

## Rhoddion ar gyfer Wcráin

Yn 2021-22 rhoddodd Llywodraeth Cymru £4m i'r Pwyllgor Argyfwng Trychinebau (DEC), a oedd wedi lansio Apêl Argyfwng i Wcráin, gan ddod â sefydliadau blaenllaw yn y DU ynghyd i godi arian ar gyfer argyfyngau tramor. Ar adeg o argyfwng, lle mae bywydau pobl yn y fantol, mae DEC yn cydgysylltu ymateb dyngarol effeithiol, gan sicrhau bod cymorth yn cyrraedd y bobl y mae arnynt ei angen yn gyflym. Roedd model DEC yn caniatáu i roddion gael eu rhyddhau'n gyflym, ac o fewn dyddiau i lansiad yr apêl roedd elusennau DEC yn gallu dechrau gwario'r arian a godwyd.

Ym mis Mawrth 2022, cynigwyd cymorth pellach gan Lywodraeth Cymru i letya gwladolion o Wcráin, gan gydnabod bod Cymru'n Genedl Noddfa, a hynny drwy'r rhaglen nawdd Cartrefi i Wcráin. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu llety ar unwaith a gwasanaethau cofleidiol, megis gofal iechyd, addysg, iaith ac integreiddio cymunedol. Rhoes Llywodraeth Cymru swm o £1m i'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru tuag at Gronfa Croeso Cenedl Noddfa a dalwyd yn 2021-22.

## Trefniadau TAW / Cynllunio a Rheoli Trethi

Fel rhan o raglen dreigl o adolygiadau cydymffurfio, mae gan CThEF y tri adolygiad cydymffurfio parhaus canlynol:

- Adolygiad IR35
- Adolygiad o Gydymffurfiad Cyflogwyr
- Archwiliad Treth ar Werth.

Oherwydd materion adnoddau CThEF, dim ond yr Archwiliad Treth ar Werth sydd wedi symud ymlaen yn ystod y cyfnod hwn. Bu'n rhaid i ad-daliad o £32,340.93 gael ei wneud i CThEF oherwydd adferiad TAW anghywir ar daliadau secondiad wedi'u camgodio.

## Llywodraethiant Gwybodaeth

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol yn bodoli i gydymffurfio â'r set graidd o fesurau gofynnol gorfodol i amddiffyn gwybodaeth yn Adrannau'r Llywodraeth. Mae'n ofynnol imi asesu'r risg a sicrhau bod strategaethau lliniaru priodol yn bodoli.

Lle bo trydydd partïon yn ymdrin â gwybodaeth y mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol amdani yn gyfreithiol, mae'n bwysig bod cyngor a chyfarwyddyd yn cael eu rhoi iddynt am sut y mae rhaid ymdrin â'r wybodaeth honno. Mae diogelwch TG yn cael ei asesu cyn dyfarnu contract, lle mae gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu gan drydydd partïon, ac mae cymalau sicrhau gwybodaeth yn cael eu cynnwys yn safonol fel rhan o gymalau contract. Rydym hefyd yn cadarnhau bod y rhai sy'n prosesu ein gwybodaeth sensitif yn destun Gwiriad Iechyd TG annibynnol ac yn bodloni'r safon o ran arferion gorau ee Cyber Essentials / ISO27001.

Mae gan Lywodraeth Cymru bolisïau a gweithdrefnau ar waith i reoli risg seiberddiogelwch yn rhagweithiol, gan weithio gyda'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol i ddiogelu ein hasedau digidol a'n seilwaith TGCh. Mae risgiau diogelwch (gan gynnwys seiber) yn cael eu trafod gan yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (enwebai diogelwch ar lefel Bwrdd) a'r Prif Swyddog Diogelwch bob pythefnos. Mae ExCo a minnau yn cael briffiadau diogelwch drwy gydol y flwyddyn.

**Digwyddiadau sy'n dod o fewn y Meini Prawf ar gyfer adrodd i'r ICO (Adroddwyd):**

| Blwyddyn | Digwyddiadau a adroddwyd i'r ICO | Camau a gymerwyd gan yr ICO |
|---|---|---|
| 2021-22 | 2 | 0 |
| 2020-21 | 2 | 0 |

**Crynodeb o Ddigwyddiadau eraill yn ymwneud â Data Personol a Ddiogelir**

**Yn y tabl isod nodir digwyddiadau nad yw'r Rheolydd Data yn barnu eu bod yn perthyn i'r meini prawf ar gyfer adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ond sy'n cael eu cofnodi'n fewnol.**

| Math | Natur y digwyddiad | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|---|
| I | Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddog-fennau papur, sydd heb gael eu diogelu'n ddigonol, o safleoedd diogel y Llywodraeth | 1 | 0 |
| II | Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddog-fennau papur, sydd heb gael eu diogelu'n ddigonol, o'r tu allan i safleoedd diogel y Llywodraeth | 2 | 4 |

| Crynodeb o Ddigwyddiadau eraill yn ymwneud â Data Personol a Ddiogelir | | | |
|---|---|---|---|
| Yn y tabl isod nodir digwyddiadau nad yw'r Rheolydd Data yn barnu eu bod yn perthyn i'r meini prawf ar gyfer adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ond sy'n cael eu cofnodi'n fewnol. | | | |
| **Math** | **Natur y digwyddiad** | **2021-22** | **2020-21** |
| III | Gwaredu mewn modd anniogel offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur sydd heb gael eu diogelu'n ddigonol | 0 | 0 |
| IV | Datgeliad heb ei awdurdodi | 93 | 96 |
| V | Arall | 3 | 3 |

Mae pob datgeliad data heb ei awdurdodi yn cael ei gofnodi ac ymchwilir iddo. Yn eu cyd-destun, er hynny, mae nifer y colledion yn isel o'i gymharu â nifer yr e-byst sy'n cael eu hanfon bob mis (ar gyfartaledd, 1.3 miliwn). Roedd y mwyafrif o'r digwyddiadau a oedd heb eu hadrodd i'r ICO yn deillio o ddatgeliadau heb eu hawdurdodi. Roedd y rhain yn deillio, yn bennaf, o anfon neu e-bostio dogfennau penodol sy'n cynnwys data personol at y person anghywir.

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal proses gadarn ar gyfer adrodd sy'n cynnwys pob math o ddigwyddiad. Ar ôl i bob achos o dorri data gael ei adrodd, cytunir ar gamau unioni â'r rheolwyr ac mae camau gweithredu'n cael eu holrhain i sicrhau bod y camau hynny'n cael eu cwblhau. Adroddir ar bob achos o dorri data i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol perthnasol. Lle bo angen, mae gwersi i'w dysgu ar draws y sefydliad yn rhan o'r Bwletin Diogelwch rheolaidd i'r holl staff.

## Adroddiad y Swyddog Diogelu Data

Gan adeiladu ar brofiad a gawyd yn ystod y pandemig, rwyf wedi parhau i weld lefel dda a chynyddol o ymwybyddiaeth ymhlith swyddogion o egwyddorion a gofynion diogelu data cyffredinol GDPR y DU. Mae'r profiad ymarferol gwerthfawr a'r ddealltwriaeth dechnegol well o ddiogelu data a gafwyd wrth ymateb i COVID-19 wedi helpu swyddogion i ddefnyddio data personol yn briodol ac yn ddiogel wrth gyflawni i bobl Cymru a darparu ymateb Llywodraeth Cymru i Argyfwng Wcráin.

Er hynny, mae ailflaenoriaethu adnoddau i'r ymateb i COVID-19 hefyd wedi parhau i ohirio'r cynnydd o ran mynd i'r afael â gwelliannau a nodwyd mewn blynyddoedd blaenorol, yn enwedig yn achos e-offer i greu cofnod mwy cadarn o weithgarwch prosesu data. Yn ogystal, mae dechrau'r Rhaglen Lywodraethu newydd wedi tynnu sylw at feysydd lle mae angen gwella dealltwriaeth o GDPR y DU er mwyn i Lywodraeth Cymru allu dangos cydymffurfiad. Mae angen gwaith pellach ar fesurau technegol a sefydliadol – gan gynnwys hyfforddiant, ymwybyddiaeth ac asesu'r risg o ddiogelu data yn gynnar – i fynd i'r afael â'r meysydd hyn. Mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud o ran hyfforddiant. Mae'r modiwl hyfforddi newydd wedi'i gyflwyno ac yn gorfod cael ei gwblhau erbyn 15 Medi 2022.

# Atebolrwydd Lleol

Mae cyfran sylweddol o wariant Llywodraeth Cymru'n cael ei ddosbarthu i awdurdodau lleol Cymru a chyrff GIG Cymru i gyflawni amcanion polisi ac ystod o wasanaethau rheng flaen, gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg. Mae Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru hefyd yn Brif Weithredwr GIG Cymru.

## Awdurdodau Lleol

Darperir cyllid grant i Awdurdodau Unedol, Awdurdodau Tân ac Achub, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru. Yr elfen unigol fwyaf o gyllid grant yw'r setliad heb ei neilltuo blynyddol ar gyfer Awdurdodau Unedol sy'n cynnwys Grant Cynnal Refeniw (RSG) a chyfran o incwm ardrethi annomestig. Pennir cwantwm y cyllid fel rhan o gylch cyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru. Fe'i dosberthir gan ddefnyddio fformiwla sy'n adlewyrchu'r ffactorau sydd wrth wraidd angen yr awdurdodau i wario i ddarparu ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys addysg a gofal cymdeithasol. Mae'r fformiwla'n cael ei chynnal, ei diweddaru a'i gwella drwy raglen waith barhaus gyda llywodraeth leol.

Rhoddir cyllid hefyd i awdurdodau drwy grantiau na ellir eu defnyddio ond at y dibenion penodol y maent yn cael eu darparu ar eu cyfer. Yn ogystal, mae'r Awdurdodau Unedol yn cael rhai grantiau penodol oddi wrth Adrannau Llywodraeth y DU ar gyfer swyddogaethau sydd heb eu datganoli, o'r dreth gyngor a bennir yn lleol, ac o ffioedd, taliadau a ffynonellau incwm eraill. Mae'r Awdurdodau Unedol hefyd yn cael grantiau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwario cyfalaf a chymorth ar gyfer benthyca. Cydategir hyn gan allu'r awdurdodau eu hunain i fenthyca, grantiau gan gyrff eraill a derbyniadau cyfalaf.

Mae trefniadau tebyg yn gymwys i'r ddarpariaeth refeniw ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, a ariennir drwy gyfuniad o'r Grant Cynnal Refeniw ac incwm ardrethi annomestig gan Lywodraeth Cymru, Grant yr Heddlu oddi wrth y Swyddfa Gartref, grantiau penodol ac o'r dreth gyngor. Mae awdurdodau eraill yn cael eu hariannu trwy drefniadau megis grantiau penodol, ardollau a phraeseptau.

Mae pob awdurdod yn atebol am sut y mae'n defnyddio'r cyllid sydd ar gael wrth gyflawni'r swyddogaethau y mae'n gyfrifol amdanynt. Rhaid i'r Awdurdodau Unedol, cyrff yr heddlu ac Awdurdodau Tân ac Achub gael swyddog penodedig o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 sydd â dyletswyddau statudol i sicrhau bod materion ariannol yn cael eu gweinyddu'n briodol. Mae awdurdodau yn cael eu dwyn i gyfrif drwy eu swyddogaethau craffu a thrwy atebolrwydd uniongyrchol i'w hetholwyr lleol. Mae eu materion ariannol yn cael eu llywodraethu drwy fframwaith cyfrifyddu ac archwilio statudol ac mae eu cyfrifon yn destun archwiliadau allanol blynyddol llawn gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Maent wedi bod yn destun archwiliadau gwella blynyddol a gynhaliwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru gan gwmpasu gwerth am arian yn ogystal â materion llywodraethiant a chapasiti. Ond ers 1 Ebrill 2021 mae Awdurdodau Unedol wedi bod yn destun trefn perfformiad a llywodraethiant newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt adolygu eu perfformiad a chynnal asesiadau rheolaidd gan gymheiriaid.

O ran cyllid a ddarperir at ddibenion penodol, yr adrannau polisi perthnasol sy'n gyfrifol am delerau ac amodau grantiau unigol. Mae'n ofynnol i'r telerau ac amodau hyn roi sylw dyledus i Safonau Gofynnol y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau ar gyfer Cyllid Grant. Drwy gadw at y safonau hyn dylid sicrhau cydymffurfiad â threfniadau llywodraethiant ac ariannol, cyfreithiau perthnasol, polisïau ac arferion da Llywodraeth Cymru. O ran y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â swyddogaethau heb eu datganoli, cytunir ar y trefniadau ar gyfer atebolrwydd am ddefnyddio'r cyllid penodol hwn rhwng yr Awdurdodau Lleol a'r Adran berthnasol yn Llywodraeth y DU. Bydd rhwymedigaethau yn cael eu rhoi ar awdurdodau lleol ynghylch sut mae'r cyllid hwn yn cael ei wario yng Nghymru, gan gynnwys cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'u trefniadau ariannol cyffredinol a threfniadau atebolrwydd eraill gan gynnwys craffu lleol. O ran cronfeydd y DU sy'n effeithio ar faterion datganoledig ac a ddyrannir yn uniongyrchol i awdurdodau lleol, mae Gweinidogion Cymru yn parhau i geisio trefniadau cydbenderfynu â Llywodraeth y DU er mwyn atal dyblygu gwasanaethau a sicrhau gwell gwerth am arian a chanlyniadau.

Cafodd nifer o grantiau ychwanegol sylweddol neu godiadau mewn grantiau eu gwneud yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol mewn ymateb i'r pwysau y mae'r awdurdodau lleol wedi'u profi a'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru. Cafodd Setliad Llywodraeth Leol ei ddiwygio ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i gynyddu £60,000,000 ar y cyllid sydd ar gael i'r awdurdodau lleol. Diben hyn, fel rhan o reolaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru ar y gyllideb, oedd galluogi'r Awdurdodau Lleol i reoli eu cyllidebau yn fwy effeithiol dros y cyfnod 2021-22 i 2024-2025 yn erbyn cyd-destun chwyddiant a phwysau ar wasanaethau gan gynnwys ymatebion i argyfwng yr hinsawdd, a diwedd Cronfa Galedi Llywodraeth Leol.

## Materion penodol

Daeth y pecyn cymorth statudol sydd wedi'i roi Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr ers 2019 i ben ar 31 Mawrth 2022 yng ngoleuni'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor a'i sefyllfa ariannol gryfach a'i drefniadau llywodraethiant gwell.

Cytunwyd ar y pecyn cymorth statudol ym mis Mehefin 2019 yn dilyn cais gan yr Arweinydd ar y pryd, ac mewn ymateb i'r pryderon a godwyd gan Archwilio Cymru. Roedd yn cynnwys Bwrdd Gwella a Sicrwydd, penodi cynghorwyr allanol tymor byr ar gyfer meysydd penodol, a hyfforddiant ar gyfer aelodau a swyddogion.

Cytunwyd y dylid cyflwyno'r pecyn cymorth statudol fesul cam a'i adolygu'n rheolaidd er mwyn darparu sicrwydd bod y cymorth a ddarparwyd yn dal yn addas i'r diben ac yn parhau i ychwanegu gwerth at daith y Cyngor tuag at welliant.

Ym mis Hydref 2021, yng ngoleuni'r cynnydd sy'n cael ei wneud gan y Cyngor, cytunodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i gam pontio terfynol o gymorth cyn i'r cymorth statudol ddod i ben a'r Cyngor yn symud i drefniadau o dan arweiniad lleol ar gyfer goruchwylio gwelliant - pan fydd fframwaith y cytunwyd arno o brofion allweddol wedi'i fodloni.

Mae Cynadleddau Gwella a Chymorth, gan gynnwys cynrychiolwyr o Archwilio Cymru, Estyn, AGC a CLlLC, yn cynnig syniadau o ran ble y gellid cynnig cymorth ychwanegol i gefnogi gwella'r Awdurdodau Lleol.

## Iechyd

Mae Byrddau Iechyd Lleol yn cael eu hariannu i gomisiynu a darparu Gwasanaethau Ysbytai ac Iechyd Cymunedol ac i dalu cost cyffuriau a ragnodir gan Ymarferwyr Cyffredinol ar gyfer eu poblogaethau preswyl. Darperir cyllid hefyd i roi taliadau i gontractwyr annibynnol gan gynnwys Ymarferwyr Cyffredinol, Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol a Fferyllwyr. Mae cyllid ychwanegol wedi'i dargedu yn cael ei ddefnyddio i gefnogi cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru. Darperir cyllid cyfalaf i gefnogi Rhaglen Gyfalaf Cymru Gyfan ac mae cyllid cyfalaf disgresiynol arall gan Lywodraeth Cymru hefyd yn cael ei ddarparu i gefnogi blaenoriaethau a nodir yn lleol.

Ar gyfer 2021-22 roedd pedwar o'r saith Bwrdd Iechyd Lleol wedi cydymffurfio â'u dyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb trwy weithio o fewn eu cyllidebau yn ystod y cyfnod asesu o dair blynedd. Ni wnaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, a nododd ddiffygion yn 2021-22 a'r blynyddoedd blaenorol, gydymffurfio â'u dyletswydd felly. Adroddodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) warged yn erbyn ei derfyn adnoddau yn 2021-22 a 2020-21 ond ni chydymffurfiodd o ran cyfnod asesu cronnus o dair blynedd. Cafodd y cyrff hyn farn wedi'i hamodi ar reoleidd-dra gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Cafodd BIPBC hefyd farn archwilio 'gwir a theg' wedi'i hamodi ar ddatganiadau ariannol 2021-22 gan nad oedd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gallu dod o hyd i dystiolaeth archwilio ddigonol a phriodol bod gwariant gwerth £122.2 miliwn wedi'i dynnu yn y flwyddyn neu fod modd cyfrif yn briodol am y gwariant yn y cyfnod cyfrifyddu cywir, ac nid oedd BIPBC yn gallu darparu tystiolaeth archwilio briodol ddigonol bod symiau taladwy a chroniadau o £73.2 miliwn yn bodoli. Argymhellodd Archwilydd Cyffredinol Cymru i BIPBC fod y Bwrdd Iechyd yn cynnal ymarfer cynhwysfawr i nodi, ac i gywiro'r gwallau yn ei gofnodion cyfrifo, yn nodi'r cywiriadau y mae angen iddo eu gwneud er mwyn sicrhau bod cyfrifon 2022-23 yn rhoi darlun cywir a theg; ac yn cynnal adolygiad i ddeall pam y digwyddodd y materion hyn ac i gryfhau ei reolaethau yn unol â hynny. Mae rhagor o fanylion am yr amodi hwn i'w cael yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Bwrdd Iechyd.

O ganlyniad i'r amodi ar y byrddau iechyd a nodwyd uchod, cafodd Cyfrif Crynhoi'r GIG 2021-22 hefyd amodiadau i'r farn archwilio rheolaidd-dra a 'gwir a theg'.

Bodlonodd pob un o dair Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru eu dyletswydd ariannol i fantoli'r cyfrifon dros y cyfnod asesu tair blynedd.

Fel Awdurdodau Iechyd Arbennig, nid yw Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Gofal Iechyd Digidol Cymru (GIDC) yn dod o dan y ddyletswydd statudol tair blynedd ac mae'n ofynnol iddynt fantoli'r cyfrifon ym mhob blwyddyn ariannol. 2021-22 yw'r flwyddyn gyntaf ar gyfer GIDC. Cydymffurfiodd y ddau â'u dyletswydd ariannol flynyddol.

Yn 2021-22 roedd holl sefydliadau GIG Cymru ac eithrio Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, AaGIC a GIDC yn cynnwys darpariaeth yn eu cyfrifon am y tro cyntaf ar gyfer yr ymrwymiadau 'Cynllun yn Talu' yn deillio o'r Cyfarwyddyd Gweinidogol a nodwyd ar dudalen 164. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi amodi ei farn archwilio rheoleidd-dra ar gyfer holl sefydliadau GIG Cymru (ac eithrio'r rhai a nodir uchod) a Chyfrif Cryno'r GIG mewn perthynas â'r gwariant hwn ar y sail bod y gwariant yn afreolaidd ac yn berthnasol ei natur.

Yn unol â Threfniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrraeth GIG Llywodraeth Cymru, roedd saith o blith deuddeg o sefydliadau GIG Cymru yn dal yn destun monitro rheolaidd, ar 31 Mawrth 2022.

- Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn destun monitro uwch.
- Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a oedd wedi bod yn destun Mesurau Arbennig gynt, wedi bod â statws Ymyrraeth wedi'i Thargedu ers mis Tachwedd 2020. Ym mis Mehefin 2022 cafodd trefniadau newydd ar gyfer Ymyrraeth wedi'i Thargedu, eu rhoi ar waith i ymestyn i gynnwys gwasanaethau yn Ysbyty Glan Clwyd gan ganolbwyntio yn benodol ar wasanaethau fasgwlaidd a'r adran achosion brys.
- Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi aros o dan Fesurau Arbennig ar gyfer gwasanaethau mamolaeth ac o dan Ymyrraeth wedi'i Thargedu ar gyfer Arweinyddiaeth a Diwylliant; Ansawdd a Llywodraethiant ac Ail-greu Ymddiriedaeth a Hyder. Mae'r ddau faes hyn yn ofynion uwchgyfeirio sy'n deillio o faterion sy'n ymwneud â'r sefydliad rhagflaenol sef Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Mae manylion sut y mae pob sefydliad sy'n destun monitro uwch, ymyrraeth wedi'i thargedu neu fesurau arbennig wedi cymryd camau yn 2021-22 i fynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd yn Natganiadau Llywodraethiant cyrff perthnasol y GIG yn eu Hadroddiad Blynyddol a'u Cyfrifon.

## Proffil Risg

Mae proffil risg Llywodraeth Cymru yn helaeth ac yn amrywiol, fel y byddid yn disgwyl, o gofio'r ystod eang o wahanol weithgareddau y mae'n ymwneud â hwy. Mae risgiau gweithredol yn codi wrth gyflawni amcanion polisi allweddol ac maent yn cael eu rheoli a'u lliniaru o ddydd i ddydd ar draws y sefydliad. Yn ogystal, mae gan Lywodraeth Cymru nifer o risgiau digwyddiadol (effaith uchel ond yn annhebygol o gael eu gwireddu) sy'n deillio o'i chyfrifoldebau rheoleiddio. Enghreifftiau o'r rhain yw cyfrifoldebau yn achos brigiad o glefyd pobl neu anifeiliaid yng Nghymru a'i rhwymedigaethau o dan y gwarantau y mae'n eu gwneud o bryd i'w gilydd i gefnogi busnesau yng Nghymru.

Gyda dyfodiad COVID-19 cafodd un o'r risgiau digwyddiadol hyn ei wireddu a bu angen i Lywodraeth Cymru ymateb i'r argyfwng. Yn gynnar yn y gwaith o ddatblygu ymateb COVID-19 Llywodraeth Cymru, nododd y Prif Swyddog Cyfrifyddu ar y pryd yn glir i'r Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol ei safiad ar yr awydd am risg mewn perthynas â phenderfyniadau a wnaed mewn ymateb i COVID-19, i lywio'r gwaith o reoli risg yn ystod y cyfnod eithriadol hwn.

Yn ystod 2021, cafodd Cofrestr Risgiau COVID-19 annibynnol ei chreu a'i monitro'n agos gan ExCovid, gyda chamau lliniaru risg yn cael eu cymryd yn ôl y galw. Wrth i ExCovid ddod i ben, mae risgiau sy'n gysylltiedig â Covid wedi'u trosglwyddo i'r Cofrestrau Risgiau Corfforaethol a/neu y Grŵp priodol. Mae'r rhain yn cael eu monitro gan y Pwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol (o dan ExCo), ExCo, ARACs a Bwrdd Llywodraeth Cymru.

Adroddodd yr Ysgrifennydd Parhaol blaenorol y llynedd fod COVID-19 wedi arwain at gynnydd digynsail mewn pwysau ar Lywodraeth Cymru. Mae llawer o'r pwysau hyn wedi parhau yn ystod 2021-22 gyda galwadau ychwanegol megis yr argyfwng yn Wcráin a'r cynnydd mewn costau byw. Mae llwybr yr economi a chyllid cyhoeddus yn y dyfodol yn aneglur iawn. Mae'r heriau hyn yn parhau i effeithio ar risgiau i'r gweithlu gan gynnwys materion yn ymwneud â chapasiti a llesiant staff. Mae mecanweithiau effeithiol wedi'u rhoi ar waith i fonitro a darparu cymorth i staff, yn ôl yr angen.

Yn ystod y flwyddyn ychwanegwyd pedair risg newydd at y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Roedd y gyntaf yn adlewyrchu'r risgiau ynghylch paratoadau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Ymchwiliad Cyhoeddus i COVID-19 yng Nghymru. Mae'r risg hon wedi cael ei diweddaru'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Mae'r camau lliniaru wedi cynnwys y ddyletswydd gofal i staff allai fod yn rhan o'r Ymchwiliad.

Roedd yr ail risg newydd yn ymwneud â'r bygythiad seiber o ran tarfu ar fusnesau. Mae'r risg hon wedi'i sgorio'n uchel ac yn unol â dadansoddiad Llywodraeth y DU o fygythiadau a thueddiadau'r diwydiant. Cynyddwyd sgôr y risg ymhellach yn ystod y flwyddyn oherwydd y bygythiadau seiber ychwanegol a achosir gan yr argyfwng yn Wcráin. Mae mesurau lliniaru wedi'u rhoi ar waith i reoli'r risg hon gan gynnwys ystod o atebion TG a monitro.

Cafodd risg ynghylch y system Adnoddau Dynol ei huwchgyfeirio at y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn ystod y flwyddyn. Oherwydd pwysau wrth ddelio ag argyfwng COVID gohiriwyd dechrau'r prosiect i uwchraddio systemau TG Adnoddau Dynol. Creodd hyn risg na fyddai Llywodraeth Cymru wedi gallu gweithredu'n effeithiol pan ddaeth contract presennol Systemau Gwybodaeth Adnoddau Dynol i ben yn Ebrill 2022. Lliniarwyd y risg hon yn sylweddol drwy gaffael a gosod trwydded barhaol (at ddefnydd heb gymorth) i hwyluso defnydd parhaus o'r system y tu hwnt i fis Ebrill.

Roedd y risg newydd olaf a ychwanegwyd yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â'r ffaith bod Cymru'n Genedl Noddfa a'r risgiau sy'n gysylltiedig â fforddiadwyedd ymrwymiad cyllido Wcráin yn y dyfodol. Nid oedd unrhyw gyllideb bresennol ar gyfer y gweithgarwch hwn ac roedd cyllid Llywodraeth y DU a drosglwyddwyd yn annigonol i dalu'r holl gostau. Mae camau lliniaru cadarn wedi'u rhoi ar waith i reoli'r risg hon gan gynnwys:

- ffrwd waith cyllid sefydledig i ddelio â'r materion hyn
- datblygu dealltwriaeth glir o gostau elfennau hanfodol yn ein hymateb i gefnogi modelu costau yn y dyfodol
- gweithio i negodi cytundeb da ar y pecyn cymorth a ddarperir, e.e. Llety Canolfannau Croeso.

## Y Gallu i Ymdrin â Risg


Mae Llywodraeth Cymru yn cadw at y “Prif Egwyddorion” ar gyfer rheoli risgiau mewn llywodraeth a nodir yn *The Orange Book; Management of Risk – Principles and Concepts (2019, updated 2020)* Trysorlys EF.

Prif amcan polisi rheoli risg Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod proses gyson yn bodoli ar gyfer mesur, rheoli, monitro ac adrodd ar risg ar draws y sefydliad. Ni ddylai rheoli risg yn effeithiol beri bod Llywodraeth Cymru’n ymdrechu’n ormodol i osgoi risg ac wrth fynd ar drywydd ei hamcanion, mae’n barod i gymryd risgiau sydd wedi’u hasesu, eu gwerthuso a’u rheoli’n briodol er mwyn gallu manteisio’n fwy effeithiol ar gyfleoedd wrth iddynt godi, gan dderbyn yr un pryd y gallai methiant ddigwydd.

Yn gorfforaethol, mae’r Bwrdd yn gyfrifol am oruchwylio gweithredu polisi a phroses ar gyfer rheoli risg ac am oruchwylio a chraffu ar liniaru’r risgiau allweddol sy’n wynebu Llywodraeth Cymru a allai fel arall atal neu lesteirio’r sefydliad rhag cyflawni ei hamcanion strategol. Yn bennaf, y rhain yw’r risgiau sydd mor allweddol fel na ellir eu rheoli ar lefel Grŵp, ynghyd â rhai o natur gorfforaethol y teimlid eu heffaith ar draws y sefydliad cyfan. Mae risgiau corfforaethol wedi cael eu hadolygu gan y Bwrdd ddwywaith yn y flwyddyn a chan Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru bob chwarter.

Cyfrifoldeb rheoli yw rheoli a lliniaru risg o ddydd i ddydd ac mae pob Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi bod yn gyfrifol am reoli risg a chyfle mewn perthynas ag amcanion allweddol eu Grŵp. Roedd risgiau grŵp yn cael eu hadolygu’n rheolaidd gan uwch-dimau rheoli a chan Bwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg y Grŵp ac fe gawsant eu llywio gan gofrestrau risg a gynhelir gan brosiectau a rhaglenni ac asesiadau risg a chofrestrau risg ar lefel Is-adran.

Mae'r diagram isod yn dangos y map llwybr ar gyfer uwchgyfeirio risg.



## Cyfarwyddyd Gweinidogol

Yn y flwyddyn ariannol 2019-20 ceisiodd a chafodd yr Ysgrifennydd Parhaol blaenorol Gyfarwyddyd Gweinidogol[56] oddi wrth y Prif Weinidog. Hwn oedd y Cyfarwyddyd Gweinidogol cyntaf a roddwyd ers dechrau datganoli. Roedd angen y Cyfarwyddyd o ganlyniad i'r gofyniad polisi i leddfu effaith rhai newidiadau pensiwn a threth ar glinigwyr â chyflogau uwch yn y GIG, a oedd wedi arwain at ostyngiad mewn capasiti gwasanaeth oherwydd bod diffyg cymhelliant i feddygon weithio oriau ychwanegol i'r GIG. Roedd yr Ysgrifennydd Parhaol blaenorol o'r farn nad oedd y cynllun hwn yn gydnaws â rhai o'r darpariaethau yn 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru' yn ymwneud â mesurau cynllunio trethi ac o ganlyniad roedd angen iddi ofyn am Gyfarwyddyd gan y Prif Weinidog.

Yn 2021-22 mae holl sefydliadau GIG Cymru ac eithrio Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, AaGIC a GIDC wedi cynnwys darpariaeth yn eu cyfrifon am y tro cyntaf ar gyfer yr ymrwymiadau 'cynllun yn talu' sydd â gwerth cyffredinol o £9.503 miliwn.

Yn 2021-22, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi amodi ei farn archwilio rheoleidd-dra ar gyfer naw o sefydliadau GIG Cymru mewn perthynas â rheoleidd-dra eu gwariant a gydnabyddir o ganlyniad i'r Cyfarwyddyd Gweinidogol. O'r herwydd cafodd y farn archwilio rheoleidd-dra ar gyfer Cyfrif Cryno'r GIG 2021-22 ei hamodi hefyd.

Yn 2021-22 mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod darpariaeth gwerth £25.1m ar gyfer ei rhwymedigaethau i gyrff y GIG yng Nghymru i fodloni eu gwariant sy'n deillio o'r trefniadau a weithredwyd gan y Cyfarwyddyd Gweinidogol. Yn gyson â'r driniaeth yng nghyfrifon sylfaenol cyrff y GIG, mae disgwyl i Archwilydd Cyffredinol Cymru amodi ei farn archwilio rheoleidd-dra ar Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru gan ei fod o'r farn bod anghydnawsedd posibl y cynllun â darpariaethau Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru yn afreolaidd a bod y gwariant yn berthnasol ei natur.

## Amodi Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21

Amododd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei farn archwilio ar gyfer Cyfrifon Llywodraeth Cymru 2020-21 ar sail taliad a gronnwyd yn rhannol yn 2020-21 ac a dalwyd yn 2021-22 o £39,123 i'r cyn Ysgrifennydd Parhaol adeg ei hymadawiad â'r sefydliad.

Cyflwynais sylwadau ar yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r taliad hwn yn fy Natganiad Llywodraethiant 2020-21 a chydnabod y pryderon ynghylch cadw cofnodion cyfamserol a'r rhesymau dros wneud y taliad i'r cyn Ysgrifennydd Parhaol.

56 Cyfarwyddyd Gweinidogol ynghylch y Cynnig ar Dreth Pensiynau'r GIG 2019 i 2020
llyw.cymru/cyfarwyddyd-gweinidogol-ynghylch-y-cynnig-ar-dreth-pensiynaur-gig-2019-i-2020

Rwyf yn ailadrodd fy asesiad fel Prif Swyddog Cyfrifyddu fod Llywodraeth Cymru yn credu'n gryf na chafodd y cyn Ysgrifennydd Parhaol unrhyw beth nad oedd ganddi hawl i'w gael, ac na chafodd ei thrin yn wahanol gan Lywodraeth Cymru i unrhyw was sifil arall. Cymeradwywyd y taliad yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru ac er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, cafodd y cyn Ysgrifennydd Parhaol daliad am gredyd yn lle oriau wedi'u bancio a thaliad yn gyfnewid am ddod â'i dyddiad ymadael ymlaen pan adawodd y sefydliad cyn diwedd ei chyfnod contractiol.

O ganlyniad i'r ffaith i'r taliad gael ei wneud yn 2021-22 (cafodd ei gronni yn unig yn 2020-21) disgwylir y bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn amodi ei farn archwilio unwaith eto ar gyfer Cyfrifon Llywodraeth Cymru 2021-22 mewn perthynas â'r mater hwn.

## Gwella'r fframwaith dirprwyaethau ar gyfer penderfyniadau yn ymwneud â chyflogau SCS

Nid yw telerau ac amodau'r Uwch Wasanaeth Sifil (SCS), gan gynnwys y cylch cyflog, yn cael eu dirprwyo i swyddog arweiniol Llywodraeth Cymru a Swyddfa'r Cabinet ar gyfer recriwtio Ysgrifenyddion Parhaol a llawer o agweddau sy'n gysylltiedig â recriwtio Cyfarwyddwyr Cyffredinol. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod ei bod yn bwysig bod penderfyniadau sy'n ymwneud â chyflogau SCS yn dryloyw ac yn cael eu cefnogi gan lywodraethiant cryf. Mae'r angen am welliant parhaus o ran y fframwaith dirprwyaethau wedi'i nodi a bydd y gwelliannau arfaethedig canlynol yn cael eu gwneud:

- Diweddaru canllawiau recriwtio ac adnoddau SCS gyda mapiau proses, dirprwyaethau a llwybrau cymeradwyo clir mewn perthynas â chyflogau SCS, gan gynnwys meysydd megis ymddeoliad rhannol a rhyngweithio â pholisïau Llywodraeth Cymru pan all fod gorgyffwrdd rhwng cyfrifoldebau Swyddfa'r Cabinet a Llywodraeth Cymru.
- Adolygu cylch gorchwyl y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth i sicrhau mwy o eglurder ynghylch y rôl a'r cylch gwaith, ac adolygu'r templed a'r broses Achos Busnes i wella eglurder cyngor adnoddau dynol a ddarperir i'r Pwyllgor.
- Gweithredu fframwaith Telerau ac Amodau'r Ysgrifennydd Parhaol, parhau i weithio gyda Swyddfa'r Cabinet i ddiffinio'n well rolau a chyfrifoldebau Swyddfa'r Cabinet a Llywodraeth Cymru a datblygu nodiadau ffeil safonol i sicrhau bod trefniadau sy'n cynnwys Swyddfa'r Cabinet yn cofnodi'r holl gymeradwyaethau perthnasol a pholisïau a roddir ar waith.

Bydd gweithredu'r newidiadau hyn yn cael ei oruchwylio gan y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth sy'n fy nghefnogi fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu.

## Casgliad

Bu'r system rheolaeth fewnol ar waith yn y sefydliad am y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2022 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon Cyfunol. Mae'n cyd-fynd â chanllawiau Trysorlys EF. Rwyf wedi adolygu'r dystiolaeth a roddwyd imi drwy fy adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethiant a gallaf gymryd sicrwydd rhesymol bod y trefniadau i sicrhau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol, o fewn y meysydd hynny sy'n cael eu hadolygu, wedi cael eu cynllunio a'u cymhwyso'n effeithiol. Mae ar rai materion angen sylw rheoli o ran rheoli, cynllunio neu gydymffurfio, ac maent yn agored i risg cymedrol nes cael eu datrys.

Mae'r pandemig COVID-19 wedi parhau i gyflwyno heriau i'r sefydliad ond drwy gydol y cyfnod rwyf yn fodlon bod trefniadau llywodraethiant a sicrwydd cadarn wedi bod ar waith. Bydd fy nghynllun tair blynedd, Llywodraeth Cymru 2025, yn parhau i adeiladu ar ein prosesau a'n gweithdrefnau cadarn presennol, gan gryfhau a gwella ein trefniadau llywodraethiant a sicrwydd i'n helpu i ddod yn sefydliad gwasanaeth cyhoeddus rhagorol.

**Dr Andrew Goodall CBE**
**Yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu**
12 Rhagfyr 2022

# Datguddiadau Atebolrwydd

Mae'r canlynol yn ddatganiad o golledion a thaliadau arbennig fel sy'n ofynnol o dan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, gyda datgeliadau unigol lle mae'r cyfansymiau a dynnir yn uwch na'r terfynau a bennir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru o £300,000.

| | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|
| Cyfanswm y colledion | 150 | 170 |
| Cyfanswm gwerth y colledion (£000oedd) | 12,269 | 129,049 |

| Manylion y colledion dros £300,000: | | |
|---|---|---|
| Hawliadau y rhoddwyd y gorau iddynt | Sorenson Media Limited | £600,000 |
| Hawliadau y rhoddwyd y gorau iddynt | W J Developments (Gwynedd) Ltd | £455,662 |
| Hawliadau y rhoddwyd y gorau iddynt | Prism | £406,506 |
| Colledion storfa | Diddymu Stoc Ffliw Pandemig | £449,280 |
| Colledion storfa | Diddymu meddyginiaethau COVID-19[1] | £452,928 |
| Colled ddeongliadol | Diddymiad yr A55[2] | £9,020,862 |

1 Dileu meddyginiaethau COVID-19 sydd bellach wedi dod i ben ac nad ydynt bellach yn ddilys i'w defnyddio. Cafodd y meddyginiaethau hyn eu gwaredu.

2 Yn dilyn cyhoeddi'r Datganiad Ysgrifenedig ym mis Chwefror 2022 ar Adroddiad Cychwynnol yr Adolygiad Ffyrdd ar gyfer Gwelliannau Cyffyrdd 14 i 16 yr A55, mae costau wedi'u cyfalafu ac eithrio eiddo ar gyfer prosiect Gwelliannau Cyffyrdd 15 a 16 yr A55 wedi'u hadolygu fel rhan o brosesau cyfrifyddu safonol ac wedi'u hasesu fel rhai y mae angen eu diddymu. Cafodd swm bach o gyllid yr UE ei ddychwelyd.

Cynhwysir yn y colledion a nodir uchod 4 o golledion (2020-21: 21) sydd wedi'u hysgwyddo mewn perthynas â'r pandemig COVID-19 sy'n dod i £0.044m (2020-21: £43.0m). Ymhlith colledion COVID-19 mae digwyddiadau a gafodd eu canslo o ganlyniad i'r pandemig, a cholledion yn ymwneud â methiannau cwmnïau.

## Taliadau Arbennig

| | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y taliadau arbennig | 21 | 14 |
| Cyfanswm gwerth y taliadau arbennig (£000oedd) | 1,352 | 925 |

| **Manylion taliadau arbennig dros £300,000:** | | |
|---|---|---|
| Taliad ex gratia | Hardshell UK Limited | £325,000 |
| Taliad ex gratia | Surviva Limited | £330,000 |

Darparwyd y ddau daliad ex gratia i liniaru caledi a brofwyd mewn ymateb i argyfwng PPE Covid.

Ceir rhagor o fanylion am y colledion unigol a'r taliadau arbennig a ddatgelwyd yn y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol ar dudalennau 151 i 153.

## Rhoddion a wnaed

| | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y rhoddion a wnaed | 3 | 0 |
| Cyfanswm gwerth y rhoddion (£000) | 5,100 | 0 |

| **Manylion y rhoddion dros £300,000:** | | |
|---|---|---|
| Rhodd | Apêl Wcráin DEC | £4,000,000 |
| Rhodd | Y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru | £1,000,000 |

Darparodd Llywodraeth Cymru roddion at ddibenion cyfrannu cymorth ar gyfer yr ymateb dyngarol i'r argyfwng yn Wcráin.

Ceir rhagor o fanylion am y rhoddion unigol a ddatgelwyd yn y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol ar dudalen 154.

# Adroddiad Staff a Thaliadau Cydnabyddiaeth 2021-22

## Polisi Taliadau Cydnabyddiaeth

Mae'r paramedrau cyffredinol ar gyfer taliadau cydnabyddiaeth uwch-weision sifil[57] yn cael eu pennu ar lefel Llywodraeth y DU yn dilyn cyngor annibynnol gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion[58], gyda rhywfaint o hyblygrwydd ar gael i sefydliadau o fewn y rhain. Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb dirprwyedig dros dâl cydnabyddiaeth staff nad ydynt yn rhan o'r Uwch Wasanaeth Sifil.

Mae tâl a phensiynau'r Gweinidogion yn cael eu pennu gan Benderfyniad Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ar Dâl a Lwfansau'r Aelodau.[59]

## Contractau Gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i benodiadau gael eu gwneud ar sail teilyngdod a chystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn nodi o dan ba amgylchiadau y gellid gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir hynny isod, mae'r swyddogion sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn yn dal swyddi sy'n benagored. Byddai penderfyniad i derfynu swydd, am resymau ac eithrio camymddygiad, yn golygu bod yr unigolyn yn cael iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil yn www.civilservicecommission.org.uk

# Datganiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar ei Pholisi Tâl

Yn unol ag egwyddorion 'Tryloywder Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-reolwyr yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru' a gyhoeddwyd ar 7 Rhagfyr 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi datganiad ar ei pholisi tâl ar ei gwefan.

Mae'r Datganiad Polisi Tâl yn ymdrin â diffiniad Llywodraeth Cymru o "swyddi uwch" a "gweithwyr sy'n derbyn y tâl isaf" a'r berthynas rhwng taliadau cydnabyddiaeth swyddi uwch a thaliadau cydnabyddiaeth y gweithwyr sy'n derbyn y tâl isaf.

57 Senior Civil Service Pay Award 2021-22 – practitioner guidance – GOV.UK (www.gov.uk)
58 CP 494 – Forty-Third Annual Report on Senior Salaries 2021 – Report No. 93 (publishing.service.gov.uk)
59 Penderfyniad – Bwrdd Taliadau www.bwrddtaliadau.cymru/penderfyniad/

Mae hefyd yn trafod:

a) tystiolaeth amlwg o fforddiadwyedd a gwerth am arian

b) nifer y swyddi uwch o fewn y corff sydd â phecyn tâl o fwy na £100,000 mewn bandiau o £5,000

c) y ffordd o reoli talent fewnol

d) y ffordd o ymdrin â thâl ar sail perfformiad

e) y ffordd o roi cymorth i staff sydd ar gyflog llai

f) y pwyntiau tâl uchaf ac isaf

g) y polisïau ar daliadau diswyddo sy'n weithredol, a sut ac o dan ba amgylchiadau y gellir eu hamrywio.

## Taliadau cydnabyddiaeth (gan gynnwys cyflog) a hawliau pensiwn

Mae'r adran hon yn destun archwiliad ac yn cael ei chynnwys ym marn archwilio'r Archwilydd Cyffredinol.

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion am daliadau cydnabyddiaeth a buddiannau pensiwn y Gweinidogion a'r uwch-reolwyr.

## Cydnabyddiaeth ariannol

Nodir taliadau cydnabyddiaeth y Prif Weinidog a'i dîm yn y Cabinet a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn, isod. Adlewyrchir y costau hyn yng nghyfrifon Comisiwn y Senedd ac nid Llywodraeth Cymru. Mae cyflogau'r Gweinidogion yn cynnwys eu cyflogau fel Aelodau'r Senedd o £67,649 (2020-21: £67,649). Y cyflog sy'n daladwy i'r Gweinidogion yw'r cyflog sy'n daladwy o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y'i pennir gan Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd.

Ni chynhwysir buddion mewn nwyddau mewn perthynas â chyfrifoldebau Aelodau'r Senedd yn y tabl isod.

## Cyfanswm ffigur taliadau cydnabyddiaeth – y Gweinidogion

Cynhaliwyd etholiad Senedd 2021 ar 6 Mai 2021. Bu'r Cabinet a'r Gweinidogion yn gwasanaethu tan 12 Mai 2021 a phenodwyd y Cabinet a'r Gweinidogion newydd ar ôl yr etholiad o 13 Mai 2021 ymlaen.

| Gweinidogion | Cyflog 2021-22 £ | Cyflog 2020-21 £ | Buddion mewn nwyddau 2021-22 £ | Buddion mewn nwyddau 2020-21 £ | Buddion pensiwn 2021-22 (i'r £1000 agosaf)[1] £ | Buddion pensiwn 2020-21 (i'r £1000 agosaf)[1] £ | Cyfanswm 2021-22 (i'r £1000 agosaf) £ | Cyfanswm 2020-21 (i'r £1000 agosaf) £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mark Drakeford** Prif Weinidog hyd at 12 Mai 2021 wedyn Prif Weinidog o 13 Mai 2021 | 147,983 | 147,983 | - | - | 33,000 | 57,000 | 181,000 | 205,000 |
| **Rebecca Evans** Un o Weinidogion Cymru hyd at 12 Mai 2021 wedyn un o Weinidogion Cymru o 13 Mai 2021 | 105,701 | 105,701 | - | - | 27,000 | 30,000 | 133,000 | 136,000 |
| **Vaughan Gething** Un o Weinidogion Cymru hyd at 12 Mai 2021 wedyn un o Weinidogion Cymru o 13 Mai 2021 | 105,701 | 105,701 | - | - | 22,000 | 30,000 | 128,000 | 136,000 |
| **Lesley Griffiths** Un o Weinidogion Cymru hyd at 12 Mai 2021 wedyn un o Weinidogion Cymru o 13 Mai 2021 | 105,701 | 105,701 | - | - | 15,000 | 29,000 | 121,000 | 135,000 |
| **Jane Hutt** Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip hyd at 12 Mai 2021 wedyn un o Weinidogion Cymru o 13 Mai 2021 | 103,868 | 89,846 | - | - | 30,000 | 32,000 | 134,000 | 122,000 |
| **Eluned Morgan** Un o Weinidogion Cymru hyd at 12 Mai 2021 wedyn un o Weinidogion Cymru o 13 Mai 2021 | 105,701 | 105,701 | - | - | 33,000 | 31,000 | 139,000 | 137,000 |
| **Julie James** Un o Weinidogion Cymru hyd at 12 Mai 2021 wedyn un o Weinidogion Cymru o 13 Mai 2021 | 105,701 | 105,701 | - | - | 27,000 | 30,000 | 133,000 | 136,000 |
| **Jeremy Miles** Y Cwnsler Cyffredinol ac un o Weinidogion Cymru hyd at 12 Mai 2021 wedyn un o Weinidogion Cymru o 13 Mai 2021 | 105,701 | 105,701 | - | - | 32,000 | 31,000 | 138,000 | 137,000 |

| Gweinidogion | Cyflog 2021-22 £ | Cyflog 2020-21 £ | Buddion mewn nwyddau 2021-22 £ | Buddion mewn nwyddau 2020-21 £ | Buddion pensiwn 2021-22 (i'r £1000 agosaf)[1] £ | Buddion pensiwn 2020-21 (i'r £1000 agosaf)[1] £ | Cyfanswm 2021-22 (i'r £1000 agosaf) £ | Cyfanswm 2020-21 (i'r £1000 agosaf) £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mick Antoniw** Y Cwnsler Cyffredinol ac un o Weinidogion Cymru o 13 Mai 2021 | 93,483 | - | - | - | 12,000 | - | 105,000 | - |
| **Hannah Blythyn** Dirprwy Weinidog hyd at 12 Mai 2021 wedyn Dirprwy Weinidog o 13 Mai 2021 | 89,846 | 89,846 | - | - | 28,000 | 27,000 | 118,000 | 117,000 |
| **Julie Morgan** Dirprwy Weinidog hyd at 12 Mai 2021 wedyn Dirprwy Weinidog o 13 Mai 2021 | 89,846 | 89,846 | - | - | - | - | 90,000 | 90,000 |
| **Lee Waters** Dirprwy Weinidog hyd at 12 Mai 2021 wedyn Dirprwy Weinidog o 13 Mai 2021 | 89,846 | 89,846 | - | - | 28,000 | 27,000 | 118,000 | 117,000 |
| **Dawn Bowden** Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip o 13 Mai 2021 | 79,461 | - | - | - | 25,000 | - | 104,000 | - |
| **Lynne Neagle** Dirprwy Weinidog o 13 Mai 2021 | 79,461 | - | - | - | 10,000 | - | 89,000 | - |
| **Ken Skates** Un o Weinidogion Cymru hyd at 12 Mai 2021 | 12,502 | 105,701 | - | - | 3,000 | 31,000 | 16,000 | 137,000 |
| **Kirsty Williams** Un o Weinidogion Cymru hyd at 7 Mai 2021 | 9,149 | 105,701 | - | - | 1,000 | 29,000 | 10,000 | 135,000 |
| **Dafydd Elis-Thomas**[2] Dirprwy Weinidog hyd at 7 Mai 2021 | 7,529 | 89,846 | - | - | 28,000 | 4,000 | 36,000 | 94,000 |

1 Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn.

2 Adeg ymddeol, yn dilyn cyngor cyfreithiol, rhoddwyd codiad i'r aelod i'w fuddion mewn perthynas â phrawf gwrth-ffrancio Isafswm Pensiwn Gwarantedig (GMP) a gynhaliwyd gan y Cynllun oherwydd bod yr Aelod yn gadael gwasanaeth gweithredol ac yn ymddeol ar ôl oedran GMP. Mae'r codiad yn cyfrif am y cynnydd yng ngwerth unigol buddion pensiwn yn 2021-22 o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, gan ei fod yn golygu bod y pensiwn yn uwch ar ddiwedd y cyfnod datgelu nag y byddai wedi bod pe bai'n seiliedig ar swm pensiwn deiliad swydd ychwanegol yr oedd wedi'i gronni hyd at y dyddiad ymadael.

## Manylion pensiwn – y Gweinidogion

| Gweinidogion | Pensiwn cronedig ar 31/03/22 £000 | Pensiwn cronedig ar 31/03/21 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn 65 oed ar 31/03/22 £000 | CETV ar 31/03/22 £000 | CETV ar 31/03/21 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV ar 31/03/22 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mark Drakeford** Prif Weinidog hyd at 12 Mai 2021 wedyn Prif Weinidog o 13 Mai 2021 | 30-35 | 25-30 | 0-2.5 | 591 | 547 | 28 |
| **Rebecca Evans** Un o Weinidogion Cymru hyd at 12 Mai 2021 wedyn un o Weinidogion Cymru o 13 Mai 2021 | 20-25 | 20-25 | 0-2.5 | 281 | 247 | 10 |
| **Vaughan Gething** Un o Weinidogion Cymru hyd at 12 Mai 2021 wedyn un o Weinidogion Cymru o 13 Mai 2021 | 30-35 | 25-30 | 0-2.5 | 426 | 386 | 8 |
| **Lesley Griffiths** Un o Weinidogion Cymru hyd at 12 Mai 2021 wedyn un o Weinidogion Cymru o 13 Mai 2021 | 40-45 | 40-45 | 0-2.5 | 789 | 727 | 11 |
| **Jane Hutt** Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip hyd at 12 Mai 2021 wedyn un o Weinidogion Cymru o 13 Mai 2021 | 70-75 | 65-70 | 0-2.5 | 1156 | 1134 | 21 |
| **Eluned Morgan** Un o Weinidogion Cymru hyd at 12 Mai 2021 wedyn un o Weinidogion Cymru o 13 Mai 2021 | 10-15 | 5-10 | 0-2.5 | 165 | 127 | 20 |
| **Julie James** Un o Weinidogion Cymru hyd at 12 Mai 2021 wedyn un o Weinidogion Cymru o 13 Mai 2021 | 20-25 | 20-25 | 0-2.5 | 439 | 383 | 24 |
| **Jeremy Miles** Y Cwnsler Cyffredinol ac un o Weinidogion Cymru hyd at 12 Mai 2021 wedyn un o Weinidogion Cymru o 13 Mai 2021 | 10-15 | 5-10 | 0-2.5 | 152 | 118 | 17 |
| **Mick Antoniw** Y Cwnsler Cyffredinol ac un o Weinidogion Cymru o 13 Mai 2021 | 35-40 | 0 | 0-2.5 | 666 | 648 | 9 |
| **Hannah Blythyn** Dirprwy Weinidog hyd at 12 Mai 2021 wedyn Dirprwy Weinidog o 13 Mai 2021 | 10-15 | 5-10 | 0-2.5 | 107 | 84 | 9 |

| Gweinidogion | Pensiwn cronedig ar 31/03/22 £000 | Pensiwn cronedig ar 31/03/21 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn 65 oed ar 31/03/22 £000 | CETV ar 31/03/22 £000 | CETV ar 31/03/21 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV ar 31/03/22 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Julie Morgan**[1] Dirprwy Weinidog hyd at 12 Mai 2021 wedyn Dirprwy Weinidog o 13 Mai 2021 | 10-15 | 10-15 | Amh | 188 | 197 | 0 |
| **Lee Waters** Dirprwy Weinidog hyd at 12 Mai 2021 wedyn Dirprwy Weinidog o 13 Mai 2021 | 5-10 | 5-10 | 0-2.5 | 116 | 90 | 12 |
| **Dawn Bowden** Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip o 13 Mai 2021 | 5-10 | 0 | 0-2.5 | 160 | 125 | 21 |
| **Lynne Neagle** Dirprwy Weinidog o 13 Mai 2021 | 35-40 | 0 | 0-2.5 | 606 | 566 | 2 |
| **Ken Skates** Un o Weinidogion Cymru hyd at 12 Mai 2021 | 15-20 | 15-20 | 0-2.5 | 232 | 224 | 1 |
| **Kirsty Williams** Un o Weinidogion Cymru hyd at 7 Mai 2021 | 40-45 | 40-45 | 0-2.5 | 617 | 615 | 0 |
| **Dafydd Elis-Thomas** Dirprwy Weinidog hyd at 7 Mai 2021 | 60-65 | 60-65 | 0-2.5 | 941 | 918 | 20 |

Gall rhai aelodau wynebu taliadau treth Lwfans Blynyddol o ganlyniad i gronni pensiwn yn ystod y cyfnod cyfrifyddu.

[1] Nid yw Julie Morgan bellach yn cyfrannu at y Cynllun Pensiwn ac felly ni wnaeth gronni unrhyw bensiwn ychwanegol eleni.

## Manylion pensiwn – y Gweinidogion (parhad)

Mae'r Senedd yn darparu cynllun â buddion diffiniedig, a lywodraethir gan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae adran 20(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac Atodlen 11 iddi, yn sicrhau dilyniant yn y Cynllun. Nid yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi effeithio ar statws cyfreithiol y Cynllun.

Mae'r Cynllun yn darparu buddion i Aelodau'r Senedd a Deiliaid Swyddi. Mae pob Aelod o'r Senedd yn aelod o'r Cynllun o'r dyddiad y mae'n dechrau yn y Senedd oni bai ei fod yn dewis yn benodol peidio â bod yn rhan ohono. Nid yw'r Gweinidogion yn derbyn cyfandaliad awtomatig. Mae ganddynt yr opsiwn i drosi rhan o'u pensiwn yn gyfandaliad yn gyfnewid am lai o bensiwn.

Cyflwynwyd Cynllun Pensiwn Enillion Cyfartalog Gyrfa o 6 Mai 2016. Roedd aelodau a oedd yn 55 oed neu'n hŷn ar 1 Ebrill 2012 yn destun 'gwarchodaeth drosiannol', ac mae eu buddion yn parhau i gael eu cyfrifo ar sail eu cyflog terfynol am bum mlynedd yn ychwanegol, hyd at 5 Mai 2021.

Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl fod y 'warchodaeth drosiannol' a gynigir i rai aelodau o gynlluniau'r barnwyr a diffoddwyr tân, wedi arwain at wahaniaethu anghyfreithlon. Ar 15 Gorffennaf 2019, gwnaeth Prif Ysgrifennydd y Trysorlys ddatganiad gweinidogol ysgrifenedig yn cadarnhau, gan fod 'gwarchodaeth drosiannol' yn cael ei chynnig i aelodau o holl brif gynlluniau pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus, fod angen dileu'r gwahaniaeth mewn triniaeth o'r holl gynlluniau ar gyfer aelodau â gwasanaeth perthnasol.

Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd sy'n gyfrifol am reolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau. Ar ôl ystyried barn y Bwrdd Pensiynau, cytunodd y Bwrdd y dylid mabwysiadu rhwymedi i ddileu'r gwahaniaethu yn rheolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau o ganlyniad i'r darpariaethau gwarchodaeth drosiannol y maent yn eu cynnwys ar hyn o bryd. Ymgynghorodd y Bwrdd â'r Aelodau yr effeithir arnynt a Chomisiwn y Senedd ar rwymedi arfaethedig. Caiff Aelodau yr effeithir arnynt gynnig dewis ar unwaith i aros yn y Cynllun CARE neu i ddychwelyd i'r adran Cyflog Terfynol ar gyfer cyfnod y rhwymedi 6 Mai 2016 – 6 Mai 2021. O ddechrau'r Chweched Senedd mae pob aelod yn y Cynllun Enillion Cyfartalog Gyrfa.

Ar hyn o bryd, mae'r Senedd yn cyfrannu 19.9% o gyflogau cyfanredol yr Aelodau. Mae'r Aelodau yn talu cyfraniadau ar gyfradd o 10.5%.

Mae'r Oedran Ymddeol Arferol yn gysylltiedig ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65, p'un bynnag sydd uchaf). Bydd unrhyw bensiwn Cyflog Terfynol a gronnir cyn 6 Mai 2021 yn parhau i fod yn daladwy ar yr Oedran Ymddeol Arferol sef 65.

## Cofrestr Buddiannau

Cyhoeddir Cofrestr Buddiannau Gweinidogion Cymru sy'n datgelu buddiannau perthnasol ar wefan Llywodraeth Cymru. Rhestr o Fuddiannau Preifat Perthnasol y Gweinidogion [HTML] I LLYW.CYMRU

Mae'r datganiad o fuddiannau, nodi gwrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol a rheoli unrhyw wrthdaro o'r fath yn cael ei wneud yn unol â Chod y Gweinidogion. www.llyw.cymru/cod-gweinidogion

## Cyfanswm ffigur taliadau cydnabyddiaeth

Mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) yn ei gwneud yn ofynnol i bob un o Adrannau'r Llywodraeth ganolog gynnwys Cyfanswm Taliadau Cydnabyddiaeth ynghyd â ffigur cymharol ar gyfer blynyddoedd blaenorol o fewn yr adroddiad ar daliadau cydnabyddiaeth. Mae cyfanswm y taliadau cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, taliadau bonws a buddion mewn nwyddau blaenorol yn ogystal â ffigur buddion pensiwn. Mae'r buddion pensiwn wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio'r fethodoleg a ddefnyddir i gyfrifo gwerthoedd pensiwn at ddibenion treth. O ganlyniad i hyn, gall ffactorau eraill fel unigolyn yn penderfynu gwneud cyfraniadau ychwanegol neu ffactorau prisio sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn cyfan ddylanwadu ar y ffigurau, ac felly nid ydynt bob tro yn adlewyrchu'n gywir symiau gwirioneddol y pensiwn a dalwyd neu a enillwyd gan unigolyn mewn blwyddyn. Er hynny, mae'r fethodoleg hon yn gymwys i bob un o adrannau'r llywodraeth gan gynnwys cyrff y GIG.

**Cyfanswm ffigur taliadau cydnabyddiaeth – uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru**

| Uwch-swyddogion* | Cyflog 2021-22 £000 | Cyflog 2020-21 £000 | Buddion pensiwn 2021-22 £000 | Buddion pensiwn 2020-21 £000 | Cyfanswm 2021-22 £000 | Cyfanswm 2020-21 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Shan Morgan**[1] Yr Ysgrifennydd Parhaol hyd at 31 Hydref 2021 | 160-165 | 135-140 | - | - | 160 -165 | 135-140 |
| **Andrew Goodall**[2] Yr Ysgrifennydd Parhaol o 1 Tachwedd 2021 | 215-220 | 205-210 | - | - | 215-220 | 205-210 |
| **Judith Paget**[3] Cyfarwyddwr Cyffredinol | 85-90 | - | 35-40 | - | 125-130 | - |
| **Tracey Burke** Cyfarwyddwr Cyffredinol | 125-130 | 125-130 | 45-50 | 45-50 | 170-175 | 170-175 |
| **Des Clifford** Cyfarwyddwr Cyffredinol | 125-130 | 125-130 | 5-10 | 40-45 | 130-135 | 165-170 |
| **Andrew Slade** Cyfarwyddwr Cyffredinol | 125-130 | 125-130 | 20-25 | 60-65 | 150-155 | 185-190 |
| **Reg Kilpatrick**[4] Cyfarwyddwr Cyffredinol | 120-125 | 60-65 | 100-105 | 120-125 | 220-225 | 180-185 |
| **David Richards**[5] Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg | 75-80 | 105-110 | (20)-(25) | 45-50 | 50-55 | 155-160 |
| **Helen Lentle**[6] Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol | 100-105 | 95-100 | 40-45 | 65-70 | 145-150 | 160-165 |
| **Natalie Pearson** Pennaeth Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu | 85-90 | 80-85 | 70-75 | 55-60 | 160-165 | 135-140 |
| **Peter Kennedy** Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | 100-105 | 100-105 | 15-20 | 50-55 | 115-120 | 150-155 |
| **Gawain Evans** Cyfarwyddwr Cyllid | 105-110 | 105-110 | 10-15 | 55-60 | 120-125 | 165-170 |
| **Andrew Jeffreys** Cyfarwyddwr y Trysorlys | 100-105 | 100-105 | 25-30 | 45-50 | 125-130 | 150-155 |
| **Glyn Jones**[7] Prif Swyddog Digidol | 95-100 | 55-60 | 40-45 | 60-65 | 135-140 | 120-125 |
| **Ellen Donovan** Cyfarwyddwr Anweithredol | 10-15 | 10-15 | - | - | 10-15 | 10-15 |

**Cyfanswm ffigur taliadau cydnabyddiaeth – uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru**

| Uwch-swyddogion* | Cyflog 2021-22 £000 | Cyflog 2020-21 £000 | Buddion pensiwn 2021-22 £000 | Buddion pensiwn 2020-21 £000 | Cyfanswm 2021-22 £000 | Cyfanswm 2020-21 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Jeff Farrar[8] Cyfarwyddwr Anweithredol | 5-10 | 10-15 | - | - | 5-10 | 10-15 |
| Gareth Lynn Cyfarwyddwr Anweithredol | 10-15 | 10-15 | - | - | 10-15 | 10-15 |
| Meena Upadhyaya Cyfarwyddwr Anweithredol | 10-15 | 10-15 | - | - | 10-15 | 10-15 |

[1] Ymddiswyddodd Shan Morgan fel Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru ar 31 Hydref 2021. Dewisodd Shan Morgan ddod â'i chyfraniadau pensiwn i ben ac i elwa ar ei phensiwn ar 31 Mawrth 2018. Yn unol â rheolau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, gostyngwyd ei chyflog o 1 Ebrill 2018 ymlaen. Ar ôl ymadael cafodd daliad o £80,519 yn ymwneud â thaliad o £31,843 yn gyfnewid am ddod â'i dyddiad ymadael ymlaen, gwyliau blynyddol heb eu cymryd a thaliad contractiol ychwanegol o £39,123 (y cafodd £30,289 ei gronni ar 31 Mawrth 2021 fel rhan o'r croniad buddion cyflogeion cyffredinol) mewn perthynas â diwrnodau ymddeoliad rhannol y bu Shan yn gweithio ar eu cyfer, heb dâl. Fel y datgelwyd mewn cyfrifon blaenorol, roedd ei chyflog wedi'i leihau ers 1 Ebrill 2018 pan ddewisodd ddod â'i chyfraniadau pensiwn i ben ac i elwa ar ei phensiwn. Fel arfer, os bydd unigolion yn dewis dod â'u cyfraniadau pensiwn i ben ac i elwa ar eu pensiwn, caiff oriau eu lleihau er mwyn cyd-fynd â'r gostyngiad yn eu cyflog. Yn yr achos hwn, roedd gofynion eithriadol y pandemig Covid yn ei gwneud yn ofynnol iddi weithio'n amser llawn ac ar benwythnosau heb unrhyw gyfle i fanteisio ar ddiwrnodau ymddeoliad rhannol. Yr arfer a ddisgwylid yn yr amgylchiadau hyn fyddai i unigolion adfer y diwrnodau a weithiwyd drwy gymryd gwyliau ychwanegol unwaith y bydd y pwysau eithriadol wedi dod i ben. Yn achos yr Ysgrifennydd Parhaol cafodd ei dyddiad ymadael y cytunwyd arno ei ddwyn ymlaen; o'r herwydd, nid oedd cyfle i'r diwrnodau hynny gael eu cymryd. Adroddir bod y taliad a roddwyd yn gyfnewid am ddod â'i dyddiad ymadael ymlaen yn daliad diswyddo arbennig yn unol â pholisi Swyddfa'r Cabinet ar dâl cydnabyddiaeth Ysgrifenyddion Parhaol.

[2] Andrew Goodall oedd Cyfarwyddwr Cyffredinol, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru am y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Hydref 2021, ac wedyn yn Ysgrifennydd Parhaol rhwng 1 Tachwedd 2021 a 31 Mawrth 2022. Mae'r band cyflog a ddatgelwyd yn adlewyrchu cyfanswm y taliadau a dderbyniwyd ar gyfer y ddwy rôl hynny yn y flwyddyn. Ei gyflog cyfwerth ag amser llawn cymaradwy fel Ysgrifennydd Parhaol yw £215,000 i £220,000. Mae Andrew Goodall wedi'i secondio o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac mae wedi dewis peidio â chael ei gynnwys o dan drefniadau Pensiwn y GIG.

[3] Penodwyd Judith Paget yn Gyfarwyddwr Cyffredinol, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru o 1 Tachwedd 2021. Ei chyflog cyfwerth ag amser llawn cymaradwy yw £215,000 i £220,000. Mae hi ar secondiad o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac yn rhan o gynllun pensiwn y GIG.

[4] Penodwyd Reg Kilpatrick yn Gyfarwyddwr Cyffredinol dros dro, Cydgysylltu Argyfwng Covid o 28 Medi 2020. Ei gyflog cyfwerth ag amser llawn cymaradwy ar gyfer 2020-21 oedd £120,000-£125,000 y flwyddyn.

[5] Gwnaeth David Richards gais am ymddeoliad rhannol o 1 Medi 2021 ac fe gymeradwywyd ei gais. O'r dyddiad hwnnw mae ei gyflog a'i oriau gwaith wedi eu gostwng. Ei gyflog cyfwerth ag amser llawn cymaradwy yw £105,000 i £110,000.

[6] Oherwydd diffyg cydweddu rhwng diwygiad i gyflog a'r data datgeliadau pensiwn, mae'r datgeliadau pensiwn yn seiliedig ar gyflog a dalwyd yn y flwyddyn yn hytrach na chyflog sy'n daladwy am flwyddyn.

[7] Daeth swydd Glyn Jones fel Prif Swyddog Digidol yn rhan o'r Pwyllgor Gweithredol o 13 Awst 2020. Ei gyflog cyfwerth ag amser llawn cymaradwy ar gyfer 2020-21 oedd £90,000 - £95,000. Oherwydd oedi wrth brosesu cynyddrannau cyflog, mae datgeliadau pensiwn wedi'u seilio ar gyflog a dalwyd yn y flwyddyn yn hytrach na chyflog taladwy am y flwyddyn.

[8] Ymddiswyddodd Jeff Farrar fel Cyfarwyddwr Anweithredol ar 15 Awst 2021.

## Cofrestr Buddiannau

Cyhoeddir Cofrestr Buddiannau Llywodraeth Cymru sy'n datgelu buddiannau perthnasol uwch-swyddogion ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae'r datganiad o fuddiannau, nodi gwrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol a rheoli unrhyw wrthdaro o'r fath yn cael ei wneud yn unol â Chod y Gwasanaeth Sifil, Polisi Datganiad Buddiannau Llywodraeth Cymru, telerau contractiol penodiadau Cyfarwyddwyr Anweithredol a Chylch Gorchwyl y Bwrdd. Ceir rhagor o wybodaeth am reoli buddiannau yn y Datganiad Llywodraethiant ar dudalen 150.

**Manylion pensiwn – uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru**

| Uwch-swyddogion | Pensiwn cronedig adeg oedran pensiwn fel yr oedd ar 31/3/22 a chyfandaliad cysylltiedig £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig adeg oedran pensiwn £000 | CETV ar 31/3/22 £000 | CETV ar 31/3/21 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Judith Paget**[1] Cyfarwyddwr Cyffredinol | 110-115 ynghyd â chyfandaliad o 335-340 | 2.5-5 ynghyd â chyfandaliad o 7.5-10 | 0 | 2,594 | Amh. |
| **Tracey Burke** Cyfarwyddwr Cyffredinol | 40-45 | 2.5-5 | 617 | 558 | 33 |
| **Des Clifford** Cyfarwyddwr Cyffredinol | 40-45 ynghyd â chyfandaliad o 115-120 | 0-2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0 | 950 | 889 | 2 |
| **Andrew Slade** Cyfarwyddwr Cyffredinol | 50-55 ynghyd â chyfandaliad o 100-105 | 0-2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0 | 909 | 853 | 5 |
| **Reg Kilpatrick**[2] Cyfarwyddwr Cyffredinol | 50-55 ynghyd â chyfandaliad o 140-145 | 5-7.5 ynghyd â chyfandaliad o 5-7.5 | 1,223 | 1,066 | 89 |
| **David Richards** Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg | 55-60 ynghyd â chyfandaliad o 175-180 | 0 ynghyd â chyfandaliad o 0 | 1,194 | 1,213 | (28) |
| **Helen Lentle**[3] Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol | 45-50 ynghyd â chyfandaliad o 95-100 | 2.5-5 ynghyd â chyfandaliad o 0-2.5 | 893 | 815 | 29 |
| **Natalie Pearson** Pennaeth Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu | 35-40 ynghyd â chyfandaliad o 95-100 | 2.5-5 ynghyd â chyfandaliad o 2.5-5 | 807 | 703 | 59 |
| **Peter Kennedy** Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | 35-40 ynghyd â chyfandaliad o 90-95 | 0-2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0 | 836 | 783 | 4 |
| **Gawain Evans** Cyfarwyddwr Cyllid | 50-55 ynghyd â chyfandaliad o 115-120 | 0-2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0 | 1,059 | 1,000 | (1) |

**Manylion pensiwn – uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru**

| Uwch-swyddogion | Pensiwn cronedig adeg oedran pensiwn fel yr oedd ar 31/3/22 a chyfandaliad cysylltiedig £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig adeg oedran pensiwn £000 | CETV ar 31/3/22 £000 | CETV ar 31/3/21 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Andrew Jeffreys** Cyfarwyddwr y Trysorlys | 35-40 ynghyd â chyfandaliad o 55-60 | 0-2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0 | 584 | 542 | 10 |
| **Glyn Jones**[4] Prif Swyddog Digidol | 30-35 ynghyd â chyfandaliad o 50-55 | 0-2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0-2.5 | 456 | 410 | 20 |

Mae datgeliad penodol sy'n ofynnol gan Hysbysiad Pensiwn y Cyflogwr 647 wedi'i hepgor yn unol ag Erthygl 21 o GDPR y DU.

[1] Ni ddarperir unrhyw ffigur CETV ar gyfer Judith Paget ar 31 Mawrth 2022 gan ei bod wedi mynd heibio i oedran ymddeol.

[2] Mae'r CETV ar 31 Mawrth 2021 ar gyfer Reg Kilpatrick wedi'i ailgyfrifo oherwydd diweddariad ôl-weithredol i ddata cyflog.

[3] Mae'r CETV ar 31 Mawrth 2021 ar gyfer Helen Lentle wedi'i ailgyfrifo oherwydd diweddariad ôl-weithredol i ddata cyflog.

[4] Oherwydd oedi wrth brosesu cynyddrannau cyflog, mae datgeliadau pensiwn wedi'u seilio ar gyflog a dalwyd yn y flwyddyn yn hytrach na chyflog taladwy am y flwyddyn.

## Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros; goramser; hawliau neilltuedig ar gyfer pwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw; lwfansau swyddfa breifat ac unrhyw lwfansau eraill i'r graddau eu bod yn destun treth y DU.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau a wneir gan Lywodraeth Cymru ac eithrio'r Gweinidogion fel y nodir uchod.

Mae gan Uwch-weision Sifil o fewn Llywodraeth Cymru hawl gontractiol i gael eu hystyried am daliad amrywiol ar sail perfformiad. Mae unrhyw daliadau a wneir yn cael eu talu ar ddiwedd mis Gorffennaf bob blwyddyn, ond ni wnaed unrhyw daliadau. Rôl Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yr Uwch Wasanaeth Sifil yw gweithredu polisi tâl uwch-weision y DU a chymeradwyo unrhyw ddyfarniadau, asesu'r cyfraniadau perthnasol a pherfformiad Uwch-weision Sifil yn ystod y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yn cynnwys yr Ysgrifennydd Parhaol, pum Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol.

## Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol y buddion mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac y mae Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi yn eu trin fel enillion trethadwy, ac yn cael ei nodi i'r £100 agosaf. Y buddion mewn nwyddau a aseswyd ar gyfer y flwyddyn 2021-22 oedd £0.

## Lluosrifau tâl

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng taliadau cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf yn eu sefydliad a thaliad cydnabyddiaeth chwartel isaf, canolrifol a chwartel uchaf gweithlu'r sefydliad. Mae cynnwys y chwartel isaf a'r chwartel uchaf yn ofynion adrodd newydd ar gyfer 2021-22.

Tâl cydnabyddiaeth wedi'i fandio y cyfarwyddwr a oedd yn cael y tâl uchaf yn Llywodraeth Cymru yn y flwyddyn ariannol 2021-22 oedd £215,000-220,000 (2020-21: £205,000 - £210,000). Roedd hyn yn 5.7 gwaith (2020-21: 5.5) tâl cydnabyddiaeth canolrifol y gweithlu, sef £38,160 (2020-21: £37,410). Ar sail tâl cydnabyddiaeth wedi'i fandio yr Ysgrifennydd Parhaol y gymhareb yw 5.7 (2021-22: 3.7). Gan i dâl cydnabyddiaeth y cyn Ysgrifennydd Parhaol gael ei leihau o 1 Ebrill 2018 pan ddewisodd ddod â'i chyfraniadau pensiwn i ben ac i elwa ar ei phensiwn, mae'r gymhariaeth o un flwyddyn i'r llall yn achos y berthynas â'r cyflog canolrif felly yn cael ei hystumio am yr effaith hon ac am y newid i'r Ysgrifennydd Parhaol o 1 Tachwedd 2021 ymlaen. Yn 2021-22 y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf hefyd yw'r Ysgrifennydd Parhaol. Nid oes angen datgeliadau ychwanegol felly ar gyfer yr Ysgrifennydd Parhaol yn achos y datgeliadau canlynol.

Dangosir y berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf a'r chwarteli isaf, canolrifol ac uchaf isod:

| Blwyddyn | | 25ain Canradd | Canolrif | 75ain Canradd |
|---|---|---|---|---|
| 2021-22 | Cymhareb Tâl (:1) | 7.4 | 5.7 | 4.6 |
| | Tâl cydnabyddiaeth y chwartel (£) | 29,430 | 38,160 | 47,470 |
| 2020-21 | Cymhareb Tâl (:1) | 7.2 | 5.5 | 4.4 |
| | Tâl cydnabyddiaeth y chwartel (£) | 28,850 | 37,410 | 47,000 |

Yn 2021-22 a 2020-21 ni chafodd unrhyw gyflogeion dâl cydnabyddiaeth yn uwch na'r cyfarwyddwr y talwyd y swm uchaf iddo.

Mae'n ofynnol bellach i gyrff sy'n adrodd nodi canran y newid i'r tâl o'r flwyddyn ariannol flaenorol ar gyfer y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf; a'r newid canrannol cyfartalog ers y flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas â chyflogeion yr endid yn ei grynswth.

| Blwyddyn | Newid canrannol tâl – y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf | Newid canrannol cyfartalog tâl – cyflogeion yn eu crynswth |
|---|---|---|
| 2021-22 | 4.80% | 2.30% |

Mae'r cyfrifiad gofynnol ar gyfer canran y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf, yn cymharu pwynt canol y band tâl cydnabyddiaeth 2021-22 £215,000 – £220,000 (2020-21: £205,000 – £210,000), yn hytrach na'r newid canrannol yn y cyflog gwirioneddol. Gall defnyddio pwynt canol y band ar gyfer y cyfrifiad ystumio'r cyfrifiad o'i gymharu â'r dyfarniad gwirioneddol a dderbyniwyd, os y newid gwirioneddol yw symud unigolyn o ben uchaf band mewn un flwyddyn i ben isaf band yn y flwyddyn nesaf. Ar gyfer 2021-22 mae'r newid canrannol tâl sy'n deillio o'r cyfrifiad hwn yn uwch na'r dyfarniad cyflog a dderbyniwyd gan y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf.

Mae gwybodaeth bellach am Bolisi Tâl, gwneud penderfyniadau a thâl uwch i'w gweld yn Natganiad Polisi Tâl Llywodraeth Cymru[60].

Mae cyfanswm y taliadau cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tâl ar sail perfformiad sydd heb ei gyfuno a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerthoedd trosglwyddo pensiynau sy'n gyfwerth ag arian parod.

60 Datganiadau Polisi Tâl Llywodraeth Cymru | LLYW.CYMRU

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy’n Gyfwerth ag Arian Parod

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth wedi’i gyfalafu buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi’i asesu gan actwari. Y buddion a gaiff eu prisio yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol i briod sy’n daladwy o’r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo’r buddion a gronnwyd eisoes yn y cynllun blaenorol. Mae’r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â’r buddion a gronnwyd gan yr unigolion o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o’r cynllun pensiwn, nid dim ond y gwasanaeth mewn swydd uwch sy’n destun datgelu.

Mae’r ffigurau’n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae’r aelod wedi’u trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i’r aelodau oherwydd iddynt brynu buddion pensiwn ychwanegol ar eu cost eu hunain. Cyfrifir y CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008, ac nid yw’n rhoi ystyriaeth i unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i’r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawlir budd-daliadau pensiwn.

## Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu’r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw’n cynnwys cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau sy’n cael eu talu gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae’n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod.

# Niferoedd a Chostau Staff

Nifer cyfartalog y bobl gyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y cyfnod (gan gynnwys uwch-reolwyr a chynghorwyr arbennig) oedd:

| | Staff a gyflogir yn barhaol | Staff eraill | Cynghorwyr Arbennig | Cyfanswm 2021-22 | Cyfanswm 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **95,995** | **5,966** | **11** | **101,972** | **95,060** |
| O'r rhain: | | | | | |
| Llywodraeth Cymru | 5,185 | 386 | 11 | 5,582 | 5,421 |
| BILlau a chyrff y GIG* | 86,594 | 5,580 | 0 | 92,174 | 88,411 |
| Is-gwmnïau | 4,216 | 0 | 0 | 4,216* | 1,228 |
| O gyfanswm Llywodraeth Cymru: | | | | | |
| Cyrff rheoleiddio a chyflawni | 729 | - | - | - | - |
| Tribiwnlysoedd | 28 | - | - | - | - |

* Cafodd Transport for Wales Rail Limited a Gwasanaethau Arloesi Trafnidiaeth Cymru eu cyfuno yng Nghyfrif Llywodraeth Cymru fel rhan o Grŵp Trafnidiaeth Cymru o 1 Ebrill 2021. Ffigur cymharol y flwyddyn flaenorol ar 31 Mawrth 2021 gan gynnwys grŵp Trafnidiaeth Cymru oedd 3,558.

**Cyfansoddiad staff Llywodraeth Cymru yn ôl rhyw (heb ei archwilio)**

| | Gwryw | Benyw |
|---|---|---|
| Aelodau'r Bwrdd | 60% | 40% |
| Yr Uwch Wasanaeth Sifil | 55% | 45% |
| Yr holl Staff | 40% | 60% |

Mae ein Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer y Gweithlu, 2021-2026 yn pennu targedau uchelgeisiol inni ar gynyddu nifer y menywod sydd wedi'u cynrychioli yn yr Uwch Wasanaeth Sifil (SCS). Ein nod, mewn recriwtio allanol, yw y bydd mwy na 50% o benodiadau i'r SCS yn fenywod ac mewn recriwtio mewnol, y bydd mwy na 50% o ddyrchafiadau i'r SCS yn fenywod. Dyma'r cynnydd sydd wedi'i wneud ar y targedau hyn:

- Yn 2021, cynyddodd cyfran y menywod a benodwyd i'r SCS drwy recriwtio allanol i **56.3%**, gan ei gwneud yn uwch na'r targed o 50 y cant.
- Yn 2021, cynyddodd cyfran y menywod a ddyrchafwyd i'r SCS o 28.6% i **71.4%**, sy'n uwch na'r targed o 50%.

**Costau staff**

| Llywodraeth Cymru | Staff a gyflogir yn barhaol* £m | Staff Eraill £m | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2022 Cyfanswm £m | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2021 Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | 242 | 16 | **258** | 248 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 28 | - | **28** | 26 |
| Costau Pensiwn Eraill | 69 | - | **69** | 67 |
| **Cyfanswm** | **339** | **16** | **355** | **341** |
| Adenillon o secondiadau | (2) | - | **(2)** | (2) |
| Costau staff net | 337 | 16 | **353** | 339 |
| **Wedi'u cyfuno** | | | | |
| Cyflogau | 4,025 | 418 | **4,443** | 4,122 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 405 | 9 | **414** | 368 |
| Costau Pensiwn Eraill | 710 | 9 | **719** | 669 |
| **Cyfanswm** | **5,140** | **436** | **5,576** | **5,159** |
| Adenillon o secondiadau | (1) | - | **(1)** | (2) |
| Costau staff net | 5,139 | 436 | **5,575** | 5,157 |

* Er ei fod wedi'i nodi mewn categori gwahanol o ran niferoedd staff, mae cyflog Cynghorwyr Arbennig, nawdd cymdeithasol a chostau pensiwn wedi'u cynnwys yn ffigurau costau'r Staff a Gyflogir yn Barhaol.

Mae cyflogau'n cynnwys cyflogau gros, y bonysau perfformio sy'n daladwy, hawliau neilltuedig i Bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain, lwfansau recriwtio a chadw, a lwfansau'r swyddfa breifat.

Talwyd cyfanswm o £1,018,341 (2020-21: £1,100,923) i gynghorwyr arbennig ar gyfer y flwyddyn, gan gynnwys pensiwn a chostau nawdd cymdeithasol, ac maent wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod. At hynny, oherwydd Etholiad y Senedd ar 6 Mai 2021, daeth contractau'r holl Gynghorwyr Arbennig i ben a gwnaed taliadau diswyddo o £227,407 yn unol â thelerau'r Contract Enghreifftiol ar gyfer Cynghorwyr Arbennig (mae hyn yn cynnwys taliadau ar gyfer gwyliau blynyddol a oedd heb eu cymryd pan ddaeth y contract i ben). Pan gafodd rhai Cynghorwyr Arbennig eu hailbenodi, adenillwyd taliadau diswyddo o £87,903 ac mae £1,099 pellach wrthi'n cael ei adennill yn unol â thelerau'r Contract Enghreifftiol ar gyfer Cynghorwyr Arbennig. Roedd 17 o Gynghorwyr Arbennig yn gweithio yn ystod y cyfan neu ran o'r flwyddyn ariannol 2021-22, sy'n cyfateb i 11 cynghorydd arbennig cyfwerth ag amser llawn ar gyfartaledd, fel y nodir yn y tabl uchod.

Cyhoeddir Cofrestr Buddiannau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynghorwyr Arbennig sy'n datgelu buddiannau perthnasol ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae'r datganiad o fuddiannau, nodi gwrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol a rheoli unrhyw wrthdaro o'r fath yn cael ei wneud yn unol â Chod y Gwasanaeth Sifil, Polisi Datganiad Buddiannau Llywodraeth Cymru a thelerau contractiol penodiadau Cynghorwyr Arbennig. Ceir rhagor o wybodaeth am reoli buddiannau yn y Datganiad Llywodraethiant ar dudalen 150.

Mae costau nawdd cymdeithasol a phensiynau ar gyfer staff dros dro a staff ar secondiad o dan y ffigurau craidd ar gyfer staff eraill wedi cael eu cynnwys yn y cyflogau gan eu bod yn cael eu hanfonebu ar sail gros. Telir cyflogau Gweinidogion Cymru gan Gomisiwn y Senedd ac fe'u hadlewyrchir yn y cyfrifon hynny. O ran nifer yr uwch-staff y mae eu cyflog yn uwch na £100,000, roedd 49 o staff yr oedd eu cyflog cyfwerth ag amser llawn yn uwch na £100,000 ar 31 Mawrth. O'r rhain, roedd 8 yn staff rhan-amser yr oedd eu henillion gwirioneddol felly o dan y trothwy o £100,000 ac fe ymadawodd 7 ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn. Y gyfradd darged ar gyfer lefel Cyfarwyddwr yn Llywodraeth Cymru yw £100,820. Nid yw hyn wedi newid ers iddo fod yn fwy na £100,000 am y tro cyntaf yn 2020-21 (£100,820). Ni chafodd uwch-weision sifil godiad cyflog yn 2021-22 gan eu bod yn dod o dan seibiant cyflog Llywodraeth y DU. Cafodd staff islaw'r Uwch Wasanaeth Sifil, lle y mae'r cyfrifoldeb am dâl wedi'i ddirprwyo i Lywodraeth Cymru, ddyfarniad cyflog.

## Pensiynau

Darperir buddion Pensiwn y Gwasanaeth Sifil trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil, sef Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac Eraill, neu'r cynllun **alpha**, sy'n darparu buddion ar sail enillion cyfartalog gyrfa, ac mae'r oed pensiwn arferol yn cyd-fynd ag oed pensiwn yr aelod o dan system Bensiwn y Wladwriaeth (neu 65 oed, os yw'n uwch). Mae pob gwas sifil a gafodd ei benodi ers y dyddiad hwnnw, yn ogystal â'r rhan fwyaf o weithwyr a oedd eisoes yn rhan o'r Gwasanaeth Sifil, bellach wedi ymuno â'r cynllun **alpha**. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan y PCSPS bedair adran. Mae tair ohonynt yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol yr aelod (**classic, premium neu classic**

**plus**) a hynny'n gysylltiedig ag oed pensiwn arferol o 60. Mae'r adran arall yn darparu buddion ar sail gyrfa gyfan yr aelod (**nuvos**) a hynny'n gysylltiedig ag oed pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu, ac mae costau'r buddion yn cael eu talu o swm o arian y bydd Senedd y DU yn pleidleisio arno bob blwyddyn. Bydd pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau **classic, premium, classic plus, nuvos** ac **alpha** yn cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth yn ymwneud â Chynyddu Pensiynau. Mae aelodau o'r PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 wedi parhau i fod yn aelodau o'r PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Mae'r rhai a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 blynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 wedi newid i **alpha**. Oherwydd cynlluniau'r Llywodraeth i ddileu gwahaniaethu a nodwyd gan y llysoedd yn y ffordd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 i rai aelodau, gallai fod gan aelodau cymwys sydd â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 hawl i gael buddion pensiwn gwahanol mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw (a gall hyn effeithio ar y gwerthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod a ddangosir yn yr adroddiad hwn – gweler isod). Bydd buddion PCSPS pob aelod sy'n newid i'r cynllun **alpha** yn cael eu 'bancio'. O ran y rhai a gronnodd fuddion gynt fel aelodau o un o adrannau'r PCSPS a oedd yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol, bydd y buddion hynny'n seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael y cynllun **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a gronnwyd yn rhan o PCSPS neu'r cynllun **alpha** – fel y bo'n briodol. Lle mae gan swyddog fuddion PCSPS a buddion **alpha**, y ffigur a ddangosir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun.) Gall yr aelodau sy'n ymuno o 1 Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn **partnership**).

Mae cyfraniadau gweithwyr cyflogedig yn seiliedig ar gyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% a 8.05% i aelodau **classic premium, classic plus, nuvos** ac **alpha**. Mae buddion yn **classic** yn cronni ar y gyfradd o 1/80fed o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ychwanegol, mae cyfandaliad sy'n cyfateb i bensiwn cychwynnol tair blynedd yn daladwy adeg ymddeol. Mae buddion yn **premium** yn cronni ar y gyfradd o 1/60fed o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i **classic**, nid oes cyfandaliad awtomatig; hybrid yw **classic plus** i bob pwrpas gyda buddion ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo yn fras fel yn achos **classic** a buddion ar gyfer gwasanaeth o Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel yn achos **premium**. Yn **nuvos** mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae'r cyfrif pensiwn sydd wedi'i ennill gan yr aelod yn cael ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy ym mlwyddyn y cynllun hwnnw ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei uwchraddio yn unol â'r ddeddfwriaeth ar y cynnydd mewn pensiynau. Mae buddion yn aplha'n cronni mewn ffordd debyg i nuvos, ac eithrio mai 2.32% yw'r gyfradd groniadol. Ym mhob achos gall yr aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn **partnership**. Mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol rhwng 8% ac 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod), i gynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y gweithiwr o'r darparwr penodedig – Legal & General Mastertrust. Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu ond, os bydd yn gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn rhoi cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r cyflogwr hefyd yn cyfrannu 0.5% ychwanegol o'r cyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch.

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y bydd hawl gan yr aelod i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu yn union ar ôl iddo beidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu os yw'n hŷn na hynny. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau'r cynlluniau **classic, premium** a **classic plus**, a 65 yw'r oedran ar gyfer aelodau'r cynllun **nuvos**, a naill ai 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau **alpha**, p'un bynnag sydd uchaf.

(Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu **alpha** fel y bo'n briodol. Os oes gan swyddog fuddion yn PCSPS ac alpha, y ffigur a ddangosir yw gwerth cyfunol ei fuddion yn y ddau gynllun. Dylid nodi, fodd bynnag, y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy ar oedrannau gwahanol.)

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk

Mae gweithwyr Llywodraeth Cymru yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, ac eithrio nifer bach o staff sydd wedi dewis parhau i fod yn aelodau o gynlluniau eraill y sector cyhoeddus.

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac Eraill (CSOPS) - a elwir yn 'Alpha' - yn gynllun buddion diffiniedig nas ariennir sy'n cynnwys nifer o gyflogwyr ac felly ni all Llywodraeth Cymru nodi ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Prisiodd Actiwari'r Cynllun y cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2016. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet.

Ar gyfer 2021-22, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £61,789,063 yn daladwy i PCSPS/Alpha (2020-21: £58,960,519) yn ôl un o bedair cyfradd yn yr ystod 26.6 i 30.3 y cant (2020-21: 26.6 i 30.3) o enillion pensiynadwy yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr fel arfer bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau i dalu cost y buddion a gronnwyd yn ystod 2021-22 i gael eu talu pan fo'r aelod yn ymddeol ac nid y buddion a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn "partneriaeth", sef pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol lle mae'r cyflogwr hefyd yn cyfrannu. Talwyd cyfraniadau cyflogwr o £231,337 (2020-21: £244,428) i'r darparwr pensiwn cyfranddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau cyflogwyr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio o 8 i 14.75 y cant o enillion pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn rhoi cyfraniad cyfatebol i weithwyr hyd at 3 y cant o enillion. Yn ogystal â hyn, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £8,033, 0.5% (2020-21: £8,412 0.5%) o dâl pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS i dalu am y gost o ddarparu buddion cyfandaliadol yn y dyfodol os bydd gweithiwr yn marw yn y swydd neu'n ymddeol oherwydd salwch.

Y cyfraniadau sy'n ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen oedd £dim (2020-21: £dim). Y cyfraniadau a oedd wedi'u rhagdalu ar y dyddiad hwnnw oedd £dim (2020-21: £dim).

Ymddeolodd pedwar unigolyn (2020-21:Tri) yn gynnar oherwydd salwch; cyfanswm y rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol a gronnwyd yn y flwyddyn oedd £23,688 (2020-21: £22,857).

Dewisodd nifer bach o gyflogeion yr hen Awdurdod Datblygu gadw eu telerau ac amodau presennol a'u trefniadau pensiwn. Maent yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sy'n gynllun a ariennir gan sawl cyflogwr yn darparu pensiwn a buddion cysylltiedig, sydd bellach yn cael ei gyfrifo ar sail cyfartaledd gyrfa yn hytrach nag ar sail cyflog terfynol. Mae asedau'r cynllun yn cael eu dal ar wahân

i asedau Llywodraeth Cymru a'u gweinyddu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Rhoddir buddion ymddeol ychwanegol yn unol â Rheoliadau Llywodraeth Leol (Iawndal am Ymddeol Cyn Pryd) 1982 a darperir y buddion hyn ar sail talu wrth fynd. Cynhwysir manylion Pensiynau Byrddau Iechyd Lleol a chyrff y GIG yn eu cyfrifon.

## Adrodd ar gynlluniau iawndal y Gwasanaeth Sifil a chynlluniau eraill – pecynnau ymadael

Nid oedd unrhyw gynlluniau hyblyg ar gyfer ymddeoliad cynnar, ymddeoliad cynnar cymeradwy nac ymadawiad cynnar hyblyg yn 2021-22 na 2020-21 a dim ond ymadawiadau unigol oedd yn bodoli. Ar gyfer pob achos o ymadawiad gwirfoddol unigol, cyfrifir cyfnod ad-dalu, a bydd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol wedyn yn ei gymeradwyo.

Ar gyfer 2021-22 mae 10 (2020-21: 8) o gyflogeion wedi ymadael neu gytuno i ymadael am resymau ymadawiad gwirfoddol neu am resymau eraill rhwng 31 Mawrth 2021 a 31 Mawrth 2022. Y taliadau iawndal y cytunwyd arnynt yw £260,922 (2020-21: £314,590).

Talwyd costau dileu swydd a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, sef cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972, neu lle bo'n gymwys, yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet ar Iawndal Effeithlonrwydd 2016. Pan fo'r adran wedi cytuno i ganiatáu ymddeoliadau cynnar, caiff y costau ychwanegol eu talu gan Lywodraeth Cymru, ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Telir costau ymddeol oherwydd afiechyd gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt yn cael eu cynnwys yn y tabl.

| Band cost y pecyn ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost 2021-22 | Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost 2020-21 |
|---|---:|---:|---:|---:|
| <£10,000 | - | 1 | 1 | 2 |
| £10,000- £25,000 | - | 3 | 3 | 2 |
| £25,000-£50,000 | - | 5 | 4 | 1 |
| £50,000-£100,000 | - | 1 | 1 | 3 |
| £100,000-£150,000 | - | - | - | - |
| £150,000-£200,000 | - | - | - | - |
| £200,000+ | - | - | - | - |

| Band cost y pecyn ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost 2021-22 | Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost 2020-21 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl math** | - | **10** | **9** | **8** |
| **Cyfanswm cost yr adnoddau £** | - | **260,922** | **260,922** | **314,590** |

Mae'r tabl uchod yn dangos cyfanswm cost y pecynnau ymadael y cytunwyd arnynt ac y rhoddwyd cyfrif amdanynt yn 2021-22 (rhoddir ffigurau cymharol 2020-21 hefyd). Cyfanswm y costau ymadael a dalwyd yn ystod 2021-22, y flwyddyn ymadael, oedd £202,922 (2020-21 £314,590).

Mae'r costau yn y tabl yn nodi cyfanswm y gost i'r sefydliad yn dilyn unrhyw ymadawiad. Er hynny, mewn rhai achosion gallai rhai unigolion, wrth ymadael, fod wedi defnyddio eu taliadau iawndal i ddarparu mynediad cynnar at bensiwn heb ei leihau, neu i brynu pensiwn wedi'i gynyddu.

Mae'r taliad diswyddo arbennig a wnaed i'r cyn Ysgrifennydd Parhaol wedi'i gynnwys yn y tabl uchod. Nid oedd hwn wedi'i gwmpasu gan CSCS. Mae rhagor o fanylion ar gael ar dudalen 178.

## Absenoldeb oherwydd salwch (heb ei archwilio)

Cafodd y pandemig COVID-19 effaith sylweddol ar lefelau absenoldeb oherwydd salwch yn ystod 2021-22. Y pandemig oedd achos mwyaf ond un absenoldeb o fewn y sefydliad, gyda'r cynnydd yn y lefelau heintio ar draws poblogaeth Cymru'n cael eu hadlewyrchu ymhlith y staff. Pan ddaeth amrywiolyn Omicron i'r amlwg yng nghanol y flwyddyn, gwelwyd cynnydd yn nifer y staff oedd wedi'u heintio, llawer uwch na'r lefelau a welwyd yn ystod blwyddyn gyntaf y pandemig. Wrth i gyfyngiadau gael eu codi ar draws y wlad, dechreuodd achosion eraill o absenoldeb ddychwelyd i lefelau cyn y pandemig hefyd. Yn ystod y cyfnod cyfyngiadau symud cyntaf, roedd y mwyafrif helaeth o staff yn gweithio o'u cartrefi ac yn methu cymdeithasu â pherthnasau, ffrindiau a chydweithwyr. Mae'r math hwn o gyswllt personol agos yn ffactor pwysig yn y ffordd y caiff pob math o feirysau, gan gynnwys yr annwyd cyffredin a'r ffliw eu trosglwyddo. Mae bod yn fwy symudol y tu allan i'r cartref hefyd yn arwain at fân anafiadau a achosir gan ddamweiniau a chwaraeon, a gweithgareddau eraill. Cyfrannodd yr holl ffactorau hyn i gyd at gynnydd mewn absenoldeb oherwydd salwch wrth i fywyd ddechrau dychwelyd i ryw fath o normalrwydd i staff.

Er mwyn mynd i'r afael â'r absenoldebau cynyddol, gwnaethom adolygu ein Strategaeth Iechyd a Lles yn gyson a chymryd pa gamau bynnag yr oedd eu hangen i sicrhau bod staff yn cael y cymorth mwyaf posibl i atal absenoldeb a sicrhau eu bod yn dychwelyd yn gynnar i'r gwaith lle'r oedd absenoldeb yn digwydd. Cynyddodd nifer y staff a ddychwelodd i leoliadau swyddfa fymryn yn ystod y flwyddyn, a bu inni sicrhau bod mesurau priodol yn cael eu cymryd ym mhob lleoliad i amddiffyn rhag haint COVID-19. Roedd y rhain yn cynnwys mesurau cadw pellter cymdeithasol clir, glanhau'r holl arwynebau gwaith yn rheolaidd a therfynau ar nifer y staff y caniateir iddynt weithio ym mhob lleoliad.

Parhaodd y mwyafrif helaeth o staff i weithio gartref yn ystod y flwyddyn, ac fe gymerwyd yr holl fesurau angenrheidiol i gefnogi staff o bell. Roedd y mesurau hyn yn cynnwys sicrhau bod ganddynt yr holl gyfarpar angenrheidiol i ymgymryd â'u rolau'n ddiogel ac yn effeithiol gartref a'u bod yn cael y cymorth angenrheidiol drwy eu strwythurau rheoli llinell. Roedd iechyd meddwl yn destun pryder mawr yn ystod y cyfnod hwn, gyda rhai aelodau o'r staff yn teimlo'n ynysig gartref ac eraill yn dioddef pwysau'r pandemig ar eu gwaith a'u bywydau personol. Adolygwyd ein hadnoddau cymorth iechyd a llesiant meddwl yn gyson er mwyn eu haddasu i'r newid yn yr amgylchiadau yn ystod y pandemig.

Roedd y cymorth a oedd ar gael yn cynnwys ystod o ganllawiau a pholisïau sy'n cynghori staff sut i wella eu llesiant meddwl, rhwydwaith o wirfoddolwyr ar draws y sefydliad sy'n gweithredu fel Cynghreiriaid Iechyd Meddwl i roi cymorth a chyngor, cyfres o weminarau ar iechyd meddwl a llesiant, a mynediad 24/7 i'n Rhaglen Cymorth i Weithwyr a ddarperir yn allanol. Roedd gofyn hefyd i reolwyr llinell gynnal cyfarfodydd dal i fyny rheolaidd â'u staff a'u cynnwys mor aml â phosib mewn cyfarfodydd ar-lein er mwyn hyrwyddo mwy o gynwysoldeb.

Ar bob adeg, roedd y mesurau a gyflwynwyd gennym i gefnogi staff, y rhai sy'n gweithio gartref a'r rhai a oedd yn dychwelyd i leoliadau swyddfa, yn cydymffurfio â'r cyngor a'r canllawiau a gyhoeddwyd yn allanol, a'r rhai gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Roedd y flwyddyn 2020-21 yn un eithriadol oherwydd y pandemig ac nid oedd y lefelau absenoldeb a welwyd yn ystod y cyfnod hwnnw yn adlewyrchu'r hyn y byddem yn ei ystyried yn fywyd arferol. Wrth inni barhau i ddychwelyd i'r math newydd o normalrwydd, roedd yn anochel y byddai lefelau absenoldeb yn 2021-22 yn cynyddu, wrth i staff adael eu cartrefi a dechrau ymgysylltu â'r byd y tu allan unwaith eto. Cafodd amrywiolion y pandemig effaith fawr yn ystod y cyfnod hwn hefyd ond gyda'n ffocws parhaus ar iechyd a llesiant a'n dull rhagweithiol o gefnogi staff rhagwelir y bydd lefelau absenoldeb yn gwella dros y flwyddyn i ddod.

| Absenoldeb oherwydd Salwch yn Llywodraeth Cymru | 2021-22 | 2020-21 | 2019-20 | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|
| Dyddiau a gollwyd (tymor byr) | 21,018 | 12,103 | 18,321 | 16,545 |
| Dyddiau a gollwyd (tymor hir) | 20,109 | 14,315 | 17,291 | 23,840 |
| **Cyfanswm y dyddiau a gollwyd (dros gyfnod o 12 mis)** | **41,127** | **26,418** | **35,612** | **40,385** |
| Cyfanswm y blynyddoedd staff | 5,390 | 5,235 | 5,186 | 5,098 |
| Cyfanswm y staff cyflogedig yn ystod y cyfnod (fesul pen) | 6,160 | 5,861 | 5,920 | 5,770 |
| Cyfanswm y staff cyflogedig heb absenoldeb yn ystod y cyfnod (fesul pen) | 3,259 | 3,979 | 2,977 | 2,826 |
| % y staff heb absenoldeb salwch | 53% | 68% | 50% | 49% |
| Nifer cyfartalog y dyddiau a gollwyd | 7.6 | 5.1 | 6.9 | 7.9 |

## Trosiant Staff (heb ei archwilio)

Cyflwynodd y Llawlyfr Adrodd Ariannol ar gyfer 2020-21 ofyniad datgelu newydd ar gyfer datgeliadau ‘Trosiant Staff’. Hon yw’r flwyddyn gyntaf y mae cymariaethau ar gael. Mae’r cyfrifiad o’r datgeliad yn seiliedig ar ganllawiau gan Swyddfa’r Cabinet.

Cyfrifir y ffigur trosiant fel nifer yr ymadawyr o fewn y cyfnod hwnnw wedi’i rannu â chyfartaledd nifer y staff yn eu swyddi dros y cyfnod ac ar gyfer 2021-22 mae’n 5.34% (2020:21 3.42%) ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae’r cynnydd mewn trosiant o flwyddyn i flwyddyn i’w ddisgwyl wrth i’r wlad ddod allan o’r pandemig COVID-19.

Mae staff yn cael eu cynnwys fel rhai sy’n gadael os ydynt yn gadael Llywodraeth Cymru heb unrhyw fwriad i ddychwelyd e.e. ymddeoliad, diswyddo cynnar. Nid yw staff ar secondiadau neu fenthyciadau y tu allan i Lywodraeth Cymru wedi’u cynnwys yn nifer cyfartalog y staff yn eu swyddi am yr amser y maent ar fenthyg neu secondiad.

# Crynodeb o’r Alldro Adnoddau

| CWMPAS | Cyllideb 2021-21 Gwariant net £m | Alldro 2021-22 Gwariant net £m | Alldro o’i gymharu â’r Gyllideb Amrywiant £m |
|---|---|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 10,973 | 10,808 | 165 |
| Cyllid a Llywodraeth Leol | 5,297 | 5,274 | 23 |
| Y Gymraeg ac Addysg | 3,683 | 2,332 | 1,351 |
| Yr Economi | 727 | 560 | 167 |
| Newid Hinsawdd | 2,707 | 2,736 | (29) |
| Materion Gwledig | 367 | 358 | 9 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 346 | 327 | 19 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 168 | 176 | (8) |
| Y Comisiwn Etholiadol | 2 | 2 | 0 |
| **Cyfanswm y gofynion Adnoddau a Chyfalaf** | **24,270** | **22,573** | **1,697** |
| **Incwm** | **1,208** | **1,058** | **150** |
| **Gwariant gros** | **25,478** | **23,631** | **1,847** |

Mae’r Crynodeb o Alldro Adnoddau yn nodi alldro Llywodraeth Cymru yn erbyn y cyfansymiau rheoli a gymeradwywyd yng nghynnig yr Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2021-22 ‘Crynodeb o Ofynion Adnoddau a Chyfalaf’. Fel y nodir ar dudalen 9, darperir adroddiad manylach ar alldro terfynol yn erbyn y rheolaethau is sy’n cael eu gweithredu a’u gorfodi gan Drysorlys EF a balans Cronfa Wrth Gefn Cymru gan gynnwys cario ymlaen o alldro DEL Cymru yn flynyddol ar ôl i’r Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd gyhoeddi Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru i Bwyllgor Cyllid y Senedd a’u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru Cyllid llywodraeth | Is-bwnc | LLYW.CYMRU

Mae’r Comisiwn Etholiadol yn Gwmpas newydd a gynhwysir ar gyfer cyllideb 2021-22. Mae Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn darparu i’r Comisiwn Etholiadol gael ei ariannu o Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer gweithgareddau mewn perthynas ag etholiadau datganoledig yng Nghymru. Mae adran 129 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi’r gyfraith mewn perthynas â thynnu taliadau allan o Gronfa Gyfunol Cymru. Nid yw is-adran 129(4) yn cynnwys y Comisiwn Etholiadol fel corff taledig. Felly, rhaid i un o’r cyrff a restrir yn is-adran 129(4) fod yn gyfrifol yn weinyddol am dalu’r Comisiwn Etholiadol o’r cronfeydd y mae’n eu cael oddi wrth Gronfa Gyfunol Cymru. Gan i Weinidogion Cymru gytuno y byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud hynny, mae’r gyllideb yn cael ei phleidleisio i Weinidogion Cymru ond yn cael ei chlustnodi ar gyfer y Comisiwn Etholiadol.

# Esboniad o Amrywiannau

Mae effaith barhaus y pandemig COVID-19 wedi cyfrannu at fwy o anwadalrwydd nag arfer o fewn rhai Prif Grwpiau Gwariant (MEGs) yn y flwyddyn. O ganlyniad, cafodd gorwario a thanwario o fewn MEGs eu rheoli fel rhan o ymagwedd gyfunol ar reoli sefyllfa gyffredinol cyllideb Llywodraeth Cymru fel y cytunwyd arni gan y Senedd.

## Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Tanwariant o £165m

Mae'r tanwariant yn cynnwys tanwariant DEL Refeniw o £54m, tanwariant DEL Cyfalaf o £3m, DEL Adnoddau Anghyllidol o £6m a thanwariant Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) o £120m.

Mae tanwariant DEL Refeniw yn cynnwys tanwariant o £20m ar gyllid COVID-19 wedi'i ddyrannu a thanwariant o £34m yn erbyn cyllidebau canolog Craidd a Chefnogi Plant.

Mae'r tanwariant ar gyllid o £20m i ymateb i Covid yn adlewyrchu natur y pandemig. Roedd y dyraniadau COVID-19 ychwanegol yn cefnogi cynlluniau cenedlaethol a lleol y GIG ar gyfer costau parhaus delio â'r pandemig yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae hyn yn cynnwys Sefydlogi'r GIG, Contractau Profi, Brechu, PPE a mesurau eraill mewn ymateb i COVID. Cytunwyd ar y dyraniad yn y gyllideb ym mis Gorffennaf 2021 ac roedd yn asesiad, ar y pryd, gan swyddogion y GIG a swyddogion Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (HSS) Llywodraeth Cymru o ba gyllid y byddai ei angen ar gyfer y flwyddyn ar draws meysydd allweddol yr ymateb i Covid. Roedd lefel a chyflymder yr ymateb HSS yn cael eu llywio yn aml gan y newid parhaus yn amgylchiadau'r pandemig a chan ffactorau cyfnewidiol iawn. Gwnaeth Rhaglenni Cenedlaethol COVID-19 a arweinir gan y galw (a ariannwyd gan symiau gwirioneddol) megis PPE, Brechu, Profi ac Olrhain Cysylltiadau orwario £10m yn erbyn amcangyfrifon Gorffennaf 2021, ac roedd gan ddyraniad Adferiad y GIG danwariant o £29.5m gan fod materion capasiti o fewn y GIG (a darparwyr gofal iechyd allanol) ac effaith ansefydlog amrywiolyn Omicron ar gynlluniau adfer yn sbardunau allweddol ar gyfer y sefyllfa hon.

Mae'r tanwariant ar gyllidebau canolog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn adlewyrchu blwyddyn heriol iawn o reoli cyllid. Mae'r alldro yn cynnwys sawl tanwariant ar draws llawer o feysydd cyllidebol, gyda chyfanswm o £159m. Roedd hyn yn cael ei wrthbwyso gan ddau brif fuddsoddiad mewn Gofal Cymdeithasol, sef cynllun talu newydd gwerth £96.3m i weithwyr gofal cymdeithasol sy'n cyd-fynd â'r Cyflog Byw Gwirioneddol a chyllid o £29.5m i dalu am gost dyrannu taliad o £500 i ofalwyr di-dâl cymwys yng Nghymru.

Mae'r gorwariant i DEL Adnoddau Anghyllidol yn adlewyrchu'r gofyniad i ariannu gostyngiad gwerth ar y stocrestr mewn stociau PPE a ddelir gan NWSSP, gwerth £10.250m, sydd wedi'i wrthbwyso gan amrywiannau alldro yng ngofynion ariannu sefydliadau'r GIG. Y rheswm pennaf dros hyn yw amrywiannau dibrisiant oherwydd oedi mewn prynu / cynlluniau sy'n mynd rhagddynt, a hynny yn bennaf oherwydd COVID-19.

Mae'r tanwariant AME o £120m yn ymwneud â rhyddhau darpariaethau gwerth £68m mewn perthynas ag ailddosbarthu hawliadau Indemniad Ymarferwyr Meddygol Cyffredinol gan Gyfreithwyr Cyfreithiol a Risg; a thanwariant amhariadau o £51m o ganlyniad i newid mewn mynegeion a ddefnyddir i brisio Ystad y GIG a ddarparwyd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn dilyn ymosodiad Rwsia ar Wcráin.

## Cyllid a Llywodraeth Leol – Tanwariant o £23m

Mae'r tanwariant yn cynnwys tanwariant DEL Refeniw o £24m, a gorwariant DEL Cyfalaf o £1m.

Mae'r tanwariant Refeniw DEL yn ymwneud yn bennaf â'r cynllun Rhyddhad Ardrethi Annomestig, a danwariodd £47m oherwydd bod y nifer a fanteisiodd ar y cynllun rhyddhad yn is na'r disgwyl. Mae'r taliadau terfynol ar gyfer y cynllun rhyddhad yn seiliedig ar hawliadau gwirioneddol nad ydynt yn dod i law yn llawn tan ddiwedd y flwyddyn ariannol oddi wrth yr Awdurdodau Lleol. Hyd at y pwynt hwn, roedd cyllidebau a rhagolygon yn amcangyfrifon gorau yn seiliedig ar wybodaeth am sylfaen drethu ardrethi annomestig yr Awdurdodau. Cafodd y tanwariant ei wrthbwyso'n rhannol gan £25m yn ychwanegol a wariwyd ar y Gronfa Galedi.

## Y Gymraeg ac Addysg – Tanwariant £1,351m

Mae'r tanwariant yn cynnwys tanwariant DEL Refeniw o £18m, gorwariant DEL Cyfalaf o £2m, tanwariant DEL Refeniw Anghyllidol o £1,223m a thanwariant AME o £112m.

Mae tanwariant DEL Refeniw o £18m yn ymwneud â £26m ar gyfer Taith, y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu a £18m ar gyfer Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr oherwydd natur y grantiau sy'n cael eu harwain gan y galw. Cafodd y rhain eu gwrthbwyso'n rhannol gan orwariant o £27m mewn perthynas â chyllid ychwanegol a ddarparwyd ar gyfer cynnal a chadw ôl-groniad, Cyfrifon Dysgu Personol (PLA), mwy o ddarpariaeth ôl-16 a Dysgu Oedolion yn y Gymuned.

Mae'r gorwariant DEL Cyfalaf yn deillio yn bennaf o bwysau yn gysylltiedig â ffi gweinyddu o £1.9m a dalwyd i'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, i'w alluogi i ddarparu cymorth statudol i fyfyrwyr yng Nghymru.

Mae'r rhan fwyaf o danwariant y DEL Adnoddau Anghyllidol o £1,223m yn danwariant mewn perthynas â benthyciadau myfyrwyr. Mae'r prisiad portffolio yn cael ei effeithio'n sylweddol gan ffactorau economaidd. Roedd y tanwariant yn deillio o newid yng nghyfradd disgownt Trysorlys EF (o 0.7% i -1.1%), a effeithiodd ar fodel StEP Benthyciadau i Fyfyrwyr. Cynyddodd hyn werth teg y portffolio Benthyciadau i Fyfyrwyr.

Roedd tanwariant AME o £112m yn ganlyniad i'r ddychweleb derfynol gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr gyda symiau is o ffioedd dysgu a benthyciadau cynnal a chadw is na'r disgwyl yn cael eu rhoi.

## Yr Economi – Tanwariant o £167m

Mae'r tanwario yn cynnwys tanwariant DEL Refeniw o £103m, tanwariant DEL Cyfalaf o £13m, tanwariant Trafodiadau Ariannol Cyfalaf o £5m a thanwariant AME o £46m.

Mae'r tanwariant Refeniw DEL i'w briodoli'n bennaf i gyllid Datblygu Busnes gwerth £90m gyda'r galw am gyllid grantiau busnes ERF/COVID-19 yn is na'r disgwyl. Cafodd tanwariant ei gydnabod ym mis Ionawr 2022, ac fe ailddyrannwyd cyllid i nifer o brosiectau e.e. £17.9m i gyflymu prosiectau cydweithio Academaidd/Busnes SMART a chynyddu talebau SMART.

Mae'r tanwariant DEL Cyfalaf o £13m yn ymwneud yn bennaf â phrosiectau nad ydynt yn mynd rhagddynt neu sy'n llithro.

Mae'r tanwariant AME o £46m yn deillio o'r ffaith bod ffigurau'r ddychweleb derfynol gan y Cyrff Hyd Braich yn is na'r disgwyl. Mae hyn yn cynnwys credyd prisio pensiynau net o £24.6m i Gyrfa Cymru. Mae Gyrfa Cymru yn aelod o wyth o gynlluniau pensiwn gwahanol yn llywodraeth leol Cymru, sy'n dyddio o'r cyfnod pan oedd yn perthyn i'r awdurdodau lleol. O ganlyniad, gall symudiad y prisio fod yn gyfnewidiol iawn o flwyddyn i flwyddyn, ac er bod cyfnodau blaenorol wedi cofnodi taliadau sylweddol arweiniodd prisiadau actiwaraidd eleni at y credyd net mawr. Mae £10m yn ymwneud â'r newid yn y portffolio eiddo.

## Newid Hinsawdd – Gorwariant o £29m

Mae'r gorwariant yn cynnwys tanwariant DEL Refeniw o £9m, gorwariant DEL Cyfalaf o £21m, tanwariant DEL Adnoddau Anghyllidol o £4m, tanwariant DEL Cyfalaf Trafodiadau Ariannol o £1m gorwariant AME o £22m.

Mae'r tanwariant DEL Refeniw yn deillio yn bennaf o ostyngiad yng nghostau a gwariant net craidd Trafnidiaeth Cymru ar deithio cynaliadwy, llai o wariant ar weithgarwch tai, sy'n cael ei wrthbwyso'n rhannol gan wariant uwch ar yr amgylchedd, yn bennaf drwy Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r gorwariant DEL Cyfalaf o £21m i'w briodoli i raddau helaeth i wariant cynnar ychwanegol a gymeradwywyd ar brosiectau buddsoddi rheilffyrdd o gronfeydd wrth gefn, sy'n cael eu gwrthbwyso gan rywfaint o danwariant ar ynni a'r amgylchedd, teithio cynaliadwy ac effeithlonrwydd adnoddau.

Mae tanwariant DEL Cyfalaf Trafodiadau Ariannol yn ymwneud â thanwariant bach ar brosiectau strategol seilwaith a chyllid Cymorth i Brynu – Cymru.

Roedd y tanwariant net DEL Adnoddau Anghyllidol o £4m yn deillio o'r ffaith bod y cyfrifyddu nad yw'n arian parod yn achos asedau rhwydwaith cefnffyrdd a rheilffyrdd Llinellau Craidd y Cymoedd ar gyfer taliadau dibrisiant a gynhyrchwyd ychydig yn wahanol i'r rhai a amcangyfrifwyd ar ddechrau'r flwyddyn.

Cafwyd gorwariant AME o £22m o ganlyniad i'r amrywiant rhwng y disgwyliadau y cyllidebwyd ar eu cyfer o ran addasiadau Gwerth Teg Cymorth i Brynu - Cymru a'r addasiadau a wnaed rhwng Cyfanswm Gwariant a Reolir a Chwmpas ar gyfer cyrff a noddir.

## Materion Gwledig – Tanwariant o £9m

Mae'r tanwariant yn cynnwys tanwariant DEL Cyfalaf o £8m a DEL Adnoddau Anghyllidol o £1m.

Mae'r tanwariant DEL Cyfalaf yn ymwneud yn bennaf â llithriad o £5m ar gynigion Buddsoddi mewn Bwyd oherwydd proses arfarnu estynedig a £2 miliwn yn erbyn cyllideb gyfalaf y Cynllun Datblygu Gwledig oherwydd aibroffiliad o'r Cynllun Busnesau Fferm a'r cynlluniau Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd.

Mae'r Adnoddau Cyllidol Materion Gwledig yn cynnwys darpariaeth ar gyfer dibrisiant system TG y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Mae'r amrywiant o £1m wedi codi oherwydd gofyniad llai am gyllid dibrisiant.

## Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu - Tanwariant £19m

Mae tanwariant MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn deillio'n bennaf o danwariant o £14m ar DEL Adnoddau Cyllidol a thanwariant o £5m ar Wariant a Reolir yn Flynyddol.

Mae'r MEG Adnoddau Anghyllidol Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn cynnwys costau rhedeg a rhaglenni Llywodraeth Cymru, megis y Strategaeth Cysylltiadau Rhyngwladol, y mae COVID-19 wedi effeithio'n andwyol arnynt a ffactorau'r farchnad, gan achosi oedi wrth gyflawni.

Mae Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn y MEG yn cynnwys newidiadau prisio mewn rhwymedigaethau pensiwn gan eu bod yn destun prisiad actiwaraidd cymhleth bob blwyddyn a gallant fod yn wamal. Mae'r amrywiant o £5m yn deillio o wahaniaethau rhwng prisiadau'r cynllun pensiwn actiwaraidd a ragwelir a'r rhai manwl a ddarperir ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol i lywio'r cyfrifon statudol a'r alldro terfynol.

## Cyfiawnder Cymdeithasol – Gorwariant £8m

Mae'r gorwariant yn orwariant mewn perthynas â DEL Refeniw o £3m a DEL Refeniw o £5m mewn perthynas â'r alldro adnoddau ar gyfer cyrff y Comisiynwyr.

Mae gorwariant y DEL Refeniw i'w briodoli'n bennaf i daliad rhodd o £4m a wnaed o Ddatblygu Rhyngwladol i gefnogi'r argyfwng yn Wcráin. Cytunwyd y byddai'r gorwariant a grëwyd yn erbyn y MEG yn cael ei wrthbwyso gan arbedion mewn MEGs eraill fel rhan o'r cymorth ar draws Llywodraeth Cymru.

Mae'r gorwariant o £5m yn ymwneud â'r tri Chomisiynydd na chawsant eu dynodi i'w cynnwys yn y cwmpas tan ar ôl i'r ail gyllideb atodol gael ei chyhoeddi. Fe'u dynodwyd ar 1 Chwefror 2022.

## Incwm £150m o dan y gyllideb

Mae'r rhan fwyaf o'r amrywiant incwm yn gysylltiedig â derbyniadau'r UE. Mae amseriad derbyniadau oddi wrth yr UE ar raglenni aml-flwyddyn yn ei gwneud yn anodd rhag-weld yr alldro, ac mae'r pandemig COVID-19 wedi cael effaith ychwanegol ar hyn. O ganlyniad, mae cyllidebau'n cael eu pennu i sicrhau eu bod yn darparu mwy na digon o sicrwydd mewn unrhyw flwyddyn i sicrhau na chollir unrhyw gyllid i Gymru. Yn ogystal, roedd y llog wedi'i gyfalafu ar gyfer Benthyciadau Myfyrwyr yn is na'r rhagolygon.

# Rhestr o eirfa'r gyllideb

**Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):** Terfyn y gyllideb amlflwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru a bennir gan Drysorlys Ei Fawrhydi mewn Adolygiadau o Wariant. Mae'r DEL wedi'i rannu'n ddosbarthiadau gan gynnwys y rhai isod.

**DEL Adnoddau Cyllidol (Refeniw):** Mae'r gyllideb DEL Adnoddau Cyllidol yn sgorio'r rhan fwyaf o wariant cyfredol Llywodraeth Cymru ac mae'n cynnwys costau staff, grantiau a threuliau eraill.

**DEL Adnoddau Anghyllidol:** Mae'r Gyllideb DEL Adnoddau Anghyllidol yn sgorio gwariant cyfredol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â rhai amhariadau a dibrisiant. Mae'r cyllidebau hyn wedi'u clustnodi ac ni ellir eu defnyddio i gyllido gwariant DEL Adnoddau Cyllidol.

**DEL Cyfalaf:** Mae cyllidebau cyfalaf yn cwmpasu gwariant sydd, yn bennaf, yn arwain at ased ffisegol naill ai ar fantolen Llywodraeth Cymru neu ar fantolen trydydd parti.

**Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):** Mae'r cyllidebau hyn yn ymdrin â gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, amlflwyddyn yn yr un ffordd â DEL. Maent felly'n cael eu hadolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Cyllideb ac Adroddiad Rhag-gyllidebol Trysorlys Ei Fawrhydi. Mae AME fel rheol yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn wamal a/neu'n ymateb i'r galw.

# Nodiadau

| Cyllid a dynnwyd o Gronfa Gyfunol Cymru | Alldro 2021-22 £m | Alldro 2020-21 £m |
|---|---|---|
| Awdurdodwyd i'w dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru | 22,807 | 23,954 |
| Cyllid a dynnwyd i lawr | (22,145) | (23,397) |
| **Cyllid heb ei dynnu i lawr** | **662** | **557** |

Mae'r nodyn hwn yn dangos y swm a dynnwyd mewn arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru yn y flwyddyn, sy'n cynnwys unrhyw symiau a gariwyd ymlaen o Gronfa Gyfunol Cymru ac sydd heb eu defnyddio o'r flwyddyn flaenorol, yn erbyn y cyfanswm rheoli a bleidleisiwyd yn y gyllideb ar gyfer symiau a awdurdodwyd i'w talu i Lywodraeth Cymru o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(1)(c) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

| Cysoni alldro a CSoCNE | Alldro 2021-22 £m | Alldro 2020-21 £m |
|---|---|---|
| **Alldro Adnoddau Net** | **22,573** | **25,163** |
| Llai: Addasiadau i gyfalaf a benthyciadau | (2,210) | (2,596) |
| Addasiad cyfuno | - | (105) |
| Addasiad ardrethi annomestig | 65 | (2) |
| Addasiadau eraill | 83 | (59) |
| **Gwariant fesul CSoCNE** | **20,510** | **22,401** |

Mae'r cysoniad hwn yn esbonio'r gwahaniaeth rhwng yr alldro cyllidebol yn y Crynodeb o Alldro Adnoddau a Datganiad Cyfunol o Wariant Net Cynhwysfawr (CSoCNE) y datganiadau ariannol, sy'n cysylltu'r Alldro Adnoddau â'r datganiadau ariannol.

Mae'r Crynodeb o Alldro Adnoddau yn cael ei lunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu - sy'n debyg, ond yn wahanol i Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'i cymhwysir gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) Trysorlys Ei Fawrhydi sy'n nodi sut mae'n rhaid paratoi'r CSoCNE.

Mae addasiadau cyfalaf a benthyciadau yn dileu o'r Alldro Adnoddau trafodiadau adnoddau cyfalaf a adroddwyd yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol nad ydynt yn pasio trwy'r CSoCNE.

Mae addasiadau cyfuno yn adlewyrchu camalinio rhwng triniaeth cyllidebu a chyfrifon yn achos rhai trafodiadau ar gyfer endidau a ddynodir yn y ffin gyfuno.

Mae addasiadau ardrethi annomestig yn adlewyrchu effaith net casglu a dosbarthu adrethi annomestig yn SoCne Llywodraeth Cymru, sydd y tu allan i'r gyllideb a bleidleisiwyd gan Senedd Cymru ac felly'r Alldro Adnoddau.

Mae addasiadau eraill yn ymwneud yn bennaf â thrafodiadau sy'n cael eu trin yn wahanol rhwng y fframwaith cyllidebu a'r cyfrifon.

| Cysoni adnoddau i'r gofyniad arian parod | Cyllideb 2021-221 £m | Alldro 2021-22 £m | Alldro o'i gymharu â'r Gyllideb £m | Alldro 2020-21 £m |
|---|---|---|---|---|
| **Alldro Adnoddau Net** | **24,270** | **22,573** | **1,697** | **25,163** |
| Llai: Cyrff a ddynodwyd o dan adran 126A o Deddf Llywodraeth Cymru - Trafodiadau adnoddau yn unig | | (347) | 347 | (714) |
| Llai: Trafodiadau nad ydynt yn arian parod | | | | |
| Dibrisiant | (520) | (212) | (308) | (241) |
| Amhariadau ac addasiadau gwerth teg | (652) | 930 | (1,582) | (597) |
| Symudiadau heb fod yn arian parod mewn darpariaethau | (399) | (326) | (73) | (55) |
| Llai: Symudiadau mewn balansau gweithio | 108 | (361) | 469 | (591) |
| Arall | | (200) | 200 | 21 |
| **Gofyniad arian parod net** | **22,807** | **22,057** | **750** | **22,986** |

Mae'r Crynodeb o Alldro Adnoddau yn cael ei lunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu ar sail gwariant adnoddau, yn hytrach nag ar sail arian parod. Mae'r cysoniad hwn yn esbonio'r gwahaniaeth rhwng yr Alldro Adnoddau a'r gofyniad arian net. Y gofyniad net am arian parod yw'r swm a dynnir fel cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru yn y flwyddyn (a ddangosir yn y nodyn Cyllid a dynnwyd o Gronfa Gyfunol Cymru), llai unrhyw symiau a dynnwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol sydd heb eu defnyddio.

Mae'r addasiad ar gyfer 'Cyrff a ddynodwyd o dan adran 126A o Deddf Llywodraeth Cymru – trafodiadau adnoddau yn unig' yn dileu o'r alldro y gwahaniaeth rhwng yr alldro adnoddau ar gyfer cyrff grŵp dynodedig Llywodraeth Cymru, a'r cyllid a ddarperir iddynt o Gronfa Gyfunol Cymru trwy Lywodraeth Cymru.

Mae gweddill yr addasiadau'n ymwneud yn bennaf â'r gwahaniaethau adnoddau / arian parod yn natganiad llif arian parod Llywodraeth Cymru, ac unrhyw drafodiadau yn Natganiad Llywodraeth Cymru o Wariant net Cynhwysfawr nad ydynt yn yr Alldro Adnoddau, megis yr Addasiad i NDR a ddangosir yn y nodyn cymodi alldro CSoCNE.

**Dr Andrew Goodall CBE**
**Yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu**
12 Rhagfyr 2022

# Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

## Barn amodol ar y datganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Llywodraeth Cymru a'r Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad Cynhwysfawr Cyfunol o'r Gwariant Net, y Datganiad Cyfunol o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Cyfunol o'r Llifau Arian Parod, y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu sylweddol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac a'u haddaswyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EF.

Rwyf hefyd wedi archwilio'r Datganiad o Alldro Adnoddau a'r nodiadau cysylltiedig, y Datgeliadau Atebolrwydd a'r wybodaeth arall sydd yn yr Adroddiad Atebolrwydd (tudalennau 122 – 200) a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth sydd wedi ei harchwilio.

Yn fy marn i, heblaw am effeithiau posibl y mater a ddisgrifir yn adran sail dros farn amodol ar safbwynt gwir a theg fy adroddiad, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi safbwynt gwir a theg ar sefyllfa Llywodraeth Cymru a'r Grŵp ar 31 Mawrth 2022 ac ar ei ofyniad ariannol net, ei alldro adnoddau net a'i gost gweithredu net, am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac a'u haddaswyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EF; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## Y sail dros farn gwir a theg

### Effeithiau posibl taliad a wnaed i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol

Ym mis Hydref 2021, gwnaeth Llywodraeth Cymru daliad o £80,519 i gyn-Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru. Datgela Llywodraeth Cymru yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adroddiad Staff fod hyn yn cynnwys taliad diswyddo arbennig yn hytrach na dwyn ei dyddiad ymadael ymlaen, taliad am absenoldeb blynyddol nas cymerwyd a thaliad allgontractiol (gan gynnwys swm o £30,289 y mae Llywodraeth Cymru yn dweud ei fod yn ymwneud â blwyddyn ariannol 2020-21).

Nid wyf wedi gallu cael digon o dystiolaeth archwilio priodol am drefniadau gwaith y cyn-Ysgrifennydd Parhaol o fis Ebrill 2018, y ffeithiau ynghylch sail y taliad ar adeg y taliad ac, o ganlyniad i hynny, a oedd gan y cyn-Ysgrifennydd Parhaol hawl i dderbyn taliad o £80,519. Nid wyf wedi gallu cadarnhau:

- y sail y gwnaed y taliad arni,
- sut y cyfrifwyd y taliad,
- a oedd rhwymedigaeth ar Lywodraeth Cymru i wneud y taliad cyfan neu elfennau ohono, ac
- a ddylid cynnwys y taliad cyfan yn natganiadau ariannol 2021-22 Llywodraeth Cymru.

O ganlyniad i hynny, ni allaf benderfynu a yw'r gwariant yn y datganiadau ariannol yn gywir yn berthnasol.

Ceir rhagor o fanylion yn fy Adroddiad ar dudalennau 208 i 211.

## Barn Amodol ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ac eithrio effeithiau ac effeithiau posibl y materion a ddisgrifir yn adran 'Sail ar gyfer barn amodol ar reoleidd-dra' fy adroddiad, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodiadau ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli nhw.

## Y sail ar gyfer barn amodol ar reoleidd-dra

**Effeithiau costau sy'n deillio o'r Cyfarwyddyd Gweinidogol ar dreth pensiwn uwch-glinigwyr**

Mae'r datganiadau ariannol hynny'n cynnwys darpariaeth o £21.5 miliwn yn ymwneud ag amcangyfrif o atebolrwydd sy'n deillio o Gyfarwyddyd Gweinidogol dyddiedig 18 Rhagfyr 2019 ar bensiynau uwch-glinigwyr. Yn fy marn i, mae'r gwariant hwn yn afreolaidd ac yn berthnasol yn ôl ei natur.

**Effeithiau posibl taliad a wnaed i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol**

Nid wyf wedi gallu cael digon o dystiolaeth archwilio briodol am drefniadau gwaith y cyn-Ysgrifennydd Parhaol o fis Ebrill 2018, y ffeithiau ynghylch sail y taliad ar adeg y taliad ac, o ganlyniad i hynny, a oedd gan y cyn-Ysgrifennydd Parhaol hawl i dderbyn y taliad y cyfeirir ato yn adran 'Y sail dros farn gwir a theg' fy adroddiad.

Ni chadwodd Llywodraeth Cymru gofnodion cyfoes o'i rhesymau dros wneud y taliad na'r rhesymeg dros y swm a dalwyd. Mae ansicrwydd ynghylch yr hyn y mae'r taliad yn ymwneud ag ef yn benodol, ac o ganlyniad mae ansicrwydd ynghylch pwy ddylai fod wedi awdurdodi'r taliad. Felly, ni allaf fodloni fy hun bod y taliad wedi ei awdurdodi'n briodol yn unol â fframwaith yr awdurdodau sy'n llywodraethu'r gwariant ac a wnaed y gwariant at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd.

Ceir rhagor o fanylion yn fy Adroddiad ar dudalennau 208 i 211.

## Sail y barnau

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau ymhellach o dan y safonau hynny yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwyf yn annibynnol o'r corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi ei chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gennyf, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau nac amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg pan awdurdodir cyhoeddiad y datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau y Prif Swyddog Cyfrifyddu mewn cysylltiad â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## Materion eraill

Tynnaf sylw at y datgeliadau a wnaed yn y Datganiad Llywodraethu ynghylch taliad a wnaed i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol. Yn fy marn i, nid yw rhannau o'r datgeliadau hyn yn gyson â'r wybodaeth a gefais yn ystod fy archwiliad.

Tynnaf sylw hefyd at ddatgeliadau a wneir yn y Datganiad Llywodraethu ynghylch gwendidau yn y fframwaith llywodraethu sy'n ymwneud â chyflogau uwch-swyddogion y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â nhw yn 2022-23.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yng Nghyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru heblaw'r datganiadau ariannol a rhannau eraill o'r adroddiad sy'n cael eu harchwilio a'm hadroddiad archwilydd arnynt. Nid yw deddfwriaeth na chyfarwyddiadau a roddir i Lywodraeth Cymru yn nodi cynnwys na ffurf yr wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol. Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yng Nghyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, oni nodir fel arall yn glir yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi

unrhyw fath o sicrwydd ynghylch hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn berthnasol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi ei chamddatgan yn berthnasol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith a wnaed gennyf, yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi ei chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.

## Adroddiad ynghylch gofynion eraill

### Barn ar faterion eraill

Oherwydd nad yw deddfwriaeth na chyfarwyddiadau a roddir i Lywodraeth Cymru'n nodi cynnwys na ffurf yr wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol, ni allaf gadarnhau bod Adroddiad Blynyddol (tudalennau 1 – 121) nac Adroddiad Atebolrwydd (tudalennau 122 – 200) y Cyfrifon Cyfunol wedi eu paratoi yn unol â'r canllawiau.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad, ac eithrio effeithiau posibl y materion a ddisgrifir yn adrannau 'Y sail dros farn gwir a theg', 'Y sail ar gyfer barn amodol ar reoleidd-dra' a Materion Eraill fy adroddiad ynghylch taliad a wnaed i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol, mae'r wybodaeth nas archwiliwyd yn Adroddiad Blynyddol ac Adroddiad Atebolrwydd y Cyfrifon Cyfunol yn gyson â'r datganiadau ariannol a'r wybodaeth a gafwyd wrth gynnal yr archwiliad.

Er nad oes gofynion deddfwriaethol am Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adroddiad Staff, mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi adroddiad o'r fath. Fel y nodir yn adran 'Y sail dros farn gwir a theg' fy adroddiad, nid wyf wedi gallu cael digon o dystiolaeth briodol am drefniadau gwaith y cyn-Ysgrifennydd Parhaol a'r ffeithiau ynghylch sail y taliad a wnaed ar adeg y taliad. Felly, nid wyf wedi gallu ffurfio barn ynghylch a yw'r rhan honno o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adroddiad Staff y mae'n ofynnol ei harchwilio fel arfer wedi ei pharatoi'n briodol yn unol â chanllawiau Trysorlys EF.

### Materion y byddaf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Ac eithrio effeithiau posibl y materion a ddisgrifir yn adrannau 'Y sail dros farn gwir a theg', 'Y sail ar gyfer barn amodol ar reoleidd-dra' a Materion Eraill fy adroddiad ynghylch taliad a wnaed i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol, yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y corff a'i amgylchedd a gafwyd wrth gynnal yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn Adroddiad Blynyddol nac Adroddiad Atebolrwydd y Cyfrifon Cyfunol.

O ran y materion y cyfeirir atynt yn 'Y sail dros farn gwir a theg' ac 'Y sail ar gyfer barn amodol ar reoleidd-dra' fy adroddiad yn unig sy'n ymwneud ag effeithiau posibl taliad a wnaed i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a ystyriais yn angenrheidiol at ddiben fy archwiliad;

- ni chadwyd cofnodion cyfrifo digonol;
- nid wyf wedi gallu dod i'r casgliad bod y datganiadau ariannol, y Datgeliadau Atebolrwydd a archwiliwyd a'r rhan o Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adroddiad Staff a archwiliwyd yn gytûn â'r cofnodion cyfrifyddu a bod y ffurflenni yn gywir yn berthnasol; ac
- nid wyf wedi gallu ffurfio barn archwilio ynghylch a yw gwybodaeth a bennir gan Drysorlys EF ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a thrafodiadau eraill yn cael ei datgelu.

Yn ogystal â hynny, rwyf yn adrodd hefyd drwy eithriad na roddodd un uwch-swyddog ei ganiatâd i ddatgelu gwybodaeth a bennwyd gan Drysorlys EF ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a thrafodiadau eraill. Derbyniodd Llywodraeth Cymru gais yr uwch-swyddog ac o ganlyniad nid yw'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adroddiad Staff yn cynnwys yr wybodaeth hon.

## Cyfrifoldebau

**Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol**

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau y Swyddog Cyfrifyddu, y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wneir oddi tanynt, dros fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg ac am y fath reolaeth fewnol y mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn penderfynu sy'n angenrheidiol fel y gellir paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd rhag camddatganiadau materol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n briodol, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir bod hynny'n amhriodol.

**Cyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwiliwr sy'n cynnwys fy marn. Sicrwydd rhesymol yw lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) yn canfod camddatganiad perthnasol bob amser pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi drwy dwyll neu wall a chânt eu hystyried yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra, ac mae'n cynnwys twyll. Rwyf yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau a amlinellir uchod er mwyn canfod camddatganiadau perthnasol mewn cysylltiad ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- holi'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, ar faterion sy'n ymwneud â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig;
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried gan weithredu fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Yn rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial am dwyll gwrth-wneud gan y rheolwyr a ystyrir yn risg sylweddol ym mhob corff sy'n cael ei archwilio.
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Llywodraeth Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae Llywodraeth Cymru'n gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Llywodraeth Cymru.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau ar gyfer ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau y datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfedd â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr ynghylch cyfreithiad a honiadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau perthnasol eraill; a
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrth-wneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion mewn cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r barnau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol.

Rwyf hefyd wedi cyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau o dwyll posibl i'r tîm archwilio, gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Llywodraeth Cymru, a natur, amseru a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilydd.

**Cyfrifoldebau rheoleidd-dra**

Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra y trafodiadau ariannol.

Mae'n ofynnol imi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol imi fod y gwariant a'r incwm wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli nhw.

## Adroddiad

Fy Adroddiad ynglŷn â thystiolaeth annigonol am daliad i gyn-Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru; sylwebaeth yn y Datganiad Llywodraethu ynghylch y taliad a'r gwendidau hyn yn y fframwaith llywodraethu cyffredinol ar gyfer tâl uwch-swyddogion; ac mae goblygiadau'r cyfarwyddyd gweinidogol ar bensiynau uwch-glinigwyr ar dudalennau 208 i 211.

*Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn ar eu ffurf wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw hwn. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hwn, ac nid Archwilydd Cyffredinol Cymru.*

**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
12 Rhagfyr 2022

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

# Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i'r Senedd

## Cyflwyniad

1. O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rwyf yn gyfrifol am archwilio, ardystio ac adrodd ar ddatganiadau ariannol Llywodraeth Cymru.

2. Yn yr adroddiad hwn ar ddatganiadau ariannol 2021-22 Llywodraeth Cymru, nodaf:
    - y rhesymau a'r cyd-destun dros fy marnau archwilio amodol yn ymwneud â thaliad i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol;
    - pryderon am rywfaint o'r sylwebaeth yn y Datganiad Llywodraethu am y taliad hwn i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol;
    - gwendidau yn y fframwaith llywodraethu cyffredinol ar gyfer tâl uwch-swyddogion;
    - y rhesymau a'r cyd-destun dros fy marn archwilio amodol ynghylch y Cyfarwyddyd Gweinidogol ar bensiynau uwch-glinigwyr.

## Cymhwyso'r barnau gwir a theg a rheoleidd-dra ynghylch taliad i gyn-Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru

3. Ym mis Medi 2022, cyhoeddais Adroddiad er Budd y Cyhoedd, yn nodi fy mhryderon am daliad a wnaed i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol ym mis Hydref 2021. Roedd diffyg tryloywder yn y modd y gwnaeth Llywodraeth Cymru benderfyniadau ynghylch trefniadau gweithio'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol a phenderfynu gwneud taliad iddi wrth derfynu ei chyflogaeth ac nid oeddent yn cydymffurfio ag egwyddorion llywodraethu da.

4. Rwyf wedi cymhwyso fy marnau archwilio gwir a theg a rheoleidd-dra ar ddatganiadau ariannol Llywodraeth Cymru yn 2021-22 mewn cysylltiad â'r taliad i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol. Hefyd, nid wyf wedi gallu dod i'r casgliad a yw'r Datgeliadau Atebolrwydd a archwiliwyd neu'r rhan a archwiliwyd o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adroddiad Staff yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau perthnasol, neu a yw'r rhan a archwiliwyd o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adroddiad Staff wedi ei baratoi'n briodol yn unol â chanllawiau Trysorlys EF.

5. Fel y datgelwyd yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adroddiad Staff, ym mis Hydref 2021, gwnaeth Llywodraeth Cymru daliad o £80,519 i gyn-Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru y mae Llywodraeth Cymru'n ei ddadansoddi fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Taliad allgontractiol am ddiwrnodau ychwanegol a weithiwyd | £39,123 |
| Talu am absenoldeb blynyddol nas cymerwyd | £ 9,553 |
| Taliad diswyddo arbennig | £31,843 |
| | **£80,519** |

6. Dywed Llywodraeth Cymru fod elfen £39,123 y taliad yn ganlyniad i'r newidiadau y cytunodd arnynt i drefniadau gwaith y cyn-Ysgrifennydd Parhaol ar ôl iddi ymddeol yn rhannol ar 31 Mawrth 2018. Mae'n nodi ymhellach bod £30,289 o'r £39,123 yn ymwneud â blwyddyn ariannol 2020–21 a'i fod wedi ei gynnwys yng nghroniadau buddion cyffredinol y cyflogai yn 'Croniadau eraill ac incwm gohiriedig' ar 31 Mawrth 2021. Gwnaed y taliad ar y sail bod gan y cyn-Ysgrifennydd Parhaol drefniad gweithio rhan-amser ar ôl iddi ymddeol yn rhannol.

7. Seiliwyd y balans gwyliau blynyddol nas cymerwyd a chyfrifiad y taliad ar y ffaith bod gan yr Ysgrifennydd Parhaol drefniad gwaith llawn amser ar ôl iddi ymddeol yn rhannol a chronni gwyliau blynyddol yn ystod cyfnod rhybudd.

8. Yn ei datganiadau ariannol yn 2020–21, dywed Llywodraeth Cymru ei fod wedi gwneud taliad yn lle rhybudd i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol. Fodd bynnag, mae datganiadau ariannol 2021-22 yn disgrifio'r taliad hwn fel taliad diswyddo arbennig, yn hytrach na dwyn dyddiad ymadael y cyn-Ysgrifennydd Parhaol ymlaen.

9. Penododd Llywodraeth Cymru y cyn-Ysgrifennydd Parhaol (a oedd yn aelod parhaol o'r Uwch Wasanaeth Sifil) i'r swyddogaeth honno ym mis Chwefror 2017 ar gytundeb llawn amser pum mlynedd. Dywed Llywodraeth Cymru ei bod wedi cytuno ar newidiadau i drefniadau gweithio y cyn-Ysgrifennydd Parhaol yn 2018, ac eto yn 2019.

10. Nid wyf wedi gallu cael digon o dystiolaeth archwilio priodol am drefniadau gwaith y cyn-Ysgrifennydd Parhaol o fis Ebrill 2018, y ffeithiau ynghylch sail y taliad ar adeg y taliad ac, o ganlyniad i hynny, a oedd gan y cyn-Ysgrifennydd Parhaol hawl i dderbyn taliad o £80,519. Nid wyf wedi gallu cadarnhau:

- y sail y gwnaed y taliad arni;
- sut y cyfrifwyd y taliad;
- a oedd rhwymedigaeth ar Lywodraeth Cymru i wneud y taliad cyfan neu elfennau ohono; ac
- a ddylid cynnwys y taliad cyfan yn natganiadau ariannol 2021-22 Llywodraeth Cymru.

11. Nid wyf wedi gallu cadarnhau'r sail ar gyfer y taliad na natur y taliad ac nid wyf wedi gallu dod i'r casgliad a oedd y taliad wedi ei awdurdodi'n iawn.

## Mater arall: Datganiad Llywodraethu—taliad a wnaed i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol

12. Rwyf wedi cynnwys datganiad Mater Arall yn fy nhystysgrif archwilio sy'n nodi fy marn, mewn cysylltiad â'r taliad a wnaed i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol, nad yw rhannau o'r Datganiad Llywodraethu yn gyson â'm gwybodaeth am yr archwiliad.

13. Mae'r Datganiad Llywodraethu yn cyfeirio at y taliad a wnaed i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol gan nodi bod Llywodraeth Cymru yn credu'n gryf na chafodd y cyn-Ysgrifennydd Parhaol unrhyw beth nad oedd ganddi hawl iddo a bod y taliad wedi ei wneud yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Fodd bynnag, ni chefnogir yr esboniad hwn gan dystiolaeth gyfoes. I'r graddau y mae dogfennaeth gyfoes yn bodoli mewn cysylltiad â'r taliad hwn, nid yw'n cefnogi'r sylwebaeth a nodir yn y Datganiad Llywodraethu.

## Gwelliannau i'r fframwaith llywodraethu cyffredinol ar gyfer tâl uwch-swyddogion

14. Yn ogystal â'r materion a amlygir ar gyfer y cyn-Ysgrifennydd Parhaol, rwyf hefyd wedi nodi meysydd i'w gwella ynghylch y fframwaith trosfwaol a phrosesau a pholisïau cynhaliol ar gyfer tâl Uwch Wasanaeth Sifil er mwyn gwella llywodraethu a thryloywder. Rwyf yn cydnabod nad yw holl delerau ac amodau yr Uwch Wasanaeth Sifil, gan gynnwys y gorchwyl cyflog wedi eu dirprwyo i Lywodraeth Cymru, ond mae'n bwysig, pan fo penderfyniadau sy'n gysylltiedig â chyflogau Uwch Wasanaeth Sifil yn cael eu gwneud, eu bod yn dryloyw ac yn cael eu cefnogi gan lywodraethu cryf, gan gynnwys yr angen am fframwaith dirprwyaethau clir a dogfennol.

15. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod angen gwaith yn y maes hwn yn ei Datganiad Llywodraethu ac mae'n bwriadu gweithredu'r newidiadau, gyda goruchwyliaeth gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a gefnogir gan y Prif Swyddog Cyfrifyddu.

## Cymhwyso'r farn reoleidd-dra ynghylch rhwymedigaethau treth pensiwn Clinigwyr y GIG

16. Nid yw cynllun Pensiwn y GIG a deddfwriaeth treth pensiwn wedi eu datganoli i Gymru. Roedd newidiadau Trysorlys EF i'r trefniadau treth mewn cysylltiad â chyfraniadau pensiwn dros y blynyddoedd diwethaf yn cynnwys y gostyngiad yn y terfyn Lwfans Blynyddol o dros £200,000 yn 2011-12 i £40,000 yn 2018-19. O ganlyniad i hyn, mewn achosion pan fo cyfraniadau pensiwn unigolyn yn fwy na'r terfynau lwfans penodol ar gyfer cyfraniadau pensiwn blynyddol a / neu oes, cânt eu trethu ar eu holl gyfraniadau ar gyfradd uwch, sy'n creu cynnydd sydyn mewn atebolrwydd treth.

17. Mewn Datganiad Ysgrifenedig ar 13 Tachwedd 2019, roedd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi nodi bod cyrff GIG Cymru: 'yn rhoi gwybod yn rheolaidd nad yw uwch staff clinigol yn fodlon cymryd gwaith a sesiynau ychwanegol oherwydd yr atebolrwydd treth gosbol bosibl'. Mewn rhai amgylchiadau, gallai hyn arwain at daliadau treth ychwanegol sy'n fwy nag unrhyw incwm ychwanegol a enillir.

18. Ar 18 Rhagfyr 2019, cyhoeddodd y Prif Weinidog (gan adlewyrchu camau cynharach yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr) Gyfarwyddyd Gweinidogol i'r Ysgrifennydd Parhaol yn dweud y dylid bwrw ymlaen â chynlluniau i ymrwymo i wneud taliadau i staff clinigol er mwyn adfer gwerth eu pecynnau budd-daliadau pensiwn. Pe byddai clinigwyr GIG yn dewis defnyddio cyfleuster 'Cynllun yn Talu' i setlo taliadau treth lwfans blynyddol sy'n deillio o'u cynilion

pensiwn GIG 2019-20 (h.y. setlo'r tâl trwy bensiwn blynyddol is yn hytrach na thrwy wneud un taliad ar unwaith), yna byddai eu cyflogwyr yn talu effaith y taliadau treth hynny ar eu pensiwn pan fyddant yn ymddeol. Llywodraeth Cymru fydd yn talu'r holl gostau cysylltiedig.

19. Roedd y Cyfarwyddyd Gweinidogol yn ofynnol oherwydd y gallai CThEF ystyried bod yr ateb hwn yn gyfystyr â chynllunio trethi ac osgoi trethi o bosibl, gan wneud y gwariant yn afreolaidd. Mae Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru (sy'n adlewyrchu'r hyn sy'n cyfateb iddo yn Lloegr) yn nodi'n benodol 'na ddylai sefydliadau'r sector cyhoeddus gymryd rhan mewn… efadu trethi, osgoi trethi na chynllunio trethi'.

20. Nid yw Cyfarwyddyd Gweinidogol yn gwneud yn rheolaidd yr hyn a fyddai yn afreolaidd fel arall, ond mae'n symud yr atebolrwydd am benderfyniadau o'r fath oddi wrth y Swyddog Cyfrifyddu i'r Gweinidog sy'n cyhoeddi'r Cyfarwyddyd.

21. Dim ond i daliadau treth lwfans blynyddol sy'n codi o gynnydd yn y buddion a ddeilliodd yng Nghynllun Pensiwn y GIG yn ystod y flwyddyn dreth a ddaeth i ben ar 5 Ebrill 2020 y mae'r ateb yn berthnasol. Ar gyfer y flwyddyn dreth a ddaeth i ben ar 5 Ebrill 2021, cynyddodd y Canghellor y trothwyon ar gyfer y lwfans blynyddol wedi'i ohirio ac, o ganlyniad i hynny, rhagwelir bod y risg i'r cyflenwad o staff clinigol wedi ei liniaru.

22. Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cael digon o wybodaeth i gyfrifo a chydnabod amcangyfrif o gostau posibl digolledu uwch-staff clinigol am fudd-daliadau pensiwn y byddent wedi eu colli fel arall, gan ddefnyddio'r trefniant 'Cynllun yn Talu'. O ganlyniad i hynny, mae gwariant wedi ei gydnabod fel darpariaeth, fel y dangosir yn Nodyn 11 o'r datganiadau ariannol. Yn fy marn i, mae'r trafodiadau a gynhwysir yn y datganiadau ariannol yn afreolaidd ac yn berthnasol eu natur, oherwydd bod y taliadau'n groes i baragraff 5.6.1 o Reoli Arian Cyhoeddus ac maent yn fath o gynllun treth a fydd yn gadael y Trysorlys mewn sefyllfa waeth ar y cyfan. Hefyd, mae'r trefniadau'n newydd ac yn ddadleuol a gallent osod cynsail. O ganlyniad i hynny, rwyf wedi cymhwyso fy marn ar reoleidd-dra ar gyfer 2021-22.

*Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn ar eu ffurf wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw hwn. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hwn, ac nid Archwilydd Cyffredinol Cymru.*

**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
12 Rhagfyr 2022

# Rhan 3

## Datganiadau Ariannol

Mae'r datganiadau ariannol hyn yn cynnwys Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig, Gwasanaethau Arloesi Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru o 1 Ebrill 2021 fel cyrff sydd newydd eu cyfuno.

### Datganiad Cyfunol o Lifoedd Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

| | Nodyn | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC (wedi'i ailddatgan) £m | Grŵp LIC (wedi'i ailddatgan) £m |
| Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau | 2 | (39) | (211) | (41) | (64) |
| Incwm gweithredu arall | 2 | (537) | (910) | (449) | (762) |
| **Cyfanswm incwm gweithredu** | | **(576)** | **(1,121)** | **(490)** | **(826)** |
| Costau staff | 3 | 353 | 5,575 | 339 | 5,157 |
| Gwariant | 3 | 20,604 | 15,521 | 22,409 | 17,826 |
| Cost darpariaeth | 3 | 467 | 535 | 194 | 244 |
| **Cyfanswm gwariant gweithredol** | | **21,424** | **21,631** | **22,942** | **23,227** |
| **Gwariant net am y flwyddyn** | | **20,848** | **20,510** | **22,452** | **22,401** |
| **Gwariant net cynhwysfawr arall:**<br>Eitemau na chânt eu hailddosbarthu i gostau gweithredol net: | | | | | |
| (Elw)/colled net ar ailbrisio eiddo, offer, cyfarpar a buddsoddiadau | | (1,899) | (1,432) | (58) | (330) |
| (Elw)/colled actiwaraidd ar rwymedigaethau cynlluniau pensiwn[1] | | (25) | (56) | (19) | (13) |
| **Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **18,924** | **19,022** | **22,375** | **22,058** |

[1] Ailddatgan i gywiro arwyddion ar gyfer datgelu, dim effaith drwy weddill y prif ddatganiadau na'r nodiadau i'r cyfrifon.

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 219 i 267 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad wedi'i Gyfuno o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2022

| | Nodyn | Ar 31 Mawrth 2022 | | Ar 31 Mawrth 2021 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| **Asedau anghyfredol:** | | | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 4 | 20,062 | 26,822 | 18,025 | 24,610 |
| Asedau anniriaethol | 5 | 38 | 111 | 22 | 76 |
| Asedau ariannol | 6 | 8,006 | 6,568 | 6,177 | 4,798 |
| Symiau derbyniadwy trwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill | 8 | 23 | 182 | 18 | 227 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **28,129** | **33,683** | **24,242** | **29,711** |
| **Asedau cyfredol:** | | | | | |
| Asedau sydd wedi'u dosbarthu fel rhai i'w gwerthu | | - | 1 | - | 2 |
| Asedau ariannol | 6 | 179 | 179 | 168 | 168 |
| Stocrestrau | 7 | 204 | 358 | 201 | 376 |
| Symiau derbyniadwy trwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill | 8 | 322 | 608 | 221 | 390 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 9 | 161 | 1,482 | 640 | 1,828 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **866** | **2,628** | **1,230** | **2,764** |
| **Cyfanswm asedau** | | **28,995** | **36,311** | **25,472** | **32,475** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** | | | | | |
| Symiau taladwy trwy fasnach a symiau taladwy eraill | 10 | (2,207) | (3,619) | (2,140) | (3,352) |
| Darpariaethau | 11 | (362) | (412) | (329) | (378) |
| Rhwymedigaethau eraill | 13 | - | (1) | - | (2) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **(2,569)** | **(4,032)** | **(2,469)** | **(3,732)** |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **26,426** | **32,279** | **23,003** | **28,743** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol:** | | | | | |
| Symiau taladwy trwy fasnach a symiau taladwy eraill | 10 | (142) | (377) | (76) | (146) |

## Datganiad wedi'i Gyfuno o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2022 (Parhad)

| | Nodyn | Ar 31 Mawrth 2022 | | Ar 31 Mawrth 2021 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Craidd LIC £m** | **Grŵp LIC £m** | **Craidd LIC £m** | **Grŵp LIC £m** |
| Darpariaethau | 11 | (1,270) | (1,319) | (977) | (1,032) |
| Rhwymedigaethau eraill | 13 | (22) | (45) | (47) | (96) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **(1,434)** | **(1,741)** | **(1,100)** | **(1,274)** |
| **Cyfanswm asedau, llai cyfanswm rhwymedigaethau** | | **24,992** | **30,538** | **21,903** | **27,469** |
| **Ecwiti trethdalwyr a chronfeydd wrth gefn eraill** | | | | | |
| Cronfa gyffredinol | | 13,446 | 16,885 | 12,274 | 15,211 |
| Cronfa ailbrisio wrth gefn | | 11,546 | 13,653 | 9,629 | 12,258 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **24,992** | **30,538** | **21,903** | **27,469** |

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 219 i 267 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**Dr Andrew Goodall CBE**
**Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu**
12 Rhagfyr 2022

## Datganiad Cyfunol o Lifoedd Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

| | Nodyn | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau gweithredu:** | | | | | |
| Gwariant gweithredu net | | (20,848) | (20,510) | (22,452) | (22,401) |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd | 11 | (141) | (209) | (119) | (152) |
| Addasiadau ar gyfer trafodiadau nad ydynt yn arian parod | | (232) | 216 | 1,035 | 1,297 |
| Symudiadau mewn cyfalaf gweithio heblaw arian parod | 14 | 361 | 389 | 601 | 765 |
| Incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | | - | - | - | - |
| Arall | | (1) | 41 | (24) | (18) |
| **(All-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(20,861)** | **(20,073)** | **(20,959)** | **(20,509)** |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau buddsoddi:** | | | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | | (374) | (1,130) | (278) | (849) |
| Prynu asedau anniriaethol | | (10) | (35) | (3) | (24) |
| Enillion yn sgil gwaredu eiddo offer a chyfarpar | | 9 | 16 | 4 | 13 |
| Enillion yn sgil gwaredu asedau datblygu | | 1 | 1 | 4 | 4 |
| Prynu asedau datblygu | | (12) | (12) | (21) | (21) |
| Rhoi benthyciadau a buddsoddiadau | | (1,260) | (1,190) | (1,743) | (1,214) |
| Ad-dalu benthyciadau | | 303 | 252 | 170 | 205 |
| **(All-lif) arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(1,343)** | **(2,098)** | **(1,867)** | **(1,886)** |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau ariannu:** | | | | | |
| O Gronfa Gyfunol Cymru | | 21,734 | 21,734 | 23,364 | 23,364 |
| Ychwanegiadau Grant Gohiriedig yr UE | | - | 44 | - | 17 |
| Buddiant lleiafrifol | | - | - | - | - |
| PFI a threfniadau consesiynau gwasanaeth eraill/Elfen gyfalaf y les cyllid | | (10) | 38 | (10) | (2) |
| **Cyllido net** | | **21,724** | **21,816** | **23,354** | **23,379** |

## Datganiad Cyfunol o Lifoedd Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 (Parhad)

| | Nodyn | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| **Cynnydd (gostyngiad net) mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod cyn addasiadau ar gyfer derbyniadau a thaliadau i Gronfa Gyfunol Cymru** | | **(480)** | **(355)** | **528** | **984** |
| Incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | | 1 | 1 | 5 | 5 |
| Balansau arian parod Cyrff sydd newydd eu Cyfuno | | - | 8 | - | - |
| **Cynnydd / (gostyngiad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod ar ôl addasiadau ar gyfer derbyniadau a thaliadau i Gronfa Gyfunol Cymru** | **9** | **(479)** | **(346)** | **533** | **989** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn** | 9 | **640** | **1,828** | **107** | **839** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | 9 | **161** | **1,482** | **640** | **1,828** |

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 219 i 267 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr

| Grŵp Llywodraeth Cymru | Cronfa Gyffredinol £m | Cronfa Ailbrisio wrth Gefn £m | Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn £m |
|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | **14,517** | **12,154** | **26,671** |
| Cyrff sydd newydd gael eu cyfuno | - | - | - |
| Cronfa Gyfunol Cymru – cyllid | 23,364 | - | 23,364 |
| Cronfa Gyfunol Cymru (yn daladwy) / addasiad derbyniadwy[1] | (411) | - | (411) |
| Gwariant net am y flwyddyn | (22,401) | - | (22,401) |
| Enillion a cholledion ailbrisio | - | 330 | 330 |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | 226 | (226) | - |
| Addasiadau eraill[1] | (84) | - | (84) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **15,211** | **12,258** | **27,469** |
| Cyrff sydd newydd gael eu cyfuno | 5 | - | 5 |
| Cronfa Gyfunol Cymru – ariannu | 21,734 | - | 21,734 |
| Cronfa Gyfunol Cymru (yn daladwy) / addasiad derbyniadwy[2] | 323 | - | 323 |
| Gwariant net am y flwyddyn | (20,510) | - | (20,510) |
| Enillion a cholledion ailbrisio | - | 1,424 | 1,424 |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | 29 | (29) | - |
| Addasiadau eraill | 93 | - | 93 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | **16,885** | **13,653** | **30,538** |

| Craidd Llywodraeth Cymru | Cronfa Gyffredinol £m | Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn £m | Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn £m |
|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | **11,634** | **9,778** | **21,412** |
| Cronfa Gyfunol Cymru – ariannu | 23,364 | - | 23,364 |
| Cronfa Gyfunol Cymru (yn daladwy) / addasiad derbyniadwy[1] | (411) | - | (411) |
| Cost gweithredu net am y flwyddyn | (22,452) | - | (22,452) |
| Enillion a cholledion ailbrisio | - | 58 | 58 |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | 207 | (207) | - |
| Addasiadau eraill[1] | (68) | - | (68) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **12,274** | **9,629** | **21,903** |

| Craidd Llywodraeth Cymru | Cronfa Gyffredinol £m | Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn £m | Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn £m |
|---|---|---|---|
| Cronfa Gyfunol Cymru – ariannu | 21,734 | - | 21,734 |
| Cronfa Gyfunol Cymru (yn daladwy) / addasiad derbyniadwy[2] | 323 | - | 323 |
| Cost gweithredu net am y flwyddyn | (20,848) | - | (20,848) |
| Enillion a cholledion ailbrisio | - | 1,899 | 1,899 |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | (18) | 18 | - |
| Addasiadau eraill | (19) | - | (19) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | **13,446** | **11,546** | **24,992** |

[1] Yn 2021-22, i wella'r dadansoddiad, mae'r symudiad o ran symiau taladwy neu dderbyniadwy Cronfa Gyfunol Cymru ar gyfer cyllid a dynnwyd i lawr wedi'i symud i linell ar wahân, allan o'r llinell 'Addasiadau eraill'. Mae dadansoddiad y flwyddyn flaenorol wedi cael ei ailgyflwyno.

[2] Mae addasiad symiau (taladwy)/derbyniadwy Cronfa Gyfunol Cymru yn cynnwys cyllid a dynnwyd ond na wariwyd yn y flwyddyn flaenorol sef £411m (2020-21: £dim) a chyllid a dynnwyd ond na wariwyd yn 2021-22 sef £88m. (2020-21: £411m).

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 219 i 267 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau ar y cyfrifon

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Mae'r Datganiadau Ariannol cyfunol wedi'u paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM). Mae'r polisïau cyfrifyddu yn FReM yn cymhwyso'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y mabwysiadir neu y dehonglir hwy ar gyfer cyd-destun sector cyhoeddus. Os yw FReM yn caniatáu dewis o bolisïau cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y bernir ei fod fwyaf priodol i amgylchiadau penodol Llywodraeth Cymru at ddibenion rhoi golwg gywir a theg. Disgrifir y polisïau penodol sydd wedi'u mabwysiadu gan Lywodraeth Cymru (ar gyfer y gweithgarwch adroddadwy) yn Atodiad A neu fel troednodiadau i'r nodyn perthnasol. Maent wedi'u cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau y bernir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratoir o dan IFRS, mae FReM hefyd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru baratoi prif ddatganiadau ychwanegol. Mae'r Crynodeb o Alldro Adnoddau sy'n dangos alldro gwirioneddol yn erbyn y gyllideb a nodiadau ategol sy'n cysoni alldro i gost weithredol net, ac adnoddau i'r gofyniad am arian parod, wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Atebolrwydd.

### 1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol, wedi'i addasu i gyfrif am ailbrisio eiddo buddsoddi, eiddo, offer a chyfarpar a rhai asedau a rhwymedigaethau ariannol.

### 1.2 Sail Cyfuno

Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu'r asedau a'r rhwymedigaethau cyfunol a chanlyniadau endidau o fewn ffin gyfrifyddu Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfuno. Mae'r ffin gyfrifyddu ar gyfer cyfuno yn cynnwys ymgymeriadau is-gorff fel sy'n ofynnol o dan FReM, lle y'u dynodir i'w cyfuno trwy offeryn statudol, a lle maent yn uwch na throthwy de minimis i fod yn berthnasol.

Bydd yr holl endidau o fewn grŵp is-gwmni yn cael eu cyfuno:

- Os yw rhiant-endid y grŵp is-gwmni yn destun gorchymyn dynodi sy'n berthnasol ar gyfer y flwyddyn ariannol;
- Os yw'r grŵp is-gwmni yn ei gyfanrwydd yn uwch na'r trothwy cyfuno de minimis ar gyfer perthnasedd.

Mae'r ffin gyfrifyddu ar gyfer cyfuno hefyd yn cynnwys ymgymeriadau is-gwmni sy'n uwch na'r trothwy de minimis a oedd wedi'i gyfuno ar sail Safonau Cyfrifyddu Grŵp IFRS cyn i Orchmynion Dynodi gael eu cyflwyno yng Nghymru (yn effeithiol o 2017-18), ac nad yw'r broses ddynodi wedi dod i ben eto ar eu cyfer. Diben hyn yw cadw cysondeb yn achos cyflwyniad cyfuno'r Grŵp tra bo prosiect alinio Llywodraeth Cymru'n mynd rhagddo.

Ers i Orchmynion Dynodi gael eu cyflwyno, dim ond os ydynt wedi'u dynodi ac os ydynt yn berthnasol y mae endidau yn cael eu hychwanegu at y ffin gyfrifyddu ar gyfer cyfuno.

Mae is-gwmnïau yn cael eu cyfuno o gyfrifon drafft os nad oes cyfrifon terfynol ar gael. Caiff trafodiadau rhwng endidau a gynhwysir yn y cyfuno eu dileu.

Darperir gwybodaeth bellach am yr endidau o fewn y ffin gyfuno yn yr Adroddiad Blynyddol sy'n cyd-fynd â'r cyfrifon hyn; gweler tudalennau 75 i 79.

### 1.3 Cyfnod Pontio'r UE

Ar 29 Mawrth 2017, cyflwynodd Llywodraeth y DU hysbysiad o'i bwriad i ymadael â'r UE yn unol ag Erthygl 50. Ar 31 Ionawr 2020, daeth y Cytundeb Ymadael rhwng y DU a'r UE yn gyfreithiol rwymol a gadawodd y DU yr UE. Daeth y cyfnod pontio i ben ar 31 Rhagfyr 2020, gyda Chytundeb Masnach a Chydweithredu'r UE-DU yn dod yn gymwys dros dro o 1 Ionawr 2021, ac yn dod i rym o 1 Mai 2021. Nid oes unrhyw rwymedigaethau ariannol pendant ar Lywodraeth Cymru o ganlyniad i'r Cytundeb.

## 2. Incwm Gweithredu

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| **Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau:** | | | | |
| Incwm o eiddo a buddsoddiadau | 32 | 32 | 39 | 39 |
| Arall | 7 | 179 | 2 | 25 |
| | **39** | **211** | **41** | **64** |
| **Incwm gweithredu arall nad yw'n incwm yr UE:** | | | | |
| Incwm iechyd[1] | 153 | 496 | 86 | 357 |
| Arall | 18 | 19 | 45 | 62 |
| | **171** | **515** | **131** | **419** |
| **Incwm gweithredu arall yr UE:** | | | | |
| Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd | 282 | 311 | 241 | 266 |
| Polisi Amaethyddol Cyffredin | 76 | 76 | 71 | 71 |
| Incwm arall yr UE | 8 | 8 | 6 | 6 |
| | **366** | **395** | **318** | **343** |
| | **576** | **1,121** | **490** | **826** |

[1] Yn gynwysedig o fewn 'incwm iechyd' Incwm Gweithredu Craidd nad yw'n Incwm yr UE mae £99.4m (2020-21: £34.9m) o incwm mewn perthynas â derbyn nwyddau traul COVID-19 gan gynnwys brechlynnau, pecynnau profion llif unffordd a meddyginiaethau a drosglwyddwyd i Lywodraeth Cymru o Adrannau eraill Llywodraeth y DU, heb unrhyw gost ynghlwm wrthynt, fel rhan o ymateb ehangach i'r pandemig COVID-19 a dosbarthu rhai cyflenwadau penodol a gaffaelwyd gan Lywodraeth y DU.

## 3. Gwariant

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| **Gwariant** | | | | |
| Grantiau[3] | 20,834 | 10,613 | 21,177 | 11,509 |
| Nwyddau a gwasanaethau[2] | 444 | 5,191 | 335 | 5,177 |
| Rhentu o dan lesoedd gweithredu | 17 | 19 | 18 | 18 |
| Costau staff | 353 | 5,575 | 339 | 5,157 |
| PFI a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill | 7 | 16 | 12 | 21 |
| Dileadau polisi benthyciadau i fyfyrwyr | 26 | 26 | 21 | 21 |
| (Enillion)/colledion gwerth teg net ar asedau ariannol yn ôl gwerth teg drwy SOCNE[1] | (942) | (904) | 295 | 288 |
| Dibrisiant Asedau Sefydlog | 203 | 545 | 233 | 449 |
| Amorteiddio | 9 | 29 | 8 | 23 |
| Asedau rhodd ac asesedau a roddwyd gan y llywodraeth | - | (7) | - | (10) |
| Amhariadau | 12 | 4 | 303 | 318 |
| (Elw)/Colled ar warediadau | (3) | (14) | 6 | 6 |
| Cyllid Pensiwn | (2) | 4 | (3) | 2 |
| Rhyddhau grant yr UE | (1) | (1) | (1) | (1) |
| Darpariaeth dyledion drwg | - | - | 5 | 5 |
| | **20,957** | **21,096** | **22,748** | **22,983** |
| **Darpariaethau** | | | | |
| Cynnydd yn nifer y darpariaethau | 467 | 535 | 194 | 244 |
| | **21,424** | **21,631** | **22,942** | **23,227** |

[1] Mae Benthyciadau i Fyfyrwyr ac Asedau Ariannol Cymorth i Brynu – Cymru yn cael eu mesur fel gwerth teg drwy ddatganiad o wariant net cynhwysfawr. Mae'r rhan fwyaf o'r enillin gwerth teg a adroddwyd ar gyfer y flwyddyn 2021-22 yn ymwneud â benthyciadau i fyfyrwyr, a cheir rhagor o fanylion am hyn yn Nodyn 6.

[2] Wedi'u cynnwys o fewn Nwyddau a Gwasanaethau Craidd mae £98.5m (2020-21: £26.8m) o wariant mewn perthynas â defnyddio nwyddau traul COVID-19 gan gynnwys brechlynnau, citiau profion llif unffordd a meddyginiaethau a drosglwyddwyd i Lywodraeth Cymru o Adrannau eraill Llywodraeth y DU, heb unrhyw gost ynghlwm wrthynt, fel rhan o ymateb ehangach i'r pandemig COVID-19 a dosbarthu rhai cyflenwadau penodol a gaffaelwyd gan Lywodraeth y DU.

[3] Mae gwariant ar grantiau yn cynnwys £764m (2020-21: £1,825m) mewn perthynas â thrafodiadau ag Awdurdodau Lleol ar gyfer cynlluniau COVID-19 a gyfrifwyd drwy asiantaethau.

Gweithiodd Llywodraeth Cymru gydag Awdurdodau Lleol i gyflenwi'r grantiau neu'r meysydd cymorth ariannol canlynol i fusnesau ac unigolion gan fod Awdurdodau Lleol yn meddu ar yr wybodaeth a'r gallu lleol i roi systemau ar waith yn gyflym ac yn effeithlon i wneud taliadau.

- Rhyddhad Ardrethi Annomestig
- Grantiau Cymorth i Fusnesau ar gyfer effeithiau'r pandemig a'r adferiad yn ei sgil
- Y Cynllun Ychwanegiad at Dâl Salwch Statudol
- Y Cynllun Bonws i Weithwyr Gofal Cymdeithasol
- Y Cynllun Cymorth Hunanynysu
- Y Cynllun Gofalwyr Di-dâl
- Y Cynllun Cymorth Costau Byw
- Cynllun Cymorth Tanwydd y Gaeaf
- Taliad ychwanegol y Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer Gofal Cymdeithasol

Mae'r cynlluniau hyn wedi'u hasesu o dan adran 2.6 (Prif Drafodiadau a Thrafodiadau Asiantau) Cod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol (gweler Atodiad B) ac yn unol â dehongliad perthnasol o IFRS 15 – Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid.

Llywodraeth Cymru yw'r prif arferydd yn y trefniadau hyn ac mae wedi cydnabod y costau llawn a ysgwyddwyd ar gyfer y cynlluniau gan Awdurdodau Lleol yn 2021-22.

## Costau Staff

Mae dadansoddiad llawn o gostau staff, gan gynnwys niferoedd staff a gwybodaeth gysylltiedig, wedi'i ddarparu yn yr Adroddiad Atebolrwydd yn y ddogfen hon ar dudalennau 184 i 185.

## Ffioedd Archwilio

Y swm sy'n daladwy i Archwilydd Cyffredinol Cymru am roi barn am ddatganiadau ariannol cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 yw £430,000 (2020-21: £395,000, mae'r gwerth hwn cyn yr anfoneb olaf mewn perthynas ag archwiliad 2020-21 o gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru, felly mae'n bosibl y bydd y swm sy'n daladwy yn newid). Mae hwn wedi'i gynnwys yn y Nwyddau a Gwasanaethau a ddatgelir uchod. Cynhwysir uchod hefyd ffioedd a godir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â chyfrifon eraill a baratoir gan Weinidogion Cymru fel a ganlyn:

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 £ | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 £ |
|---|---|---|
| Cyfrif Cryno'r GIG | 31,000 | 30,000 |
| Cyfrif Ardrethi Annomestig Cenedlaethol | 9,000 | 8,700 |
| Cyfrif y Llywodraeth Gyfan | 14,400 | 13,734 |
| Cronfa Gyfunol Cymru | 20,000 | 19,000 |

Datgelir ffioedd archwilio cyrff cyfunol o fewn eu cyfrifon unigol.

# 4. Eiddo, offer a chyfarpar

| | Asedau Seilwaith[1] £m | Tir £m | Adeiladau gan gynnwys Anheddau £m | Offer a Chyfarpar[2] £m | Taliadau ar gyfrif ac asedau sy'n cael eu hadeiladu £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 22,427 | 427 | 2,855 | 1,170 | 1,184 | 28,063 |
| Cyrff sydd newydd gael eu cyfuno | - | - | - | - | - | - |
| Ychwanegiadau | 160 | 10 | 66 | 190 | 423 | 849 |
| Gwarediadau | (144) | (7) | (1) | (39) | (1) | (191) |
| Trosglwyddiadau | 3 | (4) | 4 | (2) | (63) | (62) |
| Amhariadau | - | (3) | (106) | (6) | (76) | (192) |
| Ailbrisiadau | 230 | (6) | 38 | - | - | 262 |
| Ailddosbarthwyd fel rhai i'w gwerthu | - | - | - | (5) | - | (5) |
| Ailddosbarthu | - | 3 | 456 | 28 | (516) | (29) |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **22,676** | **420** | **3,312** | **1,336** | **951** | **28,695** |
| **Dibrisiant am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 2,831 | - | 299 | 768 | 2 | 3,900 |
| Cyrff sydd newydd gael eu cyfuno | - | - | - | - | - | - |
| Codwyd tâl yn y flwyddyn | 229 | - | 104 | 116 | - | 449 |
| Gwarediadau | (143) | - | - | (39) | - | (182) |
| Trosglwyddiadau | - | - | - | - | - | - |
| Amhariadau | - | - | (10) | - | - | (10) |
| Ailbrisiadau | (64) | - | (4) | - | - | (68) |
| Ailddosbarthiadau | - | - | 2 | (4) | (2) | (4) |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **2,853** | **-** | **391** | **841** | **-** | **4,085** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2021** | **19,823** | **420** | **2,921** | **495** | **951** | **24,610** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2020 | 19,596 | 427 | 2,556 | 402 | 1,182 | 24,163 |
| **Ariannu asedau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2021** | | | | | | |
| Ym mherchnogaeth | 19,330 | 418 | 2,820 | 490 | 951 | 24,009 |
| Ar les o ran cyllid | - | - | 16 | 3 | - | 19 |
| PFI ar y fantolen a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill. | 493 | 2 | 85 | 2 | - | 582 |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **19,823** | **420** | **2,921** | **495** | **951** | **24,610** |

## 4. Eiddo, Offer a Chyfarpar (Parhad)

| | Asedau Seilwaith[1] £m | Tir £m | Adeiladau gan gynnwys Anheddau £m | Offer a Chyfarpar[2] £m | Taliadau ar gyfrif ac asedau sy'n cael eu hadeiladu £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 22,676 | 420 | 3,312 | 1,336 | 951 | 28,695 |
| Cyrff sydd newydd gael eu cyfuno | - | - | 1 | 139 | 95 | 235 |
| Ychwanegiadau | 160 | 5 | 58 | 178 | 740 | 1,141 |
| Gwarediadau | (139) | - | (2) | (75) | - | (216) |
| Trosglwyddiadau | - | - | 1 | 60 | (61) | - |
| Amhariadau | - | 1 | (2) | (9) | (9) | (19) |
| Ailbrisiadau | 1,690 | 7 | 63 | - | - | 1,760 |
| Ailddosbarthwyd fel rhai i'w gwerthu | - | - | - | (4) | - | (4) |
| Ailddosbarthu | - | - | 142 | 16 | (178) | (20) |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **24,387** | **433** | **3,573** | **1,641** | **1,538** | **31,572** |
| **Dibrisiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 2,853 | - | 391 | 841 | - | 4,085 |
| Cyrff sydd newydd gael eu cyfuno | - | - | - | 7 | - | 7 |
| Codwyd tâl yn y flwyddyn | 232 | - | 120 | 193 | - | 545 |
| Gwarediadau | (139) | - | - | (74) | - | (213) |
| Trosglwyddiadau | - | - | - | - | - | - |
| Amhariadau | - | - | (6) | - | - | (6) |
| Ailbrisiadau | 340 | - | (4) | - | - | 336 |
| Ailddosbarthiadau | - | - | - | (4) | - | (4) |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **3,286** | **-** | **501** | **963** | **-** | **4,750** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2022** | **21,101** | **433** | **3,072** | **678** | **1,538** | **26,822** |
| **Ariannu asedau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022** | | | | | | |
| Ym mherchnogaeth | 20,547 | 431 | 2,957 | 597 | 1,460 | 25,992 |
| Ar les o ran cyllid | - | - | 26 | 81 | - | 107 |
| PFI ar y fantolen a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill. | 554 | 2 | 89 | - | 78 | 723 |

## 4. Eiddo, Cyfarpar ac Offer (Parhad)

| | Asedau Seilwaith[1] £m | Tir £m | Adeiladau gan gynnwys Anheddau £m | Offer a Chyfarpar[2] £m | Taliadau ar gyfrif ac asedau sy'n cael eu hadeiladu £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **21,101** | **433** | **3,072** | **678** | **1,538** | **26,822** |
| **Adran graidd ar 31 Mawrth 2022** | **19,067** | **58** | **135** | **37** | **765** | **20,062** |
| **Cyrff Iechyd ac is-gwmnïau ar 31 Mawrth 2022** | **2,035** | **375** | **2,937** | **640** | **773** | **6,760** |
| Adran graidd ar 31 Mawrth 2021 | 17,215 | 52 | 136 | 40 | 582 | 18,025 |
| Cyrff iechyd ac is-gwmnïau ar 31 Mawrth 2021 | 2,608 | 368 | 2,785 | 455 | 369 | 6,585 |

[1] Teitl y golofn wedi'i newid ar gyfer cyflwyniad 2020-21 a 2021-22 i adlewyrchu'n well fod hyn yn cynnwys Asedau Rhwydwaith fel y nodir yn Nodyn 4.1 ar gyfer Rhwydweithiau Ffyrdd a Rheilffyrdd, ac asedau Seilwaith eraill fel yr ased Fibrespeed.

[2] Teitl y golofn wedi'i newid i Offer a Chyfarpar ar gyfer cyflwyniad 2020-21 a 2021-22 i adlewyrchu'n well fod hyn yn cynnwys Technoleg Gwybodaeth, Gosodiadau a Ffitiadau, Offer a Pheiriannau a Chyfarpar Trafnidiaeth.

### Tir ac Adeiladau, gan gynnwys Anheddau

Mae Tir ac Adeiladau, gan gynnwys anheddau a thir ac adeiladau rhydd-ddaliadol, sy'n cynnwys y rhai a ddelir ar lesoedd tir hir (99 mlynedd nodweddiadol neu ragor sy'n cyfateb i rydd-ddaliad) yn cael eu prisio gan gael eu hasesu ar sail gwerth teg/gwerth y farchnad at y defnydd presennol. O fewn y categori hwnnw, mae asedau arbenigol yn cael eu prisio drwy gyfeirio at ddull cost amnewid ddibrisiedig. Gwerth y farchnad sydd i asedau a ddelir i'w gwerthu.

Cynhelir prisiadau proffesiynol allanol bob pum mlynedd ar gyfer y rhan fwyaf o ystad Llywodraeth Cymru, ac yn flynyddol ar gyfer asedau penodol (sef, fel arfer, asedau yn y portffolio safleoedd strategol). Yn y blynyddoedd ariannol rhwng y prisiadau pum mlynedd ffurfiol, mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol yn cael eu prisio gan ddefnyddio'r mynegeion diweddaraf sydd ar gael ym mis Mawrth bob blwyddyn ariannol i ddarparu amcangyfrif rhesymol o brisiad. Fodd bynnag, pan fydd asedau'n cael eu caffael neu'n cael eu newid yn sylweddol, mae'n arferol bod prisiad cyfredol yn cael ei gomisiynu.

Cafodd y rhan fwyaf o dir ac adeiladau rhydd-ddaliadol Craidd Llywodraeth Cymru asesiad prisio pum mlynedd ar 31 Mawrth 2020, yn bennaf gan Syrfewyr Siartredig Avison Young. Paratowyd y prisiadau a oedd yn destun adolygiad blynyddol yn bennaf ar 28 Chwefror 2022 gan Alder King. Mae'r holl asedau wedi'u prisio yn unol â safonau RICS ar gyfer adrodd ariannol fel y'u cyhoeddwyd yn eu hatodiad ar gyfer y DU o'r safonau byd-eang (y Llyfr Coch).

Mae ffigurau Grŵp Llywodraeth Cymru'n cynnwys Tir ac Adeiladau'r Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG a gafodd eu hailbrisio gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio gyda dyddiad dod i rym o 1 Ebrill 2017. Mae'r prisiad wedi'i baratoi yn unol â thelerau safonau prisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, 6ed argraffiad. Mae Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn cymhwyso'r model ailbrisio a nodir yn IAS 16 fel y mae wedi'i addasu gan FReM.

Mae tir ac adeiladau nad ydynt yn arbenigol yn cael eu dal ar werth y farchnad at eu defnydd presennol; mae adeiladau arbenigol yn cael eu dal ar gost amnewid ddibrisiedig. Defnyddir mynegeio yn y blynyddoedd rhwng prisiadau pum mlynedd.

## 4.1 Asedau Rhwydwaith Eiddo, Offer a Chyfarpar

| | Rhwydwaith Ffyrdd £m | Asedau Rhwydwaith Y Rhwydwaith Rheilffyrdd £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 20,068 | 2,608 | 22,676 |
| Ychwanegiadau | 139 | 20 | 159 |
| Gwarediadau | (139) | - | (139) |
| Trosglwyddiadau | - | - | - |
| Amhariadau | - | - | - |
| Ailbrisiadau | 2,284 | (594) | 1,690 |
| Ailddosbarthwyd fel rhai i'w gwerthu | - | - | - |
| Ailddosbarthu | (36) | - | (36) |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **22,316** | **2,034** | **24,350** |
| **Dibrisiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 2,853 | - | 2,853 |
| Codwyd tâl yn y flwyddyn | 185 | 45 | 230 |
| Gwarediadau | (139) | - | (139) |
| Trosglwyddiadau | - | - | - |
| Amhariadau | - | - | - |
| Ailbrisiadau | 384 | (44) | 340 |
| Ailddosbarthiadau | (17) | - | (17) |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **3,266** | **1** | **3,267** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2022** | **19,050** | **2,033** | **21,083** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2021** | **17,215** | **2,608** | **19,823** |
| Adran graidd ar 31 Mawrth 2022 | 19,050 | - | 19,050 |
| Cyrff Iechyd ac is-gwmnïau ar 31 Mawrth 2022 | - | 2,033 | 2,033 |

### Rhwydwaith Ffyrdd

Mae rhwydwaith ffyrdd Llywodraeth Cymru yn cynnwys ffyrdd A mawr a elwir yn gefnffyrdd, a thraffyrdd.

Mae'n cael ei drin fel un ased seilwaith a chaiff ei brisio ar gost amnewid ddibrisiedig (DRC) gan ddefnyddio model System Prisio Asedau Awdurdodau Ffyrdd (RAAVS). Cynhaliwyd y prisiad llawn diwethaf o'r rhwydwaith yn 2019-20 ac fe'i cynhelir bob pum mlynedd. Mae prisiadau interim yn defnyddio cyfres o gostau safonol i brisio cydrannau unigol y rhwydwaith ffyrdd a mynegeion i ailbrisio'r rhain yn flynyddol.

Mae'r mynegeion allweddol ym mhrisiad y model RAAVS yn sensitif i ansicrwydd macroeconomaidd. Gallai amrywiadau yn y mynegeion hynny yn y dyfodol effeithio ar brisiad yr asedau hyn mewn cyfnodau adrodd dilynol.

Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd isod yn adlewyrchu'r effaith ar brisiad DRC yn sgil newid pwynt canran yn y mynegeion allweddol.

| | Cost Amnewid Ddibrisiedig (-) £m | Cost Amnewid Ddibrisiedig (+) £m |
|---|---|---|
| Mynegai Baxter – 1% / +1% | (178) | 178 |
| Mynegai BEAMA – 1% / +1% | (1) | 1 |

### Y Rhwydwaith Rheilffyrdd

Trafnidiaeth Cymru (TfW) sy'n rheoli'r ased rhwydwaith rheilffyrdd a elwir yn Llinellau Craidd y Cymoedd, sy'n cynnwys llinellau Aberdâr, Coryton, Merthyr Tudful, Rhymni a Threherbert. Mae'n cael ei drin fel un ased seilwaith ac yn cael ei brisio ar gost amnewid ddibrisiedig gan ddefnyddio model prisio a gafodd ei greu gan TfW gyda chymorth Atkins Limited (priswyr proffesiynol) gan ddefnyddio data a ddarparwyd gan TfW. Cynhaliwyd y prisiad llawn diwethaf o'r rhwydwaith ar 31 Mawrth 2022 a chaiff ei gynnal bob bum mlynedd. Mae prisiadau interim yn defnyddio cyfres o gostau safonol i brisio cydrannau unigol y rhwydwaith ffyrdd a mynegeion i ailbrisio'r rhain yn flynyddol.

Er mwyn cynhyrchu'r prisiad hwn mae angen defnyddio rhagdybiaethau, amcangyfrifon a chrebwyll proffesiynol. Ystyrir mai'r rhagdybiaethau allweddol yn y prisiad yw: gweddill bywydau asedau cydrannau'r rhwydwaith, addasiad iawndal tir a ffactor risg. Ceir manylion llawn y rhagdybiaethau hyn a'r ansicrwydd amcangyfrif yng nghyfrifon TfW.

Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd canlynol yn adlewyrchu'r ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif yn y prisiad, gan ddangos effaith newidiadau mewn rhagdybiaethau ar werth cyffredinol ased Llinellau Craidd y Cymoedd.

- Mae Senario 1 yn dangos effaith cynnydd neu leihad o 10% yng ngweddill bywydau asedau cydrannau'r rhwydwaith rheilffyrdd cyfatebol modern
- Mae Senario 2 yn dangos yr effaith pe bai'r addasiad iawndal tir (45% fel arfer) yn cynyddu neu'n lleihau 10%
- Mae Senario 3 yn dangos effaith addasiad i'r ffactor risg a gymhwysir i'r prisiadau DRC cyffredinol, sef 38% ar hyn o bryd, yn ôl cynnydd neu leihad o 10%.

| Math | Cost Amnewid Ddibrisiedig (-) | Cost Amnewid Ddibrisiedig (+) £m |
|---|---|---|
| Senario 1 | (143) | 143 |
| Senario 2 | (41) | 41 |
| Senario 3 | (104) | 104 |

Mae rhagor o wybodaeth am brisio a dibrisiant Asedau Rhwydwaith yn Atodiad A – Polisïau Cyfrifeg A.1 ac A.2.

# 5. Asedau Anniriaethol

| | Technoleg Gwybodaeth | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Ar 31 Mawrth 2022 | | Ar 31 Mawrth 2021 | |
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| **Cost neu brisiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill | 64 | 194 | 56 | 181 |
| Cyrff sydd newydd gael eu cyfuno | - | 12 | - | - |
| Ychwanegiadau | 10 | 35 | 3 | 24 |
| Gwarediadau | - | (17) | - | (18) |
| Ailddosbarthiadau | 15 | 19 | 5 | 7 |
| **Ar 31 Mawrth** | **89** | **243** | **64** | **194** |
| **Amorteiddio** | | | | |
| Ar 1 Ebrill | 42 | 118 | 34 | 114 |
| Cyrff sydd newydd gael eu cyfuno | - | - | - | - |
| Codwyd tâl yn y flwyddyn | 9 | 29 | 8 | 23 |
| Gwarediadau | - | (15) | - | (19) |
| Ailddosbarthiadau | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth** | **51** | **132** | **42** | **118** |
| **Gwerth Net y Llyfr ar 31 Mawrth** | **38** | **111** | **22** | **76** |
| Gwerth Net y Llyfr ar 1 Ebrill | 22 | 76 | 22 | 67 |

# 6. Asedau Ariannol – Buddsoddiadau a Benthyciadau

| | Benthyciadau i Fyfyrwyr £m | Difidend Cyfalaf Cyhoeddus Ymddiriedolaethau'r GIG £m | Asedau Ariannol Eraill £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | **3,495** | **-** | **913** | **4,408** |
| Cyrff sydd newydd gael eu cyfuno | - | - | - | - |
| Ychwanegiadau | 819 | - | 395 | 1,214 |
| Gwarediadau/Dileadau | - | - | (35) | (35) |
| Ad-daliadau benthyciadau | (135) | - | (104) | (239) |
| Amhariadau | - | - | (55) | (55) |
| Addasiad gwerth teg | - | - | (24) | (24) |
| Enillion gwerth teg net/ (colledion) ar asedau ariannol yn ôl gwerth teg trwy SOCNE (gweler nodyn 3 Gwariant)[2] | (330) | - | 36 | (294) |
| Dileadau polisi | (21) | - | - | (21) |
| Ailddosbarthu | - | - | - | - |
| Addasiadau | - | - | 12 | 12 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021**[1] | **3,828** | **-** | **1,138** | **4,966** |
| Cyrff sydd newydd gael eu cyfuno | - | - | - | - |
| Ychwanegiadau | 891 | - | 299 | 1,190 |
| Gwaredu/Dileadau | - | - | - | - |
| Ad-daliadau benthyciadau | (154) | - | (137) | (291) |
| Amhariadau | - | - | 7 | 7 |
| Addasiad gwerth teg | - | - | - | - |
| Enillion gwerth teg net/ (colledion) ar asedau ariannol ar sail gwerth teg trwy SOCNE (gweler nodyn 3 Gwariant)[2] | 928 | - | (24) | 904 |
| Llunio polisi | (26) | - | - | (26) |
| Ailddosbarthu | - | - | - | - |
| Addasiadau | - | - | (3) | (3) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022**[1] | **5,467** | **-** | **1,280** | **6,747** |
| **Craidd LlC yn unig** | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **5,467** | **223** | **2,495** | **8,185** |
| Ar 31 Mawrth 2021 | 3,828 | 222 | 2,295 | 6,345 |

[1] Yn gynwysedig yn y balans a gariwyd ymlaen mae £179m (2021: £168m) sy'n ddyledus ymhen blwyddyn.

[2] Mae benthyciadau i fyfyrwyr wedi'u mesur fel gwerth teg drwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae'r gwerth teg o £928m sy'n cael ei ennill ar fenthyciadau i fyfyrwyr ar werth teg yn 2021-22 i'w briodoli'n bennaf i'r newid yng nghyfradd disgownt Trysorlys EF sy'n berthnasol i offerynnau ariannol, a symudodd o plws 0.7 pwynt canran i minws 1.1 pwynt canran yn ystod y flwyddyn. Cynyddodd hyn werth cario'r balans benthyciadau i fyfyrwyr wrth i werth ad-daliadau benthyciadau i fyfyrwyr yn y dyfodol gynyddu, mewn termau real. Mae manylion pellach am fesur gwerth teg Benthyciadau i fyfyrwyr ac amlygiad i risgiau wedi'u nodi isod. Mae asedau ariannol Cymorth i Brynu – Cymru yn cael eu mesur fel gwerth teg drwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

### Gwerth enwol

Mae'r tabl isod yn rhoi cysoniad rhwng gwerth cario a gwerth enwol benthyciadau i fyfyrwyr a roddwyd.

| | Benthyciadau i fyfyrwyr £m |
|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | **5,329** |
| Ychwanegiadau | 819 |
| Ad-daliadau | (135) |
| Llog | 171 |
| Dileadau polisi | (21) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **6,163** |
| Ychwanegiadau | 891 |
| Ad-daliadau | (154) |
| Llog | 178 |
| Dileadau polisi | (26) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | **7,052** |
| | |
| **Addasiadau/amhariadau gwerth teg terfynol:** | |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **(1,585)** |
| Ar 31 Mawrth 2021 | (2,335) |
| | |
| **Gwerth cario:** | |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **5,467** |
| Ar 31 Mawrth 2021 | 3,828 |

Trafodir amlygiad y grŵp i risgiau amrywiol sy'n gysylltiedig â'r offerynnau ariannol yn y polisïau cyfrifyddu. Yr amlygiad mwyaf i risg credyd ar ddiwedd y cyfnod adrodd yw swm cario pob dosbarth o ased ariannol a grybwyllir uchod.

Mae'r dileadau polisi yn cynnwys symiau a ddilewyd gan y Cwmni Benthyciadau i fyfyrwyr mewn perthynas â chanslo'n rhannol, oedran, marwolaeth, methdaliad ac ati.

## 6.1 Benthyciadau i Fyfyrwyr

Mae benthyciadau i fyfyrwyr mewn addysg uwch ac addysg bellach yn tarddu o Lywodraeth Cymru ac yn cael eu cydnabod ganddi.

### Benthyciadau i fyfyrwyr

O dan IFRS 9, mae benthyciadau i fyfyrwyr yn cael eu categoreiddio ar sail gwerth teg trwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (SOCNE). Wrth bennu gwerth teg benthyciadau i fyfyrwyr, mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio model llif arian wedi'i ddisgowntio (gweler isod) sy'n cynnwys yr holl lifoedd arian parod disgwyliedig, gan gynnwys y llog y disgwylir iddo ddod i law. O ganlyniad, cydnabyddir un symudiad gwerth teg bellach yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr.

Wrth ystyried dibynadwyedd y mewnbynnau a ddefnyddir wrth benderfynu ar werth teg mae Benthyciadau i Fyfyrwyr wedi'u categoreiddio fel mewnbynnau lefel 3 o dan y safonau cyfrifyddu, a ddiffinnir fel hyn: *If one or more of the significant inputs is not based on observable market data, the instrument is included as level 3*. Mae gwerth teg benthyciadau i fyfyrwyr, felly, yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio model ariannu Llwybr Enillion Stochastic (StEP) a ddarperir gan Adran Addysg Llywodraeth y DU.

Cyfrifir gwerth teg benthyciadau newydd hefyd gan ddefnyddio'r model StEP sy'n defnyddio data am ddemograffeg myfyrwyr addysg uwch er mwyn darogan y tebygolrwydd y byddant yn ad-dalu benthyciadau. Mae sawl amrywiad o'r model, wedi'u haddasu ar gyfer benthycwyr sy'n cymryd gwahanol fathau o fenthyciadau: benthyciadau cyn 2012 ac ôl-2012 (benthyciadau Israddedig, Rhan-Amser a Meistr a Doethuriaeth Ôl-raddedig). Mae'r modelau i gyd yn dibynnu ar set gymhleth o ragdybiaethau, ac yn arbennig enillion benthycwyr. Modelau hirdymor yw'r rhain, ond maent yn defnyddio rhagolygon hirdymor a byrdymor diweddaraf (adeg y modelu) y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer RPI, cyfraddau sylfaenol a thwf enillion. Wrth eu natur, mae gwerth y llyfrau benthyciadau i fyfyrwyr yn ansicr gan eu bod yn dibynnu i raddau helaeth ar amgylchiadau macroeconomaidd ac enillion graddedigion dros y 30 mlynedd nesaf, yn ogystal â nifer o ragdybiaethau cymhleth eraill. Mae'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn y modelau ad-dalu'n cael eu hadolygu'n ffurfiol bob blwyddyn ac mae'r symiau a ddarperir ar hyn o bryd yn adlewyrchu'r amcangyfrif fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022.

### Newidynnau Allweddol

Disgrifir isod y **newidynnau** allweddol a'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn y model. Yn ogystal, mae sensitifrwydd gwerth llyfr net benthyciadau i fyfyrwyr, ar 31 Mawrth 2021, i bob newidyn wedi'i fesur:

**Cyfradd disgownt:** Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr egwyddorion o dan IAS 9 ac wedi defnyddio'r gyfradd uchaf sy'n perthyn i'r benthyciad myfyrwyr neu'r gyfradd fel y'i nodir ym mhapur diweddaraf PES, sef RPI minws 1.1% (2020-21: plws 0.7%). Hon yw cyfradd disgownt hirdymor Trysorlys Ei Fawrhydi sef cost benthyca hirdymor y Llywodraeth. Er i newid gael ei wneud ar gyfer 2021-22, anaml y mae hyn yn newid, ac mae unrhyw gynnydd yn y gyfradd disgownt yn gostwng gwerth cario benthyciadau i fyfyrwyr. Ar gyfer pob 0.1 pwynt canran y mae cyfradd disgownt Trysorlys EF yn cynyddu, bydd gwerth llyfr net y llyfr benthyciadau i  yfyrwyr yn gostwng £216.1m; bydd gostyngiad o 0.1 pwynt canran yn arwain at gynnydd o £220.2m.

**Chwyddiant RPI:** Mae'r model yn defnyddio cyfraddau RPI yn unol â rhagolygon tymor byr OBR (Hydref 2021) tan 2026-27 a phenderfynyddion economaidd hirdymor OBR o 2027-28 ymlaen. Mae'r rhagolwg RPI hirdymor yn sefydlogi ar gyfradd o 2.90% o 2040-41. Bydd RPI uwch yn cynyddu'r llog ar gyfer y mwyafrif o fenthyciadau, a fydd yn arwain at ostyngiad yn y swm cario. Mewn cyfnodau lle ceir lefel uchel o RPI, gellir galluogi darpariaethau deddfwriaethol i leihau'r uchafswm llog sy'n daladwy dros dro ar Gynllun 2 a Chynllun 3 benthyciadau i fyfyrwyr. Ar gyfer pob 1% o'r cynnydd a ragwelir yn yr RPI, bydd gwerth llyfr net y llyfr benthyciadau i fyfyrwyr yn gostwng £43.4m; bydd gostyngiad o 1% yn arwain at gynnydd o £44.3m yn y gwerth llyfr net.

**Enillion graddedigion:** Mae'r model yn rhagdybio y bydd twf enillion enwol cyfartalog byrdymor yn cydymffurfio â rhagolygon byrdymor OBR (Hydref 2021) tan 2026-27, ac â phenderfynyddion economaidd hirdymor OBR o 2027-28 ymlaen. Tybir bod twf enillion hirdymor ar gyfradd o 3.71% rhwng 2027-28 a 2035-36, a 3.83% o 2036-37. Bydd cynnydd mewn Enillion Graddedigion yn cynyddu gwerth cario benthyciadau i fyfyrwyr. Ar gyfer pob cynnydd o 1% mewn enillion graddedigion, bydd gwerth llyfr net y llyfr benthyciadau i fyfyrwyr yn cynyddu £48.9m; fodd bynnag, bydd gostyngiad o 1% yn arwain at ostyngiad o £44.1m yng ngwerth llyfr net benthyciadau i fyfyrwyr.

**Trothwy enillion graddedigion:** Ar 18 Hydref 2017 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'r trothwy ad-dalu ar gyfer pob benthyciad ar ôl 2012 yn cael ei gynyddu o £21,000pa i £25,000pa gydag effaith o 1 Ebrill 2018 ac y byddai'n cynyddu bob blwyddyn wedyn yn unol â thwf enillion. Ar gyfer 2020-21 y trothwy oedd £27,295pa. Ar gyfer benthyciadau cyn 2012, trothwy enillion 2021-22 oedd £19,895pa. Fel penderfyniad polisi, nid yw hyn wedi bod yn destun dadansoddiad sensitifrwydd.

**Dosbarthiad incwm graddedigion:** Mae'r model yn rhagdybio y bydd dosbarthiadau incwm graddedigion yn y dyfodol yn debyg i rai graddedigion yn y gorffennol ac fe'u seilir ar yr Arolwg o'r Llafurlu, Arolwg Panel Aelwydydd Prydain a data gweinyddol a ddelir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Nid yw hyn yn destun dadansoddiad sensitifrwydd.

**Dileu'n rhannol:** Mae dileu'n rhannol yn bolisi gan Lywodraeth Cymru sy'n gymwys i fenthyciadau cynnal a chadw, lle y gellir cymhwyso dilead o hyd at £1,500 wrth gael yr ad-daliad cyntaf yn erbyn y benthyciad os nad oes gan y myfyriwr unrhyw daliadau, costau, treuliau neu gosbau heb eu talu mewn perthynas â'r benthyciad neu os ydynt yn torri cytundeb y benthyciad. Fel penderfyniad polisi, nid yw hyn yn destun dadansoddiad sensitifrwydd.

**Cyfraddau sylfaen:** Mae'r model yn rhagdybio y bydd cyfraddau sylfaenol Banc Lloegr yn cyd-fynd â rhagolygon OBR (Hydref 2021) ar gyfer y gorwel a ragwelir i gyd. Cymhwysir cap cyfradd sylfaenol i gyfraddau llog Cynllun 1 pan fo'r gyfradd sylfaenol yn isel a'r gyfradd RPI yn gymharol uchel; bydd cynnydd yn y rhagolwg cyfradd sylfaenol yn cynyddu'r gwerth cario yn yr achos hwn. Ar gyfer pob 1% y mae'r gyfradd sylfaen yn cynyddu, bydd gwerth llyfr net y llyfr benthyciadau i fyfyrwyr yn cynyddu £1.8m; bydd gostyngiad o 1% yn arwain at ostyngiad o £1.8m.

Dengys data hanesyddol dros y deng mlynedd diwethaf sut mae newidiadau diweddar i dwf enillion, cyfraddau RPI a chyfraddau sylfaenol yn cymharu â'r lefelau presennol a'r rhagolygon hirdymor:

- Mae'r rhagdybiaeth OBR hirdymor ar gyfer **twf enillion** yn 3.83% ar hyn o bryd. Roedd rhagolygon yr OBR ar gyfer cyfartaledd y flwyddyn ariannol o dwf enillion yn 2021-22 yn 5.16% ar adeg y modelu; yn y deng mlynedd ariannol blaenorol, roedd ffigurau alldro'r ONS yn amrywio rhwng 1.23% a 3.13%.

- Mae'r rhagdybiaeth OBR hirdymor ar gyfer **RPI** ar hyn o bryd yn 2.90%. Roedd rhagolygon OBR ar gyfer RPI Mawrth yn 2021-22 yn 5.44% ar adeg y modelu; yn y deng mlynedd ariannol blaenorol, roedd ffigurau alldro'r ONS yn amrywio rhwng 0.90% a 3.60%.
- Y rhagdybiaeth OBR hirdymor ar hyn o bryd ar gyfer **cyfraddau sylfaen** yw y byddant yn codi i 4.10%. Ar adeg y modelu, roedd rhagolwg OBR ar gyfer y gyfradd sylfaen yn 0.13% ar gyfartaledd yn ystod 2021-22; yn y deng mlynedd ariannol blaenorol, roedd yr alldro'n amrywio rhwng 0.10% a 0.75%.

Defnyddir nifer o ragdybiaethau eraill yn y model, ond nid yw newid y rhain i ganlyniadau rhesymol eraill yn cael effaith sylweddol ar werth y llyfrau benthyciadau. Mae llawer o'r rhagdybiaethau yn annibynnol ar ei gilydd, er y gallent newid ar yr un pryd.

Mae data ar y newidynnau allweddol uchod, gan gynnwys data hanesyddol, i'w gweld wefannau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (www.ons.gov.uk); y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol(www.obr.uk); a Banc Lloegr (www.bankofengland.co.uk).

Mae gwybodaeth ystadegol am fenthyciadau i fyfyrwyr ar gael ar wefan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (y datganiad ystadegol diweddaraf: Student Loans in Wales: 2021 to 2022 – GOV.UK (www.gov.uk)).

## 6.2 Cyfalaf Difidend Cyhoeddus Ymddiriedolaethau'r GIG

Cynrychiolir buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn Ymddiriedolaethau'r GIG gan Gyfalaf Difidend Cyhoeddus (PDC). Delir PDC yn unol â dehongliad FReM o IFRS 9 ar gost hanesyddol llai amhariadau, yn gyson â blynyddoedd blaenorol. Adeg cyfuno Ymddiriedolaethau'r GIG caiff y buddsoddiad PDC ei ddileu.

## 6.3 Asedau Ariannol Eraill

Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi offerynnau ariannol, yn enwedig benthyciadau, i gyrff eraill y sector cyhoeddus yng Nghymru a chyllid a benthyciadau i fusnesau i gefnogi datblygu economaidd. Mae'r benthyca hwn yn digwydd fel rhan o'i gweithgareddau arferol ac nid yw Llywodraeth Cymru yn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch masnachu yn yr offerynnau ariannol hyn. Fel offerynnau dyled syml delir y mwyafrif o asedau ariannol craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer casglu llif arian parod contractiol, ac felly maent yn cael eu dal yn ôl cost wedi'i hamorteiddio o dan IFRS 9. Mae asedau ariannol Cymorth i Brynu – Cymru bellach yn cael eu mesur yn ôl gwerth teg trwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, ac maent yn cael eu dileu o'r cyfrif Craidd wrth i Fanc Datblygu Cymru gael ei gyfuno. Ni ddelir unrhyw asedau ariannol perthnasol yn ôl gwerth teg trwy Wariant Net Cynhwysfawr Cyfunol Arall yn y cyfrif Craidd.

Cyfrifir gwerth teg llyfr benthyciadau ecwiti a rennir Cymorth i Brynu – Cymru drwy nodi llifoedd arian parod disgwyliedig yn y dyfodol a disgowntio'r rhain ar gyfradd briodol. Mae'r cyfrifiad hwn yn defnyddio nifer o ragdybiaethau, yn enwedig rhagolwg ar gyfer y Mynegai Prisiau Tai (HPI) yn y dyfodol, cyfradd disgownt yn seiliedig ar ystod o fondiau tai tebyg a phroffil adbryniadau benthyciadau. Mae'r model yn defnyddio data trafodiadau arsyladwy a data rhagweld HPI, a ddarperir drwy ddadansoddiad annibynnol o'r farchnad, i ragweld y gyfradd HPI hirdymor yng Nghymru. Ceir rhagor o fanylion am fodel gwerth teg Cymorth i Brynu – Cymru yng nghyfrifon Banc Datblygu Cymru PLC.

Yn gynwysedig yn 'Asedau Ariannol Eraill' ar 1 Mawrth 2021 roedd buddsoddiad o £17.8m ym Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyfyngedig (CIAL) drwy WGC Holdco Limited a benthyciad o £26.3m gan Lywodraeth Cymru i CIAL. Yn y flwyddyn ariannol 2020-21 o ganlyniad i effaith y pandemig COVID-19 ar y diwydiant awyrennau a gweithrediadau CIAL, penderfynodd Llywodraeth Cymru ddileu £42.6 miliwn o ddyled y maes awyr (gan gynnwys llog wedi cronni) i sicrhau'r tebygolrwydd gorau o adennill y benthyciad, gan adael balans o £26.3m o fenthyciad ar 31 Mawrth 2021. Fe wnaeth cau'r maes awyr oherwydd COVID-19 am ran helaeth o 2020-21 effeithio hefyd ar brisiad WGC Holdco ac felly fuddsoddiad Llywodraeth Cymru yn y maes awyr, gan arwain at amhariad o £43.5 miliwn a phrisiad buddsoddi o £17.8m ar 31 Mawrth 2021. Mae gweddill balans y benthyciad yn parhau'n gwbl adenilladwy. Mae'r Maes Awyr wedi profi amodau masnachu eithriadol o anffafriol yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022 oherwydd y cyfyngiadau teithio byd-eang parhaus drwy gydol y flwyddyn. Mis Mawrth oedd y mis cyntaf lle cyrhaeddwyd y targed o ran nifer y teithwyr. Mae penderfyniadau gweithredol wedi sicrhau bod y perfformiad ariannol yn parhau i fod yn unol â'r gyllideb a osodwyd yng ngwanwyn 2021. Felly er gwaethaf y dirywiad o ran nifer teithwyr, mae'r incwm ar gyfer y cyfnod ar y blaen o ran y gyllideb ac mae'r perfformiad yn parhau i fod yn unol â'r disgwyliadau ac nid yw prisiad y maes awyr wedi newid.

Mae'r asedau ariannol grŵp eraill ac eithrio'r rhai gyda CIAL a nodir uchod yn cynnwys: buddiannau ariannol Llywodraeth Cymru mewn cyd-fentrau, benthyciadau a buddsoddiadau eraill; benthyciadau Buddsoddi i Arbed gyda'r Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill £747m (2020-21: £581m); ac asedau a ddelir gan Fanc Buddsoddi Cymru £489m (2020-21: £512m) ac asedau ariannol grŵp eraill £1m (2020-21: £1m).

## 7. Stocrestrau

| | Ar 31 Mawrth 2022 | | Ar 31 Mawrth 2021 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| Asedau datblygu | 173 | 173 | 171 | 171 |
| Cyffuriau[1] | 28 | 61 | 27 | 57 |
| Deunydd telathrebu dros ben | - | - | 1 | 1 |
| Halen ffyrdd | 2 | 2 | 1 | 1 |
| Defnyddiau traul eraill | 1 | 122 | 1 | 146 |
| | **204** | **358** | **201** | **376** |

[1] Yn gynwysedig yn y rhestrau cyffuriau Craidd ar 31 Mawrth 2022 mae £8.9m (2020-21: £8.1m) o'r stocrestr mewn perthynas â nwyddau traul COVID-19 gan gynnwys pecynnau profion llif unffordd a meddyginiaethau a drosglwyddwyd i Lywodraeth y DU, heb unrhyw gost ynghlwm wrthynt, fel rhan o ymateb ehangach i'r pandemig COVID-19 a dosbarthu rhai cyflenwadau penodol a gaffaelwyd gan Lywodraeth y DU.

## 8. Symiau debyniadwy trwy fasnach, asedau ariannol ac asedau eraill

| | Ar 31 Mawrth 2022 | | Ar 31 Mawrth 2021 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| **Symiau sy'n ddyledus cyn pen un flwyddyn:** | | | | |
| Symiau derbyniadwy trwy fasnach | 205 | 341 | 151 | 240 |
| Treth arall | 13 | 98 | 15 | 45 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | 104 | 169 | 55 | 105 |
| | **322** | **608** | **221** | **390** |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn:** | | | | |
| Symiau derbyniadwy trwy fasnach | 6 | 162 | 7 | 215 |
| Rhagdaliadau | 17 | 19 | 11 | 12 |
| Symiau derbyniadwy eraill | - | 1 | - | - |
| | **23** | **182** | **18** | **227** |
| **Cyfanswm y symiau derbyniadwy trwy fasnach ac asedau cyfredol eraill** | **345** | **790** | **239** | **617** |

## 9. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

| | Ar 31 Mawrth 2022 | | Ar 31 Mawrth 2021 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| **Balans ar 1 Ebrill** | **640** | **1,828** | **107** | **839** |
| Cyrff sydd newydd gael eu cyfuno | - | 8 | - | - |
| Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | (479) | (354) | 533 | 989 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **161** | **1,482** | **640** | **1,828** |
| **Roedd y balansau canlynol yn cael eu dal yn:** | | | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 149 | 344 | 629 | 749 |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | 12 | 1,138 | 11 | 1,079 |
| | **161** | **1,482** | **640** | **1,828** |

# 10. Symiau taladwy trwy fasnach a symiau taladwy eraill

| | Ar 31 Mawrth 2022 | | Ar 31 Mawrth 2021 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| **Symiau sy'n ddyledus cyn pen un flwyddyn:** | | | | |
| Trethi a nawdd cymdeithasol | 2 | 86 | 2 | 76 |
| Symiau taladwy trwy fasnach a symiau taladwy eraill | 1,099 | 2,195 | 1,101 | 2,136 |
| Incwm Gohiriedig yr Undeb Ewropeaidd | 60 | 60 | 198 | 198 |
| Croniadau eraill ac incwm gohiriedig | 938 | 1,146 | 409 | 506 |
| Symiau sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | 98 | 97 | 420 | 420 |
| Rhwymedigaethau o dan lesoedd cyllid, PFI a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill | 10 | 35 | 10 | 16 |
| | **2,207** | **3,619** | **2,140** | **3,352** |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn:** | | | | |
| Symiau taladwy trwy fasnach a symiau taladwy eraill | - | 2 | - | 4 |
| Croniadau eraill ac incwm gohiriedig | - | 104 | - | - |
| Rhwymedigaethau o dan PFI a threfniadau consesiynau gwasanaeth eraill | 142 | 186 | 76 | 124 |
| Rhwymedigaethau o dan lesoedd cyllid | - | 85 | - | 18 |
| | **142** | **377** | **76** | **146** |
| **Cyfanswm symiau taladwy trwy fasnach a rhwymedigaethau eraill** | **2,349** | **3,996** | **2,216** | **3,498** |

# 11. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Ar 31 Mawrth 2022 | | Ar 31 Mawrth 2021 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| **Balans ar 1 Ebrill** | **1,306** | **1,410** | **1,250** | **1,339** |
| Darperir yn y flwyddyn | 625 | 702 | 294 | 347 |
| Darpariaethau nad oes mo'u hangen ac a adferwyd | (158) | (168) | (101) | (105) |
| Trosglwyddo | - | (4) | (18) | (19) |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (141) | (209) | (119) | (152) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **1,632** | **1,731** | **1,306** | **1,410** |
| **Dadansoddi amseriad disgwyliedig llifoedd wedi'u disgowntio:** | | | | |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 362 | 412 | 329 | 378 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 463 | 481 | 391 | 414 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 807 | 838 | 586 | 618 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **1,632** | **1,731** | **1,306** | **1,410** |

## Grŵp Llywodraeth Cymru yn unig

| | Eraill £m | Pwll Risg Cymru[1] £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|
| **Dadansoddi amseriad disgwyliedig llifoedd wedi'u disgowntio:** | | | |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 70 | 342 | 412 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 45 | 436 | 481 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 186 | 652 | 838 |
| | **301** | **1,430** | **1,731** |

[1] Mae Cronfa Risg Cymru yn cael ei chynnal fel rhan o Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre, y mae ei chyfrifon i'w gweld yn www.felindre.gig.cymru/.

## 11.1 Darpariaethau Craidd Llywodraeth Cymru

Mae Darpariaethau Craidd Llywodraeth Cymru yn cynnwys:

**Darpariaethau Iechyd**

Mae gan Lywodraeth Cymru ddarpariaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd, ar gyfer Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (WIBBS) ac ad-daliadau Cronfa Risg Cymru a ddisgwylir yn y dyfodol.

Mae WIBSS yn darparu un cynllun symlach o daliadau cymorth ex gratia i unigolion a'u teuluoedd y mae hepatitis C a HIV wedi effeithio arnynt wedi iddynt gael eu trin â gwaed halogedig yng Nghymru. Ar 25 Mawrth 2021 cyhoeddwyd trefniadau cymorth ariannol ychwanegol wedi'u hôl-ddyddio hyd at fis Ebrill 2019 ar gyfer buddiolwyr presennol. Y balans ar y ddarpariaeth ar gyfer WIBSS, ar 31 Mawrth 2022, yw £166.8m (2020-21: £136.9m).

Mae darpariaethau WIBSS yn seiliedig ar y cyfraddau taliadau cydradd newydd gyda codiad chwyddiant CPI yn cael ei gymhwyso i'r llif arian parod yn y dyfodol. Mae'r rhain wedyn yn cael eu disgowntio yn ôl y cyfraddau a gyhoeddir bob blwyddyn yn y papur PES.

O 2021-22, mae taliadau blynyddol yn cael eu chwyddo gan y cyfraddau chwyddiant CPI a gyhoeddwyd ym mhapur Gwariant Cyhoeddus Trysorlys EF (PES) a gyhoeddir bob mis Rhagfyr. Mae'r newid o'r mynegeion CIH i CPI yn cyd-fynd â gwledydd eraill y DU ers cyflwyno'r taliadau cydradd. Cafodd y taliadau eu codi i'r cyfraddau newydd am y tro cyntaf yn 2021-22 (gan gynnwys elfennau wedi'u hôl-ddyddio o 2018-19 ymlaen).

Mae Cronfa Risg Cymru (WRP) yn helpu cyrff GIG Cymru gyda rheoli risg a setlo hawliadau y mae anghydfod yn eu cylch ar gyfer honiadau o esgeuluster meddygol neu esgeuluster fel cyflogwr. Balans WRP ar 31 Mawrth 2022 yw £1,430m (2020-21: £1,133m).

Mae sefydliadau GIG Cymru yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu ddeongliadol ar gyfer esgeulustod clinigol, anafiadau personol a chostau amddiffyn y mae eu hamseru neu eu swm yn ansicr ar ddyddiad y fantolen ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth. Ariennir hawliadau drwy Wasanaethau Cronfa Risg Cymru (WRPS) sy'n derbyn dyraniad brigdor blynyddol gan Lywodraeth Cymru i dalu am gost ceisiadau am ad-daliad a gyflwynir i'r Pwyllgor WRPS bob deufis. Mae unrhyw ddiffyg yn cael ei fodloni'n uniongyrchol gan aelodau ar sail rhannu risg y cytunwyd arno.

Gwneir amcangyfrifon sylweddol mewn perthynas â hawliadau sydd ar y gweill am esgeulustod clinigol ac anafiadau personol. Darperir rhagdybiaethau o ran y canlyniad tebygol, y rhwymedigaethau posibl ac amseriad yr hawliadau ymgyfreitha hyn gan gynghorwyr cyfreithiol annibynnol.

Gwneir darpariaeth ar gyfer achosion tebygol ac achosion sicr yn unol ag IAS 37. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer achosion tebygol ac achosion sicr yn seiliedig ar amcangyfrifon achos o hawliadau unigol a gofnodwyd gan y Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg o fewn Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae'r cyfreithwyr yn amcangyfrif gwerth yr achos gan gynnwys ffioedd amddiffyn, gan ddefnyddio barn broffesiynol ac o gael cyngor gan gwnselwyr. Yna caiff prisiadau eu disgowntio ar gyfer yr elfennau colli yn y dyfodol gan ddefnyddio disgwyliad oes unigol a thablau actiwaraidd Adran Actiwari'r Llywodraeth (tablau Ogden)

a Chyfradd Disgownt Anafiadau Personol o minws 0.75%. Cynhelir rhwymedigaethau yn y dyfodol ar gyfer achosion penodol a thebygol gyda thebygolrwydd o 95%-100% a 50%-94% yn y drefn honno fel darpariaeth ar y fantolen. Fel arfer, mae achosion yn cymryd nifer o flynyddoedd i'w setlo, yn enwedig ar gyfer achosion gwerth uchel lle mae angen cyfnod datblygu i sefydlu hyd a lled yr anaf a achoswyd.

Mae'r rhan fwyaf o hawliadau gwerth uchel (>£1m) yn cael eu setlo gyda Gorchymyn Talu Cyfnodol (PPO) lle telir rhan neu'r cyfan o werth terfynol y setliad dros oes yr hawliwr. Pan fydd achosion yn cael eu setlo gyda threfniant PPO, crëir darpariaeth unigol drwy luosi gwerth talu blynyddol cysylltiedig mynegai'r hawlwyr â nifer y blynyddoedd o ddisgwyliad oes. Mae nifer y blynyddoedd o ddisgwyliad oes yn cael ei ddisgowntio yn ôl lluosyddion tabl Ogden gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt enwol Trysorlys EF ar gyfer darpariaethau cyffredinol a gyhoeddir yn flynyddol ym mhapur y System Gwariant Cyhoeddus (PES) a ffactor chwyddiant.

Mae Cronfa Risg Cymru yn rhan o Gydwasanaethau GIG Cymru, a gynhelir gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre ac mae rhagor o fanylion am gyfrifo darpariaethau a'r gorchmynion talu cyfnodol wedi'u cynnwys yng nghyfrifon Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn www.felindre.gig.cymru/.

Yn unol â Chyfarwyddyd Gweinidogol a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2019, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i gefnogi amgylchiadau lle'r oedd rheolau treth pensiynau wedi effeithio ar staff clinigol oedd eisiau gweithio oriau ychwanegol, ac mae wedi penderfynu bod staff clinigol sy'n aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG ac sydd, o ganlyniad i'r gwaith a wnaed ym mlwyddyn dreth 2019-20, wynebu talu treth ar dwf eu budd-daliadau pensiwn GIG, yn gallu dewis cael y taliadau hyn drwy Cynllun Pensiwn y GIG, gyda'u pensiwn yn cael ei leihau pan fyddant yn ymddeol. Bydd swm cyfatebol yn cael ei dalu pan fyddant yn ymddeol gan sicrhau eu bod yn cael iawndal llawn am effaith y didyniad. Llywodraeth Cymru fydd yn cyllido'r cynllun hwn yn llawn heb unrhyw gost net i gyflogwyr y GIG. Roedd gan staff clinigol tan 31 Mawrth 2022 i ddewis y cynllun hwn, a'r gallu i wneud newidiadau hyd at 31 Gorffennaf 2026. Mae darpariaeth o £21.5 m mewn perthynas â hyn wedi ei godi yn 2021-22.

### Darpariaethau eraill

Mae hyn yn cynnwys amrywiol rwymedigaethau posibl o ran pensiynau a chyflogaeth mewn perthynas â gweithgarwch cyflenwi Llywodraeth Cymru.

## 11.2 Darpariaethau Grŵp Llywodraeth Cymru

Mae Darpariaethau Grŵp Llywodraeth Cymru yn cynnwys y darpariaethau Craidd a nodir uchod, a darpariaethau a ddelir gan endidau cyfunol. Yn bennaf, darpariaethau eraill y GIG yw'r rhain gan gynnwys pensiynau a darpariaethau ar gyfer y £25,000 cyntaf o hawliadau esgeuluster clinigol nad yw'n cael ei ad-dalu gan Gronfa Risg Cymru.

## 12. Rhwymedigaethau Digwyddiadol

| | Ar 31 Mawrth 2022 | | Ar 31 Mawrth 2021 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| Hawliadau Cyfreithiol – Honiadau o esgeuluster meddygol neu esgeuluster fel cyflogwr | 1,267 | 1,288 | 1,348 | 1,366 |
| Rhwymedigaethau contractiol posibl o dan Ddeddf WDA 1975 | 10 | 10 | 10 | 10 |
| Hawliadau cyfreithiol a chontractiol eraill | 94 | 95 | 114 | 120 |
| **Cyfanswm** | **1,371** | **1,393** | **1,472** | **1,496** |

**(i) Hawliadau Cyfreithiol – Honiadau o esgeuluster meddygol neu esgeuluster fel cyflogwr**

Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod rhaid i Lywodraeth Cymru o dan Ddeddf Cymru 2006 dalu rhwymedigaethau Cronfa Risg Cymru os bydd cyrff y GIG yn peidio â bodoli. Ar 31 Mawrth 2022, cynhwysir rhwymedigaethau amodol sy'n ymwneud â hawliadau cyfreithiol o dan Gynllun Rhwymedigaethau Presennol Ymarfer Meddygol Cyffredinol hefyd.

**(ii) Hawliadau cyfreithiol a chontractiol eraill**

Mae hawliadau cyfreithiol a chontractiol eraill yn cynnwys hawliadau cyfreithiol a chontractiol sydd ar y gweill a rhwymedigaethau digwyddiadol sy'n gysylltiedig ag indemniadau a gwarantau contractiol. Ni chododd unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol ar gyfer indemniadau neu warantau contractiol yn 2021-22. Cynyddodd gwerth rhwymedigaethau amodol ar gyfer indemniadau neu warantau cytundebol masnachol £1.6m. Nid oes angen rhwymedigaeth ddigwyddiadol trefniadau Cynllun yn Talu y GIG, sef £21.5m o 2020-21, mwyach, gan fod hyn bellach wedi'i gynnwys o fewn Darpariaethau yn Nodyn 11.

## 12.1 Rhwymedigaethau Digwyddiadol Heb eu Meintioli

### Model Buddsoddi Cydfuddiannol yr A465

Ar 28 Hydref 2020, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gontract gyda chonsortiwm Cymoedd y Dyfodol i ddylunio ac adeiladu, ariannu a gweithredu cynllun i ddeuoli'r A465 rhwng Dowlais a Hirwaun (rhannau 5 a 6). Er bod risgiau sylweddol wedi'u trosglwyddo i Gymoedd y Dyfodol, fel rhan o'r contract, mae rhai ohonynt yn dal i fod yn nwylo Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys costau ychwanegol cyfyngedig sy'n gysylltiedig â phandemig, tariffau masnach a godir ar nwyddau penodol sy'n deillio o ymadael â'r UE, a diffygion cudd posibl sy'n ymwneud â strwythurau penodol sy'n bodoli eisoes pe bai unrhyw rai'n cael eu darganfod. Nid oes newidiadau ar gyfer 2021-22.

Ar ddyddiad y fantolen ar 31 Mawrth 2022, ni ellir gwneud amcangyfrif dibynadwy i alluogi creu darpariaeth, a datgelir rhwymedigaeth amodol heb ei meintioli.

## 12.2 Rhwymedigaethau Digwyddiadol Annhebygol

Cyflwynir rhwymedigaethau digwyddiadol yma lle bernir bod y tebygolrwydd o drosglwyddo budd economaidd mewn setliad yn annhebygol. Oherwydd hyn, nid ydynt yn bodloni meini prawf IAS 37 i'w datgelu yn y datganiadau ariannol, ond fe'u cyflwynir yma at ddibenion tryloywder. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â sefyllfaoedd lle mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i warantau neu indemniadau, ond lle nad oes arwyddion ar hyn o bryd y bydd y rhain yn cael eu defnyddio. Er bod yr holl gamau lliniaru wedi'u cymryd ac y byddant yn cael eu cymryd i leihau'r risg a'r amlygiad, ni ellir dileu'r risg yn gyfan gwbl. Os ystyrir bod hynny'n briodol, mae rhwymedigaethau digwyddiadol yr ystyrir bod y tebygolrwydd y byddant yn digwydd yn fwy nag annhebygol yn cael eu datgelu yn Nodyn 12 uchod.

Yn 2019 cytunodd Llywodraeth Cymru i sicrwydd, gwarantiadau, indemniadau a cholledion posibl y gellir eu meintioli (wedi'u datgelu) a rhai na ellir eu meintioli, a cholledion posibl, o dan y 'Cytundeb Grant' â'i ddarparwr (Rheilfyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf) a'r cytundeb indemniad ('held harmless agreement') â'r Adran Drafnidiaeth.

**Rhwymedigaethau digwyddiadol annhebygol y gellir eu meintioli:**

£dim.

**Rhwymedigaethau digwyddiadol annhebygol na ellir eu meintioli:**

Mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaethau ddigwyddiadol annhebygol nad oes modd penderfynu tebygolrwydd setliad a gwerth ar eu cyfer ac sy'n destun cyfrinachedd cyfreithiol.

### Gwasanaethau Rheilffyrdd

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu indemniad i'r darparwr gwasanaethau rheilffyrdd yn erbyn newidiadau, sydd wedi deillio o'r Adran Drafnidiaeth, i daliadau arfaethedig am fynediad i draciau. Yn yr un modd mae Llywodraeth Cymru wedi'i hindemnio gan yr Adran Drafnidiaeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi gwarant mewn perthynas â gweithwyr Network Rail sy'n ymuno â Thrafnidiaeth Cymru ac sy'n aros yn y Cynllun Pensiwn Rheilffyrdd os bydd unrhyw ddiffygion yn cael eu creu ar gyfer adran newydd y cynllun.

**Model Buddsoddi Cydfuddiannol yr A465**

Yn 2020, cytunodd Llywodraeth Cymru i sicrwyddau, indemniadau a cholledion posibl na ellir eu meintioli mewn perthynas â'r tri phwynt canlynol o dan y contract gyda chonsortiwm Cymoedd y Dyfodol (FV) i ddylunio ac adeiladu, ariannu a gweithredu cynllun i ddeuoli'r A465 rhwng Dowlais a Hirwaun (rhannau 5 a 6). Ar ddiwedd y contract, mae Llywodraeth Cymru wedi indemnio FV yn erbyn tâl dileu swydd os nad yw rheoliadau TUPE yn gymwys ac nad oes cynigion cyflogaeth yn cael eu gwneud i staff cyd-ddarparwyr prosiectau/darparwyr gwasanaethau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi indemnio FV yn erbyn newidiadau perthnasol yn y gyfraith; ar achosion o newidiadau diffiniedig penodol yn y gyfraith, mae'r partïon yn cytuno i addasu'r Tâl Gwasanaeth Blynyddol yn unol â hynny. Mae Llywodraeth Cymru wedi indemnio FV yn erbyn risg na ellir ei hyswirio; os na ellir yswirio rhai risgiau, mae'r partïon yn cyfarfod i adolygu sut y bydd y risg yn cael ei rhannu. Os na cheir cytundeb, gellir terfynu'r cytundeb mewn ffordd sy'n debyg i force majeure, neu mae Llywodraeth Cymru yn cymryd risg yswiriant. Nid oes unrhyw dystiolaeth y bydd y tri maes hyn yn cael eu cynnwys, ac felly datgelir rhwymedigaeth ddigwyddiadol annhebygol heb ei meintioli.

**Gwarantau:**

O dan amgylchiadau arbennig mae Llywodraeth Cymru'n gweithredu fel gwarantwr ar gyfer y cyrff a noddir ganddi. Nid oes yr un o'r gwarantau hyn yn berthnasol.

**Indemniadau:**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i indemnio cyrff Trosglwyddo Stoc Tai rhag canlyniadau ariannol tynnu'r Cynllun Lliniaru Treth ar Werth yn ôl neu ei ddiwygio yn y dyfodol.

Mae'r rhwymedigaethau'n rhoi sicrwydd am £419m i ddeg sefydliad ac mae'r cyfnod rhwymedigaeth yn amrywio. Nid oes unrhyw bryderon ar hyn o bryd ynghylch parhad y cynllun, a bernir bod y potensial i'r rhwymedigaeth aeddfedu'n rhy annhebygol i gael ei gynnwys fel rhwymedigaeth ddigwyddiadol.

Mae Cynllun Indemniad y Llywodraeth yn darparu indemniadau i alluogi Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru, a sefydliadau cymwys eraill i gael benthyg gwrthrychau a gweithiau celf. Bernir bod y tebygolrwydd y gweithredir ar y gwarantau hyn yn rhy annhebygol i gael ei gynnwys fel rhwymedigaeth ddigwyddiadol.

Gwerth y gwarantau hyn ar 31 Mawrth 2022 oedd £31m.

**Llythyrau cysur:**

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyroddi llythyr sicrwydd Busnes Gweithredol i Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio i gwmpasu rhwymedigaethau'r dyfodol o £1m. O gofio lefel sylweddol y cronfeydd wrth gefn yng Nghronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio Bernir bod ei bod yn dra annhebygol y bydd y rhwymedigaeth hon yn codi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyroddi llythyr sicrwydd Busnes Gweithredol i Trafnidiaeth Cymru ymdrin â rhwymedigaethau presennol ac yn y dyfodol sy'n codi yn unol â'r cytundeb rheoli (rhwng Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru) a'r llythyrau cylch gwaith cyfnodol y mae Llywodraeth Cymru yn eu dyroddi i Trafnidiaeth Cymru.

## 13. Rhwymedigaethau eraill

| | Ar 31 Mawrth 2022 | | Ar 31 Mawrth 2021 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| Diffygion cronfeydd pensiwn | 11 | 35 | 36 | 84 |
| Cronfa Benthyciadau Gwladol (yn ddyledus ar ôl pum mlynedd)[1] | 11 | 10 | 11 | 11 |
| Benthyciadau banc Banc Datblygu Cymru | - | - | - | - |
| Arall[2] | - | 1 | - | 3 |
| **Cyfanswm** | **22** | **46** | **47** | **98** |

[1] Balansau'r Gronfa'r Benthyciadau Gwladol yw Cronfeydd Benthyciadau Gwladol a gafodd eu benthyg ymlaen gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn wreiddiol i Gorfforaeth Datblygu'r Canolbarth. Yna fe'u trosglwyddwyd i Fwrdd Datblygu Cymru Wledig (DBRW) yn y 1980au; ac i Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) pan ddiddymwyd DBRW ym 1998. Ers i'R WDA gael ei ddiddymu yn 2006, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ad-dalu'r prifswm a'r llog.

[2] Roedd rhwymedigaethau eraill yn cynnwys £1m (2020-21: £2m) sy'n cael eu datgelu fel rhwymedigaethau cyfredol yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol.

## 14. Symudiadau mewn cyfalaf gweithio heblaw arian parod

| | Ar 31 Mawrth 2022 | | Ar 31 Mawrth 2021 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn stocrestrau (ac eithrio asedau datblygu) | (1) | 25 | (6) | (99) |
| **(Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau derbyniadwy:** | | | | |
| Cyfredol | (101) | (205) | 123 | 115 |
| Anghyfredol | (4) | 45 | 4 | (92) |
| **Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau taladwy:** | | | | |
| Cyfredol | 67 | 183 | 863 | 1,221 |
| Anghyfredol | 67 | 57 | (10) | 1 |
| PFI a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill/Elfen gyfalaf les cyllid | 10 | (38) | 10 | 2 |
| Addasiad arall | - | (1) | - | - |
| Llai symudiad mewn symiau sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru a balansau costau anweithredol eraill | 323 | 323 | (383) | (383) |
| | **361** | **389** | **601** | **765** |

Mae symudiadau mewn cyfalaf gweithio ar wahân i arian parod ar gyfer 2021-22 yn adlewyrchu effaith symiau derbyniadwy a thaladwy a ddelir gan gyrff sydd newydd eu cyfuno.

# 15. Ymrwymiadau cyfalaf ac ymrwymiadau eraill

## 15.1 Ymrwymiadau cyfalaf

Ymrwymiadau cyfalaf wedi'u contractio sydd heb eu cynnwys fel arall yn y datganiadau ariannol hyn.

| | Ar 31 Mawrth 2022 | | Ar 31 Mawrth 2021 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 102 | 591 | 137 | 618 |
| Buddsoddiadau a benthyciadau | 16 | 16 | 84 | 91 |
| | **118** | **607** | **221** | **709** |

## 15.2 Ymrwymiadau o dan lesoedd

### 15.2.1 Ymrwymiadau o dan lesoedd gweithredol

Yn y tabl isod ceir cyfanswm yr isafswm taliadau yn y dyfodol o dan lesoedd gweithredol.

| | Ar 31 Mawrth 2022 | | Ar 31 Mawrth 2021 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| **Adeiladau** | | | | |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 6 | 38 | 6 | 37 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 19 | 92 | 20 | 83 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 35 | 101 | 39 | 106 |
| | **60** | **231** | **65** | **226** |
| **Arall** | | | | |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | - | 1 | - | 1 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | - | - | - | - |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | - | - | - |
| | - | **1** | - | **1** |
| **Cyfanswm** | **60** | **232** | **65** | **227** |

### 15.2.2 Ymrwymiadau o dan lesoedd cyllid

Yn y tabl isod ceir cyfanswm yr isafswm taliadau yn y dyfodol o dan lesoedd cyllid.

| | Ar 31 Mawrth 2022 | | Ar 31 Mawrth 2021 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC[1] £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| **Adeiladau** | | | | |
| Ddm hwyrach nag un flwyddyn | - | 2 | - | - |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | - | 11 | - | - |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | 14 | - | - |
| | - | **27** | - | - |
| **Llai'r elfen llog** | - | (2) | - | - |
| | - | **25** | - | - |
| **Arall** | | | | |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | - | 19 | 1 | 3 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | - | 34 | - | 1 |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | 31 | - | - |
| | - | **84** | **1** | **4** |
| **Llai'r elfen llog** | - | (3) | - | - |
| | - | **81** | **1** | **4** |
| **Cyfanswm** | - | **106** | **1** | **4** |

[1] Yn gynwysedig yn ymrwymiadau Grŵp Llywodraeth Cymru o dan lesoedd cyllid mae cyfanswm o £104m sy'n ymwneud ag endidau is-gwmni sydd eisoes wedi cymhwyso trefniadau les IFRS 16. Yn unol â pholisi cyfrifo Llywodraeth Cymru o beidio â gwneud addasiadau alinio wrth gyfuno heblaw pan fo'r effaith yn berthnasol, ni wnaed unrhyw addasiad, wrth gyfuno, ar gyfer datgelu les ar wahân o dan IFRS 16 a chaiff y lesoedd eu datgelu fel lesoedd cyllid.

### 15.3 Ymrwymiadau o dan PFI a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill

Mae gan y Byrddau Iechyd Lleol naw cytundeb PFI, ac mae wyth ohonynt ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Nid oes unrhyw gontractau ag ymrwymiad unigol sy'n fwy na chyfanswm o £500m. Mae manylion y cynlluniau unigol wedi'u cynnwys yng nghyfrifon statudol unigol y Byrddau Iechyd Lleol.

### 15.3.1 Ddim ar y fantolen

#### Contract PFI Bute Avenue

Ers 2000 mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i dalu £5.1m bob blwyddyn, yn fynegrifol, i'r contractwr preifat sy'n gysylltiedig â phrosiect Bute Avenue (PFI), tan fis Tachwedd 2025. Mae'r partner sector preifat yn cynnal rhwydwaith ffordd Bute Avenue am 25 o flynyddoedd (o 2000-01). Ar ôl y cyfnod hwn caiff y ffordd ei throsglwyddo i Gyngor Sir Caerdydd. Nid yw'r ffordd yn ased i Lywodraeth Cymru. Y cyfanswm a godwyd yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr mewn perthynas â thrafodiadau PFI nad ydynt ar y fantolen oedd £9,726,967 (2020-21: £9,434,792) a dyma'r taliadau y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddynt:

| | Ar 31 Mawrth 2022 £m | Ar 31 Mawrth 2021 £m |
|---|---|---|
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 10 | 10 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 31 | 41 |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | - |
| | **41** | **51** |

### 15.3.2 Ar y fantolen

#### Contract PFI yr A55

Cynhelir rhwydwaith ffyrdd yr A55 gan gontractwyr am gyfnod o 30 o flynyddoedd (o 1998), ac ar ôl hynny bydd perchnogaeth yr A55 yn mynd yn ôl i Lywodraeth Cymru. Mae'r ffordd yn cael ei thrin fel un o asedau Llywodraeth Cymru ac mae'r taliadau unedol yn cynnwys dwy elfen – taliadau lesoedd cyllid wedi'u priodoli a thaliadau gwasanaeth.

Y cyfanswm a godwyd yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr mewn perthynas ag elfen gwasanaeth PFI ar y fantolen neu drafodiadau consesiwn gwasanaeth eraill oedd £4,572,817 (2020-21: £8,969,253). Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm y rhwymedigaethau yn y dyfodol o dan PFI ar y fantolen a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill am bob un o'r cyfnodau hyn.

| | Ar 31 Mawrth 2022 £m | Ar 31 Mawrth 2021 £m |
|---|---|---|
| **Isafswm taliadau lesoedd** | | |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 12 | 12 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 48 | 48 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 24 | 36 |
| | **84** | **96** |
| Llai'r elfen llog | (9) | (11) |
| | **75** | **85** |

| | Ar 31 Mawrth 2022 £m | Ar 31 Mawrth 2021 £m |
|---|---|---|
| **Elfennau gwasanaeth sy'n ddyledus yn y dyfodol** | | |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 10 | 8 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 14 | 24 |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | - |
| | **24** | **32** |

## Model Buddsoddi cydfuddiannol A465

Ar 28 Hydref 2020, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gontract â Future Valleys Project Co Limited i ddylunio, adeiladu, cyllido a gweithredu cynllun i ddeuoli'r A465 rhwng Dowlais a Hirwaun (rhannau 5 a 6). Ymrwymwyd i'r contract o dan Fodel Buddsoddi Cydfuddiannol Llywodraeth Cymru. Mae'r trefniant contractiol hwn yn bodloni'r diffiniad o drefniant consesiwn gwasanaeth ac mae i'w gyfrif ar y fantolen.

Mae'r prosiect yn cynnwys elfen adeiladu (wedi'i rannu'n bum cam), ac yn y cyfnod hwnnw bydd Future Valleys Project Co Limited yn gyfrifol am droi'r A465 o Ddowlais Top i Hirwaun yn ffordd ddwy lôn ym mhob cyfeiriad. Mae'r cytundeb yn dod i ben 30 mlynedd ar ôl cwblhau'r cyfnod adeiladu terfynol ym mis Mai 2025, ac yn ystod y cyfnod hwnnw bydd Future Valleys Project Co Limited yn gweithredu ac yn cynnal rhannau 5 a 6 o'r A465. Bydd taliadau gwasanaeth blynyddol yn daladwy gan Lywodraeth Cymru i Future Valleys Project Co Limited o ddyddiad cwblhau cam cyntaf yr adeiladu ym mis Gorffennaf 2024, hyd at ddiwedd y cytundeb. Cyfanswm yr ymrwymiad gan gynnwysTAW na ellir ei adfer yw £1,455m, gyda £98m yn ddyledus yn hwyrach na blwyddyn a heb fod yn hwyrach na phum mlynedd, a £1,357m yn hwyrach na phum mlynedd.

Mae ased sy'n cael ei adeiladu sy'n werth £78m a rhwymedigaeth gysylltiedig o £78m wedi cael eu cydnabod ar 31 Mawrth 2022 (cynhwysir y rhain yn Nodiadau 4 a 10).

## 15.4 Ymrwymiadau Ariannol Eraill

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gontractau na ellir eu dileu (nad ydynt yn lesoedd, contractau PFI na chonsesiynau gwasanaeth eraill ) ar gyfer gwasanaethau. Dyma'r taliadau y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddynt, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod y mae'r ymrwymiad yn dod i ben ynddo:

| | Ar 31 Mawrth 2022 | | Ar 31 Mawrth 2021 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 390 | 438 | 503 | 503 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 323 | 463 | 514 | 514 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 287 | 287 | 1,925 | 1,925 |
| | **1,000** | **1,188** | **2,942** | **2,942** |

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu arian grant ar gyfer nifer o endidau yn flynyddol. Mae'r grantiau wedi'u hymrwymo yn rhan olaf y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2022 er mwyn rhoi sicrwydd i'r corff derbyn. Gan eu bod yn ymwneud â'r flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2023 ac yn cael eu hariannu gan ddyraniad cyllideb Llywodraeth Cymru am y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2023 nid ydynt wedi'u datgelu o fewn yr ymrwymiadau uchod.

Ar 31 Mawrth 2021, roedd ymrwymiadau ariannol eraill yn cynnwys ymrwymiad o gyfanswm o £1,455m mewn perthynas â thaliadau gwasanaeth blynyddol yn daladwy (gan gynnwys TAW na ellir ei adfer) gan Lywodraeth Cymru i Future Valleys Project Co Limited mewn perthynas â rhannau 5 a 6 yr A465. Ar 31 Mawrth 2022, nid yw'r ymrwymiad hwn yn cael ei ddatgelu mwyach fel ymrwymiad ariannol arall ac yn hytrach mae wedi cael ei ddatgelu fel ymrwymiad o dan drefniant consesiwn gwasanaeth (gweler Nodyn 15.3.2 am fanylion pellach).

Nid yw elfen o arian grant refeniw wedi'i neilltuo Llywodraeth Cymru i Awdurdodau Lleol a ddatgelwyd fel ymrwymiad ariannol arall o £274m, fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2021, wedi'i datgelu fel ymrwymiad ar 31 Mawrth 2022 oherwydd ei bod wedi'i throsglwyddo i arian grant heb ei neilltuo o 1 Ebrill 2022.

Mae Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymu (TfWRL) yn is-gwmni sy'n eiddo llwyr i Trafnidiaeth Cymru, sydd bellach yn gyfrifol yn weithredol am ddarparu gwasanaethau rheilffordd yn ddiogel ac yn ddibynadwy i bobl a chymunedau Cymru a'r Gororau. Er bod TfWRL yn eiddo i Trafnidiaeth Cymru ac yn cael ei reoli'n llwyr ganddo, mae'n gweithredu o dan ei drwydded a'i gymeradwyaeth ei hun, a reoleiddir gan y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd annibynnol yn ei rôl fel rheoleiddiwr diwydiant rheilffyrdd y DU.

Mae Cytundeb Grant Gweithredwr y Dewis Olaf rhwng TfWRL a Gweinidogion Cymru yn nodi cyfnod o bum mlynedd o 7 Chwefror 2021. Mae Gweinidogion Cymru yn ymwybodol o'r risgiau ariannu refeniw (farebox) posibl a'u dyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau i deithwyr o dan adran 30 o Ddeddf Rheilffyrdd 1993 dros y cyfnod hwn. O ystyried yr ansefydlogrwydd parhaus yn niferoedd y teithwyr yn dilyn y pandemig COVID-19, mae'n amhosibl amcangyfrif yn ddibynadwy werth y cymhorthdal hwn ar gyfer y blynyddoedd i ddod ar hyn o bryd.

Yn gynwysedig am y tro cyntaf o fewn ymrwymiadau ariannol eraill, gan fod TfWRL yn gorff sydd newydd ei gyfuno, mae £188m o ymrwymiadau TfWRL ar gyfer taliadau trac sefydlog, depo a mynediad i orsafoedd.

## 16. Trafodiadau Partïon Cysylltiedig

Mae Llywodraeth Cymru'n cael y rhan fwyaf o'i chyllid o Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n ariannu Awdurdodau Lleol Cymru, Cyrff y GIG yng Nghymru, is-gyrff a Chyrff a Noddir. Ystyrir y cyrff hyn yn bartïon cysylltiedig y mae Llywodraeth Cymru wedi cael amryw o drafodiadau perthnasol â hwy yn ystod y cyfnod. Yn ychwanegol, mae Llywodraeth Cymru wedi cael nifer o drafodiadau â chyrff eraill y Llywodraeth a chyrff y Llywodraeth Ganolog, yn bennaf Swyddfa Cymru, yr Asiantaeth Taliadau Gwledig a'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Nid oes unrhyw rai o Weinidogion Cymru, staff rheoli allweddol na phartïon cysylltiedig eraill wedi cynnal unrhyw drafodiadau partïon cysylltiedig â Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn, ac eithrio fel y nodir isod:

Mae Lesley Griffiths (y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd) a Ken Skates (a fu'n Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth a Gogledd Cymru) ill dau'n Is-Lywyddion Eisteddfod Ryngwladol Llangollen a dderbyniodd £104,200 o arian grant yn 2021-22.

Mae Dafydd Elis-Thomas (a fu'n Ddirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yn aelod anrhydeddus o Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru a dderbyniodd £855,456 gan gynnwys cyllid o dan Bolisi Amaethyddol Cyffredin yr UE yn 2021-22.

Mae gwraig Vaughan Gething (Gweinidog yr Economi) yn aelod o Thompsons Solicitors a gafodd dâl o £1,800 yn 2021-22 am wasanaethau cyfreithiol a gaffaelwyd. Mae'r Gweinidog hefyd yn aelod o Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro, a dderbyniodd £231,599 o arian grant yn 2021-22.

Mae Jeremy Miles (Gweinidog y Gymraeg ac Addysg) a Rebecca Evans (y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol) yn aelodau o Undeb Credyd Celtic, a dderbyniodd £345,984 o arian grant yn 2021-22.

Roedd gwraig Lee Waters (Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth) yn gyfarwyddwr anweithredol Llamau Ltd, a gafodd £1,047,896 o arian grant yn 2021-22.

Julie Morgan (y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol) yw Is-lywydd Hosbis y Ddinas, a gafodd £13,345 o arian grant yn 2021-22.

Mae gŵr Kirsty Williams (a fu'n Weinidog Addysg) yn bartner mewn busnes ffermio a gafodd £57,474 yn 2021-22 o dan Bolisi Amaethyddol Cyffredin yr UE.

Mae partner Tracey Burke yn un o lywodraethwyr Coleg Caerdydd a'r Fro a gafodd £79,164,309 yn 2021-22. Mae ei phartner hefyd yn Gadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd a gafodd £6,642,586, gan gynnwys arian grant o dan Bolisi Amaethyddol Cyffredin yr UE, yn 2021-22.

Mae Reg Kilpatrick yn un o gyfarwyddwyr anweithredol Cymdeithas Dai Trefynwy a gafodd £3,484,999 o arian grant yn 2021-22.

Mae Ellen Donovan (cyfarwyddwr anweithredol) wedi parhau â'i rôl fel cyfarwyddwr anweithredol Cymwysterau Cymru, rôl a mae wedi'i dal ers mis Rhagfyr 2015, cyn ymuno â Bwrdd Llywodraeth Cymru. Cafodd Cymwysterau Cymru £8,544,000 o arian grant yn 2021-22. Mae Ellen hefyd yn un o gyfarwyddwr anweithredol Gofal Canser Marie Curie a gafodd £75,590 o arian grant yn 2021-22. Mae hi hefyd yn un o gyfarwyddwyr anweithredol yr Awdurdod Meinwe Dynol a gafodd £62,450 o arian grant yn 2021-22.

Mae Gareth Lynn (cyfarwyddwr anweithredol) hefyd yn Gadeirydd Annibynnol Ymddiriedolwyr Cynllun Buddion Ymddeol (pensiwn) Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau. Gwneir y penodiad gan Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau a thelir tâl cydnabyddiaeth amdano. Fe gafodd Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau £103,239, gan gynnwys arian grant, yn 2021-22. Mae hefyd yn un o gyfarwyddwyr anweithredol Spindogs Limited a gafodd grant o £864 yn 2021-22.

Mae Meena Upadhyaya (cyfarwyddwr anweithredol) yn un o Ymddiriedolwyr Race Equality First a gafodd £157,424 o arian grant yn 2021-22. Mae Meena yn un o Ymddiriedolwyr Race Council Cymru a gafodd £210,874 gan gynnwys arian grant yn 2021-22. Hi yw Sylfaenydd a Chadeirydd Ethnic Minority Welsh Women Association a gafodd arian grant o £9,700; ac Ethnic Minority Women Welsh Healthcare a gafodd grant o £4,999 yn 2021-22. Mae Meena hefyd yn Gymrawd ac yn Aelod o Gyngor Cymdeithas Ddysgedig Cymru a gafodd arian grant o £1,700 yn 2021-22.

Er bod trafodiadau partïon cysylltiedig wedi'u nodi a'u datgelu uchod ar gyfer Gweinidogion ac Uwch-swyddogion, sef trafodiadau rhwng Llywodraeth Cymru ac endidau y mae gan yr unigolion berthynas parti cysylltiedig â hwy, ni fyddent hwy wedi ymwneud yn uniongyrchol â naill ai'r ymarferiad caffael i ddyfarnu contractau nac yn y broses o ddyfarnu unrhyw grantiau.

Datgelir trafodiadau partïon cysylltiedig Cyrff y GIG yng Nghymru ac is-gyrff eraill yn eu cyfrifon cyhoeddedig eu hunain.

## 16.1 Canlyniadau cwmnïau cyfunol o dan berchnogaeth lwyr

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 (Wedi'i ailddatgan) | |
|---|---|---|---|---|
| | Elw /(Colled) £m | Rhannu Cyfalaf a Chronfeydd Wrth Gefn £m | Elw /(Colled) £m | Rhannu Cyfalaf a Chronfeydd Wrth Gefn £m |
| Grŵp Banc Datblygu Cymru[1] | (20) | 332 | 25 | 347 |
| Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio LLP | - | 47 | 4 | 47 |
| WGC Holdco Limited | - | 18 | - | 18 |
| Dewis Gyrfa Career Choices Limited | (5) | (17) | (5) | (42) |
| Grŵp Trafnidiaeth Cymru[2] | (30) | 1,522 | 4 | 2,084 |

[1] Buddsoddiad o 49,999 o gyfranddaliadau £1 cyffredin, 25c wedi'i ran-dalu.

[2] Mae Grŵp Trafnidiaeth Cymru'n cynnwys Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig a Gwasanaethau Arloesi Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig, a gafodd eu cyfuno am y tro cyntaf yn 2021-22. Y ffigur cymharol a ailddatganwyd yw ffigur y Grŵp; roedd Cyfrif Cyfunol 2020-21 yn cynnwys yr endid-riant TfW yn unig.

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u cyfuno gan ddefnyddio ffigurau drafft lle nad yw cyfrifon terfynol ar gael, gan nad oes gwahaniaeth o sylwedd rhyngddynt a'r rhai a ddatgelwyd.

## 16.2 Mân is-gyrff a buddiannau eraill

Cynhwysir y Cyd-fentrau canlynol gan Lywodraeth Cymru yn y cyfrifon cyfunol:

- Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru (International Convention Centre Wales Limited) – Mae Llywodraeth Cymru yn berchen ar 50% o'r cyfalaf cyfranddaliadau a ddyroddwyd ar gyfer y Ganolfan. gyda'r 50% arall yn cael ei ddal gan The Celtic Manor Resort Limited.
- Airbus Group Endeavr Wales (gynt EADS Foundation Wales) – cyd-fuddiant mewn cwmni cyfyngedig drwy warant. Delir perchnogaeth ar y cyd gydag Airbus Defence and Space Ltd (gynt Cassidian Holdings Limited) a Phrifysgol Caerdydd.

Ni chynhwysir y buddiannau canlynol gan Lywodraeth Cymru yn y cyfrifon cyfunol:

Llywodraeth Cymru – Adrannau Anweinidogol – maent yn destun gorchymyn dynodi ond yn amherthnasol at ddibenion cyfuno:

- Awdurdod Cyllid Cymru

Is-gwmnïau Llywodraeth Cymru - yn ddarostyngedig i orchymyn dynodi ond yn amherthnasol i'w cyfuno:

- Comisiwn Dylunio Cymru (Design Commission for Wales Limited)
- Hybu Cig Cymru Cyf/Meat Promotion Wales Limited
- Diwydiant Cymru (Sector Development Wales Partnership Limited)
- Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru (Life Sciences Hub Wales Limited)
- Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (Centre for Digital Public Services Limited)
- Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol
- Busnes Rhyngwladol Cymru (International Business Wales Limited)
- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Cwmni Egino
- GCRE Limited

Is-gwmnïau Llywodraeth Cymru nad ydynt yn destun gorchymyn dynodi ac sy'n amherthnasol at ddibenion cyfuno:

- Welsh Development Management Limited

### Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr

Mae Llywodraeth Cymru'n dal un cyfranddaliad â gwerth enwol o £1. Delir perchnogaeth ar y cyd ag Adran Addysg Lloegr, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Gogledd Iwerddon. Mae'r cyfranddaliad yn rhoi daliad o 5% i Lywodraeth Cymru yn y cwmni.

### Elusennau'r GIG

Mae elusennau'r GIG yng Nghymru yn is-gwmnïau i'r Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG. Nid ydynt yn ddarostyngedig i orchymyn dynodi ac maent yn amherthnasol at ddibenion cyfuno.

Gellir dod o hyd i Gyfrifon Statudol yr endidau a nodir yn 16.1 a 16.2 naill ai ar eu gwefannau eu hunain neu yn Nhŷ'r Cwmnïau www.gov.uk/government/organisations/companies-house.

## 17. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Sefydlwyd Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 1 Ebrill 2022, ond dim ond ar 1 Ebrill 2023 y bydd yn weithredol pan fydd yn ysgwyddo swyddogaethau'r Cynghorau Iechyd Cymunedol presennol. Bydd yn cynrychioli lleisiau a barn pobl Cymru o ran gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd yn annibynnol ar y llywodraeth, y GIG a'r Awdurdodau Lleol ond yn gweithio gyda nhw, ac eraill, i gefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn barhaus. Bydd unrhyw newid yn y dyfodol i ffiniau cyfuno Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r endid newydd hwn yn dibynnu ar ddosbarthiad Cyfrifon Cenedlaethol ac unrhyw Orchymyn Dynodi sy'n ofynnol. Rhagwelir y bydd trafodiadau Corff Llais y Dinesydd yn is na lefel berthnasedd Llywodraeth Cymru.

Sefydlwyd Adnodd Cyfyngedig ar 12 Gorffennaf 2022 fel is-gwmni cyfyngedig dan warant sydd 100% yn eiddo i Lywodraeth Cymru. Bydd Adnodd Cyfnygedig yn goruchwylio darparu adnoddau addysgol i gefnogi addysgu a dysgu'r Cwricwlwm i Gymru. Ni fydd y cwmni'n weithredol tan 1 Ebrill 2023. Bydd unrhyw newid yn y dyfodol i ffiniau cyfuno Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r is-gwmni newydd hwn yn dibynnu ar ddosbarthiad Cyfrifon Cenedlaethol ac unrhyw Orchymyn Dynodi sy'n ofynnol. Rhagwelir y bydd trafodiadau Adnodd Cyfngedig yn is na lefel berthnasedd Llywodraeth Cymru.

## 18. Awdurdodwyd i'w Cyhoeddi

Awdurdododd y Prif Swyddog Cyfrifyddu y datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar 12 Rhagfyr 2022.

# Atodiad A – Polisïau Cyfrifyddu

## A.1 Eiddo, Offer a Chyfarpar

### Asedau Rhwydwaith

Mae asedau rhwydwaith wedi'u prisio yn ôl cost adnewyddu wedi'i dibrisio yn unol â'r canllawiau yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol ar gyfer asedau arbenigol nad oes prisiadau'r farchnad ar gael ar eu cyfer. Er mwyn cynhyrchu'r prisiadau hyn mae angen defnyddio rhagdybiaethau, amcangyfrifon a chrebwyll proffesiynol.

Ar gyfer y rhwydwaith ffyrdd, y model a ddefnyddir i lunio'r prisiad yw System Brisio Asedau Awdurdodau Ffyrdd (RAAVS).

Ar gyfer y rhwydwaith rheilffyrdd mae'r model a ddefnyddir i gynhyrchu'r prisiad yn cael ei wneud gan TfW gyda chefnogaeth gan Atkins Limited (priswyr proffesiynol) gan ddefnyddio data a ddarperir gan TfW.

Cynhelir prisiadau llawn o asedau rhwydwaith bob pum mlynedd fan bellaf. Mae prisiadau interim yn defnyddio cyfres o gostau safonol i brisio cydrannau unigol Asedau'r Rhwydwaith a mynegeion i ailbrisio'r rhain yn flynyddol. Mae dyddiad y prisiad llawn diwethaf ar gyfer Asedau Rhwydwaith wedi'i gynnwys yn Nodyn 4.1.

#### Y Rhwydwaith Ffyrdd

Mae'r rhwydwaith cefnffyrdd yn cael ei gydnabod yn ased seilwaith unigol yn unol â'r canllawiau cymwys a amlinellir yn FReM. Er hynny, mae'n cynnwys pedair elfen neilltuol y cyfrifir amdanynt yn wahanol: tir; palmant ffordd; strwythurau (megis pontydd a chwlfertau); a chyfathrebu (megis arwyddion negeseuon electronig).

Mae'r elfen palmant ffordd yn cael ei phrisio gan ddefnyddio cyfraddau y cytunwyd arnynt i nodi cost adnewyddu gros mathau cymwys o ffyrdd ar sail adeiladu newydd ar safle maes gwyrdd. Caiff y cyfraddau hyn eu hailbrisio'n flynyddol gan ddefnyddio mynegeion i adlewyrchu prisiau cyfredol.

Caiff strwythurau eu prisio gan ddefnyddio cyfraddau y cytunir arnynt i nodi cost adnewyddu mathau cymwys o strwythur ar safle maes gwyrdd lle mae'r rhain ar gael; ond caiff strwythurau arbennig, sy'n tueddu i fod yn unigryw eu natur, eu prisio gan ddefnyddio costau penodol sy'n cael eu diweddaru i'r prisiau cyfredol.

Caiff cyfathrebu ei brisio gan ddefnyddio cyfraddau y cytunir arnynt i nodi cost adnewyddu mathau cymwys o gyfathrebu.

Caiff tir ei brisio gan ddefnyddio cyfraddau Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi'u rhannu â gwerthoedd Awdurdod Lleol a gwerthoedd gwledig/trefol. Mae'r prisiad hefyd yn cynnwys asesiad o gostau iawndal prynu tir.

Caiff yr holl waith cynnal a chadw sy'n cadw potensial gwasanaeth y rhwydwaith ffyrdd ei gyfalafu. Mae gwariant olynol sy'n ychwanegu at wasanaeth neu oes y rhwydwaith ffyrdd yn cael ei gyfalafu.

Mae ffyrdd newydd yn cael eu hailgategoreiddio o Asedau sy'n cael eu Hadeiladu pan fydd y manylion strwythurol wedi'u darparu gan yr awdurdod Asiant i'w mewnbynnu i'r model, a allai fod beth amser ar ôl i'r ffordd agor.

Cyfeirir at drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros gynnal a chadw darnau o'r ffordd fel rhan o'r rhwydwaith cefnffyrdd i rwydwaith yr Awdurdod Lleol neu oddi wrtho fel 'creu statws cefnffordd' neu 'dynnu statws cefnffordd' yn eu trefn. Mae 'creu statws cefnffordd' neu 'dynnu statws cefnffordd' oddi wrth yr Awdurdodau Lleol neu ei roi iddynt yn cael ei drin fel trosglwyddiad oddi wrth adrannau eraill o'r Llywodraeth neu iddynt. Ymdrinnir â ffyrdd a strwythurau y tynnwyd eu statws fel gwarediadau o safbwynt cyfrifyddu heb unrhyw gost ynghlwm wrthynt. Mae'r elw neu'r golled gysylltiedig yn cael ei phrosesu trwy'r gronfa gyffredinol.

Y ffactorau mynegeio a gymhwysir yma yw:

Palmant Ffordd a Strwythurau – Mynegai Baxter

Cyfathrebu – Mynegai BEAMA

Tir – Cynhyrchir mynegeion tir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio

Cymerir symudiadau ar i fyny o ran gwerth i'r gronfa ailbrisiadau. Mae symudiadau ar i lawr o ran gwerth yn cael eu gosod yn erbyn unrhyw falans credyd a ddelir yn y gronfa ailbrisiadau nes i'r credyd ddod i ben a chânt eu gosod fel traul wedyn yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

**Y Rhwydwaith Rheilffyrdd**

Caiff ased rhwydwaidrth rheilffyrdd Llinellau Craidd y Cymoedd (CVL) ei chydnabod yn ased seilwaith unigol yn unol â'r canllawiau perthnasol a amlinellir yn y FReM. Er hynny, mae'n cynnwys chwe elfen neilltuol y cyfrifir amdanynt yn wahanol: gwrthgloddiau; strwythurau; trydaneiddio, offer a signalau; eiddo gweithredol; traciau; a thelegyfathrebu.

Cyfrifir y gost amnewid ddibrisiedig (DRC) drwy bennu cost amnewid gros ar gyfer rhhwydwaith CVL yn gyntaf. Yna caiff y gost amnewid gros ei haddasu (neu ei "dibrisio") i adlewyrchu amcangyfrif gorau'r rheolwyr o gyflwr a chapasiti rhwydwaith CVL; y gost amnewid gros hon wedi'i haddasu yw'r gost amnewid ddibrisiedig.

Pennir y gost amnewid gros yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Mae'r canllawiau'n gofyn am ragdybiaethau penodol gan gynnwys:

- ased cyfatebol modern sy'n cael ei drin fel rhwydwaith sy'n union yr un fath o ran swyddogaeth, graddfa a chysylltedd, ond a adeiladwyd gan ddefnyddio manylebau a dulliau modern
- adeiladu ar unwaith ar safle maes gwyrdd.

Er mwyn cyrraedd y prisiad DRC terfynol, addasir y gwerth amnewid gros i adlewyrchu amcangyfrif gorau'r rheolwyr o fywydau defnyddiol yr asedau sy'n weddill, gan ystyried cyflwr a chapasiti'r rhwydwaith.

Y ffactorau mynegeio a gymhwysir i'r model yw:

Tir – Y Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys costau tai perchen-feddianwyr (CPIH)

Adeiladau – Y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI)

Caiff yr holl waith cynnal a chadw sy'n cadw potensial gwasanaeth y rhwydwaith rheilffyrdd ei gyfalafu. Mae gwariant olynol sy'n ychwanegu at wasanaeth neu oes yr ased CVL yn cael ei gyfalafu.

Cynhwysir gwelliannau ac adnewyddu'r ased CVL fel un swm ar gost fel asedau sy'n cael eu hadeiladu, hyd nes y cânt eu defnyddio, pryd y caiff yr ased ei drosglwyddo i gategori'r Rhwydwaith Rheilffyrdd a'i brisio yn ôl DRC.

Cymerir symudiadau ar i fyny o ran gwerth i'r gronfa ailbrisiadau. Mae symudiadau ar i lawr o ran gwerth yn cael eu gosod yn erbyn unrhyw falans credyd a ddelir yn y gronfa ailbrisiadau nes i'r credyd ddod i ben a chânt eu gosod fel traul wedyn yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

## Tir ac adeiladau (gan gynnwys Anheddau)

Mae Llywodraeth Cymru a'i chyrff cysylltiedig yn cyfalafu eiddo rhydd-ddaliadol os yw'n cael ei gadw i'w ddefnyddio gan y corff ei hun. Mae eiddo ar les, lle'r oedd y les wreiddiol am lai na chan mlynedd, yn cael ei drin fel cost refeniw. Caiff tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol a thir ac adeiladau lesddaliadol, (lle'r oedd y les wreiddiol am fwy na 100 mlynedd) eu dal ar werth y farchnad agored at ddefnydd presennol; yr eithriad yw eiddo o natur arbenigol a gedwir ar gost amnewid ddibrisiedig. Mae tir ac adeiladau'n cael eu prisio gan ddefnyddio prisiadau proffesiynol naill ai bob pum mlynedd, neu'n flynyddol, gyda mynegeion priodol yn y blynyddoedd rhwng hynny ar gyfer prisiadau nad ydynt yn flynyddol. Mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio mynegai misol y Banc Data Eiddo Buddsoddi (IPD) ar gyfer mynegeion Canolbarth Lloegr a Chymru.

## Offer a Chyfarpar

Mae offer a chyfarpar (sy'n cynnwys offer a pheiriannau, offer trafnidiaeth, technoleg gwybodaeth a gosodiadau a ffitiadau) yn cael eu dal ar gost hanesyddol. Gan mai oes ddefnyddiol fer sydd i'r dosbarthiadau hyn o asedau, dim ond am bris gormodol y gellid cael ailbrisiadau dibynadwy o'r asedau hyn. Ni ddefnyddir unrhyw dechnegau amcangyfrif arwyddocaol wrth brisio'r dosbarthiadau hyn o asedau.

Y lefel isaf ar gyfer cyfalafu asedau unigol ac asedau wedi'u grwpio yw £5,000.

## Asedau Treftadaeth

Mae Llywodraeth Cymru'n dal nifer o asedau treftadaeth anweithredol lle mae'r gwerth diwylliannol, addysgol a hanesyddol yn annhebygol o gael ei adlewyrchu'n llawn mewn gwerth ariannol sy'n deillio o fecanwaith neu bris y farchnad. Mae'r asedau hyn yn arbenigol eu natur a naill ai ni ellir sicrhau prisiadau dibynadwy neu ni ellid eu sicrhau ond am gost ormodol. Nid yw Llywodraeth Cymru, felly, yn cyfalafu'r asedau hyn yn y cyfrifon.

# A.2 Dibrisiant

## Y Rhwydwaith Ffyrdd

Mae'r gost dibrisiant ar gyfer y rhwydwaith ffyrdd yn cynnwys tair elfen:

i. tâl cynnal a chadw blynyddol;

ii. amcangyfrif o'r dirywiad parhaol yng nghyflwr y rhwydwaith yn y flwyddyn (a gyfrifwyd gan y model cyfrifiadur ar sail y data diweddaraf am gyflwr y rhwydwaith y cyfeirir ato yn y nodyn asedau anghyfredol uchod);

iii. dibrisiant wedi'i gyfrifo o'r strwythurau a chyfathrebu.

Cyfrifir am ddibrisiant mewn perthynas â'r palmant ffordd trwy gyfeirio at y potensial gwasanaeth a asesir gan arolygon cyflwr a gyflawnir dros y rhwydwaith cyfan fel rhan o raglen dreigl sy'n cwmpasu pob darn o'r ffordd bob pum mlynedd. Y gost dibrisiant flynyddol ar gyfer arwynebedd y ffordd yw gwerth y potensial gwasanaeth a ddisodlwyd drwy'r rhaglen cynnal a chadw, plws neu lai unrhyw addasiad sy'n deillio o'r arolwg cyflwr blynyddol. Mae'r elfennau Strwythurau a Chyfathrebu'n cael eu dibrisio gan ddefnyddio'r dull llinell syth sy'n cael ei gymhwyso i'r costau adnewyddu wedi'u hailbrisio, a hefyd yn cael eu harchwilio bob pum mlynedd i nodi unrhyw newidiadau eraill. Nid yw tir yn cael ei ddibrisio.

Dangosir oes yn cydrannau ffyrdd yr amrediadau canlynol:

| | |
|---|---|
| Arwynebedd y rhwydwaith | hyd at 20 o flynyddoedd |
| Strwythurau'r rhwydwaith | 20 i 120 o flynyddoedd |
| Cyfathrebu'r rhwydwaith | 2 i 15 o flynyddoedd |
| Tir | Nid yw tir yn cael ei ddibrisio |

## Y Rhwydwaith Rheilffyrdd

Mae cydrannau'r rhwydwaith rheilffyrdd yn cael eu dibrisio dros eu bywydau economaidd defnyddiol sy'n weddill; mae'r rhain fel arfer yn gyfartaleddau wedi'u pwysoli ar gyfer ystod o gydrannau, o ystyried cymhlethdod y strwythurau hyn. Crynhoir y cyfartaleddau wedi'u pwysoli isod.

| | |
|---|---|
| Gwrthgloddiau | 86 o flynyddoedd |
| Signalau a Phŵer | 22 o flynyddoedd |
| Eiddo Gweithredol | 27 o flynyddoedd |
| Eiddo Gweithredol | 20 o flynyddoedd |
| Traciau | 18 o flynyddoedd |
| Telegyfathrebu | 8 o flynyddoedd |

Mae hon yn farn feirniadol sy'n seiliedig ar y data sydd ar gael, mae angen barn ofalus mewn rhai achosion, yn enwedig ar gyfer cydrannau nad ydynt yn cael eu hadnewyddu'n aml, megis strwythurau a gwrthgloddiau. Mae rhai cydrannau'n gallu cael oes hir iawn; fodd bynnag ar gyfer y prisiad hwn, mae'r oes yn cael ei chapio ar 100 mlynedd oherwydd ansicrwydd cynhenid y tu hwnt i'r cyfnod hwnnw.

Adolygir dulliau dibrisiant, oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol ar ddyddiad pob Datganiad o Sefyllfa Ariannol.

## Asedau Eraill

Darperir dibrisiant yn ôl cyfraddau a gyfrifir i ddileu gwerth asedau nad ydynt yn ddiriaethol ac eiddo arall, asedau eiddo, offer a chyfarpar trwy randaliadau cyfartal dros eu hoes ddefnyddiol a amcangyfrifir.

| | |
|---|---|
| Tir ac adeiladau lesddaliadol | Gweddill oes |
| Anheddau | Gweddill oes |
| Adeiladau rhydd-ddaliadol | hyd at 85 o flynyddoedd |
| Offer, peiriannau a chyfarpar trafnidiaeth | 5 i 15 o flynyddoedd |
| Technoleg gwybodaeth | 3 i 10 o flynyddoedd |
| Asedau meddalwedd anniriaethol | 2 i 10 o flynyddoedd |
| Gosodiadau a ffitiadau | 3 i 20 o flynyddoedd |

Nid yw tir rhydd-ddaliadol ac asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu yn cael eu dibrisio.

Mae amhariadau asedau sefydlog diriaethol yn cael eu cynnwys yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y cyfnod y maent yn codi.

# A.3 Ymchwil a Datblygu

Mae gwariant ymchwil a datblygu yn cael ei gynnwys yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn y mae'n codi, ac eithrio pan fo'n perthyn i brosiect pendant a lle gellir barnu'n rhesymol bod y buddion yn sicr. Mae'r gwariant sy'n cael ei ohirio'n cael ei gyfyngu i werth buddion a ddisgwylir yn y dyfodol ac mae'n cael ei amorteiddio trwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail systematig dros y cyfnod y disgwylir elwa ar y prosiect.

# A.4 Asedau Ariannol

## Benthyciadau a Chyllid Ad-daladwy

Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi benthyciadau a chyllid ad-daladwy i gwmnïau grŵp (e.e. Banc Datblygu Cymru), cyrff eraill y sector cyhoeddus a chwmnïau'r sector preifat at ddibenion datblygu economaidd neu amcanion gweithredu polisi. Delir yr asedau ariannol hyn at ddibenion casglu taliadau contractiol y prifswm ac unrhyw log sydd i'w godi, ac fe'u delir yn ôl cost wedi'i hamorteiddio yn unol ag IFRS 9.

Mae benthyciadau Cymorth i Brynu – Cymru a reolir gan Fanc Datblygu Cymru yn fenthyciadau ecwiti a rennir ac fe'u delir yn ôl gwerth teg trwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

## Cyfalaf Difidend Cyhoeddus

Delir Cyfalaf Difidend Cyhoeddus ar gost hanesyddol llai amhariadau yn unol â dehongliad FReM o IFRS 9.

## Buddsoddiadau

Delir buddsoddiadau yn endidau grŵp is-gwmnïau ar gost yng Nghyfrif Llywodraeth Cymru yn unol ag IAS 27. Delir buddsoddiadau mewn cyd-fentrau ar werth teg.

Cyfrifir am fenthyciadau a buddsoddiadau ecwiti a wneir gan Fanc Datblygu Cymru yn unol ag IRS 9 lle mae offerynnau dyled a ddelir i gasglu taliadau contractiol y prifswm a'r llog yn cael eu dal yn ôl cost wedi'i hamorteiddio a buddsoddiadau ecwiti yn cael eu dal yn ôl gwerth teg trwy Elw a Cholled. Nodir manylion llawn polisïau cyfrifyddu Banc Datblygu Cymru ar gyfer asedau ariannol gan gynnwys colledion credyd disgwyliedig yn eu Hadroddiad Blynyddol a'u Cyfrifon.

## Benthyciadau i Fyfyrwyr

Polisi cyfrifyddu Llywodraeth Cymru yw cydnabod ychwanegiad at y llyfr benthyciadau i fyfyrwyr pan fydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC) wedi rhoi'r benthyciad i'r myfyriwr. Cesglir ad-daliadau benthyciadau gan SLC a Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF). Yn achos ad-daliadau a wneir trwy SLC, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y taliad pan fydd SLC wedi cael yr arian parod a diweddaru cofnod y benthyciwr. Yn achos ad-daliadau a gesglir trwy'r system drethi, cydnabyddir hyn pan ddaw'r symiau sy'n ddyledus i Lywodraeth Cymru am y flwyddyn ariannol yn ôl amcangyfrif CThEF i law. Dangosir gwerthoedd benthyciadau i fyfyrwyr yn net o ddiddymiadau a amcangyfrifir yn y dyfodol ac maent yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

Yn unol â'r ffordd y mae FReM yn cymhwyso IFRS 9, mae benthyciadau i fyfyrwyr yn cael eu categoreiddio fel benthyciadau a symiau derbyniadwy ac yn cael eu cario yn ôl gwerth teg trwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Nodir esboniad manwl o'r dull gweithredu ar gyfer prisio yn Nodyn 6. Nodir datgeliadau sy'n ymwneud â risg, sy'n ofynnol o dan IFRS 7, ym Mholisi Cyfrifyddu A15.

### Asedau anghyfredol

Dynodir asedau anghyfredol fel rhai sy'n cael eu dal i'w gwerthu os caiff eu swm cario ei adfer trwy ei werthu yn hytrach na defnydd parhaus. Bernir bod yr amod hwn yn cael ei fodloni yn unig pan fydd y gwerthiant yn debygol iawn a bod yr ased ar gael i'w werthu ar unwaith yn ei gyflwr presennol. Rhaid i'r rheolwyr ymrwymo i'r gwerthiant a dylid disgwyl cwblhau hyn cyn pen un flwyddyn i ddyddiad y dosbarthiad.

Mae asedau anghyfredol sy'n cael eu dal i'w gwerthu yn cael eu mesur ar lefel isaf swm cario a gwerth teg, llai costau i werthu.

## A.5 Stocrestrau

Mae asedau datblygu, gan gynnwys tir a ddelir i'w ddatblygu yn y dyfodol ac eiddo adeiledig nad oes mo'i angen at eu defnydd eu hunain, a ddelir gyda'r bwriad o'u hailwerthu yn y pen draw, yn cael eu dangos ar lefel isaf cost hanesyddol a phrisio asedau proffesiynol, gan ddileu unrhyw amhariad adeg ailbrisio i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae gwrthdroi perthnasol yn achos amhariadau blynyddoedd blaenorol yn cael ei ddileu i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr os oes tystiolaeth bresennol o gynnydd mewn gwerth yn deillio o wariant blynyddoedd blaenorol.

Mae stocrestrau eraill yn cael eu prisio ar lefel isaf cost adnewyddu a gwerth gwireddadwy net. Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod gwahaniaeth o sylwedd rhwng y gost adnewyddu a chost hanesyddol stociau. Mae stociau sydd ag oes economaidd ddefnyddiol gyfyngedig yn cael eu dileu ar ddiwedd eu hoes.

## A.6 Incwm Gweithredu

Mae Incwm gweithredu yn cyfeirio'n uniongyrchol at weithgareddau gweithredu Llywodraeth Cymru a'r cyrff cysylltiedig. Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru IFRS 15 Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid o 1 Ebrill 2018. Mae IFRS 15 yn cyflwyno model pum cam newydd ar gyfer cydnabod refeniw o gontractau â chwsmeriaid. Cyfrifwyd am holl refeniw Llywodraeth Cymru sy'n dod o fewn cwmpas y safon hon, yn unol ag ef.

Mae refeniw o'r Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â rhaglenni, cronfeydd a mentrau Ewropeaidd yn cael ei ddwyn i gyfrif yn unol â grantiau sy'n daladwy ac fe'i dangosir yn Nodyn 2. Mae'r cronfeydd yn cael eu talu i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Mae'r cronfeydd hyn wedyn yn cael eu trosglwyddo i'r adran berthnasol yn Llywodraeth Cymru ac fe gyfrifir amdanynt yn Nodyn 3.

## A.7 Treth ar Werth (TAW)

Mae Llywodraeth Cymru'n adennill rhai elfennau o TAW ar gyfer gwasanaethau busnes a gwasanaethau sy'n cael eu contractio allan. Yn achos gwariant arall ar nwyddau a gwasanaethau cofnodir y rhain yn gynhwysol o TAW.

## A.8 Pensiynau

Caiff y mwyafrif o staff presennol a blaenorol Llywodraeth Cymru eu cynnwys yn narpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PSPCS) a ddisgrifir yn yr Adroddiad Atebolrwydd. Nid yw elfennau buddion diffiniedig y cynllun yn cael eu hariannu. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymol dros y cyfnod y mae'n elwa ar wasanaethau cyflogeion trwy dalu i PCSPS symiau a gyfrifir ar sail gronnus. Mae rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol yn gost i PCSPS. O ran y cynlluniau cyfraniadau diffiniedig, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn.

Cydnabyddir yr holl enillion a cholledion actiwaraidd sy'n deillio o addasiadau profiadau a newidiadau mewn rhagdybiaethau actiwaraidd trwy gronfeydd yn y cyfnod y maent yn codi.

Mae rhai o gyn-staff Awdurdod Datblygu Cymru, staff presennol Banc Datblygu Cymru a staff Dewis Gyrfa yn cymryd rhan mewn nifer o Gynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru sy'n gynlluniau a ariennir gan aml-gyflogwr.

Mae rhai o staff Llywodraeth Cymru'n cyfrannu at gynlluniau'r Adran Iechyd a'r Nurses Welfare Trust.

Mae cyflogeion Cyrff Iechyd yn cymryd rhan yng nghynllun pensiwn y GIG. Mae gwybodaeth am y cynllun hwn i'w gweld yng Nghyfrifon Cryno'r GIG.

## A.9 Costau ymadael yn gynnar

Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru dalu cost ychwanegol buddion y tu hwnt i fuddion PCSPS arferol mewn perthynas â gweithwyr sy'n ymddeol yn gynnar. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu yn llawn am y gost hon pan fo'r rhaglen ymddeoliad cynnar wedi'i gyhoeddi ac mae'n rhwymo. Caiff Llywodraeth Cymru, o dan rai amgylchiadau, setlo rhywfaint neu'r cyfan o'i rhwymedigaeth ymlaen llaw trwy wneud taliad i Wasanaeth Bancio'r Llywodraeth ym Manc Lloegr i gredydu Pleidlais Blwydd-daliadau Sifil. Mae trefniadau tebyg yn bodoli ar gyfer cyflogeion Cyrff y GIG sy'n ymddeol yn gynnar.

Ar gyfer cyflogeion cyn uno a chyn-weithwyr yr hen Awdurdod Datblygu Cymru yng Nghynllun Pensiwn Rhondda Cynon Taf, mae Llywodraeth Cymru'n talu cost ychwanegol buddion y cynllun mewn perthynas â gweithwyr sy'n ymddeol yn gynnar.

## A.10 Lesoedd gweithredol

Codir gwariant ar lesoedd gweithredol heb eu cyfalafu, gan gynnwys adeiladau ac eraill, yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y cyfnod y mae'n ymwneud ag ef.

## A.11 Grantiau

Cofnodir grantiau sy'n daladwy neu'n sy'n cael eu talu fel gwariant yn y cyfnod y mae'r digwyddiad neu'r gweithgaredd sylfaenol sy'n rhoi hawl i'r grant yn digwydd.

## A.12 Y Fenter Cyllid Preifat a Threfniadau Consesiynau Gwasanaeth Eraill

Mae Trysorlys Ei Fawrhydi wedi penderfynu y bydd rhaid i gyrff y llywodraeth gyfrif am gynlluniau consesiynau gwasanaeth ar gyfer seilwaith lle mae corff y Llywodraeth yn rheoli'r defnydd o'r seilwaith a'r buddiant gweddilliol yn y seilwaith ar ddiwedd y trefniant, gan ddilyn egwyddorion gofynion IFRIC 12. Mae'r ased consesiwn gwasanaeth yn cael ei gydnabod fel eitem o eiddo, offer a chyfarpar ynghyd â rhwymedigaeth i dalu amdano. Mae'r gwasanaethau a dderbynnir o dan y contract yn cael eu cofnodi fel treuliau gweithredol. Mae'r taliad unedol blynyddol yn cael ei rannu i'r cydrannau canlynol, gan ddefnyddio technegau amcangyfrif priodol lle bo angen:

a) Taliad am werth teg y gwasanaethau a dderbynnir;

b) Taliad am yr ased consesiwn gwasanaeth, gan gynnwys costau cyllid;

c) Talu am amnewid cydrannau'r ased yn ystod 'amnewid cylch bywyd' y contract.

Cofnodir gwerth teg gwasanaethau a dderbynnir yn y flwyddyn o dan y penawdau gwariant perthnasol o fewn costau rhaglenni.

Cydnabyddir asedau consesiwn gwasanaeth fel eiddo, planhigion ac offer pan:

a) mae'n debygol y bydd manteision economaidd sy'n gysylltiedig â'r ased yn y dyfodol yn llifo i'r sefydliad;

b) gellir mesur cost yr ased yn ddibynadwy.

Ystyrir y meini prawf adnabod asedau uchod, ynghyd â thelerau ac amodau penodol y cytundeb rhwymo, wrth benderfynu a ddylid cydnabod ased consesiwn gwasanaeth yn ystod y cyfnod pan fo'r ased yn cael ei hadeiladu neu ei ddatblygu.

Mae asedau consesiwn gwasanaeth sy'n cael eu hadeiladu yn cael eu cydnabod a'u prisio yn yr un modd ag asedau anghyfredol eraill o'r un math generig.

Mae asedau consesiwn gwasanaeth wedi'u cwblhau yn cael eu mesur i ddechrau ar werth teg pan fyddant yn dod i ddefnydd yn unol ag egwyddorion IAS 17. Wedyn, mae'r asedau'n cael eu mesur yn ôl gwerth teg, sy'n cael ei ddiweddaru yn unol ag egwyddorion IAS 16. Cydnabyddir rhwymedigaeth consesiwn gwasanaeth ar yr un pryd ag ased consesiwn gwasanaeth. Mae hyn yn cael ei fesur ar yr un swm â gwerth teg yr ased consesiwn gwasanaeth ac yn cael ei fesur o ganlyniad fel les cyllid yn unol ag IAS 17. Cyfrifir cost ariannu flynyddol drwy gymhwyso'r gyfradd llog sydd ymhlyg yn y les i rwymedigaeth y les weithredol am y cyfnod ac mae'n cael ei chodi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae'r elfen o'r taliad unedol blynyddol sy'n cael ei dyrannu fel rhentiad les cyllid yn cael ei chymhwyso i dalu'r gost ariannu flynyddol ac i ad-dalu rhwymedigaeth y les dros dymor y contract.

## A.13 Enillion a Cholledion y Gyfradd Gyfnewid

Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn gofyn am gyllid rhaglenni oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd ar lefel yr Ewro sy'n cyfateb i'r sterling y mae ei angen ac yn talu cronfeydd allan wedyn mewn sterling. Mae elw neu golled ar y trafodiadau hyn yn cael ei chyfrifo yn unol ag IAS 21.

Mae trafodiadau eraill mewn arian cyfredol tramor yn cael eu trosi'n sterling yn ôl y gyfradd sydd mewn grym ar y dyddiad hwnnw. Cymerir gwahaniaethau cyfnewid i ystyriaeth yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

## A.14 Darpariaethau

Yn unol ag IAS 37 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol, ac Asedau Digwyddiadol, gwneir darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau ar ddiwedd y flwyddyn lle mae rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol bresennol yn bodoli (hy rhwymedigaeth bresennol neu'n deillio o ddigwyddiadau blaenorol), mae all-lif adnoddau y bydd eu hangen i setlo'r rhwymedigaeth yn debygol ac mae modd gwneud amcangyfrif rhesymol o'r rhwymedigaeth.

Lle mae gwerth arian o ran amser yn berthnasol, mae darpariaethau'n cael eu disgowntio i'r gwerth presennol gan ddefnyddio amser darpariaethau disgownt Trysorlys Ei Fawrhydi.

## A.15 Offerynnau Ariannol

Mae IFRS 7 yn ei gwneud yn ofynnol datgelu gwybodaeth sy'n caniatáu i'r defnyddiwr werthuso arwyddocâd offerynnau ariannol ar berfformiad ariannol, a natur a graddau ei gysylltiad â risgiau allweddol sy'n deillio o offerynnau ariannol.

Gan fod y mwyafrif o adnoddau Llywodraeth Cymru yn cael eu talu gan Gronfa Gyfunol Cymru, mae i offerynnau ariannol rôl fwy cyfyngedig wrth greu risg nag a fyddai'n gymwys i gorff o faint tebyg nad yw'n gorff y sector cyhoeddus.

### Risg Credyd

Amcan Llywodraeth Cymru yw adfer dyled yn llawn, ac rydym yn mynd ar drywydd hynny yn weithgar. Y polisi yw defnyddio gweithdrefnau rheoli credyd arferol ar gyfer rheoli'r risg o ddiffygdaliad gan ddyledwyr masnach trwy swyddogaeth Cyfrifon Derbyniadwy. Oherwydd natur a gwerth dyledwyr bernir mai bach iawn yw'r risg credyd cysylltiedig. Cyflwynodd IFRS 9 fodel blaengar o'r credyd y disgwylir ei golli, a dull gweithredu tri cham o ran darparu ar gyfer dyledion. Oherwydd y risg credyd isel, mae'r colledion credyd a ddisgwylir o dan gamau 1 a 2 i Lywodraeth Cymru'n amherthnasol. Gwneir darpariaethau cam 3 ar gyfer dyledion amheus pan fydd dyledion dros 6 mis oed.

Mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth statudol i roi benthyciadau i fyfyrwyr, ac ni chaniateir iddi ddal benthyciadau yn ôl ar sail statws credyd gwael. Mae dod i gysylltiad â'r risg o beidio ag ad-dalu benthyciadau'n cael ei fonitro a chyfrifir am yr effaith trwy adolygiad lleihadau blynyddol.

## Risg i'r Farchnad

Y prif risgiau yw i'r portffolio Benthyciadau i Fyfyrwyr yn sgil symudiad ar i lawr yn yr economi a allai arwain at gynnydd yn niweithdra benthycwyr, gan effeithio ar eu gallu i ad-dalu benthyciadau i fyfyrwyr. Effeithir ar fenthyciadau i fyfyrwyr hefyd oherwydd yr effaith negyddol bosibl wedyn ar dwf enillion graddedigion, sy'n ymestyn y cyfnod amser cyn i fenthyciadau gael eu had-dalu ac yn ymestyn y cyfnod ad-dalu. Gallai hyn effeithio ar y gwerth cario yn y cyfrifon. Gallai arwain hefyd ar gynnydd mewn diddymiadau gan ei fod yn cynyddu'r tebygolrwydd na fydd rhai graddedigion o bosibl yn ad-dalu eu benthyciadau'n llawn erbyn diwedd cyfnod y benthyciad.

## Risg Arian Cyfred Tramor

Mae Llywodraeth Cymru'n agored i risg arian cyfred bach iawn ar ei thrafodiadau ym maes arian cyfred tramor, ac eithrio cyllid a ddaw i law oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Nid yw dewisiadau lliniaru'r sector preifat ar gael. Er hynny, mae cyfanswm y cyllid a ddaw i law oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd yn cael ei reoli er mwyn sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael ei ddyrannu'n hyblyg i brosiectau, gan alluogi i lefelau gwariant wedi'u targedu gael eu bodloni. Mae hawliadau cyllid oddi wrth y Comisiwn hefyd yn brydlon i gyfyngu ar oedi rhwng tynnu gwariant a'i ad-dalu.

## Risg Cyfradd Llog

Asedau ariannol cyfradd amrywiadwy Llywodraeth Cymru yn bennaf yw ei benthyciadau i fyfyrwyr sydd â chap cyfradd llog a bennir yn RPI neu gyfradd sylfaenol Banc Lloegr plws 1%. Y gyfradd llog ar fenthyciadau cyn 2012 yw'r isaf o RPI a chyfradd sylfaenol Banc Lloegr plws 1%. Mae faint o log sydd i'w ad-dalu felly'n destun yn dibynnu ar yr amrywiadau yn y gyfradd sylfaenol ac RPI. Mae'r tebygolrwydd y bydd Llywodraeth Cymru'n adennill gwerth enwol benthyciadau a roddir yn cael ei gynyddu pan fydd cyfradd sylfaenol Banc Lloegr yn isel a'r gyfradd chwyddiant yn gymharol uchel, am fod y gyfradd sylfaenol yn dod i rym ar gyfer y benthyciadau hyn. Mae effaith risg y gyfradd llog ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr a roddir o dan gynllun cyn 2012 yn cael ei gynnwys fel ffactor yn y gwerth cario gan fod y model ad-dalu benthyciad i fyfyrwyr yn cyfrifo effaith cyfradd llog ar lifoedd arian parod a ddisgwylir. Mae risg ynghlwm wrth ragamcanu faint o log sy'n daladwy ac os ceir cyfraddau sylfaenol sy'n is nag RPI, amherir ymhellach ar lifoedd arian parod y dyfodol.

## Risg Hylifedd

Nid yw Llywodraeth Cymru yn benthyca ond oddi wrth y Gronfa Benthyciadau Gwladoll, ac mae'n dibynnu'n bennaf ar gyllid a ddaw i law oddi wrth y Senedd trwy Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer ei gofynion arian parod. Nid oes rheswm dros gredu na fydd cyllid ar gael yn y dyfodol, felly ar y sail hon nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Hefyd nid oes ganddi adneuon sylweddol, ac mae'r holl asedau a rhwymedigaethau perthnasol wedi'u henwi mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg cyfradd llog na risg cyfradd arian cyfred heblaw'r risgiau sy'n deillio o dderbyn cronfeydd oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd mewn Ewros.

Lle bo gwerth arian o ran amser yn berthnasol, mae darpariaethau'n cael eu disgowntio i'r gwerth presennol gan ddefnyddio darpariaethau disgownt real Trysorlys EF.

## A.16 Safonau cyfrifyddu newydd eu cyhoeddi nad ydynt mewn grym eto

Mae nifer o safonau a dehongliadau diwygiedig a newydd wedi cael eu cyhoeddi ond nid ydynt mewn grym eto ac nid ydynt wedi cael eu mabwysiadu eto yn y cyfrifon hyn. Mae'r rhain yn cael eu hystyried ar hyn o bryd gan y Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol (FRAB) i'w cynnwys mewn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) yn y dyfodol. Dyma'r safonau a allai effeithio ar Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol os cânt eu mabwysiadu:

**IFRS 16 Lesoedd – i ddod i rym fis Ebrill 2022**

Mae IFRS 16 Lesoedd yn disodli IAS 17 Lesoedd ac yn darparu un model cyfrifo lesddeiliad sy'n ei gwneud yn ofynnol i lesddeiliad gydnabod asedau a rhwymedigaethau hawl-i-ddefnyddio ar gyfer lesoedd â thymor sy'n fwy na 12 mis, oni bai bod gwerth sylfaenol yr asedau yn isel. Bydd y safon newydd yn cael gwared ar y gwahaniaeth rhwng lesoedd gweithredu a lesoedd cyllid ar gyfer lesddeiliaid.

Oherwydd effaith COVID-19, cytunodd Trysorlys EF gyda'r FRAB i ohirio gweithredu IFRS 16 mewn llywodraeth ganolog tan 1 Ebrill 2022. Mae hyn yn golygu gohiriad dwy flynedd o ddyddiad effeithiol cychwynnol 1 Ebrill 2020. Bydd Llywodraeth Cymru felly yn cymhwyso IFRS 16 o 1 Ebrill 2022.

Mae Trysorlys EF wedi dileu'r dewis polisi cyfrifo i gymhwyso IFRS 16 yn ôl-weithredol i bob cyfnod adrodd blaenorol a gyflwynir yn unol ag IAS 8. Ar ddyddiad y cymhwyso cychwynnol, bydd Llywodraeth Cymru yn cydnabod effaith gronnus defnyddio IFRS 16 i ddechrau fel addasiad i falans agoriadol ecwiti trethdalwyr.

Mae Trysorlys EF hefyd wedi dileu'r opsiwn i ailasesu a yw contract yn les, neu'n cynnwys les, ar ddyddiad y cymhwyso cychwynnol. Bydd Llywodraeth Cymru felly yn cymhwyso IFRS 16, i ddechrau, i gontractau a nodwyd yn flaenorol fel les, neu sy'n cynnwys les, o dan IAS 17 ac ni fydd yn cymhwyso IFRS 16 i gontractau na chafodd eu nodi fel rhai o'r fath yn flaenorol.

Nid yw IFRS 16 yn gofyn am gydnabod asedau neu rwymedigaethau ar gyfer lesoedd lle mae'r ased sylfaenol o werth isel. Mae Trysorlys EF wedi rhoi awdurdod ddewis yr opsiwn hwn, ac felly bydd Llywodraeth Cymru'n cydnabod taliadau les am asedau gwerth isel fel traul. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod trothwy o £5,000 ar gyfer nodi asedau sydd â gwerth isel. Mae'r trothwy gwerth isel yn cyd-fynd â'r lefel isaf ar gyfer cyfalafu asedau unigol ac asedau wedi'u grwpio o £5,000.

Yn yr un modd, nid yw IFRS 16 yn gofyn am gydnabod asedau na rhwymedigaethau ar gyfer lesi 12 mis neu lai. Unwaith eto, mae Trysorlys EF wedi rhoi awdurdod i ddewis yr opsiwn hwn, gan ei gwneud yn ofynnol i lesoedd tymor byr gael eu cydnabod fel traul.

Wrth bontio, mae Trysorlys EF wedi caniatáu'r opsiwn o gydnabod asedau hawl-i-ddefnyddio ar swm sy'n cyfateb i'r rhwymedigaeth les gychwynnol, wedi'i addasu yn ôl swm unrhyw daliadau les a rag-dalwyd neu a gronnwyd yn syth cyn dyddiad y cymhwyso cychwynnol.

Wrth gymhwyso IFRS 16 i ddechrau, bydd Llywodraeth Cymru yn cydnabod asedau hawl-i-ddefnyddio a rhwymedigaethau les ar gyfer pob les a nodwyd, yn seiliedig ar werth presennol llif arian yn y dyfodol ar gyfer pob les dros dymor cymwys y les sy'n cael ei bennu yn unol â'r safon newydd.

Ar gyfer trefniadau perthnasol o fewn cwmpas IFRS 16, disgwylir i effaith y gweithredu fod yn gynnydd mewn asedau o tua £264m ar hyn o bryd, ac yn gynnydd mewn rhwymedigaethau o tua £238m, fel ag yr oedd ar 1 Ebrill 2022. Manylir ar gyfanswm yr effaith yn y tabl isod:

| Gweithredu IFRS 16 | Craidd LlC £m | GIG Cymru £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|
| Cynnydd mewn asedau | 84 | 180 | 264 |
| Cynnydd mewn rhwymedigaethau | 67 | 171 | 238 |

Mae gwybodaeth bellach ynglŷn ag effaith ddisgwyliedig IFRS 16 ar gyfer cyrff y GIG yng Nghymru wedi'i chynnwys yng Nghyfrifon Cryno'r GIG (Cymru) 2021-22.

Mae Grŵp Banc Datblygu Cymru, Career Choices Dewis Gyrfa a Grŵp Trafnidiaeth Cymru, fel is-gwmnïau sy'n paratoi cyfrifon statudol o dan Ddeddf Cwmnïau 2006, eisoes wedi defnyddio IFRS 16 o 1 Ebrill 2019. Yn unol â pholisi cyfrifyddu Llywodraeth Cymru o beidio â gwneud addasiadau alinio wrth gyfuno heblaw pan fo'r effaith yn berthnasol, ni wnaed unrhyw addasiad, wrth gyfuno, ar gyfer yr effeithiau amherthnasol sy'n deillio o fabwysiadu IFRS 16 yng nghyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20, 2020-21 a 2021-22. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch effaith cymhwyso IFRS 16 o 1 Ebrill 2019 ar gyfer yr endidau hynny wedi'u cynnwys yn eu cyfrifon cyhoeddedig.

Nid oes gan WGC Holdco Ltd a Chronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio lesoedd perthnasol.

### IFRS 17 Contractau Yswiriant – daw i rym ar 1 Ebrill 2025

Mae'r Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) wedi cyhoeddi IFRS 17 (Contractau Yswiriant) sy'n disodli IFRS 4 (Contractau Yswiriant). Mae'r safon newydd yn gosod disgwyliadau cliriach ar gydnabod, dosbarthu a mesur asedau a rhwymedigaethau mewn perthynas â chontractau yswiriant. Bydd IFRS 17 yn effeithiol ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2023. Nid oes canllawiau wedi'u cyhoeddi eto i adrannau'r llywodraeth ar ddehongli'r safon hon. Mae'r FRAB wedi cytuno ar flwyddyn ariannol 2025-26 fel y dyddiad mabwysiadu gorfodol arfaethedig ar gyfer IFRS 17 ar gyfer cyrff llywodraeth ganolog, gyda mabwysiadu cynnar yn cael ei ganiatáu fesul achos gan Drysorlys EF.